

At: Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu  
Corfforaethol

Dyddiad: 22 Gorffennaf 2015

Rhif Union: 01824712575

ebost: dcc\_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL, DYDD LLUN, 27 GORFFENNAF 2015** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

## **AGENDA**

### **RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

#### **2 DATGANIADAU O GYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### **3 MATERION BRYG**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryg yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

#### **4 COFNODION (Tudalennau 5 - 14)**

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 20 Mai 2015 (copi'n amgaeedig).

**5 PROSES CYLLIDEB 2015/16** (Tudalennau 15 - 20)

Ystyried adroddiad gan y Pen Swyddog Cyllid sy'n rhoi diweddariad ar y broses i gyflawni'r gyllideb refeniw ar gyfer 2016/17 (copi'n amgaeedig).

**6 ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL SAC 2014/15** (Tudalennau 21 - 70)

Derbyn adroddiad gan y Swyddog Perfformiad a Chynllunio Strategol, sy'n crynhoi'r canfyddiadau allweddol o Adroddiad Gwella Blynyddol SAC ynghylch trefniadau cynllunio ac adrodd Sir Ddinbych er mwyn bodloni dyletswyddau gwelliant parhaus statudol (copi'n amgaeedig).

**7 ADRODDIAD SAC – GWYDNWCH ARIANNOL CYNGHORAU CYMRU**  
(Tudalennau 71 - 130)

Ystyried adroddiad gan y Pen Swyddog Cyllid (CFO), ar astudiaeth genedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru o gadernid trefniadau rheoli a chynllunio i gefnogi gwydnwch ariannol ym mhob Cyngor, gan ganolbwyntio ar sut y mae Cyngorau yn cynllunio ac yn cyflawni eu hymrwymiaidau cyllideb (copi'n amgaeedig).

**8 ADRODDIAD YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL - RHEOLI YMADAWIADAU CYNNAR** (Tudalennau 131 - 192)

Ystyried adroddiad gan y Pen Swyddog Cyllid (CFO), ar astudiaeth genedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru yn archwilio a all cyrff cyhoeddus Cymru ddangos eu bod yn sicrhau gwerth am arian o ddefnyddio ymadawiadau cynnar i reoll neu leihau costau gweithlu (copi'n amgaeedig).

**9 CYFANSODDIAD MODEL NEWYDD** (Tudalennau 193 - 214)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd (copi'n amgaeedig) ar Gyfansoddiad Model newydd y Cyngor.

**10 ADRODDIAD COMISIYNWYR GWYLIADWRIAETH A RIPA** (Tudalennau 215 - 230)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd, sy'n darparu'r adroddiad arolygu diweddar yn dilyn yr ymweliad gan Swyddfa Comisiynwyr Gwyliadwriaeth (copi'n amgaeedig).

**11 SIARTER ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 231 - 242)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, a gyflwynodd siarter archwilio mewnol ddiwygiedig i'w chymeradwyo (copi'n amgaeedig).

## **12 ADBORTH O'R CYFARFOD CYDRADDOLDEB CORFFORAETHOL**

Derbyn adroddiad ar lafar gan y Cynghorydd M.L. Holland ynglŷn â'r cyfarfod Cydraddoldeb Corfforaethol.

## **13 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

(Tudalennau 243 - 244)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor (copi'n amgaeedig).

## **RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod trafod y mater(ion) canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraff "[Nodwch Rif]" Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

## **14 ADOLYGIAD YMARFER PLANT (Tudalennau 245 - 264)**

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, sy'n rhoi adroddiad o'r Adolygiad Ymarfer Plant a gynhaliwyd gan y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant (copi'n amgaeedig).

## **15 DIWEDDARIAD CONTRACT PFI (Tudalennau 265 - 276)**

Ystyried adroddiad gan y Pen Swyddog Cyllid, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y prosiect i derfynu cytundeb PFI Neuadd y Sir y Cyngor (copi'n amgaeedig).

## **AELODAETH**

### **Y Cynghorwyr**

Ann Davies  
Stuart Davies  
Peter Duffy

Jason McLellan  
Barry Mellor

### **Aelod Lleyg**

Paul Whitham

## **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1A, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 20 Mai 2015 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ann Davies, Peter Duffy, Jason McLellan (Cadeirydd) a/ac Barry Mellor (Is-Gadeirydd)

Aelod Arweiniol ar gyfer Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill

Arsylwyr: Y Cynghorwyr Bobby Feeley a Martyn Holland

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democratiaidd (GW), Pennaeth Archwilio Mewnol (IB), Pennaeth Dros Dro Cyllid ac Asedau (JG), Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (AIS), Rheolwr Rhaglen, Caffael (TB), Rheolwr Caffael Strategol (AS), Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd (LR), Prif Gyfrifydd (RW), Cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru (AV, GB, GE a SC) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW).

#### Penodi Cadeirydd

Croesawodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democratiaeth bawb i'r cyfarfod a chyflwyno'r eitem o Benodi Cadeirydd.

Enwebodd y Cynghorydd Barry Mellor y Cynghorydd Jason McLellan, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Peter Duffy.

Pawb yn codi dwylo yn unfrydol yn cytuno i hynny.

**PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorydd Jason McLellan yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

#### Penodi Is-Gadeirydd

Enwebodd y Cynghorydd Jason McLellan y Cynghorydd Barry Mellor, a eiliwyd gan y Cynghorydd Ann Davies.

Pawb yn codi dwylo yn unfrydol yn cytuno i hynny.

**PENDERFYNWYD** y dylid penodi'r Cynghorydd Barry Mellor fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu am y flwyddyn nesaf.

#### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Stuart Davies a/ac Paul Whitham

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dim

## 3 MATERION BRYD

Dim

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2015.

Ymddiheurodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democratiaeth i'r Pwyllgor, o ganlyniad i broblem technegol nid oedd y fersiwn Saesneg o Eitem 11 - Taliadau Ariannol i Ymadawyr Gofal - Diweddariad wedi llwytho'n gywir gan y system Mod.Gov. Roedd y papurau Cymraeg yn gywir. Dosbarthwyd copi o eitem 11 wedi'i argraffu yn ystod y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** - y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2015 fel cofnod cywir.

## 5 PROSES Y GYLLIDEB 2016/17

Ystyried adroddiad gan y Prif Gyfrifydd (a ddsbarthwyd yn flaenorol) i Aelodau ystyried y wybodaeth ddiweddaraf ar Broses y Gyllideb ac i wneud sylwadau fel y bo'n briodol.

Eglurodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill nad oedd unrhyw Weithdai Cyllideb wedi'u cynnal ers cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol diwethaf ar 25 Mawrth 2015. Roedd y Gweithdy Cyllideb nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 5 Mehefin, 2015. Roedd cyfarfodydd Gwasanaeth unigol wedi dechrau gyda 50% wedi'u cwblhau.

Roedd y bwlch a ragwelwyd yn y gyllideb ar gyfer 2015/16 tua £8m. Roedd arbedion o £2.7miliwn wedi eu cymeradwyo fel rhan o'r broses bresennol a oedd yn golygu bod y bwlch sy'n weddill tua £6.2miliwn.

Roedd disgwyl arbedion arfaethedig o oddeutu £1.5m ar ôl cwblhau'r cyfarfodydd Gwasanaeth Unigol. Byddai hynny'n golygu dod o hyd i arbedion ychwanegol o £4.5m.

Byddai cynigion ar gyfer arbedion yn codi o'r Gweithdy Cyllideb ar 5 Mehefin yn mynd i'r Cyngor llawn i'w cadarnhau a'u cymeradwyo ym mis Gorffennaf 2015.

Byddai rheoli risg y broses yn ystyriaeth allweddol i'r Pwyllgor ac roedd y risgiau posib i weithredu pob cynnig i arbed wedi digwydd ac yn parhau i gael eu cyflwyno mewn gweithdai wrth iddynt ddatblygu.

Cryfhaodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yr alwad i Aelodau gymryd rhan ac i fynychu'r Gweithdai Gyllideb.

Cadarnhaodd y Swyddog Adran 151 (S151O) bod Ardal y Gyllideb wedi'i sefydlu ar system Mod.Gov yn Llyfrgell yr Aelodau. Roedd y wybodaeth yn cael ei boblogi ar hyn o bryd ac y byddai'r (S151O) yn hysbysu'r holl Aelodau pan fydd hyn wedi'i gwblhau.

Yn y fan hon, mynegodd y Cynghorydd Martyn Holland a'r Cadeirydd eu gwerthfawrogiad i Paul McGrady, Pennaeth Cyllid ac Asedau, am ei holl waith a'r cefnogaeth a roddodd yn ystod ei yrfa yn Sir Ddinbych. Byddai'n gadael Sir Ddinbych ar ddydd Gwener i ymgymryd â swydd newydd.

**PENDERFYNWYD** - bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad ar y datblygiadau diweddaraf.

## **6 CAFFAEL GWASANAETHAU ADEILADU**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau Dros Dro adroddiad ar lafar ar gaffael gwasanaethau adeiladu.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau Dros Dro bod angen gwneud newidiadau sylfaenol o ran caffael gwasanaethau adeiladu. Roedd gan wasanaethau gwahanol drefniadau gwahanol felly byddai angen dyfeisio proses well ar gyfer caffael. Er mwyn galluogi'r system i fod yn llwyddiannus, byddai angen gwario amser gyda chyflenwyr, contractwyr a chwmnïau llai i gynorthwyo yn eu hyfforddiant fel eu bod yn hyderus yn defnyddio'r system. Byddai'r system e-Gaffael yn helpu ond byddai angen gwneud rhai newidiadau.

Gofynnodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau Dros Dro am amser ychwanegol iddo allu cwrdd ag archwilio i gynhyrchu cynllun gweithredu clir a chryno i ddod yn ôl i'r Pwyllgor yn y cyfarfod a oedd i'w gynnal ar 28 Medi.

Roedd dau ddarn penodol o waith o fewn y Cynllun Corfforaethol y byddai eu hangen mewn un cynllun cyfannol:

- sut mae'r cyngor yn gweithio gyda chyflenwyr, a
- Manteision Cymunedol

Byddai dadansoddiad hefyd yn cael ei gyflwyno ar yr enillion o fod yn gysylltiedig â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a defnyddio'r fframwaith cenedlaethol.

Byddai'r Pennaeth Cyllid ac Asedau Dros Dro yn gweithio ar brosiect hyd at ddiwedd y flwyddyn i adeiladu ar wybodaeth arbenigol am y swyddogion caffael. Byddai ymgynghoriad hefyd yn cael ei gynnal gyda Phenathiaid Gwasanaeth er mwyn canfod eu hanghenion ar gyfer caffael.

Byddai adroddiad yn cael ei lunio i ddiweddarau aelodau y Pwyllgor Llywodraethu corfforaethol yn y cyfarfod ar 28 Medi 2015.

**PENDERFYNWYD** nodi'r adroddiad ar lafar ac i dderbyn yr Adroddiad Caffael Gwasanaethau Adeiladu yn y cyfarfod Llywodraethu Corfforaethol i'w gynnal ar 28 Medi 2015.

## **7 TALIAD ARIANNOL I'R RHEINY SY'N GADAEI GOFAL**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd adroddiad (wedi'i ddsbarthu eisoes) a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd gyda'r cynllun gweithredu wedi'i gynnwys yn yr adroddiad Archwilio Mewnol ar Daliadau Ariannol i'r Rheiny sy'n Gadael Gofal a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014.

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad dilynol ar 5 Tachwedd 2014 a 25 Mawrth 2015. Nodwyd rhywfaint o gynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu ond roedd yna rai camau yn dal heb eu gweithredu, yn bennaf yn gysylltiedig â chyngor y gofynnwyd amdano gan y Gwasanaeth Caffael Cydweithredol.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn dangos bod yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau ar ôl derbyn cyngor gan y Gwasanaeth Caffael Cydweithredol. Mae'r defnydd o docynnau bws wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol ac am gael eu defnyddio gan adrannau eraill ar draws Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

Ar gyfer pobl ifanc a oedd yn gyfrifol am ofalu dros arian eu hunain fe sefydlwyd cyfrifon banc, ond byddai proses yn cael ei sefydlu ar gyfer y rhai nad oedd yn gyfrifol am eu harian. Edrychwyd ar wahanol opsiynau a'r dewis Undeb Credyd oedd yn ymddangos i fod y dewis mwyaf hyblyg.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ei fod wedi cymryd hirach nag a ragwelwyd yn wreiddiol, ond roedd yr holl gamau gweithredu erbyn hyn bellach wedi'u cwblhau.

**PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi'r adroddiad a chytunwyd i nodi bod y Cynllun Gweithredu wedi'i gwblhau. Ni fyddai angen adroddiad dilynol.

## **8 ADRODDIAD UWCH SWYDDOGION RISG GWYBODAETH**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio adroddiad (wedi'i ddsbarthu eisoes) yn cwmpasu'r cyfnod o Ebrill 2014 i Fawrth 2015. Nododd yr adroddiad achosion o dorri'r Ddeddf Diogelu Data gan y Cyngor sydd wedi bod yn destun ymchwiliad gan yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth (SIRO – yn CSDd dyma'r Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio).

Roedd yr adroddiad hefyd yn ymdrin â chwynion am y Cyngor yn ymwneud â deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth ac yn cyfeirio at y Comisiynydd Gwybodaeth, ac yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am geisiadau Mynediad i Wybodaeth a wneir i'r Cyngor.

Mae Polisi Diogelu Data y Cyngor yn gofyn am adroddiad blynyddol ar gynnydd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i ganiatáu'r Aelodau i oruchwyllo'r broses.



Ni fu unrhyw dor-amodau mawr o'r Ddeddf Diogelu Data gan y Cyngor yn y cyfnod hwn, a dim ond dau sydd wedi'u hystyried fel bod yn ddigon difrifol i roi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, yn hytrach na 4 y llynedd. Hefyd bu gostyngiad cyffredinol yn nifer yr achosion sydd angen i'r Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth weithredu arnynt, o 8 y llynedd i 5 y flwyddyn hon.

Nododd yr aelodau bod cyfanswm uchel a pharhaus o geisiadau am fynediad at wybodaeth wedi'u derbyn. Roedd hyn yn parhau er gwaethaf y ffaith bod mwy o wybodaeth yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Ddinbych nag o'r blaen.

Yn ystod 2014/15, cafodd 3 cwyn o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth eu gwneud i'r ICO ynglŷn â'r Cyngor. Canfuwyd dwy o blaid y Cyngor. Yn y drydedd, canfuwyd bod y ddeddfwriaeth wedi'i thorri drwy gymryd gormod o amser i ymateb i Gais Testun Gwybodaeth. Cydnabu'r ICO bod y darn hwn o waith wedi bod yn arbennig o gymhleth a bod ffactorau wedi cyfrannu at yr oedi ar yr ymateb. Nid oedd angen unrhyw gamau gweithredu pellach ar ran y Cyngor gan y Comisiynydd. Ers yr achos hwnnw, mae gweithdrefnau wedi'u gwella er mwyn sicrhau bod achosion cymhleth yn cael eu cydnabod yn gynnar yn y broses fel bod modd ymateb mewn modd amserol.

***PENDERFYNWYD*** bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi'r adroddiad.

**Ar y pwynt hwn (11.20 am) cafwyd egwyl o 15 munud.**

**Ailddechreuodd y cyfarfod am 11.35am.**

## **9 ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol adroddiad (wedi'i ddsbarthu eisoes) yn darparu'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol gydag Adroddiad Mewnol Blynyddol ar gyfer 2014-15. Mae'r adroddiad yn nodi barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, risg a rheolaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn sy'n llywio'r 'datganiad llywodraethu blynyddol'.

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn ei gwneud yn ofynnol i'r 'prif weithredwr archwilio' i ddarparu barn archwilio mewnol blynyddol ac adroddiad lle mae'r Cyngor yn gallu ei ddefnyddio i lywio ei ddatganiad llywodraethu.

Mae Adroddiad Archwilio Mewnol 2014/15 yn nodi:

- Bod y Pennaeth Archwilio Mewnol wedi rhoi 'sicrwydd canolig' ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol amgylchedd rheolaeth fewnol y Cyngor, gan gynnwys ei drefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli risg
- Nid oedd unrhyw gymwysterau ynghlwm â "safbwynt" y Pennaeth Archwilio Mewnol
- Lefel y gwaith a wnaeth yr Archwilwyr Mewnol i gyrraedd y 'farn' gyffredinol

- Sut y mae Archwilio Mewnol yn cydymffurfio â'r PSIAS, a
- Chrynodeb o berfformiad Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn.

Cafwyd trafodaeth, a:

**PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.

## 10 STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL 2015/16

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol adroddiad (wedi'i ddsbarthu eisoes) yn darparu'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol â Strategaeth Archwilio Mewnol 2015-16. Mae'r Strategaeth yn darparu manylion y prosiectau Archwilio Mewnol arfaethedig ar gyfer y flwyddyn a fydd yn caniatáu i'r Pennaeth Archwilio Mewnol ddarparu 'safbwynt' ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith lywodraethu, risg a rheolaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn ei gwneud yn ofynnol i'r 'Prif Swyddog Archwilio' i ddatblygu cynllun archwilio mewnol yn seiliedig ar risg sy'n cymryd i ystyriaeth y gofyniad i ddarparu barn ac adroddiad archwilio mewnol blynyddol y gall y sefydliad ei ddefnyddio i lywio ei ddatganiad llywodraethu. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol hwn angen iddo ystyried Strategaeth Cynllunio Archwilio Mewnol.

Cafwyd yr ymatebion canlynol i gwestiynau gan Aelodau:

- Ni chynhaliwyd archwiliadau o ysgolion gan yr Archwiliad Mewnol. Cynhaliwyd ymweliadau â themâu iddynt ynghyd â gwaith mewn cronfeydd ysgolion yn y maes addysg.
- Mae angen diweddaru'r Cyfansoddiad ac y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod sydd ar y gweill ym mis Gorffennaf.
- Byddai Grŵp yn gweithio ar y 10 prif faes o waith a gytunwyd arnynt. Cytunwyd cyflwyno gwybodaeth am y meysydd hynny i'r Gweithdy Cyllideb.

**PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.

## 11 CYNLLUN GWELLA LLYWODRAETHU A'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL DRAFFT 2014/15

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol adroddiad (wedi'i ddsbarthu eisoes) i roi diweddariad ynglŷn â Chynllun Gwella Trefn Lywodraethu'r Cyngor a oedd yn codi o "ddatganiad llywodraethu blynyddol' y Cyngor yn 2013/14 – "Darparu llywodraethu da a gwelliant parhaus". Roedd hefyd yn cyflwyno ymgynghoriad cyntaf gyda'r Pwyllgor ar yr adroddiad hunanasesu ar drefniadau llywodraethu a gwella'r Cyngor ar gyfer 2014/15.

Mae'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am y cynnydd sydd wedi digwydd o ran gweithredu'r gwahanol gamau gweithredu sydd

wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gwella Llywodraethu y llynedd, er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor drefn lywodraethu gadarn ac effeithiol ar waith.

Roedd hefyd yn gyfle i'r Pwyllgor roi sylwadau ar y drafft cyntaf o 'ddatganiad llywodraethu blynyddol' eleni.

Roedd y meysydd gwella wedi eu cynnwys mewn Cynllun Gwella Llywodraethu, sydd hefyd yn cynnig camau gweithredu i fynd i'r afael â gwendidau, y swyddogion sy'n gyfrifol am y camau gweithredu, ac amserlenni.

Yn 2013/14, cafodd y 'datganiad llywodraethu blynyddol' traddodiadol ei ddisodli gyda dogfen o'r enw "Darparu llywodraethu da a gwelliant parhaus". Dylai'r Pwyllgor nodi fod hwn yn ddrafft cynnar iawn a bod gwaith dal i'w wneud arno, a bod angen ei drafod ymhellach, yn enwedig gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Bydd y fersiwn derfynol y cytunwyd arni yn cael ei llofnodi gan y Prif Swyddog Gweithredol a'r Arweinydd erbyn 30 Mehefin 2015, ac yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor hwn gyda'r Datganiad o Gyfrifon.

**PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor:

- Wedi adolygu a nodi'r cynnydd ar Gynllun Gwella Llywodraethu y llynedd, ac
- Adolygu a nodi'r drafft "datganiad llywodraethu blynyddol" ar gyfer 2014/15

## **12 MONITRO DARPARWYR GWASANAETH A ARIENNIR GAN Y CYNGOR**

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol adroddiad (wedi'i ddsbarthu eisoes) yn rhoi manylion i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am gwmpas a chynllun y prosiect ar gyfer adolygu'r broses o fonitro Darparwyr Gwasanaeth a ariennir gan y Cyngor (CFSPs), a fydd yn arwain at fframwaith newydd ar gyfer rhoi trefniadau o'r fath ar waith.

Mynegwyd pryderon ynglŷn â monitro CFSPs, ac felly roedd yn rhaid i'r Cyngor sicrhau fod trefniadau cadarn ar waith i fonitro llywodraethu, perfformiad ariannol, perfformiad gweithredol a'r defnydd o arian y Cyngor.

Yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2015, cafwyd trafodaeth ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau aelodau etholedig wrth gynrychioli'r Cyngor ar gyrrff allanol. Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am sut y byddai hyn yn cael ei ddarparu fel rhan o'r adolygiad cyffredinol o CFSPs.

Bydd y prosiect yn arwain at fframwaith newydd ar gyfer dechrau trefniadau gyda sefydliadau y mae'r Cyngor yn darparu cyllid iddynt i ddarparu gwasanaethau ar ei ran. Bydd hyn yn cynnwys cyrff hyd braich, partneriaethau, sefydliadau a ariennir gan grantiau, a chyflenwyr mawr trydydd parti o wasanaethau allweddol.

Bydd y fframwaith newydd yn sicrhau bod Cyngor Sir Ddinbych yn mynd i'r afael â'r risgiau allweddol canlynol:

- Mae cael cyfarwyddyd a threfniadau cyson ar gyfer sefydlu a chofnodi CFSPs yn golygu y bydd yn gwbl ymwybodol o'r holl CFSPs y bydd yn ymdrin â nhw.
- Mae cael trefniadau monitro rheolaidd a chadarn yn golygu na fydd y Cyngor yn ariannu CFSPs sydd ddim yn llwyddo darparu'r canlyniadau a fwriadwyd ac y byddai'n ymwybodol o'r CFSPs sy'n perfformio'n wael, yn weithredol a/ neu'n ariannol.
- Mae cael trefniadau llywodraethu cadarn dros CFSPs yn lleihau'r tebygolrwydd o fethiant yn ei stiwardiaeth o gyllid cyhoeddus.
- Mae cael mecanweithiau rhybuddio cynnar trwy wybodaeth monitro rheolaidd yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd yn dioddef colled ariannol o ganlyniad i CFSP yn peidio â bodoli ac ni ddylai orfod camu i mewn gyda threfniadau at raid i ddarparu gwasanaethau.
- Mae cael achosion busnes cadarn ar gyfer cymeradwyo trefniadau CFSP yn golygu y gall sicrhau bod CFSPs yn rhannu gwerthoedd Cyngor Sir Ddinbych ac ni ddylai ddwyn anfri ar y Cyngor drwy ei ymddygiad.
- Mae cael cytundebau cyfreithiol cadarn a chytundebau lefel gwasanaeth yn sicrhau bod y ddau sefydliad yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn cryfhau sefyllfa Cyngor Sir Ddinbych mewn achos o anghydfod.
- Mae darparu arweiniad a chefnogaeth gadarn i'w aelodau etholedig sy'n eistedd ar gyrff allanol yn diogelu eu buddiannau, yn gwella'r tebygolrwydd o archwilio cadarn ac yn egluro'r sefyllfa gyfreithiol a'r gwrthdaro o ran buddiannau sy'n ymwneud â swyddi cyfarwyddwyr ac ymddiriedolwyr.

At ei gilydd, mae'r fframwaith yn golygu na ddylai Cyngor Sir Ddinbych ddioddef niwed sylweddol i'w enw da oherwydd methiant CFSP.

Yn dilyn cais gan gynrychiolydd y Swyddfa Archwilio Cymru, cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio Mewnol y byddai'n gofyn i CET enwebu Swyddog i gymryd perchnogaeth o'r prosiect.

Cafwyd trafodaeth, a:

**PENDERFYNWYD** bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:

- (i) *Yn ystyried a thrafod cwmpas arfaethedig a chynllun y prosiect*
- (ii) *Cytunwyd i ddod â'r adroddiad yn ôl i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf ar 27 Gorffennaf, 2015*
- (iii) *Cytunwyd gofyn i CET enwebu Swyddog i gymryd perchnogaeth o'r prosiect*

### **13 ADBORTH O'R CYFARFOD CYDRADDOLDEB CORFFORAETHOL**

Dim

### **14 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democratiaeth Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (wedi'i ddsbarthu eisoes).

Cadarnhaodd y Pwyllgor Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu yn amodol ar gynnwys yr eitemau busnes canlynol:

27 Gorffennaf, 2015:

- Diweddaru Monitro Darparwyr Gwasanaeth a Ariennir gan y Cyngor
- Adroddiad Comisiynwyr Gwyliadwriaeth Arolygu ac Adroddiad RIPA (Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio)

28 Medi, 2015:

- Caffael Gwasanaethau Adeiladu

***PENDERFYNWYD*** yn amodol ar yr uchod bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.45pm.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>27 Gorffennaf 2015</b>
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b>	<b>Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Richard Weigh, Prif Swyddog Ariannol</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Proses y Gyllideb 2016/17</b>

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn rhoi diweddariad ar y broses i ddarparu'r gyllideb refereniw ar gyfer 2016/17.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

I roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyfredol.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Ystyried y diweddariad diweddaraf a gwneud sylwadau fel y bo'n briodol.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Ar 23 Chwefror a 26 Mawrth cynhaliwyd y ddau weithdy cyllideb cyntaf i aelodau i ystyried cynigion arbedion ar gyfer 2016/17. Roedd y ddwy sesiwn yn canolbwyntio ar y cynigion a ohiriwyd o weithdai cyllideb blaenorol a chafodd y cynigion a argymhellwyd yn y gweithdai eu cymeradwyo gan y Cyngor ar 7 Gorffennaf. Mae'r cynigion hyn yn dod i gyfanswm o £650 mil ac yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd a moderneiddio. Cyflwynwyd cyfres arall o fesurau, gwerth £640 mil, i'r Cyngor ar yr un pryd yn amlinellu'r arbedion yn sgil penderfyniadau rheoli o fewn gwasanaethau (ailstrwythuro, nid disodli swyddi gwag, ac ati). Cymeradwywyd cynnig arall a gyflwynwyd gan yr aelodau, a gall y cynnig hwnnw arbed hyd at £900 y flwyddyn.

Roedd asesiadau effaith pob cynnig ar gael ar Modern.gov cyn cyhoeddi'r papurau cyngor. Yng nghyfarfod y Cyngor, tynnodd rai aelodau sylw at yr anhawster o weld yr wybodaeth ynglŷn â'r asesiadau effaith. Penderfynwyd adolygu'r broses ar gyfer hyn.

Cyn eu cyflwyno i'r Cyngor llawn, cafodd y cynigion eu hystyried yng nghyfarfod y Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol ac ni chodwyd unrhyw bryder ganddynt.

Cynhaliwyd gweithdy cyllideb ar 5 Mehefin a oedd yn canolbwyntio ar gynllunio ariannol a rhagolygon economaidd. Nodwyd rhai ystyriaethau cenedlaethol a fydd yn effeithio ar gynllunio cyllideb y Cyngor. Eglurwyd fod y bwloch a ragwelir yn y gyllideb ar gyfer 2016/17 yn oddeutu £8.8 miliwn a, hyd

yma (o ystyried y pecyn a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 7 Gorffennaf), mae gwerth £4 miliwn o gynigion wedi eu cymeradwyo. Rhoddwyd esboniad o'r tybiaethau cymhwyso ac amlygwyd mai'r mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw lefel y Setliad i awdurdodau lleol ar ffurf y Grant Cynnal Refeniw. Mae pob newid yn y ganran i werth y Setliad yn cyfateb i tua £1.4 miliwn. Mae lefel sylweddol o ansicrwydd yn dal yn bodoli o ran y Setliad Llywodraeth Leol tebygol ac mae hyn yn debygol o barhau dros y misoedd nesaf. Tan fis Mai 2013, roedd gwerth y Setliadau yn gymharol gyson â'r arwyddion blaengynllunio a gyhoeddwyd yn genedlaethol yn 2011. Fodd bynnag, ers hynny nid oes unrhyw setliad aml-flwyddyn ac mae arwyddion wedi newid yn gyson rhwng ac o fewn blynyddoedd ariannol. Yn absenoldeb gwybodaeth Setliad fwy dibynadwy, mae'n rhaid i gynlluniau'r gyllideb barhau i ddatblygu cynigion i gwmpasu amrywiaeth o wahanol sefyllfaoedd.

Nid yw effaith cyhoeddiadau Cyllideb yr Haf ar weinyddiaethau datganoledig yn glir eto. Mae adolygiad o wariant yn cael ei gynllunio ar gyfer yr hydref a fydd yn llywio lefel y Grant Bloc i Gymru. Deallir y bydd adolygiad ar lefel Llywodraeth Cymru ac, yn dilyn hyn, bydd manylion Setliad y Llywodraeth Leol yn dod i'r amlwg. Mae rhai arwyddion yn awgrymu y bydd y Grant Bloc i Gymru yn wastad yn nhermau arian parod ar gyfer y ddwy flynedd nesaf ond bydd penderfyniadau polisi yn llywio'r dyraniad rhwng y ddwy gyllideb fwyaf arwyddocaol yng Nghymru, sef cyllideb llywodraeth leol a chyllideb iechyd.

Fel rheol fe gyhoeddir y Setliad Drafft ar gyfer llywodraeth ddechrau fis Hydref ond, o ystyried y ddau adolygiad uchod, efallai y bydd y Setliad Drafft yn cael ei gyhoeddi yn hwyrach.

Mae cyfres o gyfarfodydd wedi eu cynnal gyda gwasanaethau i adolygu cyllidebau ac i ystyried cynigion cyllideb newydd. Yn ystod gweithdy mis Mehefin ystyriwyd amlinelliad o rai o'r cynigion sy'n dod i'r amlwg, a bydd y rhain yn cael eu datblygu ymhellach yn ystod yr haf. Mae ffurflen hefyd wedi ei rhoi i aelodau etholedig er mwyn helpu i nodi unrhyw gynnig yr hoffai aelodau eu cyflwyno i'w hystyried. Bydd yr Adran Gyllid a'r gwasanaethau yn adolygu ac yn asesu pob cynnig a bydd adborth penodol yn cael ei ddarparu i'r cynigydd neu'r grŵp gwleidyddol. Hyd yn hyn, mae chwe chynnig wedi dod i law drwy'r ffurflenni hyn ac mae pob un yn cael ei asesu.

Bydd cynigion cyllideb a nodwyd hyd yma yn cael eu mireinio dros yr haf ac yna eu cyflwyno i'r gweithdy cyllideb ar 26 Hydref gyda'r bwriad o gyflwyno rhai ohonynt i'r Cyngor ym mis Rhagfyr. Mae'n debygol y bydd angen trefnu gweithdai pellach wrth i'r broses ddatblygu yn yr hydref. Bydd y gweithdy ym mis Rhagfyr yn canolbwyntio ar y cynigion terfynol i gydbwyso'r gyllideb. Yn dilyn adborth gan aelodau, bydd cofnodion ffurfiol yn cael eu cymryd ym mhob gweithdy cyllideb yn y dyfodol.

Mae pob cynnig yn cael ei asesu gan yr Adran Gyllid i benderfynu ar effaith debygol y gyllideb yn 2016/17. Fe wneir hyn i sicrhau bod unrhyw gost ymlaen llaw neu gost amnewid yn cael ei chynnwys yn y cyfrifiad ac i ddarparu asesiad risg ariannol o ran a yw'r amserlenni'n rhesymol i gyflawni'r cynigion yn llawn neu'n rhannol yn 2016/17.



Mae Atodiad 1 yn cynnwys siart diweddaraf proses y gyllideb.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheolaeth effeithiol o gyllideb y cyngor a chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn sylfaen i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Efallai y bydd ar y Cyngor angen cyflawni gwerth £8.8 miliwn o arbedion a mesurau eraill yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEaG) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Bydd AEaG yn cael ei gynnal ar gyfer yr holl gynigion perthnasol wrth i'r broses ddatblygu.

**8. Pa ymgynghori a wnaed â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae adroddiadau blaenorol wedi tynnu sylw manwl at y broses ymgynghori sylweddol a wnaed i gyflawni cyllidebau 2015/16 a 2016/17 ac mae'r rhain wedi eu hamlygu isod.

Yn ychwanegol at adroddiadau rheolaidd ar y broses i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, mae proses y gyllideb wedi ei hystyried gan CET, yr UDA, Briffio'r Cabinet a chyfarfodydd Briffio'r Cyngor. Mae pwyllgorau archwilio wedi adolygu cynigion penodol ac roedd un yn seiliedig ar argymhellion gan grŵp tasg a gorffen aelodau/swyddogion.

Erbyn diwedd y broses pennu cyllideb 2015/16, roedd deg gweithdy cyllideb wedi eu cynnal gydag aelodau etholedig er mwyn archwilio cyllidebau gwasanaethau ac ystyried cynigion cyllidebau. Mae pum gweithdy pellach wedi eu trefnu i ystyried cynigion a diwallu bwlch cyllideb 2016/17 ac efallai y bydd angen trefnu mwy wrth i'r broses fynd rhagddi.

Fel y nodir mewn adroddiadau blaenorol, cynhaliwyd ymarferiad ymgysylltu â'r cyhoedd i ystyried effaith cynigion y gyllideb ac mae trafodaethau parhaus rhwng rhai o wasanaethau'r Cyngor Sir a rhai Cyngorau Tref. Mae'r cyngor wedi ymgynghori â'i bartneriaid trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd ac mae trafodaethau penodol wedi eu cynnal gyda'r Heddlu.

Mae'r holl aelodau o staff wedi derbyn gwybodaeth ynglŷn â'r broses o osod y gyllideb a phan fydd cynigion yn newid i fod yn benderfyniadau, ymgynghorir yn llawn â'r staff yr effeithir arnynt, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau AD y Cyngor.

Ymgynghorwyd â'r Undebau Llafur trwy'r Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol. Cytunwyd ar broses ar gyfer ymgysylltu â staff a'u cynrychiolwyr Undeb Llafur yn y Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol Lleol ym mis Medi ac mae'n cael ei gweithredu.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Bydd hon yn parhau'n broses heriol iawn gyda rhai penderfyniadau anodd i'w gwneud ar hyd y ffordd. Mae ymrwymiad a chefnogaeth aelodau etholedig yn y broses o wneud penderfyniadau ac archwilio'r broses yn hanfodol.

Nod y broses gyllidebol yw sicrhau bod y cyngor yn cyflwyno cyllideb gytbwys. Wedi eu hymgorffori i mewn i'r broses mae nifer o bwyntiau adolygu er mwyn sicrhau ei bod yn aros ar y trywydd iawn a bod modd ei diwygio os nad ydyw. Mae'r ansicrwydd ynghylch lefel y Setliad yn golygu y gall y bwch yn y gyllideb a amcangyfrifwyd newid ar gyfer 16/17 ond mae'n rhaid i hyn gael ei ystyried yng nghyd-destun y tebygolrwydd y bydd Setliadau negyddol yn parhau yn y tymor canolog.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi ei wynebu a byddai methu a chyflawni strategaeth gyllideb effeithiol yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau yn y dyfodol.


Mae proses y gyllideb yn fesur rheoli risg, gyda'r nod o nodi, asesu a chytuno ar gynigion cyllideb mewn modd cynlluniedig ac amserol. Mae'r broses fel yr amlinellwyd yn cynnwys digon o gyfleoedd i adolygu a diwygio os oes angen. Bydd lefel y cynigion a nodwyd ym mis Mehefin drwy ymgynghori â gwasanaethau a'r cynigion a gyflwynwyd gan aelodau yn llywio gweddill y broses.

Mae rheoli risg proses y gyllideb yn ystyriaeth allweddol i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac mae risgiau penodol wedi eu nodi mewn adroddiadau blaenorol. Wrth nodi pob cynnig mae'r risgiau ariannol a'r risgiau gwasanaeth yn cael eu nodi a'u hamlygu mewn gweithdai cyllideb wrth iddynt gael eu datblygu.

## **11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.

**PROPOSED BUDGET PROCESS 2016/17**



Mae tudalen hwn yn fwiadol wag

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol
Dyddiad y Cyfarfod:	27 Gorffennaf 2015
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Julian Thompson-Hill / Liz Grieve
Awdur yr Adroddiad:	Nicola Kneale
Teitl:	Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar Gyngor Sir Ddinbych

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?  
I grynhoi'r canfyddiadau allweddol o Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch trefniadau cynllunio ac adrodd Sir Ddinbych er mwyn bodloni dyletswyddau statudol gwella parhaus.
2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?  
Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am Gasgliad Swyddfa Archwilio Cymru, a'r Cynigion ar gyfer Gwella.
3. Beth yw'r Argymhellion?  
Bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi'r Casgliadau, y Cynigion ar gyfer Gwella, a'r Canfyddiadau Allweddol o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, a sefydlu cynlluniau ar gyfer dilyn i fyny ar y Cynigion ar gyfer Gwella (fel y disgwylir gan Swyddfa Archwilio Cymru). Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu hadrodd yn ôl i Swyddfa Archwilio Cymru fel rhan o ymateb Cyngor cyfan i'r Adroddiad Gwella Blynyddol.  
Mae'r ymateb Cyngor cyfan hwn yn cael ei gydlynu gan y Tîm Perfformiad a Chynllunio Strategol, sydd wedi gofyn i wasanaethau ymateb i feysydd perthnasol erbyn diwedd mis Gorffennaf, er mwyn ei gyflwyno i'r Cyngor ar 8 Medi.
4. Manylion yr Adroddiad
  - 4.1 Y casgliad cyffredinol yw:  
Roedd y Cyngor yn parhau i wneud cynnydd wrth gyflawni gwelliannau ym mhob un o'i amcanion blaenoriaethol ac mae ei hanes o gyflawni ei amcanion ariannol yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliant parhaus yn 2015-16.
  - 4.2 Nid oes unrhyw argymhellion ffurfiol wedi'u gwneud, dim ond dau Gynnig ar gyfer Gwella. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn disgwyl i'r Cyngor wneud rhywbeth amdanynt a bydd yn dilyn trywydd beth sy'n digwydd. Y Cynigion ar gyfer Gwella yw:
    - a. Sicrhau bod swyddogaethau a chyfrifoldebau yn glir ar gyfer cyflawni'r amcan tai fforddiadwy newydd.
    - b. Adolygu ei arferion gwaith yn erbyn yr argymhellion yn Adroddiadau Cenedlaethol Llywodraeth Lleol 2014-15 yr Archwilydd Cyffredinol, fel y

nodir yn Atodiad 5 (o'r adroddiad amgaeedig), a gweithredu gwelliannau yn ôl yr angen. Sylwer, mae'r meysydd a adroddwyd yn cynnwys Archwilio, pobl ifanc sydd wedi eu dosbarthu fel NEET, a 'Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion'.

- 4.3 Mae rhestr o'r casgliadau allweddol gan y gwahanol gyrff archwilio (e.e. Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC) ar dudalen 8 yr adroddiad amgaeedig, ac mae'n cwmpasu meysydd Perfformiad, Defnyddio Adnoddau, Llywodraethu, Cynllunio ar gyfer Gwella ac Archwiliadau Adrodd ac Archwilio Cyfrifon. Mae rhai negeseuon allweddol yn cynnwys:
- Mae safonau perfformiad, rheoli risg, gwerthusiadau perfformiad a threfniadau ariannol yn dda a chadarn.
  - Mae cynnydd wedi'i wneud o ran y gwasanaeth adnoddau dynol, yr iaith Gymraeg, ac ymrwymiad TTD. Bydd gwelliannau mewn monitro TTD (ar y gweill ers Ebrill 2015) yn helpu i egluro eu heffaith.
  - Y gobaith yw y bydd trefniadau newydd ar waith yn cefnogi uchelgais y Cyngor o ran yr economi.
  - Mae heriau yn bodoli ar ffurf uno arfaethedig y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd a'r Gwasanaeth Addysg, a thanberfformio yn y ddarpariaeth tai fforddiadwy.
5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol? Mae llawer o'r argymhellion hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at Flaenoriaethau Corfforaethol (e.e. Tai Fforddiadwy), ac mae cynllunio effeithiol a threfniadau gwerthuso yn elfennau hanfodol sy'n sail i berfformiad da.
6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill? Nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig ag argymhellion yr adroddiad hwn.
7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad. Nid yw'r adroddiad hwn yn cyfeirio at ddatblygu polisi neu brosiect, felly nid oes unrhyw faterion cydraddoldeb. Fodd bynnag, dylai unrhyw gynlluniau a ddatblygir mewn ymateb i'r adroddiad hwn fod yn destun Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb.
8. Pa ymgynghori a wnaed â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill? Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, felly nid oes unrhyw ymgynghori wedi bod yn angenrheidiol. Fodd bynnag, bydd ymateb Cyngor ffurfiol yn cael ei ddarparu, a bydd yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar 8 Medi.
9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid  
Dim angen.
10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau? Nid oes risgiau gyda gweithredu argymhellion yr adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae rheoli perfformiad a monitro yn elfen allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella, sydd wedi ei thanategu gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag





WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2014-15

## Cyngor Sir Ddinbych

Cyhoeddwyd: Gorffennaf 2015  
Cyfeirnod y ddogfen: 358A2015



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd  
Cyffredinol Cymru gan Huw Lloyd Jones a Gwilym Bury  
dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**  
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**  
**Swyddfa Archwilio Cymru**  
**24 Heol y Gadeirlan**  
**Caerdydd**  
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian yng nghyswllt llywodraeth leol ac yn asesu'r graddau y cydymffurfir â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Cynulliad a chyrrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu adroddiadau cymesur, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd, ynghylch y modd y caiff adnoddau cyhoeddus eu gwarchod, ac wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliannau.

# Cynnwys

<b>Adroddiad cryno</b>	<b>4</b>
Diben yr adroddiad hwn	4
Parhaodd y Cyngor i wneud cynnydd wrth gyflawni gwelliannau ym mhob un o'i amcanion blaenoriaeth ac mae ei hanes o gyflawni ei amcanion ariannol yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliant parhaus yn 2015-16	5
Gwaith archwilio ac arolygu perfformiad 2014-15	5
Penawdau - crynodeb o'r prif ganfyddiadau	7
Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella	9
<b>Adroddiad manwl</b>	<b>10</b>
Perfformiad	11
Y Defnydd o Adnoddau	20
Llywodraethu	23
<b>Atodiadau</b>	
Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn	25
Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-15 Cyngor Sir Ddinbych	26
Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad Cyngor Sir Ddinbych o Berfformiad 2013-14	28
Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol	30
Atodiad 5 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2014-15	32
Atodiad 6 – Gwybodaeth am adnoddau Cyngor Sir Ddinbych	37

# Adroddiad cryno

## Diben yr adroddiad hwn

- 1 Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru, ac asesu a fydd pob awdurdod yn cyflawni dyletswyddau statudol yn ymwneud â gwelliant parhaus<sup>1</sup>. Cyflawnwyd y gwaith hwn ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru. Mae **Atodiad 1** yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o fewn llywodraeth leol.
- 2 Yn ogystal, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal asesiad corfforaethol trylwyr ym mhob awdurdod ar sail gylchol (unwaith bob pedair blynedd o leiaf ar hyn o bryd). Yn y cyfamser, yn ogystal ag archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant, bydd Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn olrhain datblygiadau ac yn cyflawni gwaith asesu pellach sy'n canolbwyntio ar nifer o themâu allweddol, a ddatblygir mewn trafodaeth â phob awdurdod.
- 3 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yng Nghyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf o'r fath ym mis Ebrill 2014. Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hefyd yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau allweddol o adroddiadau a llythyrau a gyhoeddwyd gan 'reoleiddwyr perthnasol', sef; Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC); Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn); a Chomisiynydd y Gymraeg. Serch hynny, nid yw'r adroddiad hwn yn adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau a geir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd o fewn y Cyngor gan y rheoleiddwyr perthnasol ac, oni nodir fel arall, yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg pan gafodd gwaith o'r fath ei gwblhau.
- 4 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2014-15, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi darparu 'Casgliad Cyffredinol' yn yr adroddiad gwn (gweler **tudalen 6**) o ran p'un a yw o'r farn bod y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2015-16.
- 5 Ni ddylid ystyried bod y casgliad hwn yn rhoi datganiad pendant am sefyllfa sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.
- 6 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru) neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

<sup>1</sup> Nodir dyletswyddau a gofynion ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

## Parhaodd y Cyngor i wneud cynnydd wrth gyflawni gwelliannau ym mhob un o'i amcanion blaenoriaeth ac mae ei hanes o gyflawni ei amcanion ariannol yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i sicrhau gwelliant parhaus yn 2015-16

- 7 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi seilio'r casgliad hwn ar waith archwilio perfformiad a wnaed yn ystod y flwyddyn gan Swyddfa Archwilio Cymru a gwaith arolygu rheoleiddwyr eraill. Ceir crynodeb o'r prosiectau a gynhaliwyd, ynghyd â'r canfyddiadau, yr argymhellion a/neu'r cynigion ar gyfer gwella a ddeilliodd ohonynt, isod.

## Gwaith archwilio ac arolygu perfformiad 2014-15

- 8 Wrth bennu'r amrywiaeth o waith i'w gyflawni, gwnaethom ystyried graddau'r wybodaeth archwilio ac arolygu a gasglwyd yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys systemau adolygu a gwerthuso'r Cyngor ei hun. Ar gyfer 2014-15, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru waith asesu gwelliant o dan dair thema: Perfformiad, Y Defnydd o Adnoddau a Llywodraethu. Roedd y prosiectau unigol a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r rheoleiddwyr eraill yn ystod y flwyddyn yn cynnwys y canlynol:

Enw'r Prosiect	Disgrifiad byr	Dyddiadau cyflawni'r gwaith
<b>Swyddfa Archwilio Cymru - Adolygiad cynllunio ariannol</b>	Asesiad o sefyllfa ariannol y Cyngor a sut mae'n cyllidebu ac yn cyflawni arbedion gofynnol.	O fis Gorffennaf hyd at fis Tachwedd 2014
<b>Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor</b>	Asesiad o ran p'un a yw'r Cyngor yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi ei Gynllun Gwella.	O fis Ebrill hyd at fis Mehefin 2014
<b>Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Adroddiad ar Berfformiad y Cyngor</b>	Asesiad o ran p'un a yw'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi ei Adroddiad ar Berfformiad.	O fis Hydref hyd at fis Tachwedd 2014
<b>Swyddfa Archwilio Cymru - Adolygiad dilynol o'r trefniadau ar gyfer tai fforddiadwy</b>	Asesiad o'r cynnydd a wnaed o ran y trefniadau ar gyfer darparu tai fforddiadwy.	O fis Hydref hyd at fis Rhagfyr 2014

Enw'r Prosiect	Disgrifiad byr	Dyddiadau cyflawni'r gwaith
<b>Swyddfa Archwilio Cymru - Adolygiad dilynol o'r trefniadau ar gyfer y gwasanaeth Adnoddau Dynol</b>	Asesiad o'r cynnydd a wnaed o ran y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor.	O fis Hydref hyd at fis Rhagfyr 2014
<b>Swyddfa Archwilio Cymru - Adolygiad dilynol o'r trefniadau ar gyfer Amcan y Cyngor i Wella'r Economi</b>	Asesiad o'r cynnydd a wnaed o ran y trefniadau ar gyfer cyflawni Amcan y Cyngor i Wella'r Economi.	O fis Hydref hyd at fis Rhagfyr 2014
<b>Swyddfa Archwilio Cymru - Adolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer dosbarthu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn</b>	Asesiad o effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer dyrannu, dosbarthu, gweinyddu a defnyddio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn.	O fis Ionawr hyd at fis Mawrth 2015
<b>Swyddfa Archwilio Cymru - Adolygiad o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer rheoli risg</b>	Asesiad o effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg y Cyngor.	Hydref 2014
<b>AGGCC - Arolygiad o wasanaeth mabwysiadu'r Cyngor</b>	Asesiad o effeithiolrwydd y gwasanaethau mabwysiadu a ddarperir.	Tachwedd 2013
<b>AGGCC - Arolygiad o drefniadau diogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg</b>	Asesiad o effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer plant dros 11 oed sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal y nodwyd eu bod yn agored i niwed a/neu'n ymddwyn mewn ffordd a allai beri risg.	O fis Ebrill hyd at fis Mai 2014
<b>AGGCC - Arolygiad o Wasanaeth Maethu'r Cyngor</b>	Asesiad o'r Gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor ac ansawdd bywyd y rheini sy'n derbyn gofal maeth.	Ionawr 2014
<b>AGGCC – Adolygiad o berfformiad yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2013-14</b>	Asesiad o berfformiad Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor.	O fis Ebrill hyd at fis Hydref 2014
<b>Comisiynydd y Gymraeg - Adolygiad o Gynllun Iaith Gymraeg y Cyngor</b>	Asesiad o effeithiolrwydd y Cynllun wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg.	O fis Gorffennaf hyd at fis Awst 2014

## Tudalen 30

## Penawdau - crynodeb o'r prif ganfyddiadau

- 9 Mae'r tabl isod yn crynhoi canfyddiadau allweddol gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru, a'r rheoleiddwyr eraill, yn 2014-15.

### Perfformiad

**Swyddfa Archwilio Cymru** – Mae'r defnydd o safonau perfformiad yn parhau i hyrwyddo diwylliant cyson o uchelgais ym mhob un o wasanaethau'r Cyngor ([paragraffau 13 i 16](#)).

**AGGCC** – Ar y cyfan, mae perfformiad yr adran gofal cymdeithasol yn gryf ond bydd angen cynnal gwerthusiad trylwyr o'r broses o gyflwyno modelau gwaith newydd ar gyfer gwasanaethau plant ac oedolion drwy gydol y flwyddyn nesaf. ([paragraffau 17 i 30](#)).

**Swyddfa Archwilio Cymru** – Cynnydd cyfyngedig a wnaed wrth ymdrin ag achosion o danberfformio wrth ddarparu tai fforddiadwy ond mae'r Cyngor wedi helpu i atal llawer o bobl rhag dod yn ddiartref ([paragraffau 31 i 33](#)).

**Swyddfa Archwilio Cymru** – Mae'r Cyngor wedi gwella perfformiad ei wasanaeth Adnoddau Dynol ([paragraffau 34 i 35](#)).

**Swyddfa Archwilio Cymru** – Bu cynnydd mentrau i gefnogi economi Sir Ddinbych yn anghyson, ond mae trefniadau gwell yn debygol o ategu uchelgeisiau'r Cyngor ([paragraffau 36 i 43](#)).

**Swyddfa Archwilio Cymru** – Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth ymrwymo ei Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn a bydd gwelliannau o ran prosesau monitro ers mis Ebrill 2015 yn helpu i egluro eu heffaith ([paragraffau 44 i 48](#)).

**Comisiynydd y Gymraeg** – Gwnaed cynnydd pellach i wella gallu Cymraeg staff y Cyngor ([paragraffau 49 i 51](#)).

<b>Y defnydd o adnoddau</b>	<b>Swyddfa Archwilio Cymru</b> – Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol da heb unrhyw ddiffygion uniongyrchol ( <b>paragraffau 52 i 63</b> ).
<b>Llywodraethu</b>	<p><b>Swyddfa Archwilio Cymru</b> – Mae trefniadau rheoli risg y Cyngor yn gadarn ac yn addas at y diben (<b>paragraffau 64 i 68</b>).</p> <p><b>Swyddfa Archwilio Cymru</b> – Mae'r Cyngor yn llunio gwerthusiadau hyddysg a chytbwys o'i berfformiad (<b>paragraffau 69 i 70</b>).</p>
<b>Archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant</b>	<b>Swyddfa Archwilio Cymru</b> – Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol dystysgrifau archwilio yn nodi bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ( <b>Atodiadau 2 a 3</b> ).
<b>Archwilio cyfrifon</b>	<b>Swyddfa Archwilio Cymru</b> – Ar 28 Tachwedd 2014, cyflwynodd yr Archwilydd Penodedig Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Cyngor. Mae'r Llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Cadarnhaodd ei fod wedi cyflwyno barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol y Cyngor ar 30 Medi 2014 ( <b>Atodiad 4</b> ).



## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

- 10 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:
- a gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
  - b wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
  - c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.
- 11 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud unrhyw argymhellion ffurfiol i'r Cyngor yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn. Fodd bynnag, mae'n gwneud argymhellion a all fod yn berthnasol i'r Cyngor yn ei Adroddiadau Cenedlaethol ar Lywodraeth Leol. Ceir rhestr o'r argymhellion yn yr adroddiadau a gyhoeddwyd yn ystod 2014-15 yn **Atodiad 5**. Rydym hefyd yn gwneud dau gynnig ar gyfer gwella yn deillio o'r gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn:

### Cynigion ar gyfer gwella

Dylai'r Cyngor wneud y canlynol:

- |    |  |
|----|--|
| C1 | Sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau yn glir ar gyfer cyflawni ei amcan o ran tai fforddiadwy newydd.  |
| C2 | Adolygu ei arferion gwaith yn erbyn yr argymhellion yn Adroddiadau Cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar Lywodraeth Leol yn 2014-15, fel y'u nodir yn <b>Atodiad 5</b> , a rhoi gwelliannau ar waith fel y bo angen. |

- 12 Yn ogystal, nododd AGGCC, Estyn a Chomisiynydd y Gymraeg feysydd i'w gwella yn eu hadroddiadau arolygu a'r llythyrau a gyhoeddwyd ganddynt i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Gellir eu gweld yn [www.cssiw.org.uk](http://www.cssiw.org.uk), [www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk) a [www.comisiynyddygyymraeg.org](http://www.comisiynyddygyymraeg.org).

# Adroddiad manwl



Tudalen 34

# Perfformiad

## Mae'r defnydd o safonau perfformiad yn parhau i hyrwyddo diwylliant cyson o uchelgais ym mhob un o wasanaethau'r Cyngor

- 13 Mae'r Cyngor wedi parhau i wrthod proses o bennu targedau sy'n seiliedig ar welliant graddol o gymharu â pherfformiad y flwyddyn flaenorol o blaid proses sy'n seiliedig ar gyflawni'r 'trothwy rhagoriaeth'. Mae trothwyon rhagoriaeth fel arfer yn seiliedig ar sicrhau bod perfformiad y Cyngor ymhlith y chwe chynghor sy'n perfformio orau yng Nghymru. Os yw dros hanner y cynghorau eraill yng Nghymru yn perfformio'n well na Sir Ddinbych, bydd y Cyngor yn ystyried y mater dan sylw fel blaenoriaeth uchel ar gyfer gwella. Mae'r uwch reolwyr yn deall y cysyniad o 'drothwy rhagoriaeth' yn glir ac mae'n helpu i sicrhau lefel gyson o uchelgais ar draws y Cyngor.
- 14 Gwellodd perfformiad y Cyngor yn 2013-14, gydag 16 o'r 25 o ddangosyddion perfformiad statudol o fewn y chwarter uchaf. Dim ond pedwar o'r 25 o fesurau statudol ar gyfer Cymru gyfan oedd yn y chwarter isaf a pharhaodd y Cyngor i gyflawni gwelliannau ar draws sawl un o'i feysydd gwasanaeth.
- 15 Daeth ein dau Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf i'r casgliad bod sail gadarn i drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor a'u bod yn datblygu'n foddhaol, gydag arweinyddiaeth glir ac effeithiol gan uwch swyddogion a chynghorwyr. Mae hynny'n wir o hyd. Mae'r pwyllgor craffu ar berfformiad a'r cyfarfodydd herio gwasanaethau sefydledig yn cael gwybodaeth o ansawdd cyson am berfformiad ac ar fformat sy'n hawdd ei deall. Yn ogystal â'r cyfarfodydd herio gwasanaethau, mae Cabinet y Cyngor yn adolygu perfformiad bob chwe mis.
- 16 Er bod nifer gyffredinol y staff wedi lleihau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, cafwyd gennym fod tîm polisi canolog y Cyngor yn parhau i oruchwylio, cydgysylltu, a rheoli perfformiad yn weithredol. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi gallu parhau i weithredu system rheoli perfformiad gyson a ddeallir yn glir.

## Ar y cyfan, mae perfformiad yr adran gofal cymdeithasol yn gryf ond bydd angen cynnal gwerthusiad trylwyr o'r broses o gyflwyno modelau gwaith newydd ar gyfer gwasanaethau plant ac oedolion drwy gydol y flwyddyn nesaf

- 17 Canfu AGGCC fod y Cyngor wedi llunio cynllun pum mlynedd i foderneiddio ei wasanaethau cymdeithasol a fydd yn cynnwys trawsnewid patrwm gwasanaethau gofal cymdeithasol, yn ogystal â newid ffurf y gweithlu a gyflogir i ddarparu gofal a chymorth. Cred y Cyngor y bydd y newid diwylliannol hwn yn ei helpu i baratoi ar gyfer rhoi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith ac ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy. Fodd bynnag, bydd angen cynnal gwerthusiad trylwyr o'r broses o gyflwyno modelau gwaith newydd ar gyfer gwasanaethau plant ac oedolion yn 2013-14 drwy gydol y flwyddyn nesaf.

- 18 Mae'r Cyngor yn parhau i ymgysylltu'n weithredol â phobl sy'n defnyddio ei wasanaethau a noda AGGCC fod tystiolaeth dda bod safbwyntiau defnyddwyr wedi'u cynnwys mewn gwaith i ddatblygu a gwella gwasanaethau. Er enghraifft, canfu AGGCC fod y Cyngor yn dangos ymrwymiad, creadigrwydd a phragmatiaeth yn ei ymateb i 'Mwy Na Geiriau'<sup>2</sup>, gyda thystiolaeth glir o flaengynllunio wedi'i gynllunio i wella ymwybyddiaeth a chynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg, ac i wella hygyrchedd gwasanaethau cymdeithasol yn yr iaith ofynnol. Cyflwynwyd dulliau gweithredu arloesol er mwyn cefnogi lles emosiynol oedolion ifancach ac oedolion hŷn, gwaith prosiect integredig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac ymyriadau cynnar i blant a theuluoedd.
- 19 Yn 2013-14, gwnaed newidiadau staffio sylweddol a oedd wedi'u cynllunio o fewn yr adran. Roedd y rhain yn cynnwys newidiadau ar lefel arweinyddiaeth drwy benodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol newydd ac ailstrwythuro timau staff ar gyfer llawer o'r gwasanaethau a ddarperir i blant ac oedolion. Mae'r Cyngor yn wynebu newidiadau demograffig sylweddol o fewn hinsawdd ariannol ansicr. Canfu AGGCC dystiolaeth bwerus fod y Cyngor wedi mabwysiadu dull gweithredu strategol er mwyn ymateb i'r heriau hyn. Mae dull gweithredu'r Cyngor yn cynnwys adolygu gwasanaethau sy'n bodoli eisoes; cyflwyno modelau arfer arloesol; datblygu partneriaethau integredig; ac ystyried y potensial ar gyfer comisiynu rhai gwasanaethau ar sail ranbarthol.
- 20 Daeth AGGCC i'r casgliad y bu gwelliant wrth ddarparu gofal cymdeithasol i oedolion yn y Sir gyda mentrau newydd yn hyrwyddo annibyniaeth. Yn ystod 2013-14, roedd pwyslais y Cyngor ar sicrhau y gallai mwy o bobl 65 oed a throsodd barhau'n annibynnol. Datblygwyd rhwydweithiau er mwyn helpu pobl ag anghenion cymhleth i aros yn eu cymunedau lleol. Ymhlith yr enghreifftiau, mae rhoi rhaglenni wedi'u targedu ar waith wedi'u cynllunio er mwyn helpu i sicrhau lles emosiynol oedolion hŷn megis 'Men's Sheds' a Phrifysgol y Drydedd Oes, y cynlluniwyd y ddwy ohonynt i atal achosion o unigedd cymdeithasol, annog unigolion i rannu sgiliau a diddordebau a nodi meysydd penodol o help a chymorth.
- 21 Canfu AGGCC fod gwelliant mewn perfformiad o ran nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd o gynlluniau gofal, er bod y galw am adolygiadau hefyd wedi cynyddu. Yn 2013-14, cyflwynodd y Cyngor rota o ymweliadau gan aelodau etholedig ag wyth o wasanaethau'r Cyngor. Siaradodd y cynghorwyr â defnyddwyr gwasanaethau a'r staff sy'n eu helpu cyn cyflwyno adroddiad a rannwyd gyda'r gwasanaeth a chynllun gweithredu a ddatblygwyd i ymdrin ag unrhyw gamau gweithredu yr ystyriwyd eu bod yn briodol.
- 22 Perfformiodd y Cyngor yn dda hefyd o ran osgoi achosion o oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty. Yn 2013-14, dechreuodd y Cyngor drefniadau cyfyngedig ar gyfer gweithio ar benwythnosau gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gan gynnwys darparu gweithiwr cymdeithasol a gweithwyr cymorth gofal cymdeithasol i gynnig pecynnau gofal i bobl sy'n gadael yr ysbyty, er mwyn gallu eu rhyddhau mewn ffordd ddidrafferth ac amserol. Dim ond 0.5 fesul 1,000 o'r boblogaeth oedd cyfradd yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau'n ymwneud â gofal cymdeithasol ar gyfer pobl 75 oed neu drosodd, a oedd yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru, sef 4.7.

<sup>2</sup> Cyhoeddwyd Mwy na geiriau: Fframwaith Strategol ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg ym maes Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol yn 2012 gan Ddirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Nod y fframwaith yw sicrhau bod sefydliadau yn cydnabod bod iaith yn rhan annatod o ofal ac yn cynnig gwasanaethau yn Gymraeg i'r bobl hynny sydd eu hangen.

- 23 Parhaodd y Cyngor yn ymrwymedig i hyrwyddo annibyniaeth pobl hŷn a gweithiodd gwasanaeth derbyn ac ail-alluogi'r Cyngor gyda 379 o bobl yn ystod 2013-14, y cafodd 296 ohonynt gymorth i ddychwelyd i'w cartrefi eu hunain o'r ysbyty. Darperir y Gwasanaeth Offer Cymunedol Integredig mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac mae'n darparu amrywiaeth o offer, gan helpu 1,923 o bobl i fyw gartref yn ddiogel, sef cynnydd o 10 y cant o gymharu â'r llynedd. Fodd bynnag, prin oedd y gwelliant yn ystod 2013-14 o ran nifer y bobl sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol - opsiwn a fyddai'n galluogi pobl i wneud eu penderfyniadau eu hunain am eu pecynnau gofal a phrynu cymhorthion ac addasiadau.
- 24 Mae gwaith partneriaeth wedi galluogi'r Cyngor i ddatblygu a darparu gwasanaethau wedi'u hailstrwythuro ac mae hyn wedi gwella ansawdd y gofal a ddarperir yn y sir. Noda AGGCC fod cydberthnasau ag asiantaethau partner yn dda ar lefel unigol a sefydliadol, er bod rhai heriau o ran ymgysylltu'n effeithiol ar lefel strategol â'r strwythurau newydd o fewn y bwrdd iechyd lleol.
- 25 Nododd AGGCC gynnydd parhaus wrth ddarparu gwasanaethau plant a chanlyniadau cadarn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Drwy weithredu adnoddau yn seiliedig ar dystiolaeth ac mewn partneriaeth ag ymwelwyr iechyd ymhlith eraill, bu gwelliannau o ran perfformiad prosesau diogelu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gyda 94 y cant o adolygiadau ac 89 y cant o ymweliadau statudol yn cael eu cynnal yn brydlon. Mae'r Cyngor yn llwyddo i fodloni terfynau amser o ran plant ar y gofrestr amddiffyn plant, gyda phob adolygiad amddiffyn plant yn cael ei gynnal yn brydlon.
- 26 Fodd bynnag, nododd AGGCC fod angen sicrhau ffocws o ran dull gweithredu'r Cyngor mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal er mwyn sicrhau y gellir gwella profiadau'r plant a'r bobl ifanc dan sylw a'r canlyniadau cysylltiedig. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yr oedd cynllun gofal iechyd ar waith ar eu cyfer yn parhau i osod perfformiad y Cyngor ymhlith yr isaf yng Nghymru (38 y cant o gymharu â chyfartaledd cenedlaethol o 81 y cant). Yn 2014, cyflwynodd y Cyngor swydd newydd ar gyfer nyrs llawn amser benodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a nododd welliant a chynnydd sylweddol mewn perthynas â'r dangosydd allweddol hwn yn ystod 2014-15.
- 27 Ystyriwyd y canlyniadau ar gyfer unigolion sy'n gadael gofal y cyfwelwyd â hwy yn Sir Ddinbych fel rhan o arolygiad AGGCC o blant sy'n derbyn gofal. Yn ôl yr arolygiad, roedd unigolion sy'n gadael gofal wedi nodi rhwystredigaeth o ran y diffyg gwybodaeth a oedd ar gael iddynt am eu hawliau a'u hawliadau - yn arbennig o ran tai a chymorth ariannol - ac hefyd nad oedd y Cyngor yn darparu cyfleoedd galwedigaethol er mwyn i unigolion sy'n gadael gofal gyflawni annibyniaeth economaidd.

- 28 Bu gostyngiad sylweddol yn y cymwysterau allanol/sgôr pwyntiau cyfartalog (163.9) a gyflawnwyd gan blant 16 oed sy'n derbyn gofal. Er y gallai hyn adlewyrchu nodweddion y garfan benodol ar gyfer 2013-14, dyma'r sgôr isaf a gyflawnwyd gan y Cyngor yn ystod y tair blynedd diwethaf, ac mae'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol (261.5). Cynyddodd canran y plant sy'n derbyn gofal sy'n newid ysgol o leiaf unwaith, nid dim ond o ganlyniad i newidiadau sy'n gysylltiedig ag oedran, yn 2013-14. Gostyngodd perfformiad hefyd o ran sefydlogrwydd lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Nododd AGGCC y dylai'r Cyngor geisio deall cefndir y gostyngiad hwn mewn perfformiad ac ymateb iddo. Dylai wrando ar brofiadau'r bobl ifanc, a llunio cynllun rhyngddisgyblaeth ac amlddisgyblaeth clir ar gyfer gwella'r sefyllfa.
- 29 Yn ystod 2014-15, cynhaliodd AGGCC arolygiad o drefniadau diogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg. Cynhaliwyd yr arolygiad fel rhan o raglen arolygiadau thematig cenedlaethol AGGCC. Nod yr arolygiad cenedlaethol oedd asesu ansawdd y gwaith o gynllunio gofal ledled Cymru a ph'un a oedd yn gwneud y canlynol yn effeithiol:
- a yn cefnogi ac yn diogelu plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal;
  - b yn nodi ac yn rheoli ymddygiad sy'n gwneud plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal yn agored i niwed ac yn peri risg iddynt;
  - c yn hyrwyddo arfer sy'n seiliedig ar hawliau a llais y plentyn;
  - ch yn hyrwyddo canlyniadau gwell i blant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal; ac
  - d yn hyrwyddo cydymffurfiaeth â pholisïau a chanllawiau.
- 30 Gellir dod o hyd i ganfyddiadau arolygiadau'r awdurdodau lleol unigol ac adroddiad trosolwg cenedlaethol AGGCC ar wefan AGGCC <http://cssiw.org.uk/our-reports/national-thematic-report/2014/safeguarding-and-care-planning-of-looked-after-children-and-care-leavers/?lang=en>

### Cynnydd cyfyngedig a wnaed wrth ymdrin ag achosion o danberfformio wrth ddarparu tai fforddiadwy ond mae'r Cyngor wedi helpu i atal llawer o bobl rhag mynd yn ddigartref

- 31 Mae'r Cyngor yn cymryd camau i geisio sicrhau cyflenwad digonol o gartrefi fforddiadwy ond mae wedi methu'n gyson â chyrraedd ei dargedau ers 2011 a'i berfformiad yn 2013-14 oedd y perfformiad gwaethaf yng Nghymru. Yn 2013-14, o blith y 2,416 o gartrefi fforddiadwy a adeiladwyd yng Nghymru, dim ond 16 ohonynt a gwblhawyd yn Sir Ddinbych. Dim ond 61 o gartrefi fforddiadwy a gwblhawyd yn Sir Ddinbych yn y ddwy flynedd cyn hynny. Mae'r Cyngor yn cymryd camau i geisio sicrhau cyflenwad digonol o gartrefi fforddiadwy ac mae wedi pennu targed i gwblhau 570 o gartrefi newydd rhwng 2012 a 2017. Fodd bynnag, er y gwnaed cynnydd yn 2014-15, roedd y canlyniad yn is na tharged y Cyngor ar gyfer cartrefi fforddiadwy o hyd, ac amcangyfrifwyd mai 50 o gartrefi a gwblhawyd.

- 32 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo wella ei berfformiad ac ad-drefnwyd y gwasanaeth tai yn ddiweddar gyda Phennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd yn cymryd cyfrifoldeb llawn dros bob agwedd ar ddarparu tai fforddiadwy yn Sir Ddinbych. Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'r Strategaeth Tai bresennol yn nodi'r rolau a'r cyfrifoldebau dros gyrraedd y targed cartrefi fforddiadwy yn ddigon clir ac mae grŵp Gorchwyl a Gorffen o aelodau etholedig a swyddogion wedi bod yn datblygu strategaeth tai fforddiadwy newydd.
- 33 Mae Blaenoriaeth Gwella'r Cyngor o ran tai yn ehangach na darparu tai fforddiadwy yn unig. Mae'r Cyngor hefyd yn awyddus i weithio gyda phartneriaid i helpu pobl sy'n ddigartref neu sydd ar fin mynd yn ddigartref. Cymerodd y Cyngor gamau effeithiol i atal digartrefedd yn 2013-14 ac, fel yn y flwyddyn flaenorol, roedd yn y chwarterl perfformiad uchaf yng Nghymru. Roedd nifer y teuluoedd a dderbyniwyd yn ddigartref ac y rhoddwyd blaenoriaeth i'w hanghenion ymhlith yr isaf yng Nghymru ac yn sgil hynny, roedd nifer y teuluoedd digartref mewn llety dros dro, ar gyfartaledd, yn is nag mewn cynghorau eraill yng Ngogledd Cymru. Roedd y cyfnod cyfartalog yr oedd teuluoedd digartref yn ei dreulio mewn llety dros dro yn Sir Ddinbych hefyd yn isel ac yn cynrychioli perfformiad chwarterl uchaf ymhlith cynghorau yng Nghymru.

### Mae'r Cyngor wedi gwella perfformiad ei wasanaeth Adnoddau Dynol

- 34 Yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, nodwyd gennym fod gwasanaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol y Cyngor wedi gwneud cynnydd cyfyngedig wrth gyrraedd ei dargedau mewnol allweddol yn ystod 2012-13 a chynigiwyd gennym fod angen i'r Cyngor ymdrin â'r gwendidau hyn. Er enghraifft, bu oedi wrth roi'r system arfarnu staff ddiwygiedig ar waith ac nid oedd yn ymddangos bod trefniadau monitro effeithiol ar waith ar gyfer sicrhau cysondeb wrth ei gweithredu.
- 35 Mae'r Cyngor wedi ymdrin â'r cynnig hwn ar gyfer gwella i raddau helaeth. Noda gwaith dilynol gan Swyddfa Archwilio Cymru ac adroddiadau dilynol gan y gwasanaeth archwilio mewnol fod cynnydd da bellach yn cael ei wneud wrth ymdrin â meysydd allweddol i'w gwella. Mae gan y gwasanaeth Adnoddau Dynol ddealltwriaeth gliriach o gost y gwasanaeth, a sut mae hyn yn cymharu â chynghorau eraill. Dengys arolygon mewnol diweddar fod lefelau boddhad gyda'r gwasanaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol wedi gwella. Mae'r wybodaeth am ganlyniadau a pherfformiad y gwasanaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol yn fwy cynhwysfawr ac mae mesurau perfformiad allweddol ar waith ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r system arfarniadau newydd bellach yn gwbl weithredol ar draws pob gwasanaeth a chynhelir adolygiadau ansawdd systemataidd ohoni.

## Bu cynnydd mentrau i gefnogi economi Sir Ddinbych yn anghyson, ond mae trefniadau gwell yn debygol o ategu uchelgeisiau'r Cyngor

- 36 Mae atgyfnerthu economi Sir Ddinbych yn flaenoriaeth uchel i'r Cyngor. Mae chwech o 14 o themâu blaenoriaeth y Cyngor yn cynnwys cysylltiadau â'r economi leol ac roedd y Cynllun Cyflenwi Blynyddol ar gyfer 2013-14 yn cynnwys rhaglen o weithgareddau amrywiol ac uchelgeisiol a oedd yn anelu at gefnogi'r economi leol. Ddiwedd 2013, mabwysiadodd y Cyngor Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol 10 mlynedd newydd a ddisodlodd rai agweddau ar y Cynllun Cyflenwi gan ganolbwyntio adnoddau ar gyfres gulach o weithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r economi. Mae'r newidiadau hyn, ynghyd ag ymdrech ychwanegol yn ystod y flwyddyn i ailflaenoriaethu mentrau sy'n gysylltiedig â'r economi, yn ei gwneud hi'n anodd cymharu cynnydd a pherfformiad yn ystod 2013-14 yn erbyn bwriadau gwreiddiol y Cyngor.
- 37 Serch hynny, gwnaeth y Cyngor gynnydd da gyda rhai o'i weithgareddau diwygiedig yn gysylltiedig â'r economi, ond roedd ei berfformiad cyffredinol yn ystod 2013-14 yn anghyson. O'r chwe thema blaenoriaeth dan sylw, asesodd y Cyngor fod statws tair ohonynt ar ddiwedd y flwyddyn yn 'Dderbyniol' a nododd fod un yn 'Dda'. Nodwyd statws 'Anhysbys' ar gyfer y ddwy flaenoriaeth arall gan nad oedd y data yr oedd eu hangen i asesu cynnydd ar gael eto. Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd data mwy cynhwysfawr ar gael o 2014-15 ymlaen er mwyn helpu i ddangos effaith ei weithgareddau. O'r 15 o fentrau lle y cynhaliwyd gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r economi yn ystod 2013-14, roedd wyth ar y trywydd cywir, ond roedd saith ar ei hôl hi.
- 38 Roedd gan rai o'r gweithgareddau a gwblhawyd neu a oedd ar y trywydd cywir yn ystod 2013-14 - megis gwaith ymchwil i gyfleoedd ar gyfer mentrau cymdeithasol - broffil cymharol isel, ond roedd eraill yn amlwg iawn. Er enghraifft, roedd amrywiaeth o brosiectau adeiladu mewn perthynas â rhaglen Rhyl yn Symud Ymlaen ar waith neu wedi'u cwblhau yn ystod 2013-14, gan gynnwys pont eiconig newydd dros yr harbwr i feicwyr a cherddwyr ac adeiladu gwesty ar safle'r Honey Club gynt yn y Rhyl.
- 39 Yn gyffredinol, cafodd 16 o'r 31 o weithgareddau a oedd yn gysylltiedig â'r Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol y bwriadwyd eu cyflawni yn 2013-14 naill ai eu tynnu'n ôl neu eu gohirio. Tynnwyd rhai gweithgareddau yn ôl gan fod cyfrifoldebau cyflawni wedi newid. Er enghraifft, tynnwyd y cyfrifoldeb dros gynhyrchu achos busnes ar gyfer trydaneiddio rheilffordd arfordir Gogledd Cymru yn ôl gan fod Llywodraeth Cymru bellach yn gyfrifol am gydgyssylltu'r achos busnes. Gohiriwyd rhai gweithgareddau eraill naill ai gan nad oedd digon o adnoddau ar gael yn ystod 2013-14 neu gan fod angen gwaith ymchwil pellach. Er enghraifft, gohiriwyd pedwar o'r chwe gweithgaredd o fewn thema Gweithlu Medrus o Ansawdd Uchel. O edrych yn ôl, cydnabu'r Cyngor fod angen gwell dealltwriaeth arno o'r sgiliau uwch sydd eu hangen ar gyflogwyr lleol a rhanbarthol cyn teilwra ei hyfforddiant sgiliau.



- 40 Mae'r Cyngor wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen Uchelgais Economaidd a Chymunedol (y Bwrdd) sy'n cynnwys aelodau etholedig ac uwch swyddogion â rolau a chyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob mis ac yn rhoi ffocws strategol i'r rhaglen drwy gyfeirio, monitro a chydgysylltu gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r economi. Dylai ffocws disgybledig y Bwrdd ar flaenoriaethau helpu'r Cyngor i gynnal - neu lle bo angen, gynyddu - cyflymder gweithgareddau a lleihau'r tebygolrwydd y bydd prosiectau a rhaglenni yn methu.
- 41 Yn dilyn adolygiad yn ystod 2014, mae'r Bwrdd wedi atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer rheoli rhaglenni a phrosiectau. Maent bellach yn hyrwyddo dull mwy systemataidd o ddatblygu trefniadau monitro ac adrodd. Mae trefniadau cadarn ar gyfer rheoli rhaglenni a gwell gwybodaeth reoli yn hyrwyddo llywodraethu da a dylai helpu'r Bwrdd i wneud penderfyniadau mwy hyddysg ac amserol.
- 42 Arweiniodd adolygiad y Bwrdd yn 2014 hefyd at ailstrwythuro'r Tîm Datblygu Economaidd a Busnes er mwyn adlewyrchu'r blaenoriaethau a'r gweithgareddau y disgwylir iddo eu cyflawni. Yn gyffredinol, mae'r Cyngor yn disgwyl i'r ymarfer ailstrwythuro gyfrannu arbedion o tua £200,000 i'r targed arbedion cyllidebol ar gyfer 2016-17.
- 43 Erbyn diwedd 2013-14, roedd y Cyngor yn obeithiol o ran y rhagolygon tymor hwy ar gyfer ei flaenoriaeth uchelgais economaidd. Roedd hyn oherwydd bod llawer o'r gweithgareddau a gyflawnwyd yn ystod 2013-14 - megis mapio'r lleoliadau twf rhanbarthol er mwyn nodi cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi a chyfleoedd swyddi - yn darparu'r wybodaeth a'r seilwaith gofynnol i dargedu cymorth busnes yn effeithiol. Mae gobaith y Cyngor hefyd yn adlewyrchu gweithgareddau yn ystod 2013 ac ers 2013 i atgyfnerthu'r trefniadau llywodraethu a'r trefniadau rheoli rhaglenni cysylltiedig.

### **Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth ymrwymo ei Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn a bydd gwelliannau o ran prosesau monitro ers mis Ebrill 2015 yn helpu i egluro eu heffaith**

- 44 Roedd Deddf Diwygio Lles 2012 yn dynodi newid mawr i'r ffordd y caiff budd-daliadau eu gweinyddu a'u dosbarthu a bydd yn cael effaith sylweddol ar lawer o ddinasyddion. Ym mis Ebrill 2011, dechreuodd Llywodraeth y DU ar raglen ddiwygio a fydd yn arwain at gyflwyno'r Credyd Cynhwysol fesul cam rhwng mis Hydref 2013 a 2017. Un o brif nodweddion cynlluniau Llywodraeth y DU yw'r newidiadau i fudd-dal tai, sy'n ceisio lleihau gwariant blynyddol tua £2.3 biliwn. Bydd y newidiadau hyn yn golygu y bydd miliynau o aelwydydd ym Mhrydain Fawr yn cael llai o fudd-daliadau.
- 45 Ym mis Ionawr 2015, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad ar ba mor dda roedd cynghorau yn rheoli effaith newidiadau diwygio lles ar denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru. Adolygodd yr adroddiad y broses o reoli a defnyddio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn gan gynghorau yng Nghymru a daeth i'r casgliad fod anghysondebau a gwendidau sylweddol yn y broses o ddyrannu, dosbarthu, gweinyddu a defnyddio'r taliadau hyn. Gwnaethom waith dilynol mewn cynghorau unigol.

## **Tudalen 41**

- 46 Canfu ein hadolygiad, yn Sir Ddinbych, fod y Cyngor yn cyfeirio'n glir at Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn ar ei wefan a'i fod yn hawdd i gwsmeriaid wneud cais am gymorth. Mae'r ffurflen gais pum tudalen am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth ategol am broses gwneud cais y Cyngor er mwyn helpu cwsmeriaid i gwblhau'r ffurflen. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth fanwl am eu hincwm a'u gwariant ac rydym o'r farn y gallai hyn olygu y bydd pobl agored i niwed yn dewis peidio â gwneud cais am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn am eu bod yn ystyried y broses yn feichus ac yn llafurus. Nid oes gan y Cyngor ychwaith unrhyw bolisi mabwysiedig ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn ac nid yw'n glir sut mae'r Cyngor yn defnyddio'r adnoddau hyn er mwyn helpu pobl i leihau effaith newidiadau diwygio lles megis y Cymhorthdal Ystafell Sbâr neu'r cap ar fudd-daliadau.
- 47 Mae gan y Cyngor systemau ar waith i fonitro'r swm a gaiff ei wario yn erbyn swm yr arian a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, a'r gyllideb sy'n weddill i helpu ymgeiswyr. Mae'r Cyngor hefyd yn monitro cyflymder prosesu ceisiadau yn ogystal â nifer y cwsmeriaid sydd wedi cael cymorth. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn monitro nifer y landlordiaid sy'n cael cymorth er mwyn sicrhau bod dosbarthiad da ar draws pob sector ac ardal, ac nid yw ychwaith yn monitro effaith ei Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn na sut mae'r adnoddau hyn wedi helpu cwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt gan y newidiadau a gyflwynwyd o dan y trefniadau diwygio lles na'u heffaith ar gynnal tenantiaethau. Mae'r Cyngor yn monitro'r rhesymau pam bod ymgeisydd yn gwneud cais am ail Daliad Tai yn ôl Disgresiwn. Erbyn mis Ebrill 2015, roedd y rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru, gan gynnwys Cyngor Sir Ddinbych, wedi gweithredu cytundeb i fabwysiadu dull gweithredu unffurf o ddosbarthu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn y dyfodol, yn rhannol er mwyn ymdrin â'r anghysondebau a'r gwendidau sylweddol a nodwyd yn ein hadolygiad.
- 48 Ar ddiwedd mis Tachwedd 2014, roedd y Cyngor wedi talu £147,002 allan o'i ddyraniad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, sef £202,519, sef 72 y cant o'i ddyraniad. Mae hyn yn dangos bod y Cyngor yn ceisio defnyddio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn er mwyn helpu'r rheini y mae angen cymorth arnynt ond mae angen iddo gysylltu'r Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn â pholisi lles strategol ehangach er mwyn dangos effaith ei waith.

## Gwnaed cynnydd i wella cydymffurfiad â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor

- 49 Crëwyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Daeth pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau i rym drwy is-ddeddfwriaeth ar 31 Mawrth 2015. Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg drwy rinwedd pwerau a etifeddyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.
- 50 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob cyngor yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor ar y broses o'u rhoi ar waith. Mae cyfrifoldeb ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymadau yn eu cynlluniau iaith. Mae'n ofynnol i bob Cyngor ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu rhagor o wybodaeth yn ôl yr angen.
- 51 Nododd y Comisiynydd fod y Cyngor wedi comisiynu archwiliad annibynnol o'r Gymraeg yn Sir Ddinbych yn ystod 2013-14. Lluniwyd adroddiad a gyflwynodd 90 o argymhellion i'r awdurdod. Mae'r Cyngor yn bwriadu ymateb yn ffurfiol i'r archwiliad yn 2015 a llunio cynllun gweithredu. Mae gan y Cyngor nifer o fentrau eraill perthnasol. Mae wedi nodi meysydd i'w gwella o ganlyniad i adroddiad cwsmer cudd gan Fenter Iaith Sir Ddinbych. Mae'r Cyngor yn bwriadu ffurfioli'r gwaith o fonitro contractau trydydd parti yn ystod 2014-15, gan arwain at adroddiad blynyddol gan yr Adran Prynu. Mae'n bwriadu ehangu'r cynllun mentora ar gyfer dysgwyr Cymraeg er mwyn cynnwys mwy o aelodau o staff. Nod arall yw nodi hyrwyddwyr iaith er mwyn hybu'r Gymraeg ym mhob rhan o'r sefydliad.


# Y Defnydd o Adnoddau

## Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol da heb unrhyw ddiffygion uniongyrchol

- 52 Mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion a nodwyd o fewn y flwyddyn yn erbyn y camau gweithredu arfaethedig a gymeradwywyd ganddo. Llwyddodd y Cyngor i nodi amrywiaeth o arbedion cylchol ac anghylchol yr oedd angen eu gwneud i wneud iawn am y diffyg cyllidebol rhwng 2011-12 a 2013-14, cynllunio ar eu cyfer a'u cyflawni. Nid oedd unrhyw arbedion nas nodwyd yr oedd angen eu datblygu pan gymeradwywyd cyllidebau 2011-12, 2012-13 a 2013-14 a chyflawnwyd gostyngiadau ac arbedion arfaethedig y Cyngor ym mhob un o'r tair blynedd. Mae fframwaith cynllunio ariannol strategol corfforaethol y Cyngor yn effeithiol ac yn helpu i gyflawni'r gweledigaethau corfforaethol a nodau ac amcanion gwella'r Cyngor.
- 53 Mae gan y Cyngor nifer o bolisiau sy'n cefnogi ei drefniadau cynllunio ariannol, a nodwyd cyfrifoldebau o ran pennu'r gyllideb, ei monitro ac adrodd arni. Mae gan y Cyngor Gynllun Ariannol Tymor Canolig a groesgyfeirir â'i Amcanion Gwella. Mae'r cynllun yn cwmpasu cyfnod o bum mlynedd. Mae fersiwn 2014 yn nodi sut yr ymdrinnir â'r bwch sy'n weddill mewn arbedion yn 2015-16 a thu hwnt, er bod diffyg eglurder ynghylch lefelau cyllid gan Lywodraeth Cymru yn y byrdymor a'r tymor canolig yn rhwystro'r Cyngor rhag cynllunio.
- 54 Dull y Cyngor o bennu ei gyllideb refeniw fu lleihau costau'n gynyddrannol yn seiliedig ar gynigion arbed o wasanaethau a chyllidebau corfforaethol. Mae'r broses wedi llwyddo yn y gorffennol ond mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw'n gweithio mwyach. Ar gyfer 2015-16, caiff gwasanaethau eu hadolygu o dan y rhaglen Rhyddid a Hyblygrwydd er mwyn cyflawni targed i arbed £12 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf. Dyma'r newid mwyaf arwyddocaol i'r broses gyllidebol a bydd yn canolbwyntio ar yr hyn y mae gwasanaeth yn ei wneud a faint mae'n ei gostio, ac yn ceisio dadansoddi p'un a yw'r gwasanaeth a ddarperir yn statudol, yn gyson â blaenoriaeth gorfforaethol neu'n ddewisol.
- 55 Mae trefniadau rheoli a rheolaeth ariannol y Cyngor yn gadarn ac maent yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae Rheoliadau Ariannol y Cyngor yn cynnwys adran ar gyllidebau sy'n ymdrin â chynllunio ariannol a chyllidebu; rheolaeth gyllidebol; trosglwyddo a chyllidebau atodol eithriadol. Yr Aelodau sy'n gyfrifol am bennu Cyllideb y Cyngor, yn dilyn cyngor gan Swyddogion y Cyngor. Mae hwn yn gyfrifoldeb statudol. Rhaid i'r Cyngor bennu cyllideb fantoledig a rhaid sicrhau bod digon o arian ar gael yn ystod y flwyddyn ariannol dan sylw i gyfateb i'r lefel gwariant ddisgwyliedig. Bydd yr Aelodau yn penderfynu sut y dyrennir adnoddau rhwng Cyfarwyddiaethau, canolfannau adnoddau a'r polisiau cysylltiedig. Ar y cyd â'r Pennaeth Cyllid ac Asedau, mae Cyfarwyddwyr unigol yn gyfrifol am yr agweddau mwy manwl ar bennu'r gyllideb.

- 56 Rhoddwyd system rhagamcanu, monitro ac adrodd newydd ar waith. Gelwir hyn yn Cynllunio Cydweithredol. Mae'n sicrhau bod dull mwy cyson o reoli'r gyllideb ar draws y Cyngor drwy goladu gwybodaeth gyllidebol ar system ar-lein a lleihau'r angen i ddefnyddio amrywiol daenlenni o fewn yr adrannau gwasanaeth gwahanol. Mae'r Cabinet yn cael adroddiad misol ar y gyllideb. Mae'r adroddiadau yn dangos yr alldro rhagamcanol ar gyfer y flwyddyn (yn hytrach na'r sefyllfa ar adeg benodol) o gymharu â'r gyllideb wreiddiol. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys manylion unrhyw amrywiad sylweddol mewn gwariant ynghyd â chymau cywirol.
- 57 Mae cynlluniau arbedion ac arbedion effeithlonrwydd y Cyngor ar gyfer 2014-15 yn addas at y diben, yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn debygol o gael eu cyflawni. Roedd cynlluniau arbedion effeithlonrwydd wedi'u datblygu ar gyfer 2014-15 ar draws holl adrannau'r Cyngor. Mae'r cynlluniau yn cynnwys disgrifiadau clir o ble y câi'r arbedion eu gwneud. Caiff arbedion arfaethedig eu monitro fel mynegiant o faint o'r arbedion blyneddol a gyflawnwyd hyd yn hyn. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, cyflawnwyd dros 90 y cant o'r arbedion gofynnol erbyn diwedd yr ail chwarter. Cyflwynir adroddiadau ar y gyllideb bob chwe mis i'r Cyngor llawn gydag unrhyw ddiffygion mewn arbedion yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn.
- 58 Mae Cynllun Arbedion y Cyngor ar gyfer 2014-15 yn rhoi sylw priodol a pherthnasol i'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn y dyfodol. Er gwaethaf setliad grant heriol iawn gan Lywodraeth Cymru, pennodd y Cyngor gyllideb fantoledig ar gyfer 2014-15 a oedd yn cynnwys cynnydd o 3.5 y cant yn y dreth gyngor ac arbedion o £8.5 miliwn. Mae'r Cyngor hefyd yn nodi arbedion effeithlonrwydd pellach ac yn blaenoriaethu toriadau posibl i wasanaethau.
- 59 Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd angen arbedion ychwanegol o £17.1 miliwn i leiaf yn ystod 2015-16 a 2016-17. Wrth bennu ei gyllideb ar gyfer 2015-16, nododd y Cyngor arbedion o £7.3 miliwn, cynyddodd y Dreth Gyngor dri y cant ac ariannodd y diffyg a oedd yn weddill, sef £0.5 miliwn, o gronfeydd cyffredinol.
- 60 Mae **Arddangosyn 1** isod yn cymharu gwariant refeniw gros arfaethedig y Cyngor (heb gynnwys incwm) fesul pen o'r boblogaeth yn ystod y pedair blynedd diwethaf â'r cyfartaledd ar gyfer cynghorau ledled Cymru.

## Arddangosyn 1 – Gwariant refeniw gros (heb gynnwys incwm) fesul pen o'r boblogaeth



Ffynhonnell: StatsCymru

- 61 Dengys y graff fod gwariant y pen yn Sir Ddinbych yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru ym mhob un o'r tair blynedd cyn 2014-15. Mae hyn yn adlewyrchu'n bennaf ffactorau megis amddifadedd a natur wledig sy'n dylanwadu ar fformiwla dosbarthu Llywodraeth Cymru ar gyfer y Grant Cynnal Refeniw. Fodd bynnag, datgelodd Cyfrifiad 2011 hefyd fod rhagamcanion blaenorol o'r boblogaeth, y seiliwyd lefelau ariannu arnynt, wedi goramcangyfrif poblogaeth Sir Ddinbych. O ganlyniad, ymddengys fod gwariant y pen wedi cynyddu llawer mwy na'r cynnydd yng nghyfartaledd Cymru ers 2012-13. Ers 2011-12, cyfrifwn fod gwariant y pen wedi cynyddu dau y cant mewn termau real yn Sir Ddinbych o gymharu â gostyngiad o dri y cant ar gyfartaledd ledled Cymru.
- 62 Fel rhan o **Atodiad 6**, rydym wedi cynnwys rhywfaint o wybodaeth am y ffordd y cafodd adnoddau ariannol y Cyngor eu dosbarthu yn 2013-14 ac am y tueddiadau yng ngwariant ac incwm refeniw gros y Cyngor ers 2008-09. Daw'r data o Ddatganiadau o Gyfrifon y Cyngor.
- 63 Fel ym mhob cyngor, caiff cyfran uchel o wariant y Cyngor ei neilltuo i gostau addysg a gofal cymdeithasol. Daw ychydig llai na hanner ei incwm gros ar gyfer 2013-14 o'r Grant Cynnal Refeniw (36.8 y cant) ac Ardrethi Annomestig (8.7 y cant). Nid oes gan y Cyngor unrhyw reolaeth dros y ffynonellau incwm hyn, ac mae'r Grant Cynnal Refeniw yn lleihau. Roedd incwm o Ardrethi Annomestig, sef 8.7 y cant o gyfanswm yr incwm, yn gyfran is na'r cyfartaledd o gyfanswm yr incwm. Yn Sir Ddinbych, roedd 'incwm arall' (gan gynnwys ffioedd a thaliadau) yn cynrychioli 39 y cant o incwm y Cyngor ar gyfer 2013-14, ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 37 y cant.

# Llywodraethu

## Mae trefniadau rheoli risg y Cyngor yn gadarn ac yn addas at y diben

- 64 Mae trefniadau rheoli risg yn parhau i gael eu hatgyfnerthu, gyda Phenathiaid Gwasanaeth, y Cabinet a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn chwarae rhan weithredol. Mae'r grwpiau amrywiol hyn oll yn cydweithio i ddeall a rheoli risg, gan alluogi blaengynlluniau gwaith er mwyn sicrhau bod gan y pwyllgor craffu a'r Cabinet ffocws cryf ar ymdrin â materion sy'n ymwneud â risg.
- 65 Mae'r Cyngor wedi cydnabod pwysigrwydd rheoli risg ac mae cofrestr risg gorfforaethol gyda chanllawiau ategol ar waith. Nodir risgiau allweddol a chânt eu hasesu fel risgiau uchel, canolig neu isel. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo'r strategaeth rheoli risg a'r gofrestr risg gorfforaethol ac mae'n eu hystyried wrth ddyrannu adnoddau. Mae'r Cabinet wedi cytuno y dylai ystyried diweddariadau i'r gofrestr risg gorfforaethol bob chwe mis. Mae meysydd gwasanaeth unigol yn llunio eu cofrestrau risg eu hunain, y maent yn eu hystyried ochr yn ochr â'u cynlluniau gwella gwasanaeth.
- 66 Ystyrir bod rheoli risg yn flaenoriaeth uchel ym mhob maes gwasanaeth a chaiff risgiau eu rheoli ar lefel prosiect ac ar lefel gorfforaethol. Mae'r gofrestr risg gorfforaethol yn cynnwys amserlen sy'n cwmpasu'r cyfnod pan allai'r risgiau aeddfedu. Mae'r broses o fonitro sut mae pob gwasanaeth yn rheoli ei risgiau yn gyson ac mae'r trefniadau o ran atebolrwydd yn glir. Caiff risgiau eu rheoli'n dda ar brosiectau unigol mawr a chânt eu rheoli'n uniongyrchol gan y pennaeth gwasanaeth os ystyrir bod risg gorfforaethol ychwanegol uwch.
- 67 Caiff pob penderfyniad a wneir ei ddogfennu, gan gynnwys achosion lle y penderfynir peidio â chynnwys risgiau lefel isel ar y cofrestrau, ond nid yw'r system ar-lein newydd ar gyfer monitro'r trefniadau rheoli risg wedi bod yn destun profion gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol eto er mwyn cadarnhau bod llwybrau archwilio a rheolaethau digonol ar waith a'u bod yn gweithio. Nid yw'r strategaeth rheoli risg yn dynodi'r amledd gofynnol ar gyfer adolygu cofrestrau risg lefel gwasanaeth ac nid yw'n glir ar lefel gwasanaeth a yw pob cofrestr yn cael ei hadolygu yr un mor rheolaidd.
- 68 Mae Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn chwarae rhan briodol wrth sicrhau bod prosesau priodol ar waith ar gyfer nodi a rheoli risgiau er mwyn hwyluso ei rôl a helpu i ddatblygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn nodi'n glir sut y caiff risgiau eu rheoli a'u monitro. Mae prosesau ar waith i gofnodi risgiau newydd a dderbynnir ond nid oes unrhyw archwiliadau gorfodol i sicrhau bod cofrestrau risg pob gwasanaeth wedi ystyried p'un a oes angen i'r Cabinet ystyried cynnwys unrhyw risgiau gwasanaeth fel risg gorfforaethol.

## Mae'r Cyngor yn llunio gwerthusiadau hyddysg a chytbwys o'i berfformiad

- 69 Mae trefniadau Herio Gwasanaeth y Cyngor yn parhau i ddarparu datganiadau sefyllfa cynhwysfawr a manwl i Aelodau etholedig a rheolwyr gan ddefnyddio'r data perfformiad sydd ar gael a chynnydd prosiectau mawr. Wedi hynny, mae uwch aelodau o staff ac Aelodau etholedig yn herio datganiad sefyllfa'r gwasanaeth ac yn galluogi'r swyddogion i bennu perfformiad gwasanaethau yng nghydestun risgiau hysbys, a sicrhau bod y cyfarfod herio dilynol yn canolbwyntio ar y materion hynny sydd fwyaf perthnasol. Fel y nodwyd gennym yn Adroddiad Gwella Blynyddol y llynedd, mae'r drefn o herio gwasanaethau yn rhan bwysig o broses hunanwerthuso'r Cyngor, gan alluogi uwch reolwyr ac Aelodau etholedig i ddeall yn well pa mor dda y mae pob gwasanaeth yn perfformio yn erbyn targedau ac yn y cyd-destun cenedlaethol, ac i nodi'r hyn sydd angen ei wneud mewn meysydd nad ydynt yn perfformio cystal.
- 70 Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur a daeth **Tystysgrif Asesiad Gwella** yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Tachwedd 2014 (**Atodiad 3**) i'r casgliad bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur. Yn benodol:
- a roedd y Cyngor wedi cyhoeddi asesiad o'i berfformiad yn ystod 2013-14 yn ei **Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2013-14** (yr Adroddiad) cyn 31 Hydref 2014;
  - b roedd yr Adroddiad yn asesu perfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2013-14) ac yn nodi sut roedd y Cyngor wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur;
  - c roedd yr Adroddiad yn gwerthuso llwyddiant y Cyngor o ran cyflawni ei amcanion gwella ac yn mynegi ei farn yn glir;
  - ch roedd yr Adroddiad yn cynnwys adran fer i ddinasyddion a oedd am roi adborth neu wneud sylwadau ar yr Adroddiad;
  - d roedd yr Adroddiad yn cynnwys manylion am berfformiad a chymariaethau fel y'u mesurwyd gan y dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol; ac
  - dd roedd yr Adroddiad yn cynnwys adran fer ar y ffyrdd yr oedd y Cyngor wedi ceisio cydweithredu.



# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-15 Cyngor Sir Ddinbych

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau y caiff ei amcanion gwella eu cyflawni; a
- gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau er mwyn sicrhau y cyrhaeddir unrhyw safon perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Cyngor mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, archwilio'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chadarnhau a wyf yn credu bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â gofynion statudol a nodir yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth nac ar b'un a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor yn cynnwys adolygu'r cynllun er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas  
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI I: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth  
Huw Lloyd Jones, Rheolwr, Swyddfa Archwilio Cymru  
Gwilym Bury, Arweinydd Archwilio Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru

# Atodiad 3 – Archwiliad o Asesiad Cyngor Sir Ddinbych o Berfformiad 2013-14

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio asesiad Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) o'i berfformiad yn 2013-14 yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi asesiad bob blwyddyn sy'n disgrifio ei berfformiad o ran:

- cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau;
- cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u pennu iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad hunanosodedig; a
- chyrraedd unrhyw safonau perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a safonau perfformiad hunanosodedig.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad er mwyn nodi a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn cynnwys adolygu cyhoeddiad y Cyngor er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

Huw Vaughan Thomas

### **Archwilydd Cyffredinol Cymru**

CC: Leighton Andrews, y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus  
Huw Lloyd Jones, Rheolwr, Swyddfa Archwilio Cymru  
Gwilym Bury, Arweinydd Archwilio Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru

# Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cyngorydd Hugh Evans - Arweinydd  
Dr. Mohammed Mehmet - Prif Weithredwr  
Cyngor Sir Ddinbych  
Neuadd y Sir  
Ffordd Wynnstay  
Rhuthun  
Sir Ddinbych  
LL15 1YN

Annwyl Gyngorydd Evans a Dr Mehmet

## Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Sir Ddinbych 2013-14

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r prif negeseuon sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

### Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2014, rhoddais farn archwilio ddiamed ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Nodwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o gyfrifon i aelodau o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 29 Medi 2014. Roedd yr adroddiad hwn hefyd yn cynnwys nifer o faterion ychwanegol er mwyn helpu'r Cyngor i atgyfnerthu ei systemau rheolaeth fewnol ymhellach.

## Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Aseiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i brofi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2014.

## Nid yw'r gwaith a wnaed gennyf hyd yma yn ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2014-15 na systemau ariannol allweddol

Nid yw'r gwaith a wnaed yn ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol hyd yma mewn perthynas â'r cyfrifon a/neu systemau ariannol allweddol. Byddaf yn rhoi gwybod i'r Pennaeth Cyllid am unrhyw faterion allweddol unwaith y bydd rhaglen gwaith ardystio eleni wedi'i chwblhau.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2013-14 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir

Derwyn Owen  
**Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig**

# Atodiad 5 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2014-15

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Mai 2014	<b>Craffu Da? Cwestiwn Da!</b>	A1 Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses craffu.
		A2 Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol.
		A3 Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;</li> <li>• canolbwyntio mwy ar ganlyniadau;</li> <li>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol; a</li> <li>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r cyngor.</li> </ul>
		A4 Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol.
		A5 Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau.
		A6 Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru.
		A7 Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru.
		A8 Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid.



Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Gorffennaf 2014	Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant - Canfyddiadau adolygiad o gynghorau yng Nghymru	A1 Ynghyd â phartneriaid, mapio ac adolygu'r gwariant ar wasanaethau NEET er mwyn deall yn well pa adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r Fframwaith.
		A2 Egluro eu dull strategol o ostwng cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET yn ogystal â'u dull ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed.
		A3 Canolbwyntio ar bobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau sylweddol neu luosog i ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn hytrach na'r rhai sy'n fwy tebygol o ailymgysylltu heb lawer o gymorth ychwanegol.
		A4 Datblygu eu hamcanion a'u targedau ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET fel bod modd eu dwyn i gyfrif ac fel bod eu gwaith yn gyson â thargedau ac amcanion Llywodraeth Cymru.
		A5 Sicrhau bod aelodau etholedig a phartneriaid yn deall yn llwyr fod gan gynghorau gyfrifoldeb clir i arwain a chydgyssylltu gwasanaethau ieuencid i bobl ifanc 16-24 oed.
		A6 Gwella prosesau i werthuso effeithiolrwydd a gwerth am arian cymharol y gwasanaethau a'r ymyriadau yn eu hardal y bwriedir iddynt helpu i ostwng cyfran y bobl ifanc sy'n NEET.

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Hydref 2014	Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion	<p>A1 Diwygio'r safonau arfer gorau er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol;</li> <li>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a</li> <li>• nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion.</li> </ul>
		<p>A2 Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol a'u herio'n effeithiol.</p>
		<p>A3 Ymgysylltu'n well â thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau a defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;</li> <li>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a</li> <li>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth.</li> </ul>
		<p>A4 Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau.</li> <li>• Cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain.</li> <li>• Pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion.</li> <li>• Gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>– cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;</li> <li>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt;</li> <li>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm;</li> <li>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf; a</li> <li>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd.</li> </ul> </li> </ul>


## Tudalen 58

Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Hydref 2014	Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion	<p>A5 Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;</li> <li>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng 'cost: budd: effaith' a defnyddio'r wybodaeth hon i ategu penderfyniadau ar ddyfodol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cyngor; a</li> <li>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol.</li> </ul>
Ionawr 2015	Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru	<p>A1 Gwella prosesau cynllunio strategol a chydgyssylltu gweithgarwch yn well er mwyn mynd i'r afael ag effaith y diwygiadau lles ar denantiaid tai cymdeithasol drwy sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n ymdrin â gwaith holl adrannau perthnasol cynghorau, cymdeithasau tai a gwaith rhanddeiliaid allanol.</p>
		<p>A2 Gwella trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd am ddiwygiadau lles drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• penodi aelodau a swyddogion arweiniol i gymryd cyfrifoldeb am ddarparu arweiniad strategol mewn perthynas â'r diwygiadau lles a bod yn atebol am berfformiad; a</li> <li>• sicrhau bod aelodau yn cael hyfforddiant digonol a briffiau rheolaidd ar y diwygiadau lles er mwyn gallu herio perfformiad a phenderfyniadau a chraffu arnynt.</li> </ul>
		<p>A3 Sicrhau bod perfformiad o ran y diwygiadau lles yn cael ei reoli'n effeithiol drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• pennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i lunio barn ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu;</li> <li>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol ac yn enwedig y cymdeithasau tai; a</li> <li>• phennu mesurau i lunio barn ar effaith ehangach y diwygiadau lles.</li> </ul>
		<p>A4 Atgyfnerthu'r ffordd y caiff risgiau o ran y diwygiadau lles eu rheoli drwy greu un dull corfforaethol o weithredu sy'n cydgysylltu gweithgarwch ar draws y cyngor a gwaith gan eraill er mwyn rhoi digon o sicrwydd bod yr holl gamau angenrheidiol a phriodol i liniaru risg yn cael eu cymryd.</p>


Dyddiad yr adroddiad	Teitl yr adolygiad	Argymhelliad
Ionawr 2015	<p><b>Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru</b></p>	<p>A5 Ymgysylltu'n well â thenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• darparu cyngor a gwybodaeth reolaidd am yr opsiynau sydd ar gael iddynt ymdrin ag effaith ariannol y newid yn eu hamgylchiadau;</li> <li>• hyrwyddo llinell gymorth 'Mae budd-daliadau yn newid'; a</li> <li>• chynorthwyo'r tenantiaid hynny sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr yn benodol i gymryd rhan mewn cynlluniau cyflogaeth rhanbarthol/cenedlaethol.</li> </ul> <p>A7 Gwella'r ffordd y caiff Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn eu rheoli a'u defnyddio a gwella mynediad iddynt drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• sefydlu polisi neu ganllaw clir i'r cyhoedd, sydd ar gael ar ffurf copi caled ac ar-lein, sy'n nodi polisi a threfniadau'r cyngor ar gyfer gweinyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn;</li> <li>• diffinio'n glir y costau tai cymwys ac anghymwys a gaiff eu cwmpasu gan Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn ffurflenni cais, dogfennau polisi a thafleini canllaw i ymgeiswyr;</li> <li>• nodi'n glir y cyfnodau hwyaf/byrraf posibl y caiff y taliadau hyn eu talu;</li> <li>• pennu a chyhoeddi'r amserlen y bydd yn rhaid i'r cyngor ei dilyn wrth benderfynu ar geisiadau am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn;</li> <li>• cynnwys gwybodaeth mewn deunyddiau cyhoeddus ar bolisi'r cyngor ar yr hawl i adolygu neu apelio yn erbyn penderfyniad a'r amserlenni a'r broses y dylid eu dilyn wrth benderfynu ar y rhain; a</li> <li>• diffinio'n glir y grwpiau â blaenoriaeth ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn deunyddiau cyhoeddus er mwyn sicrhau y gall y rheini sy'n ceisio cymorth, a'r asiantaethau sy'n eu cynorthwyo, asesu p'un a yw'r taliadau hyn yn opsiwn ymarferol i ddiwallu eu hanghenion ariannol a'u hanghenion o ran tai.</li> </ul>

# Appendix 6 – Gwybodaeth am adnoddau Cyngor Sir Ddinbych


## Cyfanswm Incwm Gros 2013-14




Cyfanswm Incwm a Gwariant



Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn 2010-11 i 2012-13



Cyfanswm Gwariant Gros yn ôl maes gwasanaeth



## Tudalen 61

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Gorffennaf 2015

July 2015

# Cyngor Sir Ddinbych Denbighshire County Council

Adroddiad Gwella Blynyddol  
Annual Improvement Report

Tudalen 63

Gwilym Bury  
Huw Lloyd Jones



# Cyfranwyr Aseiad Perfformiad Performance Assessment Contributors

- *Y Cyngor – Adroddiad Perfformiad 2013-14.*
- *Swyddfa Archwilio Cymru – hunanasesiad y Cyngor a gwaith maes gan SAC.*
- *AGGCC – gofal cymdeithasol.*
- *Comisiynydd y Gymraeg.*
- Council – 2013-14 Performance Report.
- WAO – Council’s self-evaluation + fieldwork undertaken by WAO
- CSSIW - social care.
- Welsh Language Commissioner.





# Canfyddiadau Aseiad Perfformiad

## Performance Assessment Findings

WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

- Tudalen 65
- Mae'r defnydd o safonau perfformiad yn parhau i hyrwyddo diwylliant cyson o uchelgais ym mhob un o wasanaethau'r Cyngor
  - Ar y cyfan, mae perfformiad yr adran gofal cymdeithasol yn gryf ond bydd angen cynnal gwerthusiad trylwyr o'r broses o gyflwyno modelau gwaith newydd ar gyfer gwasanaethau plant ac oedolion drwy gydol y flwyddyn nesaf
  - Cynnydd cyfyngedig a wnaed wrth ymdrin ag achosion o danberfformio wrth ddarparu tai fforddiadwy ond mae'r Cyngor wedi helpu i atal llawer o bobl rhag dod yn ddiqartref
  - The use of performance standards continues to promote a consistent culture of ambition across the Council's services
  - Overall, the performance of the social care department is strong but the introduction of new models of working for both children's and adult services will need rigorous evaluation throughout the forthcoming year
  - Limited progress has been made in addressing the underperformance in the provision of affordable housing but the Council has helped prevent many people from becoming homeless 3



# Canfyddiadau Aseiad Perfformiad

## Performance Assessment

### Findings

WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

- Tudalen 66
- Mae'r Cyngor wedi gwella perfformiad ei wasanaeth Adnoddau Dynol  
Bu cynnydd mentrau i gefnogi economi Sir Ddinbych yn anghyson, ond mae trefniadau gwell yn debygol o ategu uchelgeisiau'r Cyngor
  - Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth ymrwymo ei Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn a bydd gwelliannau o ran prosesau monitro ers mis Ebrill 2015 yn helpu i egluro eu heffaith
  - Gwnaed cynnydd pellach i wella gallu Cymraeg staff y Cyngor
  - The Council has improved the performance of its Human Resource service
  - The progress of initiatives to support the Denbighshire economy has been inconsistent, but improved arrangements are likely to support the Council's ambitions
  - The Council is making good progress in committing its Discretionary Housing Payments and improvements in monitoring since April 2015 will help to clarify their impact
  - Further progress was made to improve the Welsh language capability of Council staff



## Defnydd o adnoddau Use of Resources

***Mae gan y Cyngor  
drefniadau rheoli ariannol  
da heb unrhyw ddiffygion  
uniongyrchol***

**The Council has good  
financial management  
arrangements with no  
immediate shortcomings**



# Llywodraethu Governance

Tudalen 68

- Mae trefniadau rheoli risg y Cyngor yn gadarn ac yn addas at y diben
- Mae'r Cyngor yn llunio gwerthusiadau hyddysg a chytbwys o'i berfformiad
- The Council's risk management arrangements are robust and fit for purpose
- The Council produces well informed balanced evaluations of its performance



# Cynigion ar gyfer gwella Proposals for improvement

Dylai'r Cyngor wneud y canlynol:

- Sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau yn glir ar gyfer cyflawni ei amcan o ran tai fforddiadwy newydd
- Adolygu ei arferion gwaith yn erbyn yr argymhellion yn Adroddiadau Cenedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol ar Lywodraeth Leol yn 2014-15, a rhoi gwelliannau ar waith fel y bo angen

Tudalen 69

The Council should:

- Ensure that roles and responsibilities are clear for the achievement of the new affordable housing objective
- Review its working practices against the recommendations in the Auditor General's 2014-15 Local Government National Reports, and implement improvements as necessary



## CASGLIAD CYFFREDINOL OVERALL CONCLUSION

**Parhaodd y Cyngor i  
wneud cynnydd wrth  
gyflawni gwelliannau ym  
anhob un o'i amcanion  
blaenoriaeth ac mae ei  
hanes o gyflawni ei  
amcanion ariannol yn  
golygu ei fod mewn  
sefyllfa dda i sicrhau  
gwelliant parhaus yn  
2015-16**

**The Council continued to  
make progress in  
delivering improvements  
in all of its priority  
objectives and its track  
record in delivering its  
financial objectives mean  
it is well placed to secure  
continuous improvement  
in 2015-16**

**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 27 Gorffennaf 2015

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Cynghorydd Julian Thompson-Hill

**Awdur yr Adroddiad:** Richard Weigh, Prif Swyddog Cyllid

**Teitl:** Astudiaeth Genedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru - Cydnerthedd Ariannol Cynghorau yng Nghymru

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae astudiaeth genedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru ar gydnerthedd trefniadau rheoli a chynllunio i gefnogi cydnerthedd ariannol ym mhob cyngor, gan ganolbwyntio ar y modd y mae cynghorau yn cynllunio a chyflwyno eu hymrwymiaadau cyllideb.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Cyflwyno adroddiad astudiaeth genedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Ystyried yr adroddiad a'r argymhellion a wnaed.

Cytuno i dderbyn diweddariad pellach ym mis Ionawr 2016 gan y bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cwblhau asesiad manylach sy'n ceisio 'archwilio iechyd ariannol awdurdodau, ynghyd â'r modd y maent yn gosod cyllidebau a chyflawni'r arbedion sydd eu hangen, er mwyn rhoi sicrwydd bod awdurdodau yn gydnerth yn ariannol'.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Mae'r adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan y teitl 'Cydnerthedd Ariannol Cynghorau yng Nghymru' ynghlwm.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar gyfnod cynllunio ariannol 2014-15 a chyflawniad cynlluniau ariannol 2013-14. Mae hefyd yn dadansoddi record y cynghorau o ran perfformiad ariannol yn 2011-12 a 2012-13. Bydd y cyngor yn ystyried yr adroddiad a'r argymhellion a wneir yn ofalus.

Diwygiwyd proses y cyngor o osod cyllideb yn sylweddol yn ystod 2014/15 i ystyried arbedion ar gyfer 2015/16 a 2016/17. Diweddarwyd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn 2014 ac mae'n cael ei adolygu ar hyn o bryd i'w gyhoeddi yn yr hydref. Bydd canfyddiadau perthnasol yr astudiaeth ac arfer gorau yn cael eu hymgorffori yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig diwygiedig, a fydd yn cynnwys strategaeth cronfeydd wrth gefn gynhwysfawr. Mae'r

cyngor wedi cyflwyno cyllidebau cytbwys bob blwyddyn ac yn hyderus y bydd ei brosesau yn parhau i wneud hynny.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae trefniadau cynllunio, rheoli a llywodraethu ariannol cadarn yn sail i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol y cyngor.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghori a wnaed â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae canfyddiadau'r astudiaeth a'r argymhellion yn cael eu hystyried gan y bydd canfyddiadau'r aseiad mwy penodol o gydnerthedd ariannol y cyngor dros y misoedd nesaf.

**10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'r astudiaeth yn amlinellu risgiau ac argymhellion ar lefel genedlaethol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Cynhyrchwyd yr adroddiad o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus 2004 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.



Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales

# Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â  
Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Rheolwyr prosiect tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru oedd Nick Selwyn  
a Huw Rees ac roedd yn cynnwys Martin Gibson, Jackie Joyce, Terry Lewis,  
Deryck Evans a John Dwight yn ogystal â chydweithwyr o PwC, KPMG a  
Grant Thornton UK LLP o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

**Huw Vaughan Thomas**  
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**  
**Swyddfa Archwilio Cymru**  
**24 Heol y Gadeirlan**  
**Caerdydd**  
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilwyr penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk), neu gweler y wefan [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk).

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2015

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion canlynol: Ffôn 029 2032 0500, e-bost [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

# Cynnwys

	Crynodeb	4
	Argymhellion	10
1	Mae gan y rhan fwyaf o gynghorau weledigaeth glir ac maent yn pennu amcanion corfforaethol cydlynol ond mae angen iddynt sicrhau bod eu cynlluniau ariannol a gweithredol tymor canolig yn ddigon cydnaws i gyflawni eu hamcanion	12
2	Mae prosesau rheoli a rheolaethau ariannol yn gadarn yn y rhan fwyaf o gynghorau, er bod angen i lawer wella'r broses o bennu a monitro cyllidebau a sicrhau bod gan y tîm cyllid ddigon o allu ac adnoddau i ateb yr heriau a wynebir yn y dyfodol	28
3	Er bod trefniadau llywodraethu ariannol yn weddol gadarn, mae ansawdd y wybodaeth am berfformiad a chostau a ddefnyddir a'r lefel o waith craffu a herio o fewn cynghorau yng Nghymru yn amrywio'n fawr, a all danseilio effeithiolrwydd y broses o wneud penderfyniadau	34
4	Mae cynghorau o dan straen aruthrol ac ni fydd trefniadau rheoli ariannol a arferai fod yn ddigon da yn parhau i fod yn addas at y diben pan wynebir pwysau ariannol cynyddol	39
5	Dengys profiad cynghorau yn Lloegr ei bod yn bosibl ymdrin â gostyngiadau sylweddol mewn cyllid ond er mwyn llwyddo rhaid cyflwyno newidiadau sylweddol i waith cynllunio ariannol strategol a gweithredol	45
	Atodiadau	
	Atodiad 1 – Methodoleg	50
	Atodiad 2 – Astudiaethau achos dethol o Loegr	51
	Atodiad 3 – Y gwahaniaethau yn y ffordd y caiff llywodraeth leol ei hariannu yng Nghymru a Lloegr	56

## Adroddiad Cryno

Mae cynghorau yng Nghymru o dan bwysau ariannol difrifol ac maent wedi bod yn mynd ati i ateb yr her a wynebir ganddynt. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd nesaf bydd mwy a mwy o bwysau ariannol a bydd angen i gynghorau wella eu prosesau cynllunio ariannol strategol er mwyn trawsnewid a gwarchod eu cydnerthedd ariannol



# Crynodeb

- 1 Mae cynghorau yng Nghymru yn gweld y lefel o gyllid a gânt gan Lywodraeth Cymru yn gostwng yn sylweddol. Hyd yn hyn, mae'r rhan fwyaf o gynghorau wedi llwyddo i ymdopi ond disgwylir mwy o ostyngiadau blynyddol yn y cyfnod yn arwain i fyny at 2015-16 a thu hwnt. Ar y cyfan, gwnaeth y swm o arian refeniw a roddodd Llywodraeth Cymru i gynghorau yng Nghymru leihau £155 miliwn (3.8 y cant) mewn termau real yn 2011-12. Mae lefelau cyllid yn parhau i ddirywio gydag arian refeniw gan Lywodraeth Cymru tua £283 miliwn (7 y cant) yn is yn 2013-14 nag yn 2010-11. Ym mis Hydref 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ostyngiad o £175 miliwn mewn cyllid craidd yn 2014-15 a gostyngiad pellach o £65 miliwn yn 2015-16. Erbyn diwedd 2016, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn disgwyl y bydd gan lywodraeth leol ddiffyg o tua £460 miliwn.
- 2 Yn Lloegr, mae cynghorau eisoes wedi wynebu toriadau mawr mewn cyllid gan y Llywodraeth dros gyfnod o bum mlynedd yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant rhwng 2011-12 a 2015-16. Yn ôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Lloegr bydd hyn yn cyfateb i ostyngiad o 40 y cant mewn cyllid craidd i lywodraeth leol mewn termau real erbyn 2015-16, sy'n gofyn am arbed £20 biliwn dros y cyfnod hwn. Er bod y lefel o ostyngiadau i incwm grant yn ymddangos yn isel o gymharu â'r hyn a welwyd yn Lloegr, dylid nodi bod mwy o gynghorau sy'n ddibynnol iawn ar grantiau yng Nghymru felly bu'r toriadau yn fwy dwfn na'r hyn a ystyriwyd ar yr olwg gyntaf.
- 3 Mae cynghorau yng Nghymru yn dal i gael grantiau penodol, tra bo'r fath neilltuo wedi diflannu yn Lloegr ar y cyfan. Ym marn cynghorau a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ni ddylai'r arian grant hwn gael ei neilltuo ac yn hytrach dylai gael ei gynnwys fel rhan o'r setliad refeniw. Ar adeg y setliad ariannol blynyddol, gall fod angen i fanylion y dyraniadau ar gyfer nifer o grantiau penodol gael eu pennu'n derfynol o hyd, gan greu mwy o ansicrwydd i gynghorau wrth lunio cynlluniau ariannol a phennu cyllidebau.
- 4 Er mwyn rheoli effaith y gostyngiadau hyn mewn cyllideb, bydd angen gwneud newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff cyllid cynghorau lleol ei reoli a'i lywodraethu, gan nad yw'n debygol y bydd systemau rheoli ariannol a oedd yn arfer bod yn ddigon da yn addas at y diben mwyach i barhau i gyflawni canlyniadau ariannol cadarn yn y dyfodol.
- 5 Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi parhau i godi pryderon am sefydlogrwydd dyraniadau ariannol a phroses pennu cyllideb gynyddrannol flynyddol Llywodraeth Cymru. Mae'r broses flynyddol o bennu'r gyllideb, ynghyd â newidiadau hwyr i setliadau cyllidebol a gostyngiadau i arian grant yn ystod y flwyddyn, yn effeithio ar allu cynghorau i gynllunio eu cyllidebau eu hunain a chytuno arnynt yn effeithiol.
- 6 Adolygwyd cadernid trefniadau rheoli a chynllunio i gefnogi cydnerthedd ariannol ymhob cyngor, gan ganolbwyntio ar y ffordd y mae cynghorau yn cynllunio ac yna'n cyflawni eu hymrwymiaadau cyllidebol. Fel rhan o'r adolygiadau hyn, cyflawnodd timau archwilio allanol waith maes ar drefniadau cynllunio ariannol pob cyngor.

- 7 Wrth i ni gyflawni rhagor o waith ar gydnerthedd ariannol cynghorau, bwriadwn ddatblygu system adrodd 'goleuadau traffig' sy'n cwmpasu perfformiad ariannol a pherfformiad y gweithlu a nodi meysydd i'w gwella ymhellach. Mae'r dull hwn o asesu cydnerthedd ariannol yn debyg i'r hyn a wnaed gan Grant Thornton yn Lloegr<sup>1</sup> a bydd yn fodd i wneud cymariaethau defnyddiol. Bwriadwn ddatblygu hyn er mwyn cyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar gydnerthedd ariannol a byddwn yn trafod y fethodoleg rydym yn bwriadu ei defnyddio gyda chynghorau a rhanddeiliaid eraill yn y misoedd i ddod.
- 8 Mae'r drydedd elfen, a'r elfen olaf, o'r astudiaeth hon yn cymharu profiad cynghorau yn Lloegr, yn seiliedig ar ddadansoddiad tebyg a gynhaliwyd gan Grant Thornton yn 2013-14. Drwy wneud y fath gymariaethau, mae'r adroddiad yn nodi rhai gwersi allweddol i helpu cynghorau yng Nghymru i sicrhau cydnerthedd ariannol yn y dyfodol. Mae cynghorau yn Lloegr wedi wynebu heriau ariannol sylweddol yn gynharach na chynghorau yng Nghymru. Felly, mae cyfle i gynghorau yng Nghymru ddysgu a defnyddio profiad cynghorau yn Lloegr.
- 9 Cafodd y gwaith hwn ei gyflawni gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a Grant Thornton ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar gyfnod cynllunio ariannol 2014-15 a chyflawni cynlluniau ariannol 2013-14. Hefyd, rydym wedi dadansoddi perfformiad ariannol cynghorau yn 2011-12 a 2012-13. Roedd tair prif elfen i'n gwaith.
- 10 Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r archwiliad hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad canlynol sef. **Mae cynghorau yng Nghymru o dan bwysau ariannol difrifol ac maent wedi bod yn mynd ati i ateb yr her a wynebir ganddynt. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd nesaf bydd mwy a mwy o bwysau ariannol a bydd angen i gynghorau wella eu prosesau cynllunio ariannol strategol ymhellach er mwyn trawsnewid a gwarchod eu cydnerthedd ariannol.**

1 *Rising to the challenge - The evolution of local government*, Grant Thornton, Tachwedd 2014.

**Mae gan y rhan fwyaf o gynghorau weledigaeth glir ac maent yn pennu amcanion corfforaethol cydlynol ond mae angen iddynt sicrhau bod eu cynlluniau ariannol a gweithredol tymor canolig yn ddigon cydnaws i gyflawni eu hamcanion**

- 11 Mae cynlluniau strategol cadarn yn hanfodol i gydnerthedd ariannol cynghorau yn y dyfodol. Er mwyn cynllunio'n effeithiol, rhaid canolbwyntio ar orwel ariannol hirdymor addas, deall risgiau ariannol a datblygu cynlluniau wrth gefn o fewn cynlluniau ariannol tymor canolig. Nododd ein dadansoddiad fod meysydd i'w gwella yn y rhan fwyaf o'r meysydd allweddol a adolygwyd gennym, a heb welliannau, bydd trefniadau cynllunio yn ei chael yn fwyfwy anodd ymdrin â'r pwysau ariannol cynyddol ar gynghorau.
- 12 Bydd angen i drefniadau esblygu er mwyn adlewyrchu patrymau newidiol cyflawni a bydd angen i hyfedredd ym maes rheoli ariannol wella'n sylweddol er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol yn y blynyddoedd i ddod. Os na fydd trefniadau ariannol yn esblygu ac yn gwella, bydd angen i gynghorau 'redeg i sefyll yn yr unfan' fwyfwy bob blwyddyn ac efallai y bydd eu sefyllfaoedd ariannol yn dirywio'n unol â hynny.
- 13 Ledled Cymru, methodd mwy o gynghorau â rhagfynegi'n gywir y diffygion cyllidebol y byddai angen iddynt ymdrin â hwy erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2013-14 nag ar gyfer 2012-13. Fodd bynnag, roedd y gwahaniaeth rhwng y lefelau disgwylidiedig o arbedion a oedd yn ofynnol ar adeg pennu'r gyllideb a'r rhai a oedd yn angenrheidiol mewn gwirionedd yn ystod y flwyddyn yn gymharol fach yn y rhan fwyaf o achosion, gan olygu bod y risg ariannol yn gyfyngedig.
- 14 Llwyddodd y rhan fwyaf o gynghorau i nodi mesurau arbed penodol er mwyn ymdrin â diffygion cyllidebol. Fodd bynnag, nid oedd nifer gynyddol o gynghorau wedi nodi cynigion arbed yn llawn er mwyn rheoli eu bylchau mewn cyllid ac roeddent yn dal i ddatblygu eu cynlluniau arbed manwl ar adeg cymeradwyo eu cyllidebau.
- 15 Er i'r rhan fwyaf o gynghorau nodi'r bwlch mewn cyllid y byddai angen i gynlluniau arbed ei lenwi ar gyfer 2014-15 a thu hwnt, nid yw nifer sylweddol wedi nodi cynlluniau i wneud iawn am y diffyg yn llawn. Hefyd, ceir ambell gyngor lle y byddai perfformiad gwael wrth gyflawni cynlluniau arbed yn cael effaith sylweddol ar gydnerthedd ariannol pe na baent yn cael eu lliniaru mewn ffordd arall. Nid yw'r tybiaethau na'r trefniadau sy'n ategu cynlluniau arbed, o'u barnu yn erbyn egwyddorion CAMPUS<sup>2</sup>, yn ddigon cadarn ac mae angen gwneud cryn dipyn o waith datblygu ymhob maes. Bydd rhagor o waith ar dybiaethau yn faes allweddol i gynghorau yng Nghymru ganolbwyntio arno dros y blynyddoedd i ddod. Yn Lloegr, y maes cynllunio ariannol hwn sydd wedi gofyn am y gwelliant mwyaf ond, yn galonogol, dyma'r maes sydd wedi gweld yr esblygiad a'r arloesedd mwyaf hefyd.

2 CAMPUS - cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwysol.

- 16 Awgryma cynnydd cyffredinol mewn balansau wrth gefn fod cynghorau yng Nghymru yn llwyddo i gyflawni gwarged er gwaethaf yr heriau ariannol a wynebir ganddynt. Rhydd y fath warged gyfle i greu clustog ariannol a buddsoddi yn y gwaith o drawsnewid gwasanaethau yn ogystal â chefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau lleol. Fodd bynnag, ceir pryderon y caiff rhai cynghorau, heb strategaeth glir o ran defnyddio cronfeydd wrth gefn fel rhan o gynllun ariannol tymor canolig, eu beirniadu am gronni arian heb ddiben clir na chytûn.
- 17 Dengys ein dadansoddiad yr ystyrir bod gan y rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru ddigon o gronfeydd wrth gefn. Nodwyd bod cymhareb cronfeydd wrth gefn i Wariant Refeniw Gros nifer fach iawn o gynghorau yn dirywio, gan ddynodi bod cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i gefnogi gwariant refeniw, sy'n ddangosydd pwysig o straen ariannol. Yn achos y cynghorau hynny sydd â lefelau isel o gronfeydd wrth gefn i'w defnyddio, mae risg na fyddant yn gallu parhau i fantoli'r gyllideb os bydd cynlluniau arbed yn brin neu os bydd llithriant sylweddol ar y gyllideb yn sgil pwysau cost.

**Mae prosesau rheoli a rheolaethau ariannol yn gadarn yn y rhan fwyaf o gynghorau, er bod angen i lawer wella'r broses o bennu a monitro cyllidebau a sicrhau bod gan y tîm cyllid ddigon o allu ac adnoddau i ateb yr heriau a wynebir yn y dyfodol**

- 18 Roedd trefniadau cyffredinol ar gyfer prosesau a rheolaethau ariannol yn gadarn yn y rhan fwyaf o gynghorau a dylent fod yn sylfaen dda i gynghorau adeiladu arno er mwyn ymdrin â phwysau yn y dyfodol. Fodd bynnag, gwelsom mai cymysg oedd perfformiad a nodwyd risgiau sylweddol yn yr holl feysydd allweddol a adolygwyd gennym. Prin yw nifer y cynghorau sy'n manteisio i'r eithaf ar y potensial i gynhyrchu incwm. Yn bwysig, mae effeithiolrwydd prosesau pennu a rheoli cyllidebau a gallu ac adnoddau rheolwyr cyllid yn peri pryder mewn llawer o gynghorau.

**Er bod trefniadau llywodraethu ariannol yn weddol gadarn, mae ansawdd y wybodaeth am berfformiad a chostau a ddefnyddir a'r lefel o waith craffu a herio o fewn cynghorau yng Nghymru yn amrywio'n fawr, a all danseilio effeithiolrwydd y broses o wneud penderfyniadau**

- 19 Mae perfformiad cyfredol cynghorau ym maes llywodraethu ariannol yn well nag mewn meysydd eraill o waith rheoli ariannol a adolygwyd gennym. Fodd bynnag, ymhlith y meysydd gwan roedd goruchwyliaeth ac atebolrwydd mewn perthynas â sicrhau bod cynlluniau arbed yn cael eu cyflawni. Prin y ceir methiannau mawr ym maes llywodraethu, ond lle maent yn digwydd, gallant esgor ar ganlyniadau ariannol pellgyrhaeddol a chanlyniadau negyddol eraill. Mae adroddiad y Comisiwn ar Ddarparu a Llywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus (Ionawr 2014) yn tynnu sylw at rai o'r newidiadau y bydd eu hangen er mwyn cefnogi gwaith llywodraethu da ac effeithiol er mwyn ateb heriau diwygio llywodraeth leol yn y dyfodol a chyflawni'r gostyngiadau disgwylidig mewn cyllid.



Mae cynghorau o dan straen aruthrol ac ni fydd trefniadau rheoli ariannol a arferai fod yn ddigon da yn parhau i fod yn addas at y diben pan wynebir pwysau ariannol cynyddol

- 20 Mae trefniadau rheoli ariannol cynghorau yng Nghymru o dan bwysau mawr ac nid ydynt yn cyflawni canlyniadau ariannol cryf yn gyson. Awgryma profiad o ostyngiadau cyllidebol na fydd trefniadau rheoli a arferai fod yn ddigon da yn parhau i fod yn addas at y diben heb gryn esblygu.

Dengys profiad cynghorau yn Lloegr ei bod yn bosibl ymdrin yn effeithiol â gostyngiadau sylweddol mewn cyllid drwy ailddylunio modelau darparu gwasanaethau a ategir gan waith cynllunio ariannol soffistigedig

- 21 Er bod rhai cynghorau yn Lloegr yn wynebu trobwynt ariannol, mae'n galonogol bod y mwyafrif yn parhau i fod mewn sefyllfa ariannol gynaliadwy. Er mwyn cynnal sefyllfa ariannol sefydlog, bu'n rhaid ailystyried pa wasanaethau a ddylai gael eu darparu yn y bôn; pwy ddylai eu derbyn a pha fodelau a ddylai gael eu defnyddio i'w darparu er mwyn lleihau costau a gwella effeithlonrwydd. Yn ei thro, mae'r broses hon o ailddylunio gwasanaethau wedi gofyn am ddatblygu trefniadau rheoli ariannol hynod soffistigedig nad oeddent, bedair blynedd yn ôl, wedi'u dychmygu. O ystyried ymateb cynghorau i'r newid sylweddol yn Lloegr, rhaid i Gynghorau yng Nghymru ganolbwyntio ar ddatblygu eu modelau darparu ar gyfer y dyfodol a diwygio eu strwythurau darparu gwasanaethau er mwyn adlewyrchu'r model hwn. Os na wneir hyn, bydd mwy o risg na all cynghorau gyflawni eu cyfrifoldebau statudol a pharhau'n ariannol hyfyw.

# Argymhellion

## Argymhellion

Mae angen i gynghorau wneud tybiaethau hyddysg am daflwybr cyllid canolog yn y dyfodol lle nad oes canllawiau diffiniol a nodi rôl ddymunol y cyngor o fewn dewis fodel darparu ar gyfer y dyfodol.

[Adran 1]

### A1 Dylai cynghorau sicrhau bod eu cynllun corfforaethol:

- wrth wraidd y broses o lywio cynlluniau gwasanaeth a strategaethau ategol eraill gan gynnwys y gweithlu, technoleg gwybodaeth a gwariant cyfalaf;
- yn cynnal blaenolwg 3-5 mlynedd o leiaf a'i fod yn unol â'r cynllun ariannol tymor canolog a strategaethau ategol eraill; a
- dylai nodi'n glir rôl ddymunol y cyngor mewn pum mlynedd - y model ar gyfer darparu gwasanaethau â blaenoriaeth a'r seilwaith a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni blaenoriaethau yn y dyfodol o fewn y cyllid sydd ar gael.

Dylid rhagweld a lliniaru sefyllfaoedd ariannol andwyol yn erbyn y cynllun ariannol tymor canolog, gan gynnwys yr hyblygrwydd i ymdrin â risgiau gan ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a mesurau wrth gefn eraill.

[Adran 1]

### A2 Dylai cynghorau sicrhau bod eu cynllun ariannol tymor canolog yn nodi'r prif risgiau ariannol a thybiaethau allweddol a dylai uwch swyddogion a chynghorwyr graffu arnynt a'u herio'n effeithiol cyn mabwysiadu'r cynllun.

Rhaid i ofynion arbed blynyddol fod yn realistig ac yn gyflawnadwy ac osgoi 'ôl-lwytho' ym mlynnyddoedd olaf y cynllun ariannol tymor canolog. Dylai arbedion ym mlynnyddoedd olaf y cynllun ariannol tymor canolog ganolbwyntio ar brosiectau trawsnewid gwasanaethau y mae angen eu datblygu'n dda cyn unrhyw fudd ariannol a ragwelir.

[Adran 1]

### A3 Mae angen i gynghorau sicrhau bod diffygion ariannol yn cael eu rhagamcanu'n gywir a'u cysoni'n llawn â chynlluniau arbed manwl ar gyfer pob blwyddyn o oes y cynllun ariannol tymor canolog.

Bydd unrhyw fethiant i gyflawni arbedion arfaethedig yn cael effaith gronol ddifrifol ar allu cyngor i barhau i sicrhau cydnerthedd ariannol yn y dyfodol.

[Adran 1]

### A4 Dylai cynghorau gynnal adolygiad rheolaidd o ddigonolrwydd y trefniadau sicrwydd ariannol sy'n sail i gyflawni cynlluniau arbed blynyddol, gan gynnwys lefel y gwaith craffu a herio a gynigir gan gynghorwyr.

## Argymhellion

Dylai strategaeth cronfeydd wrth gefn fod yn rhan o'r cynllun ariannol tymor canolig a dylai ddangos yn glir y rhesymeg dros gronfeydd wrth gefn yn sgil risgiau ariannol. Dylai'r cynllun gynnwys polisi ar y defnydd o wargedion refeniw.

[Adran 1]

**A5 Dylai cynghorau sicrhau bod ganddynt strategaeth cronfeydd wrth gefn gynhwysfawr sy'n amlinellu diben penodol cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy cronedig fel rhan o'u Cynllun Ariannol Tymor Canolig.**

Gall gwell dealltwriaeth o incwm ar gyfer gweithgareddau cymorthdaledig helpu i lywio penderfyniadau ynghylch buddsoddi a darparu gwasanaethau. Dylai trefniadau rhannu elw â sefydliadau masnachol a masnacheiddio rhai o wasanaethau cynghorau hefyd fod yn rhan o drafodaethau cynllunio strategol.

[Adran 2]

**A6 Dylai cynghorau ddatblygu polisiau cwbl gorfforaethol ar gynhyrchu incwm.**

Bydd yn fwyfwy pwysig i systemau rheoli ariannol Cynghorau, gan gynnwys pennu a monitro cyllidebau, gael eu profi'n rheolaidd. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol ac yn rhoi sicrwydd i gynghorau bod eu systemau mewnol yn addas at y diben.

[Adran 2]

**A7 Dylai cynghorau**

- atgyfnerthu trefniadau pennu a monitro cyllidebau er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol; ac
- adolygu cwmpas ac effeithiolrwydd eu systemau a'u rheolaethau ariannol mewnol ac allanol er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn rhoi rhybudd cynnar am wendidau mewn systemau allweddol.

Dylai unrhyw gynnig i leihau gallu ac adnoddau'r tîm cyllid gael ei ystyried yn ofalus yn sgil yr angen am well sgiliau ariannol er mwyn rheoli'r heriau a wynebir gan gynghorau. Ymhlith y sgiliau hyn mae ymwybyddiaeth fasnachol a rheoli llifau arian parod, yn ogystal â'r gallu i ymgysylltu â chynghorwyr, rheolwyr gwasanaeth a'r cyhoedd. Mae angen i drefniadau recriwtio, cyflenwi a chynllunio olyniaeth gael eu hatgyfnerthu.

[Adran 2]

**A8 Rhaid i gynghorau adolygu eu timau cyllid a sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau a'r sgiliau cywir i fodloni gofynion yn y dyfodol.**

Profir effeithiolrwydd gwaith trosolwg a chraffu ariannol fwyfwy wrth i bwysau ariannol ddwysáu. Bydd angen i gynghorwyr ddod yn fwy medrus wrth ymdrin â risgiau ariannol a deall goblygiadau ariannol eu penderfyniadau. Bydd swyddogion cynghorau yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o helpu i baratoi a chefnogi cynghorwyr i fodloni'r disgwyliadau dyrys hyn.

[Adran 3]

**A9 Mae angen i swyddogion cynghorau sicrhau bod gan gynghorwyr y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni gwaith llywodraethu a herio effeithiol drwy ymestyn cyfleoedd hyfforddi a llunio gwybodaeth reoli o ansawdd uchel.**

## Rhan 1

Mae gan y rhan fwyaf o gynghorau weledigaeth glir ac maent yn pennu amcanion corfforaethol cydlynol ond mae angen iddynt sicrhau bod eu cynlluniau ariannol a gweithredol tymor canolig yn ddigon cydnaws i gyflawni eu hamcanion



- 1.1 Yn y rhan hon o'r adroddiad, canolbwyntiwn ar effeithiolrwydd trefniadau cynllunio ariannol strategol cyngorau. At ddibenion ein hadolygiad, rydym wedi defnyddio'r canlynol fel nodweddion allweddol gwaith cynllunio ariannol strategol effeithiol.

#### **Nodweddion gwaith Cynllunio Ariannol Strategol Effeithiol**

- Mae ffocws ar gyflawni blaenoriaethau corfforaethol yn amlwg drwy gydol y broses cynllunio ariannol.
- Mae'r cynllun ariannol tymor canolig yn sicrhau bod adnoddau yn canolbwyntio ar flaenoriaethau.
- Caiff prosesau cynllunio gwasanaethau a chynllunio ariannol eu hintegreiddio.
- Mae'r cynllun ariannol tymor canolig yn cynnwys mesur canlyniadau, cynllunio senarios, meincnodi, cynllunio adnoddau a manylion ar weithio mewn partneriaeth.
- Mae cynlluniau ariannol blynyddol yn dilyn strategaeth ariannol tymor hwy'r Cyngor.
- Cynhelir adolygiad rheolaidd o'r cynllun ariannol tymor canolig a'r tybiaethau ynddo. Mae'r Cyngor yn ymateb i amgylchiadau newidiol ac yn rheoli ei risgiau ariannol.
- Mae'r Cyngor wedi cynnal dadansoddiad sensitifrwydd o'i fodel ariannol gan ddefnyddio amrywiaeth o dybiaethau economaidd gan gynnwys effaith canllawiau cyllido llywodraeth ganolog.
- Mae'r cynllun ariannol tymor canolig yn gysylltiedig ac yn gyson â strategaethau allweddol eraill, gan gynnwys y gweithlu. Gall DPAau y dyfodol gael eu nodi o'r wybodaeth a gynhwysir o fewn y cynllun ariannol tymor canolig.
- Defnyddir system gyllidebu seiliedig ar sero i wella blaenoriaethau strategol yn ystod y cylch cynllunio ariannol.
- Mae trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli'r trysorlys.

## Mae'r rhan fwyaf o gynghorau wedi trosi eu gweledigaeth gorfforaethol yn set gydlynol o amcanion gwella ond ni wnaethant sicrhau bod y fframwaith cynllunio corfforaethol yn cefnogi'r broses gyflawni yn ddigonol

- 1.2 Yn ogystal â nodi'r blaenoriaethau ar gyfer trigolion a'r ardal leol, dylai strategaeth gorfforaethol cyngor hefyd gyfleu ei weledigaeth tymor canolig i hirdymor. Dylai'r weledigaeth hon gwmpasu'r gwasanaethau a ddarperir, y model ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn, sut y bydd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid a pha seilwaith ac adnoddau y bydd eu hangen er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau. Gall y fath weledigaeth glir helpu i osgoi proses datblygu strategol dameidiog, a all arwain at aneffeithlonrwydd.
- 1.3 Mae'n amlwg bod llawer o gynghorau yng Nghymru wedi ailystyried eu gweledigaeth a'u nodau yn sgil effaith caledi a llai o gyllid. Nodwyd nifer o themâu cyffredin ymhob cyngor wrth iddynt ddatblygu eu gweledigaeth a'u nodau strategol, gan gynnwys:
  - a mwy o ffocws ar ymgysylltu â'r gymuned;
  - b ffocws ar wasanaethau cynaliadwy;
  - c ffocws ar fodolau darparu amgen fel cydweithredu a darparu gwasanaethau a rennir; ac
  - ch yr angen i ailstrwythuro'r sefydliad a gwella diwylliant ac ymddygiadau o fewn y cyngor cyfan.
- 1.4 Roedd yn amlwg bod cynghorau yn ystyried bod y cyfnod o galedi yn gyfle i gyflwyno newidiadau strategol a gweithredol. Dylai'r awydd hwn i newid helpu i wella trefniadau rheoli ariannol. Nododd ein hadolygiad fod gan y rhan fwyaf o gynghorau drefniadau cynllunio strategol da ar gyfer datblygu amcanion gwella cadarn o fewn eu cynlluniau gwella. Fodd bynnag, nodwyd rhai themâu cyffredin mewn nifer o gynghorau, lle gellir atgyfnerthu'r trefniadau hyn. Yn arbennig, nid oedd amcanion gwella bob amser: yn rhai CAMPUS; yn glir o ran yr hyn y dylent eu cyflawni; neu wedi'u blaenoriaethu yng nghyd-destun blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a lleihau adnoddau.
- 1.5 Mae'n bwysig bod nodau corfforaethol yn cael eu trosi'n amcanion CAMPUS. Heb amcanion clir mae'n anodd mesur pa mor dda y mae cynghorau'n perfformio a ph'un a ymdrinnir â risgiau ai peidio. Mae methiant i ddatblygu amcanion CAMPUS hefyd yn gwneud cynlluniau gwasanaeth gweithredol yn llai effeithiol ac yn cyfyngu ar allu aelodau etholedig i ddwyn y rhai sy'n gyfrifol am gyflawni i gyfrif. Lle mae'n anodd sefydlu amcanion CAMPUS ar gyfer nod penodol gall hyn yn aml fod yn brawf da o ba mor gadarn yw'r nod corfforaethol mewn gwirionedd.

- 1.6 Mae'r fframwaith cynllunio corfforaethol yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r cynllun corfforaethol a'r holl gynlluniau ategol gan gynnwys y cynllun ariannol tymor canolig. Felly, mae angen i'r fframwaith fod yn gadarn er mwyn sicrhau bod y cynllun corfforaethol yn addas at y diben. Roedd gan leiafrif sylweddol o gynghorau wendidau yn eu trefniadau cynllunio, am nad oedd amcanion y cynllun corfforaethol na'r fframwaith cynllunio corfforaethol wedi'u rhyng-gysylltu'n effeithiol ac nid oedd y fframwaith cynllunio yn nodi'n glir sut y câi amcanion eu cyflawni.
- 1.7 Gwnaethom adolygu pa mor effeithiol y mae cynghorau yn cysylltu eu hamcanion gwella corfforaethol â chynlluniau darparu gwasanaethau a chynlluniau ariannol. Dangosodd tua thraean o gynghorau fod angen gwella ymhellach. Nodwyd nifer o themâu cyffredin, gan gynnwys y rhai canlynol:
- a diffyg eglurder o ran y ffordd roedd amcanion corfforaethol a gwasanaeth yn gyson â'r cynllun ariannol tymor canolig;
  - b nid oedd cysylltiadau rhwng amcanion corfforaethol a gwasanaeth wedi'u datblygu'n ddigonol ac nid oedd yn glir sut roedd yr amcanion wedi'u cysoni i gefnogi ei gilydd; ac
  - c nid oedd amcanion gwella wedi'u cysylltu'n ddigonol â chynlluniau arbed ariannol.
- 1.8 Mae angen i'r graddau y caiff amcanion gwella corfforaethol eu hadlewyrchu'n llawn mewn cynlluniau gwasanaeth ac ariannol gael eu gwella mewn llawer o gynghorau yng Nghymru. Dylai'r fframwaith cynllunio corfforaethol ddangos 'edau aur' clir sy'n nodi sut y caiff y broses o gyflawni amcanion corfforaethol ei hategu gan gynlluniau gwasanaeth, y cynllun ariannol tymor canolig a strategaethau ategol eraill. Heb fframwaith cydlynol a chadarn o'r fath, mae risg y caiff cynlluniau ategol eu datblygu mewn seilos, nad ydynt yn cefnogi nodau strategol cyffredinol ac y gallent hyd yn oed eu rhwystro rhag cael eu cyflawni. Dylai'r fframwaith cynllunio strategol gael ei ddefnyddio i sicrhau bod y cysylltiadau rhwng gwaith cynllunio strategol a gweithredol yn amlwg, hyd yn oed pan gaiff y dogfennau eu drafftio mewn gwahanol rannau o'r sefydliad.
- 1.9 Mae'r profiad a gafwyd yn Lloegr wedi dangos pa mor anodd y gall fod i drosi'r weledigaeth a'r nodau corfforaethol yn amcanion gweithredol cydlynol a all gael eu cyflawni. Ni ddylid tanamcangyfrif yr her hon. Mae'r cysylltiad rhwng y cynllun corfforaethol a strategaethau ategol eraill wedi bod yn faes sydd wedi gwella'n raddol dros y pedair blynedd o waith adolygu a wnaed gan Grant Thornton yn Lloegr. Mae cynghorau wedi dangos fwyfwy gysylltiadau effeithiol a chefnogol rhwng cynlluniau strategol, y cynllun ariannol tymor canolig a chynlluniau gwasanaeth; a chysylltiadau â strategaethau ategol fel rheoli'r trysortys, rhaglenni cyfalaf, tai, y gweithlu a meysydd eraill. Un mater allweddol oedd yr angen i sicrhau bod strategaethau ategol unigol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddarau gan sicrhau bod cynlluniau ategol yn cael eu diweddarau yn unol â diwygiadau i amcanion corfforaethol a'r cynllun ariannol tymor canolig.

## Er bod gan nifer o gynghorau yng Nghymru fframweithiau cynllunio ariannol effeithiol, mae angen iddynt sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben ac yn gwbl gydnaws â blaenoriaethau strategol tymor canolig

- 1.10 Mae cynlluniau strategol cadarn yn hanfodol i gydnerthedd ariannol cynghorau yn y dyfodol. Nododd ein dadansoddiad faterion pwysig yn y rhan fwyaf o'r meysydd allweddol a adolygwyd gennym. Oni chaiff trefniadau cynllunio eu hatgyfnerthu, bydd cynghorau yn ei chael yn fwyfwy anodd ymdrin â phwysau ariannol yn y dyfodol. Yn Lloegr, mae Grant Thornton wedi gweld trefniadau ariannol yn esblygu'n sylweddol mewn ymateb i'r fath bwysau. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi nodi bod y safon ofynnol ar gyfer sicrhau cydnerthedd ariannol wedi codi bob blwyddyn hefyd. Mae hyn yn golygu bod methiant i esblygu yn arwain at drefniadau ariannol llai effeithiol a dirywiad cyfatebol yn y sefyllfa ariannol.
- 1.11 Nododd ein gwaith fod gan tua hanner y Cynghorau yng Nghymru fframweithiau cynllunio ariannol effeithiol a oedd â chysylltiad clir â chynlluniau arbed ac a oedd wedi'u hamlinellu dros gyfnod rhesymol o amser. Mae'n bwysig pwysleisio y bydd angen i hyd yn oed y rhai sydd â fframweithiau cynllunio ar hyn o bryd, yr ystyrir eu bod yn effeithiol, esblygu er mwyn ymateb i heriau ariannol yn y dyfodol. Nodwyd sawl maes lle mae angen gwella trefniadau cynllunio ariannol strategol. Yn arbennig, dylai cynghorau sicrhau bod y fframwaith cynllunio yn gwneud cysylltiadau clir rhwng amcanion cynlluniau corfforaethol a gofynion cynllunio ariannol; a bod cynlluniau ariannol yn nodi atebion clir a blaengar i'r heriau tymor canolig y mae'r Cyngor yn disgwyl eu hwynebu.
- 1.12 Mae profiad cynghorau yn Lloegr wedi tanlinellu pwysigrwydd sefydlu fframwaith cynllunio ariannol cadarn sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion corfforaethol cyngor. Heb y fath eglurder, bydd cynlluniau ariannol yn aml yn methu â chefnogi'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol hyn. Mae gwaith Grant Thornton yn Lloegr hefyd wedi tanlinellu pwysigrwydd sefydlu gorwel cynllunio ariannol tymor canolig i hirdymor, gyda niferoedd cynyddol o gynghorau yn Lloegr yn creu gorwel cynllunio ariannol 3-5 mlynedd yn eu modelau ariannol, gyda rhai yn edrych hyd at 10 mlynedd i'r dyfodol. Un o'r rhwystrau canfyddedig i hyn yn Lloegr fu amharodrwydd i gynllunio yn wyneb ansicrwydd am setliadau cyllido yn y dyfodol neu hyd yn oed bolisi'r llywodraeth yn y dyfodol.
- 1.13 Er bod angen taro cydbwysedd mewn perthynas â'r adnoddau ariannol i'w hymrwymo, yn gyffredinol, mae'r cynghorau hynny yn Lloegr sydd wedi gwneud tybiaethau da am doriadau yn y dyfodol wedi bod mewn sefyllfa dda i gyflawni prosiectau trawsnewid gwasanaeth lle na chaiff y budd ariannol ei weld yn aml am sawl blwyddyn. Mae'r cynghorau hynny yn Lloegr sydd heb orwel cynllunio digon hir wedi canfod eu bod dan bwysau i gyflawni buddiannau ariannol trawsnewid mewn da bryd i gwmpasu diffygion rhagamcanol.



## Er bod gan bob cyngor gynllun ariannol tymor canolig ar waith, cymysg fu ansawdd a chadernid y cynlluniau

- 1.14 Mae'r cynllun ariannol tymor canolig yn elfen allweddol o fframwaith cynllunio corfforaethol effeithiol. Gwnaeth ein hadolygiad hefyd ystyried p'un a yw cyllideb flynyddol y Cyngor yn llifo o'r strategaeth ariannol tymor hwy ac yn dylanwadu arni. Perfformiodd cynghorau yn well yn y maes hwn, gyda bron dwy ran o dair ohonynt yn cysylltu cyllidebau blynyddol â'r cynllun ariannol tymor canolig yn ddigonol. Roedd y cynghorau hynny sy'n llunio cynlluniau ariannol tymor canolig am y tro cyntaf yn dueddol o ddangos mwy o risg gan eu bod yn dal i ddatblygu cysylltiadau clir â chyllidebau blynyddol. Lle ceir gwahaniaethau rhwng y gyllideb flynyddol a'r cynllun ariannol tymor canolig, mae'n aml yn deillio o'r ffaith bod gwendidau mewn tybiaethau o ran y cynllun hwnnw neu fod methiant i adolygu a diweddarau'r cynllun er mwyn adlewyrchu'n well amgylchiadau'r Cyngor a'i amgylchedd gweithredol.
- 1.15 Er bod gan bob cyngor gynllun ariannol tymor canolig ar waith, amrywiol fu ansawdd a chadernid y cynlluniau. Ymhlith y gwendidau cyffredin roedd tybiaethau o fewn y cynllun ariannol tymor canolig a oedd yn rhy optimistaidd a heb gael eu herio'n ddigonol gan bwyllgorau cynghorau, a chynlluniau ariannol tymor canolig nad oeddent wedi'u hintegreiddio'n llawn â chynlluniau corfforaethol, y fframwaith adrodd ar berfformiad na'r amcanion gwella. Dylai'r cynllun ariannol tymor canolig gysylltu'r strategaeth gorfforaethol â'r broses o bennu cyllideb. Dylai'r fath gysylltu sicrhau bod unrhyw benderfyniadau am ddiwygio cyllidebau, gostyngiadau a buddsoddiadau yn gyson ag amcanion gwella corfforaethol. Lle nad yw hyn yn digwydd, mae'n arwydd cryf o wendidau yn y fframwaith cynllunio corfforaethol a chadernid y cynllun ariannol tymor canolig. Dim ond traean o'r cynghorau yng Nghymru yr ystyriwyd bod ganddynt drefniadau digonol ar waith a oedd yn cysoni'r gwaith o bennu cyllideb yn llawn â chyflawni'r weledigaeth gorfforaethol, y nodau a'r amcanion gwella.

### Maes o arfer da wedi'i nodi - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Er mwyn ei helpu i flaenoriaethu gwasanaethau, cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ymarfer blaenoriaethu gwasanaethau yn cynnwys cynghorwyr yn 2010. Drwy gynnal yr ymarfer hwn bu modd i'r Cyngor weld pa gyfran o'i gyllideb a oedd wedi'i dyrannu i gyflawni pob un o flaenoriaethau'r Cyngor. Cynhaliwyd yr ymarfer hwn mewn blynyddoedd wedyn er mwyn sicrhau mai dim ond ar sail achosion busnes cadarn y defnyddir adnoddau ychwanegol, a'u bod yn cael eu cyfeirio at y meysydd gwasanaeth â blaenoriaeth, sydd, mewn tro, yn gysylltiedig â'r meysydd effeithlonrwydd/arbed y mae'r Cyngor wedi'u nodi bob blwyddyn.

## Nid yw'r defnydd o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ariannol o fewn Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig er mwyn monitro a rheoli perfformiad wedi'i ddatblygu digon ac mae'n wael

- 1.16 Gall y defnydd o DPAau o fewn y cynllun ariannol tymor canolig fod yn ddefnyddiol i fesur cynnydd a chydnerthedd ariannol, yn enwedig ar gyfer materion pwysig fel hylifedd, elw o fuddsoddi a lefelau benthyca. Dengys ein dadansoddiad fod datblygiad a defnydd DPAau priodol o fewn cynlluniau ariannol tymor canolig yn un o'r meysydd lle mae angen i gynghorau gwella, ac mae'r rhan fwyaf wedi'i chael yn anodd.
- 1.17 Nododd ein hadolygiad nad oedd rhai cynghorau wedi datblygu unrhyw DPAau ac nad ydynt yn ddigon aeddfed i ddefnyddio gwybodaeth am berfformiad er mwyn ategu'r broses o wneud penderfyniadau. Mae'r gwendidau hyn yn atal aelodau rhag craffu ar berfformiad, a hyd yn oed lle mae gan gynghorau DPAau ar gyfer darparu gwasanaethau a pherfformiad ariannol, ni chânt eu nodi'n amlwg o fewn y cynllun ariannol tymor canolig. Mae'r defnydd o DPAau o fewn cynlluniau ariannol tymor canolig yn amrywio yn Lloegr yn ogystal â Chymru ac mae'n dueddol o weithio orau pan fydd y DPAau wedi'u pennu gan gyfeirio at wybodaeth feincnodi allanol.
- 1.18 Wrth i ni gyflawni mwy o waith ar gydnerthedd ariannol cynghorau, bwriadwn weithio gyda chynghorau i ddatblygu mesurau allweddol o ran eu sefyllfa ariannol a pherfformiad y gweithlu sy'n debyg i'r hyn a wnaed gan Grant Thornton yn Lloegr. Diben gwneud hyn fydd cyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar gydnerthedd ariannol a byddwn yn trafod y fethodoleg rydym yn bwriadu ei defnyddio gyda chynghorau a rhanddeiliaid eraill yn y misoedd nesaf.

## Caiff Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig eu hadolygu'n rheolaidd, ond erys rhai gwendidau yn y defnydd o senarios a thybiaethau

- 1.19 Cafodd cynllun ariannol tymor canolig pob cyngor ei adolygu o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn ariannol gan Bwyllgor Craffu a/neu'r Cabinet. Fodd bynnag, nodwyd nifer o wendidau o ran y trefniadau hyn mewn sawl cyngor, gan gynnwys y canlynol:
  - a ni phrofwyd y cynllun ariannol tymor canolig o dan senarios ariannol gwahanol er mwyn asesu effaith amrywiadau yn y thybiaethau gan ei gwneud yn anodd pennu cadernid y cynllun; ac
  - b roedd camau yn dal i gael eu cymryd i ymdrin ag argymhellion y Cabinet a/neu'r Pwyllgor Craffu ar ôl iddynt adolygu'r cynllun ariannol tymor canolig ar adeg ein hadolygiad a oedd yn creu mwy o risg yn enwedig o ran cyflawni arbedion.

- 1.20 Dros y pedair blynedd diwethaf, un o'r meysydd allweddol ar gyfer gwella a wnaed gan gynghorau yn Lloegr fu gallu'r cynllun ariannol tymor canolig i amsugno risgiau ariannol. Disgwyliwyd senarios ariannol andwyol fwyfwy, a chymerwyd camau i'w lliniaru, a gwelodd hyblygrwydd y cynllun ariannol tymor canolig i ymdrin â senarios nas rhagwelwyd eto. Erbyn hyn, mae'r cynlluniau ariannol tymor canolig gorau yn cynnwys trafod risgiau ariannol ac effaith gwahanol senarios ariannol a sensitifrwydd yn y sylwebaeth naratif, yn aml yng nghyd-destun cyfiawnhau'r tybiaethau a ddefnyddiwyd wrth gytuno ar y cynllun ariannol tymor canolig.
- 1.21 Mantais gwneud hyn fu mwy o ymwybyddiaeth o'r angen am strategaethau lliniaru. Mae llawer o gynghorau wedi neilltuo cryn dipyn o gronfeydd wrth gefn i gynnis yr hyblygrwydd hwn ac maent yn aml wedi cynnwys rhagor o fesurau wrth gefn yn eu cyllidebau blynyddol. Mae nifer o gynghorau yn Lloegr wedi cael budd o'u polisi o gyflawni arbedion cyn bod angen ac yna ddileu'r arbedion o ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd. Golyga hyn fod cynlluniau arbed a gyflawnir yn gynnar yn darparu arian ychwanegol a all gael ei gadw mewn cronfeydd wrth gefn neu ei ddefnyddio i ymdrin â phwysau cyllidebol eraill. Mae eraill wedi cael budd o gyllidebu elw o fuddsoddi, ac incwm arall, yn seiliedig ar adenillion senario achos gwaethaf a chan ddisgwyl y bydd incwm yn uwch na'r lefelau a dybiwyd neu a gynlluniwyd. Cyn belled ag y caiff y defnydd o incwm ychwanegol i ariannu gorwariant ei adrodd mewn modd tryloyw (yn gorfforaethol a chan wasanaethau) gall hyn fod yn ffordd dda o ychwanegu cydnerthedd i gynlluniau Cynghorau.

## **Er bod gan y rhan fwyaf o gynghorau hanes da o ragamcanu diffygion yn y gyllideb a'u bod yn cydnabod pwysigrwydd cynllun arbed wedi'i ddiffinio'n llawn, gwnaeth nifer gynyddol danamcangyfrif faint o arbedion a oedd yn ofynnol erbyn 31 Mawrth 2014**

- 1.22 Ledled Cymru, gwnaeth mwy o gynghorau ei chael yn anodd rhagfynegi'n gywir y diffygion cyllidebol y byddai angen iddynt ymdrin â hwy erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2013-14. Fodd bynnag, roedd y gwahaniaeth rhwng y lefelau disgwyliedig o arbedion a oedd yn ofynnol ar adeg pennu'r gyllideb a'r rhai a oedd yn angenrheidiol mewn gwirionedd yn ystod y flwyddyn yn gymharol fach yn y rhan fwyaf o achosion, gan olygu bod y risg ariannol a wynebwyd gan y cynghorau hyn yn gyfyngedig.
- 1.23 Llwyddodd nifer gynyddol o gynghorau i sicrhau bod diffygion yn y gyllideb wedi'u cwmpasu gan arbedion arfaethedig a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol. Lle na chwmpaswyd diffygion gan arbedion arfaethedig, ariannodd cynghorau unrhyw ddiffygion ychwanegol drwy ragor o arbedion ad-hoc. Ar y cyfan, nid oedd y diffygion ychwanegol hyn nas cynlluniwyd o unrhyw werth sylweddol mewn sawl achos.

- 1.24 Mae'r rhan fwyaf o gynghorau yn dal i ragfynegi'n gywir ddiffygion yn y gyllideb wrth lunio eu cynlluniau ariannol. Gwellwyd y broses o nodi diffygion yn y gyllideb rhwng 2011-12 a 2012-13, er, yn 2013-14, lleihaodd nifer y cynghorau a oedd yn rhagfynegi diffygion yn gywir ychydig. Y prif reswm dros y dirywiad hwn yw'r pwysau cynyddol ar gynghorau i gyflawni arbedion cymeradwy'r flwyddyn flaenorol tra hefyd yn nodi arbedion ychwanegol pellach mewn blynyddoedd i ddod. Gall fod pwysau i ragfynegi mwy o arbedion, sy'n dod yn fwyfwy anodd eu gwireddu gan fod yr opsiynau arbed hawsaf eisoes wedi'u cymryd.
- 1.25 Yn Lloegr, nododd gwaith Grant Thornton fod y rhan fwyaf o gynghorau wedi bod yn gymharol lwyddiannus wrth ragfynegi diffygion yn y gyllideb. Bu tuedd gyffredinol i ddefnyddio senarios ariannol achos gwaethaf fel sail ar gyfer tybiaethau'r cynllun ariannol tymor canolig, sydd wedi cyfrannu at amllder gwargedion heb eu cynllunio a chynnydd felly yn lefel y cronfeydd wrth gefn yn Lloegr. Er bod y fath 'ddarbodusrwydd' yn well na senarios ariannol sy'n rhy optimistaidd, mae gan gynghorau rwymedigaeth i dalwyr y dreth gyngor i ragamcanu canlyniadau ariannol mor gywir â phosibl er mwyn cyfyngu ar gynnydd posibl yn y dreth gyngor.
- 1.26 Gwnaethom hefyd edrych i weld a oedd gan gynghorau yng Nghymru unrhyw ddiffygion cyllidebol nad oedd modd ymdrin â hwy a bod angen llunio cynlluniau arbed manwl o hyd er mwyn dangos sut yr aed i'r afael â'r rhain ar adeg cymeradwyo'r gyllideb. Rhwng 2011-12 a 2012-13, dangosodd y rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru lefelau da o berfformiad yn y maes hwn, a chafodd ffynhonnell yr arbedion ei nodi'n gyffredinol ar adeg pennu'r gyllideb. Fodd bynnag, yn 2013-14, roedd nifer gynyddol o gynghorau yn dal i ddatblygu cynlluniau arbed manwl ar adeg cymeradwyo'r gyllideb.
- 1.27 Yn 2013-14, roedd cynghorau â bylchau yn eu cynlluniau arbed yn dueddol o fod yn gyfyngedig i'r rhai nad oeddent wedi rhagfynegi'n gywir y diffyg cyllidebol y byddent yn ei wynebu ar ddiwedd y flwyddyn. Nid oedd hyn o reidrwydd yn wir mewn blynyddoedd blaenorol. Er enghraifft, yn 2012-13, llwyddodd nifer o gynghorau i nodi diffyg cyllidebol ond ni allent ddiffinio cynlluniau arbed i werth llawn y diffyg hwnnw. Awgryma hyn, erbyn 2013-14, fod mwy o gynghorau yn cydnabod yr angen i ddechrau'r flwyddyn ariannol â chynllun arbed wedi'i boblogeiddio'n llawn.
- 1.28 Yn Lloegr yn 2013-14, nododd Grant Thornton fod y rhan fwyaf o gynghorau wedi datblygu cynlluniau arbed yn llawn, gan gwmpasu gwerth llawn y diffyg a ragfynegwyd yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn honno. Mae mwy a mwy o gynghorau hefyd wedi datblygu cynlluniau arbed sy'n cwmpasu'r bwlch a ragfynegir yn y gyllideb yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar gyfer y cynllun ariannol tymor canolig mewn blynyddoedd i ddod. Mae gweld cynghorau yn rhagfynegi bylchau mewn cyllid yn y dyfodol yn welliant sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf, lle'r oedd yn gyffredin i rai cynghorau ddechrau'r flwyddyn ariannol heb ddealltwriaeth lawn o sut y gwneid iawn am y diffyg yn y gyllideb. Mae llawer o gynghorau yn Lloegr

yn dal i'w chael yn anodd datblygu cynlluniau arbed manwl y tu hwnt i'r flwyddyn gyfredol, yn arbennig y tu hwnt i'r ail flwyddyn. Lle gwneir hyn, mae'n dueddol o fod yn gysylltiedig â phrosiectau trawsnewid tymor hwy lle cyflwynir y budd ariannol dros sawl blwyddyn.

### **Mae'r rhan fwyaf o gynghorau wedi rhagweld y bwlch mewn arbedion ar gyfer 2014-15 a thu hwnt ond, mewn sawl achos, nid yw tybiaethau na threfniadau cynlluniau arbed yn gadarn ac mae angen eu datblygu'n sylweddol**

- 1.29 Er i'r rhan fwyaf o gynghorau nodi'r bwlch rhagamcanol mewn cyllid y byddai angen i'w cynlluniau arbed ei lenwi ar gyfer 2014-15 a thu hwnt, ni wnaeth nifer sylweddol nodi digon o arbedion i lenwi'r bwlch hwn. Gwnaethom hefyd nodi nifer fach o gynghorau lle'r oedd perfformiad gwael wrth gyflawni cynlluniau arbed blynyddoedd blaenorol yn cael effaith sylweddol ar eu cydnerthedd ariannol ac roedd angen llenwi'r bwlch ariannol mewn ffyrdd eraill, er enghraifft o'u cronfeydd wrth gefn.
- 1.30 Mae cadernid tybiaethau cynlluniau arbed a chynllunio camau gweithredu yn wan, o'i famu yn erbyn egwyddorion CAMPUS, ac mae angen i bob cyngor ddatblygu ei drefniadau'n sylweddol er mwyn gwella ei berfformiad ariannol. Nodwyd, er bod gan bron dwy ran o dair o gynghorau drefniadau digonol i nodi diffygion ariannol posibl, ystyriwyd bod gan dros draean wendidau o ran cywirdeb a natur gyflawnadwy eu cynlluniau arbed. Yn arbennig, gwelsom fod rhai cynghorau yn dal i ymateb i gyhoeddiad y Llywodraeth am ostwng lefelau Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2014-15 ac roeddent yn hwyr yn nodi diffygion y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol nesaf. Nid oedd eu cynlluniau ar gyfer ymdrin â'r bwlch mewn arbedion ar gyfer 2015-16 yn glir ac roeddent yn dal i'w chael yn anodd cyflawni eu targedau arbed. Ceir pryderon difrifol am allu ac adnoddau'r cynghorau hyn i gyflawni arbedion yn y dyfodol.
- 1.31 Ystyriwyd bod chwarter y cynghorau yn wynebu risg o fethu â lliniaru diffygion mewn arbedion heb fynd islaw'r trothwy cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy y cytunodd y cyngor arno, a allai gael effaith sylweddol ar weithrediadau. Y prif reswm dros hyn oedd y ffaith nad oedd gan gynghorau ddigon o gronfeydd wrth gefn i wneud iawn am ddiffygion mewn arbedion yn y dyfodol gan fod y cronfeydd wrth gefn wedi cael eu defnyddio yn y gorffennol i ymdrin â bylchau mewn cyllid. Hefyd, roedd cynnydd yn y dreth gyngor eisoes wedi cael ei gynnwys mewn cynlluniau arbed yn y dyfodol er mwyn cynyddu incwm y cyngor ac, felly, ystyried bod unrhyw gynnydd pellach yn y dreth gyngor yn annerbyniol i ymdrin ag unrhyw ddiffygion mewn arbedion. Hefyd, roedd cynlluniau arbed yn cynnwys gwendidau ac nid oedd y cynlluniau yn "dwyn ymlaen" ddigon o arbedion cynnar i wrthbwyso diffygion yn y gyllideb.

- 1.32 Yn Lloegr, nododd Grant Thornton mai'r risg cynllunio ariannol fwyaf nodedig yn 2013-14 oedd graddau'r arbedion yr oedd angen eu cyflawni dros oes y cynllun ariannol tymor canolig, yn enwedig lle nad yw'n glir sut y cyflawnir y rhain. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid yw rhai o'r arbedion, os nad pob un, i'w cyflawni yn 2015-16 a thu hwnt wedi'u diffinio eto. Mewn achosion eraill, mae'r amserlen fer ar gyfer cyflawni arbedion yn bryder mawr. Hefyd, mae rhai cynghorau yn dal i ddibynnu gormod ar frigidorri cyllidebau yn hytrach na chynlluniau trawsnewidiol ac, i nifer fach o gynghorau, bydd 2015-16 yn drobwyt ariannol oni wneir gwelliannau radical i'r ffordd y caiff arbedion eu cynllunio a'u cyflawni.
- 1.33 I gynghorau yng Nghymru, y wers allweddol o brofiad Lloegr yw pwysigrwydd datblygu cynlluniau arbed a chynlluniau trawsnewid gwasanaethau cadarn sydd mor fanwl â phosibl a gyflawnir yn llawn mewn cyfnod rhesymol. Fel y gwel nifer fach o gynghorau yn Lloegr bellach, os na chaiff diffygion rhagamcanol eu nodi ac os nad ymdrinnir â hwy'n gywir, mae risg wirioneddol y gall y diffyg cronol a ddygwyd ymlaen arwain at fethiant ariannol.

**Ar y cyfan, bu'r tybiaethau ariannol o fewn cynlluniau arbed cynghorau yn destun peth gwaith herio a chraffu gan gynghorwyr, ond mae gwendidau yn y wybodaeth a ddefnyddir i fonitro perfformiad yn tanseilio trefniadau atebolrwydd**

- 1.34 Ar y cyfan, bu'r tybiaethau ariannol a fabwysiadwyd gan gynghorau fel rhan o'u cynlluniau arbed cyfredol yn destun gwaith herio a chraffu gan uwch reolwyr a chynghorau. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nifer o themâu allweddol y mae angen eu gwella. Er enghraifft, yn aml mae gan gynlluniau:
- a ragolwg optimistaidd o'r dyfarniad cyflog cenedlaethol, gyda chynghorau yn defnyddio eu hamcangyfrif gorau o gynnydd mewn cyflogau cenedlaethol;
  - b diffyg manylder yn sail i dybiaethau;
  - c meincnodi cyfyngedig o ran tybiaethau yn erbyn cynghorau eraill, yn enwedig ffioedd a thaliadau;
  - ch diffyg cysondeb o ran y ffordd y defnyddiodd swyddogion dybiaethau o fewn cyfarwyddiaethau; a
  - d chynlluniau arbed yn canolbwyntio ar gost yn hytrach na chost-efeithiolrwydd a gwerth am arian.
- 1.35 Mae'r gwendidau hyn yn ei gwneud yn anodd i aelodau graffu ar berfformiad a'i herio a dwyn uwch swyddogion a swyddogion gweithredol i gyfrif. Mae problem craffu gwael yn hynod bwysig am i Grant Thornton ganfod yn Lloegr fod rhai cynghorau wedi goramcangyfrif cyfraniad arbedion (a chynhyrchu incwm) wrth fantoli'r gyllideb. Bu hyn yn welliant sylweddol ac, erbyn 2013-14, roedd y rhan fwyaf o gynghorau yn Lloegr yn gwneud amcangyfrifon mwy cadarn yn hyn o beth, er bod gan leiafrif sylweddol wendidau yn eu trefniadau ar gyfer cyflawni arbedion.

## Dengys cyngorau yn Lloegr berfformiad cymysg wrth ddatblygu cynlluniau arbed sy'n dilyn egwyddorion CAMPUS

- 1.36 Er i ychydig dros hanner y cyngorau yng Nghymru fabwysiadu cynlluniau arbed CAMPUS, nododd ein hadolygiad nad oedd llawer o gynghorau wedi pennu mesurau realistig na phenodol i gyflawni arbedion o fewn yr amserlenni a bennwyd. Mae hyn yn peri pryderon ynghylch gallu rhai cyngorau i gyflawni prosiectau trawsnewidiol mawr.
- 1.37 Un o'r prif wendidau yng nghynlluniau arbed cyngorau yw eu cyflawnadwyedd. Nododd ein hadolygiad mai dim ond traean o gynghorau sydd â chynlluniau arbed sy'n gyflawnadwy o ran gwerth yn ein barn ni ac mae gan lai na chwarter gynlluniau lle mae'r rhan fwyaf o'r arbedion yn debygol o gael eu cyflawni ar amser yn ein barn ni.
- 1.38 Mae'r rhan fwyaf o gynghorau yn dal i'w chael yn anodd cyflawni'r holl arbedion a nodwyd ganddynt yn llawn. Nodwyd nifer o wendidau cyffredin yn y maes hwn yn ymwneud â'r canlynol:
- a Gwybodaeth gyfyngedig am gynlluniau arbed unigol a sut y cânt eu cyflawni o fewn yr amserlenni a bennwyd.
  - b Cynigion â diffyg mesurau wrth gefn o ran llithriant, gan gynnwys dadansoddiad effaith o'r bwlch mewn arbedion a sut y bydd cynghorau yn ariannu unrhyw lithriant byrdmor.
  - c Dadansoddiad gwael o sensitifrwydd, yn enwedig o ran senarios achos gwaethaf os na chyflawnir yr arbedion yn 2014-15 a pha opsiynau sydd ar gael i'r Cyngor o ran cymryd camau cywirol.
  - ch Pwysau sylweddol o ran y galw am wasanaethau (gwasanaethau i oedolion yn bennaf) a nodir yn nifer o gynlluniau arbed cyngorau ond nad ydynt yn aml yn fanwl nac yn nodi'n glir sut y caiff y pwysau hwn ei liniaru erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
  - d Diffygion o ran goruchwyllo a herio arbedion. Er enghraifft, methu â chyflwyno cynlluniau arbed unigol ar wahân na'u dadansoddi mewn adroddiadau rheoli cyllid, sy'n ei gwneud yn anodd craffu ar berfformiad pan nad yw cynlluniau arfaethedig yn cyflawni'r arbedion disgwylidiedig.
- 1.39 Yn ein barn ni, y gwendidau hyn mewn cynlluniau arbed yw'r her bwysicaf sy'n wynebu cynghorau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yng Nghymru a Lloegr.


- 1.40 O gymharu â hynny, gwelodd Grant Thornton fod llawer o gynghorau yn Lloegr bellach wedi sefydlu trefniadau cymharol gadarn i gefnogi'r gwaith o gyflawni eu cynlluniau arbed. Y sbardun mwyaf cyffredin i wynebu mwy o risg o fewn cynghorau yn Lloegr yw'r methiant i ddatblygu cynlluniau arbed penodol y tu hwnt i flwyddyn. Yn Lloegr, mae hyn yn hynod aciwt, gan fod yr arbedion cymharol hawdd wedi'u cyflawni ac mae angen i gynghorau ddibynnu ar gynlluniau trawsnewidiol tymor hwy er mwyn mynd i'r afael â'r pwysau sylweddol ar y gyllideb a wynebant. Dywedodd Grant Thornton fod trawsnewid gwasanaethau a chefn swyddfa yn cymryd amser, blynyddoedd lawer yn aml. Bydd y rhai nad yw'r cynlluniau hyn ar waith ganddynt eto yn wynebu risg.
- 1.41 Mae'r gallu i reoli cynlluniau arbed yn ofalus wedi dod yn rhagofyniad rheoli ariannol llwyddiannus. Mae gwaith rheoli rhaglen neu brosiect corfforaethol ar gynlluniau mawr yn un o nodweddion y cynghorau hynny sydd wedi llwyddo i gyflawni arbedion mawr hyd yn hyn. Mae adroddiadau cynnydd seiliedig ar risg soffistigedig a datblygu cynlluniau wrth gefn hefyd yn dod yn nodweddion fwyfwy pwysig.
- 1.42 Ymhlith rhai o'r datblygiadau allweddol a welwyd mewn cynghorau yn Lloegr dros y pedair blynedd diwethaf sy'n fodd i gyflawni arbedion effeithiol mae'r canlynol:
- a Cynnydd mewn rhaglenni trawsnewid neu newid ffurfiol sy'n ystyried holl weithrediadau'r cyngor ac yn sefydlu llifau gwaith er mwyn datblygu cynlluniau manwl o dan nifer o benawdau thema.
  - b Adolygiadau manwl o wasanaethau er mwyn gwerthuso cyfleoedd i ddarparu gwasanaethau yn fwy effeithlon, gan gynnwys ystyried modelau darparu amgen.
  - c Defnyddio Swyddog Rheoli Prosiect i reoli cynlluniau mawr - fel rheol gan gynnwys strwythur llywodraethu ar wahân, atebolrwydd clir, arbenigwyr rheoli prosiect a chyfranogiad pob gwasanaeth.
  - ch Defnyddio achosion busnes safonol a deunyddiau ategol eraill.
  - d Newid diwylliannol sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ariannol ar bob lefel rheoli staff o fewn gwasanaethau'r cyngor, wedi'i ategu'n aml gan atebolrwydd ariannol cadarnach a sgiliau rheoli o fewn gwasanaethau unigol.
  - dd Trefniadau llywodraethu cryf a arweinir gan gynghorwyr i oruchwylio'r broses o gyflawni arbedion, sy'n adrodd ar gyflawni cynlluniau arbed ar wahân i adrodd ar y gyllideb ac yn nodi'r diffyg a sut y caiff y bwllch mewn arbedion ei gau.
  - e Cyflawni mwy o arbedion er mwyn manteisio i'r eithaf ar y warged bosibl a all gael ei buddsoddi neu ei defnyddio i gynyddu cronfeydd wrth gefn. (Yn wahanol i'r hyn sy'n digwydd yn gyffredin o fewn cynghorau yng Nghymru lle caiff arbedion eu cyflwyno'n raddol yn ystod y flwyddyn er mwyn cyflawni'r alldro arfaethedig, nad yw'n gadael fawr ddim lle i lithiant).



## Er gwaethaf y pwysau ariannol sylweddol a wynebir gan bob cyngor, mae cronfeydd wrth gefn yn parhau i gynyddu ac mae angen i gynghorau sicrhau bod ganddynt strategaethau clir ar waith ar gyfer creu a defnyddio cronfeydd wrth gefn wrth lunio eu cynlluniau ariannol tymor canolig

- 1.43 Ar yr wyneb, mae tuedd barhaus o gynydd ym malansau cronfeydd wrth gefn cyfartalog cynghorau yn awgrymu mai dyma un o'r meini prawf sy'n perfformio orau o ran cydnerthedd ariannol yng Nghymru. Fodd bynnag, er y tybiwyd, at ddiben y dadansoddiad hwn, fod lefelau uchel o gronfeydd wrth gefn yn arwydd o gydnerthedd ariannol cryf, mae'r darlun hwn yn fwy cymhleth. Nid yw cynyddu cronfeydd wrth gefn heb ddiben clir yn ddefnydd effeithiol o adnoddau.
- 1.44 Mae'n ofynnol i gynghorau ddal amrywiol fathau o gronfeydd wrth gefn, y gellir defnyddio rhai ohonynt i ategu gwariant ac eraill na ellir eu defnyddio, gan eu dal at ddibenion cyfrifyddu technegol yn unig. Caiff y rheini y gellir eu defnyddio ac sydd wedi'u hategu gan arian parod naill ai eu dal mewn perthynas ag ymrwymadau neu bwysau cost penodol (cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi) neu fel sicrwydd yn erbyn gwariant neu ddigwyddiadau annisgwyl (cronfa'r cyngor neu gronfeydd cyffredinol wrth gefn).
- 1.45 Fel y gellir gweld o **Ffigur 1**, mae lefel gyffredinol y cronfeydd wrth gefn a ddelir gan gynghorau yng Nghymru wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn 2013-14, cynyddodd cronfeydd cyffredinol wrth gefn £15.2 miliwn a chynyddodd cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi £49.0 miliwn. Mae'r cynnydd hwn yn annisgwyl i ryw raddau, gan fod cynghorau wedi datgan ddwy flynedd yn ôl eu bod yn disgwyl i gronfeydd wrth gefn leihau'n sylweddol yn 2013-14. Fodd bynnag, gall hyn fod oherwydd cyfuniad o faterion gan gynnwys amseru gostyngiadau i'r gyllideb, cyflawni arbedion ariannol neu gynlluniau bwriadol i gynyddu cronfeydd wrth gefn er mwyn rheoli risgiau yn y dyfodol.
- 1.46 Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yw elfen fwyaf cyfanswm y cronfeydd wrth gefn ac mae'n cynnwys balansau a symiau a neilltuwyd ar gyfer costau cyflog cyfartal neu statws sengl, yswiriant, taliadau PFI, cyllid ar gyfer cynlluniau cyfalaf neu waith atgyweirio ac adnewyddu, ymhlith eitemau eraill. Mae swm y cronfeydd cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn, wedi'u clustnodi fel canran o'r gwariant refeniw gros, yn amrywio'n sylweddol rhwng cyrff archwiliedig.
- 1.47 Gall cyrff archwiliedig bennu graddau'r cronfeydd wrth gefn a ddelir ganddynt yn seiliedig ar eu hasesiad o angen, risgiau ac ymrwymadau yn y dyfodol. Mae hefyd angen iddynt sicrhau y cânt eu defnyddio mewn ffordd gynaliadwy sy'n ategu newidiadau ac ymdrechion parhaus i drawsnewid gwasanaethau, yn hytrach na dim ond cefnogi gwariant refeniw blynyddol ar sail barhaus. Bydd y lefel briodol o gronfeydd wrth gefn ar gyfer unrhyw gyngor yn dibynnu ar nifer o ffactorau a dylai pob cyngor bennu targed cronfeydd wrth gefn yn seiliedig ar feini prawf clir a chytûn.

Ffigur 1 – Y Gronfa gyffredinol a cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi: Awdurdodau unedol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol



*Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o gyfrifon wedi'u cyhoeddi*

- 1.48 Mae angen i'r graddau y mae tanwariant cyllidebol yn llywio'r lefelau cynyddol o gronfeydd wrth gefn gael eu hystyried ymhellach. Mae llawer o gynghorau yn dal i gofnodi tanwariant blynyddol yn erbyn eu cyllidebau refeniw. Er bod tanwariant yn well na gorwariant, yn rhesymegol, mae lefelau cyson uchel o amrywiadau yn erbyn cyllidebau refeniw yn dynodi bod angen mwy o gywirdeb wrth bennu'r gyllideb a monitro'r broses. Ni ddylid dibynnu ar danwariant yn y tymor canolig i gynnal cronfeydd wrth gefn na chelu meysydd eraill o orwariant yn y gyllideb.
- 1.49 Os oes gan gyngor lefelau isel o gronfeydd wrth gefn i'w defnyddio, mae risg na fydd yn gallu parhau i fantoli'r gyllideb os bydd cynlluniau arbed yn brin neu os bydd llithriant sylweddol ar y gyllideb. Mae lefel ostyngol o gronfeydd wrth gefn hefyd yn ddangosydd cryf y gallai Cyngor ei chael yn anodd cynnal cydnerthedd ariannol mewn blynyddoedd i ddod. Er gwaethaf yr heriau, mae'r rhan fwyaf o gynghorau wedi cynnal neu gynyddu eu lefelau o gronfeydd wrth gefn drwy gyflawni gwargedion yn y gyllideb - er mwyn yswirio rhag anhawster ariannol. Mae'r duedd gyffredinol o gynyddu cronfeydd wrth gefn yn gyffredin i Gymru a Lloegr.

- 1.50 Adroddodd Grant Thornton, yn Lloegr yn 2013-14, fod y risg yn ymwneud â lefelau annigonol o gronfeydd wrth gefn wedi lleihau, yn unol â'r duedd tymor hwy, er bod gan nifer fach o gynghorau lefelau nodedig isel o gronfeydd wrth gefn. Yn yr achosion hyn, mae'r gallu i amsugno problemau ariannol annisgwyl, cynnal gwasanaethau yn ystod y broses drawsnewid, neu fuddsoddi mewn cynlluniau a gwasanaethau, yn gyfyngedig dros ben. Gall lefelau isel o gronfeydd wrth gefn hefyd orfodi cynghorau i fenthycu er mwyn ariannu rhaglenni cyfalaf neu beidio ag achub ar gyfleoedd buddsoddi cyfalaf.
- 1.51 Yng Nghymru a Lloegr, bu cryn dipyn o sôn am dwf lefelau cronfeydd wrth gefn cynghorau, yn enwedig y gwrthdeweud canfyddedig rhwng cynhyrchu gwargedion a'u trosglwyddo i gronfeydd wrth gefn ar adeg pan fo cyllidebau cynghorau yn cael eu torri'n sylweddol. Y casgliad a wneir yn aml yw mai talwyr y dreth gyngor sy'n talu am Gronni arian parod nas defnyddir i gynnal a/neu wella gwasanaethau.
- 1.52 Fodd bynnag, mae'r materion sylfaenol yn gymhleth yn y ddwy wlad. Caiff llawer o wargedion eu cynllunio'n benodol er mwyn cynyddu cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u neilltuo at ddibenion penodol yn y dyfodol - fel adeiladu tai neu gefnogi gwaith adfywio. Mae cynghorau hefyd yn cymryd camau darbodus ac yn neilltuo cronfeydd wrth gefn fel y gallant ymdopi â risg - fel methiant rhaglen arbedion i gyflawni buddiannau ar amser.
- 1.53 Rhaid cydnabod unwaith y defnyddir cronfeydd wrth gefn eu bod wedi diflannu am byth. Mae pwysau i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn er mwyn ariannu gwariant refeniw, er enghraifft i osgoi cynnydd yn y dreth gyngor, yn adlewyrchu safbwynt byrdymor iawn gan nad yw'n gynaliadwy ac, yn y pen draw, bydd angen dod o hyd i'r arian rywle arall. Mae'n well defnyddio cronfeydd wrth gefn i helpu i ariannu prosiectau cyfalaf a thrawsnewid gwasanaethau, tra'n diogelu rhag risgiau ariannol. Cyn belled ag y bo cyngor yn defnyddio cronfeydd wrth gefn mewn ffordd strategol a gynlluniwyd, gall wrthod honiadau ei fod yn 'cronni'.
- 1.54 Yn Lloegr, nododd Grant Thornton y bu defnydd cynyddol o bolisïau rheoli'r trysorlys mwy soffistigedig, sy'n sicrhau bod cronfeydd wrth gefn yn gweithio i'r Cyngor tra'n cynnal yr hylifedd sydd ei angen i liniaru risgiau ariannol. Mae dadl gref y gall cynyddu cronfeydd wrth gefn ar adegau o galedi economaidd adlewyrchu prosesau rheoli da a lliniaru risgiau ariannol mewn gwirionedd.

## Rhan 2

Mae prosesau rheoli a rheolaethau ariannol yn gadarn yn y rhan fwyaf o gynghorau, er bod angen i lawer wella'r broses o bennu a monitro cyllidebau a sicrhau bod gan y tîm cyllid ddigon o allu ac adnoddau i ateb yr heriau a wynebir yn y dyfodol



- 2.1 Yn y rhan hon o'r adroddiad, canolbwyntiwn ar drefniadau rheoli a chynllunio ariannol cynghorau. At ddibenion ein hadolygiad, rydym wedi defnyddio'r canlynol fel nodweddion allweddol gwaith rheoli a rheolaeth ariannol dda, gan adolygu safonau perfformiad cyfredol yn eu herbyn.

#### Nodweddion rheolaeth ariannol dda

##### Rheolaeth ariannol

- Mae cyllidebau'n gadarn ac wedi'u paratoi'n amserol ac mae gan y Cyngor hanes da o weithredu o fewn ei gyllideb
- Caiff cyllidebau eu monitro ar lefel swyddog, aelod a'r cabinet a chaiff swyddogion eu dwyn i gyfrif am berfformiad cyllidebol
- Mae gwaith rhagamcanu ariannol wedi'i ddatblygu'n dda a chaiff rhagolygon eu hadolygu'n rheolaidd, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau, meincnodi costau uned, a dadansoddi risgiau a sensitifrwydd
- Mae proffiliau cyllideb yn gywir a chânt eu monitro'n rheolaidd
- Canolbwyntir yn benodol ar fonitro cyllidebau sy'n gysylltiedig ag incwm
- Mae adroddiadau ar raglenni arbed yn cynnwys gwybodaeth reoli effeithiol am arbedion gwrthbwysol a'r defnydd o raddau RAG
- Mae gallu ac adnoddau'r adran gyllid ac adrannau gwasanaeth yn addas at y diben o ran gwaith cynllunio ariannol a rheoli ariannol effeithiol
- Mae systemau ariannol allweddol wedi cael adroddiadau boddhaol gan wasanaethau archwilio mewnol ac allanol
- Mae systemau ariannol yn ddigonol i ddiwallu anghenion yn y dyfodol, er enghraifft, mae swyddogaeth cyfrifyddu ymrwymiad ar gael
- Cryfder trefniadau rheolaeth fewnol - ceir gwasanaeth archwilio mewnol effeithiol, sydd â phroffil priodol o fewn y sefydliad. Caiff argymhellion archwilio mewnol cytûn eu gweithredu'n rheolaidd ac yn amserol
- Mae fframwaith sicrwydd ar waith, a ddefnyddir yn effeithiol gan y Cyngor. Dyma sut y caiff risgiau busnes eu rheoli
- Mae'r datganiad llywodraethu blynyddol yn rhoi darlun cywir o'r sefydliad

- 2.2 Mae fframwaith rheoli ariannol y rhan fwyaf o gynghorau yn ddigonol ar y cyfan i ddiwallu anghenion cyfredol, ond nodwyd meysydd sy'n peri risg ymhob maes perfformiad a adolygwyd gennym. Mae lefel y risg sy'n berthnasol i rai agweddau ar reoli ariannol yn dangos bod angen atgyfnerthu trefniadau yn y meysydd hyn. Trafodir yr agweddau penodol a ystyriwyd gennym yn yr adrannau canlynol.

## **Nid oes gan unrhyw gyngor bolisi corfforaethol ar gynhyrchu incwm, sef maes a ddaw yn fwy pwysig wrth i gynghorau chwilio fwyfwy am ffynonellau refeniw amgen**

- 2.3 Er bod gan y rhan fwyaf o gynghorau bolisiâu a threfniadau rheoli ariannol digonol a chyfredol ar gyfer cynhyrchu incwm, roeddem o'r farn bod lleiafrif sylweddol yn wynebu peth risg am fod angen i'w trefniadau gael eu diweddarau. Er bod y rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru wedi cydnabod yr angen am bolisi penodol ar gynhyrchu incwm a chodi taliadau, roedd y mwyafrif helaeth yn dirprwyo penderfyniadau ar ffioedd a thaliadau i dimau cyfarwyddiaethau a gwasanaethau unigol. Nid yw'r ffaith nad oes dogfen bolisi benodol ar gynhyrchu incwm o reidrwydd yn risg sylweddol o ran rheolaeth ariannol – nid yw dogfennau polisi o'r fath yn nodwedd gyffredin ar ddulliau cynghorau yn Lloegr o godi taliadau a chynhyrchu incwm. Fodd bynnag, fel yn Lloegr, mae datblygiad polisiâu corfforaethol ar gynhyrchu incwm yn debygol o gynyddu ymhlith cynghorau yng Nghymru wrth iddynt geisio mynd i'r afael â diffygion ariannol a ragfynegwyd.
- 2.4 Yn Lloegr, mae cynghorau yn mynd ati fwyfwy i ddatblygu eu dulliau strategol o gynhyrchu incwm, gan gynnwys nodi'r uchafswm taliadau a'i effaith negyddol bosibl ar wasanaethau a dinasyddion. Nododd gwaith Grant Thornton yn Lloegr, mewn meysydd fel parcio ceir a chasglu gwastraff gwyrdd, fod taliadau uwch wedi arwain at lifau refeniw uwch. Mewn meysydd gweithredol eraill, mae wedi arwain at well dealltwriaeth o incwm ar gyfer gweithgareddau cymorthdaledig, yn enwedig gwasanaethau anstatudol fel hamdden, ac mae hyn yn aml wedi arwain at fwy o fuddsoddiad mewn canolfannau chwaraeon, theatrau, cyrsiau golff a chyfleusterau eraill. Fwyfwy, mae trefniadau rhannu elw â sefydliadau yn y sector preifat wedi ffurfio rhan o'r drafodaeth cynllunio strategol. Yn olaf, mae masnacheiddio rhai o wasanaethau'r cyngor hefyd yn faes y mae rhai cynghorau yn Lloegr wedi bod yn manteisio arno - er enghraifft, gwerthu gwasanaethau gwaredu gwastraff ac ailgylchu i'r sector masnachol.

## Roedd systemau pennu a monitro'r gyllideb yn ddigonol neu dim ond mân risgiau a berwyd yn y rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru, er bod lle i wella

- 2.5 Nodwyd gennym fod gan y rhan fwyaf o gynghorau weithdrefnau a phrosesau cadarn ar gyfer pennu a monitro'r gyllideb, gan gynnwys adolygiadau amserol, rhagolygon a ddatblygwyd yn dda a thargedau ariannol effeithiol. Mae hyn yn dangos bod prosesau pennu a monitro'r gyllideb wedi'u hymgorffori'n dda a'u bod yn effeithiol. Ymhlith y gwendidau a nodwyd gennym roedd: yr angen i wella ansawdd gwaith rhagamcanu galw o fewn gwasanaethau unigol yn ystod y broses o bennu'r gyllideb; tueddiad i gyllidebau fod yn seiliedig ar dybiaethau optimistaidd a phroses graffu a herio wael o ran perfformiad cyllidebau cyfarwyddiaethau a gwasanaethau yn enwedig mewn perthynas â gorwariant a thanwariant annisgwyl.
- 2.6 Mae systemau ar gyfer pennu a monitro'r gyllideb wedi bod yn faes datblygu allweddol i gynghorau yn Lloegr dros y pedair blynedd diwethaf, wedi'i lywio gan alwadau cynyddol ar y systemau hyn i sicrhau cydnherthedd ariannol parhaus. Ymhlith nodweddion allweddol trefniadau effeithiol a chadarn a welwyd yn datblygu mae:
- a sefydlu prosesau effeithiol ar gyfer pennu'r gyllideb sydd wedi'u hymgorffori'n dda;
  - b ymgysylltiad cryf gan wasanaethau mewn gwaith cynllunio ariannol;
  - c mwy o ffocws ar ddatblygu'r gyllideb ar sail sero ac o'r bôn i'r brig;
  - ch pwyslais o'r brig i'r bôn traddodiadol ar gyfer pennu'r gyllideb yn dod yn llawer llai cyffredin;
  - d fwyfwy, rheolwyr gwasanaeth yn cymryd cyfrifoldeb am reoli'r gyllideb, gan ryddhau'r tîm cyllid corfforaethol i ddatblygu rôl cynghori busnes, a;
  - dd monitro'r gyllideb bob mis ac adrodd ar hyn i'r uwch dîm rheoli, gyda chynghorwyr yn adolygu hyn bob chwarter o leiaf.

## Ystyrir bod gan y rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru reolaethau ariannol effeithiol

- 2.7 Gall llawer o gynghorau fod yn sicr o gadernid rheolaethau ariannol cyfredol, yn arbennig gwaith eu hadrannau archwilio mewnol. Fodd bynnag, lle na wnaeth cynghorau gystal, y prif ffactorau oedd newidiadau mawr i systemau a wnaeth amharu ar bethau yn ystod y flwyddyn a'r cyngor yn methu â gweithredu ar ganfyddiadau ac argymhellion a wnaed gan archwilyr mewnol neu allanol a rheoleiddwyr.
- 2.8 Yn amlwg, mae sefydlu a chynnal rheolaethau ariannol effeithiol yn rhagofyniad i sicrhau cydnerthedd ariannol, ac atal gwallau a thwyll perthnasol a allai danseilio'r sefyllfa ariannol. Gallai methiant i ymdrin â gwendidau o'r fath arwain at fethiant sylweddol o ran llywodraethu ariannol.
- 2.9 Nododd Grant Thornton, yn Lloegr, mai un o'r meysydd nodedig o ran gwelliant fu'r ffordd y defnyddiwyd y gwasanaeth archwilio mewnol ac adolygwyr allanol eraill i gefnogi'r fframwaith rheoli ariannol a rhoi rhybudd cynnar o wendidau cyn iddynt ddatblygu'n broblemau mawr. Nid oedd a wnelo'r problemau hanesyddol â gallu ac effeithiolrwydd swyddogaethau archwilio mewnol yn unig, ond â'u heffaith hefyd o fewn eu sefydliadau a'r gefnogaeth a gawsant gan bwyllgorau archwilio ac uwch reolwyr i lywio gwelliannau.

## Roedd effeithiolrwydd rheolwyr cyllid, o ran gallu ac adnoddau, yn achos pryder mewn mwy na hanner y cynghorau yng Nghymru

- 2.10 Ystyriwyd mai dim ond ychydig dan hanner y cynghorau yng Nghymru oedd â chyflenwad llawn o reolwyr cyllid. Mewn cynghorau eraill, mae rhywfaint o risg nad yw gallu a/neu adnoddau timau cyllid yn ddigonol i ymdrin â'r risgiau ariannol uwch a wynebwr gan bob cyngor. Ymhlith y themâu cyffredin a oedd yn sail i'r risg uwch a nodwyd gennym mae: cynghorau yn gorfod dibynnu ar drefniadau interim a staff asiantaeth byrdymor i lenwi swyddi cyllid allweddol o fewn timau cyllid; colli gwybodaeth a phrofiad o'r Cyngor pan fo staff dros dro yn gadael; ac anawsterau i ymgorffori rheolaethau effeithiol am fod trosiant staff yn uchel.
- 2.11 Mae profiad cynghorau yn Lloegr wedi dangos bod lleihau gallu ac adnoddau timau cyllid yn nodwedd ar sawl cynllun arbed ym mlynnyddoedd cynnar y caledi. Yn wrthreddfol, roedd hyn hefyd yn cyd-daro â'r angen am sgiliau cyllid uwch i reoli'r her ariannol, gan gynyddu'r lefel o risg. Ar ddechrau'r rhaglen o galedi, gwnaeth sawl cyngor yn Lloegr leihau eu timau cyllid er mwyn gwneud arbedion o ran costau cymorth cefn swyddfa. Byddai'r cynnydd mewn datganoli cyfrifoldebau ariannol i reolwyr o fewn adrannau gwasanaethau Cynghorau yn gwneud iawn am golli adnoddau ariannol (mewn egwyddor). Er nad oedd y rheolwyr hyn yn weithwyr cyllid proffesiynol, cawsant eu hailhyfforddi neu eu recriwtio i gyflawni'r rôl hon gan eu sefydliadau. I ddechrau, creodd hyn lawer o ansicrwydd ynghylch p'un a fyddai'r trefniadau newydd hyn yn gweithio'n effeithiol ac a fyddent yn gallu ymateb yn ddigonol i'r her ariannol gynyddol.



- 2.12 Erbyn 2012-13, nododd Grant Thornton fod y pryderon hyn wedi dechrau lleihau gan fod y trefniadau wedi bod yn effeithiol mewn sawl achos. Yn 2013-14, aseswyd bod mwy na 92 y cant o gynghorau yn meddu ar lefel ddigonol neu gadarn o allu ac adnoddau ariannol. Rhoddodd hyn sicrwydd i'r trefniadau newydd fod yn llwyddiannus yn y rhan fwyaf o achosion, ac maent hyd yn oed wedi bod o fudd i sefydliadau drwy greu atebolrwydd ariannol ehangach y tu allan i'r adran gyllid. O ran risgiau eraill yn ymwneud â gallu ac adnoddau timau cyllid, mae gorddibyniaeth ar unigolion allweddol, lle nad oes fawr ddim opsiynau o ran cyflenwi nac olyniaeth, yn dal i fod yn faes bregus i lawer o gynghorau yn Lloegr.
- 2.13 I gynghorau yng Nghymru sy'n ystyried opsiynau i leihau gallu ac adnoddau timau cyllid, mae'n bwysig eu bod yn deall yn llawn eu hanghenion rheoli ariannol newidiol yn y dyfodol ac yn gweithredu proses a reolir i ddisodli gallu ac adnoddau timau cyllid canolog drwy ddatganoli cyfrifoldebau ariannol i wasanaethau unigol yn fwy. Gall lleihad yng ngallu ac adnoddau timau cyllid a reolir yn wael arwain at oblygiadau difrifol o ran cydnerthedd ariannol yn y dyfodol. Y fantais, os gwneir hyn yn dda, yw bod lleihau staff mewn ffordd a gynllunnir ac a reolir wedi bod yn hynod lwyddiannus wrth leihau costau a chynyddu effeithiolrwydd gwaith rheoli ariannol. Mae angen i drefniadau cyflenwi a chynllunio olyniaeth ar gyfer rheolwyr ariannol cynghorau yng Nghymru ddatblygu ar gam cynnar oherwydd bydd y galw am reolwyr cyllid hynod fedrus a phrofiadol yn parhau ar lefel uchel yn yr hinsawdd bresennol.

## Rhan 3

Er bod trefniadau llywodraethu ariannol yn weddol gadarn, mae ansawdd y wybodaeth am berfformiad a chostau a ddefnyddir a'r lefel o waith craffu a herio o fewn cyngorau yng Nghymru yn amrywio'n fawr, a all danseilio effeithiolrwydd y broses o wneud penderfyniadau



- 3.1 Yn y rhan hon o'r adroddiad, canolbwyntiwn ar drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ariannol cynghorau. At ddibenion ein hadolygiad, rydym wedi defnyddio'r canlynol fel nodweddion allweddol gwaith llywodraethu ariannol da ac wedi adolygu arferion a pherfformiad cyfredol yn eu herbyn.

#### Nodweddion trefniadau llywodraethu ariannol da

##### Llywodraethu ariannol

- Ceir dealltwriaeth glir o'r amgylchedd ariannol y mae'r cyngor yn gweithredu ynddo.
- Adroddiadau rheolaidd a thryloyw i aelodau. Ymhlith yr adroddiadau mae manylion cynllunio camau gweithredu a dadansoddi amrywiadau.
- Cymerwyd camau i ymdrin â meysydd risg allweddol.
- Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn aelod allweddol o'r tîm arwain.
- Mae swyddogion a rheolwyr ymhob rhan o'r cyngor yn deall goblygiadau ariannol polisïau, rhaglenni a gweithgareddau cyfredol ac amgen.
- Mae'r tîm arwain yn sicrhau bod sgiliau ariannol priodol ar waith ar bob lefel o'r sefydliad - er enghraifft, dealltwriaeth dda o gostau uned a'r ffactorau sy'n sbarduno costau.
- Mae'r tîm arwain yn meithrin amgylchedd agored o herio tybiaethau a pherfformiad ariannol.
- Ceir cynllun dirprwyo effeithiol, gan sicrhau bod cyfrifoldebau ac atebolrwydd ariannol yn glir.
- Ymgysylltir â rhanddeiliaid gan gynnwys ymgynghori ar y gyllideb.
- Ceir polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr i aelodau, swyddogion a deiliaid cyllidebau, sy'n amlinellu cyfrifoldebau yn glir.
- Caiff argymhellion archwilio mewnol ac allanol eu gweithredu'n brydlon.
- Mae pwyllgorau a'r cabinet yn adolygu perfformiad yn rheolaidd a chreffir arno'n briodol.
- Mae cynlluniau adfer effeithiol ar waith.

- 3.2 Perfformiodd cynghorau yn well ym maes llywodraethu ariannol na meysydd eraill a ystyriwyd yn ein hadolygiad, er bod rhai gwendidau yn parhau, yn enwedig o ran sicrhau bod cynlluniau arbed yn cael eu cyflawni. Er bod risgiau llywodraethu ariannol yn codi i raddau cymharol isel yn gyffredinol o gymharu â meysydd eraill, mae ein canfyddiadau yn dal i danlinellu'r angen i atgyfnerthu trefniadau yn wyneb lefelau cynyddol o risg oherwydd pwysau ariannol. Mae adroddiad gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus<sup>3</sup> (Ionawr 2014) yn tynnu sylw at rai o'r newidiadau a fydd yn ofynnol ym maes llywodraethu er mwyn ateb yr heriau sydd ynghlwm wrth ostyngiadau sylweddol mewn cyllid llywodraeth leol.
- 3.3 Dengys profiadau yn Lloegr mai prin y ceir methiannau mawr ym maes llywodraethu, ond lle maent yn digwydd, gallant gael canlyniadau ariannol pellgyrhaeddol ymhlith eraill - fel y mae enghreifftiau diweddar fel achosion Ymddiriedolaeth Sefydliad y GIG Canol Swydd Stafford a Chyngor Bwrdeistref Metropolitan Rotherham wedi'u dangos. Natur problemau llywodraethu difrifol yw y gallant godi yn sgil gwendidau mewn trefniadau a allai fod wedi ymddangos yn gymharol ddibwys yn flaenorol, gan danlinellu'r angen i fod yn wylidwrus a chymryd camau effeithiol pan nodir gwendidau.
- 3.4 Hefyd, yn sgil profiadau Lloegr, gwelir y gall gwelliannau mewn trefniadau llywodraethu fod ar ei hôl hi weithiau mewn perthynas â gwelliannau a all ddigwydd mewn meysydd rheoli ariannol eraill, gan ei bod yn anos mesur effeithiolrwydd llywodraethu nes i rywbeth fynd o'i le. Fodd bynnag, dylai cynghorau yn Lloegr sicrhau eu bod yn nodi arfer gorau sy'n dod i'r amlwg ac yn ei roi ar waith, er mwyn lliniaru'r risg hon.
- 3.5 Nododd ein hadolygiad fod tua hanner y cynghorau yng Nghymru yn wynebu rhywfaint o risg mewn un neu fwy o'r meysydd hyn. Mae'r meysydd allweddol y gellid eu gwella yn ymwneud â'r canlynol:
- a methiant i sicrhau bod y gwaith o gyflawni a datblygu cynlluniau arbed yn cael ei ddadansoddi ar wahân a'i fonitro'n rheolaidd gan gynghorwyr fel rhan o drefniadau monitro ariannol cyffredinol y Cyngor;
  - b nifer gyfyngedig o ddangosyddion perfformiad, os o gwbl, ar waith neu wedi'u cyflwyno i'r pwyllgor perthnasol;
  - c diffyg atebolrwydd o ran tanwariant/gorwariant cyllidebol a chyflawni arbedion gan gyfarwyddwyr a phenaethiaid gwasanaeth;
  - ch adroddiadau misol cyfyngedig i uwch swyddogion fel swyddog adran 151 neu'r Prif Weithredwr, ar berfformiad cynlluniau arbed a thimau cysylltiedig;
  - d diffyg tryloywder o ran y ffordd y dangosir bod cynlluniau arbed wedi cael eu cyflawni, er enghraifft, y graddau y mae cynlluniau aflwyddiannus wedi cael eu disodli gan arbedion cylchol ac anghylchol eraill neu incwm nas cynlluniwyd; a
  - dd her aneffeithiol gan gynghorwyr ac uwch swyddogion o ran perfformiad ariannol a pherfformiad y cynllun arbed.

3 Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru, Ionawr 2014.

- 3.6 Dylai cynghorau gyflwyno adroddiadau rheolaidd ar arbedion unigol er mwyn nodi gorwariant a thanwariant a sicrhau bod camau priodol ac amserol yn cael eu cymryd i gyflawni cynlluniau arbed cytûn. Os nad yw cynghorau yn monitro meysydd penodol o arbedion peryglir eu gallu i werthuso a chraffu ar gynlluniau arbed. Gan fod angen i gynghorau bennu targedau arbed mwy anodd a heriol, mae'n fwyfwy pwysig cynnal gwaith craffu a monitro effeithiol ar gynlluniau arbed unigol.
- 3.7 Nododd Grant Thornton, yn Lloegr dros y blynyddoedd diwethaf, fod cynghorwyr wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynglŷn â darparu gwasanaethau fel sydd wedi digwydd yng Nghymru. Fel rhan o hynny, mae cynghorwyr wedi meithrin gwell dealltwriaeth o'r amodau ariannol sylfaenol, gan helpu i ennyn hyder y tîm rheoli a chynyddu awydd sefydliadau i fentro. Mae hyn yn arbennig o amlwg yn y lefelau cynyddol o arloesedd, er enghraifft, gyda chydweithio rhwng cynghorau a phartneriaid eraill, a datblygu modelau cyflawni amgen i wasanaethau.
- 3.8 Ceir achosion o hyd mewn cynghorau unigol yng Nghymru a Lloegr lle bu cynghorwyr yn amharod neu'n araf i werthfawrogi'r angen am ragolwg mwy radical o ran cynaliadwyedd gwasanaethau. Yn aml, mae'r cynghorau hyn yn canolbwyntio gormod ar leihau cymorth cefn swyddfa neu ar fesurau effeithlonrwydd tameidiog er mwyn darparu'r arbedion sydd eu hangen arnynt. Nid yw llawer o'r farn bod diwylliant cryf o effeithlonrwydd ariannol yn flaenoriaeth, waeth beth fo sefyllfa ariannol y cyngor.
- 3.9 Yn yr achosion hyn, disgwylir i swyddogion chwarae rôl gryfach yn helpu cynghorwyr i ddeall yr amgylchedd ariannol a'r rhagolwg tymor hwy. Bydd cynghorwyr yng Nghymru yn cael budd mawr o ddatblygu rhaglenni hyfforddi a datblygu i gynghorwyr a gyflwynir mewn ffordd amserol i'w cefnogi yn eu rolau.
- 3.10 Fodd bynnag, mae ein gwaith dadansoddi yn datgelu, mewn rhai achosion, nad yw cynghorwyr ac uwch reolwyr yn ddigon heriol efallai yn ystod y broses o bennu cyllideb gan arwain at amrywiadau uwch na'r disgwyl ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r angen i wella prosesau craffu a herio wedi cael ei ddatblygu cryn dipyn yn Lloegr ac mae angen ymdrin ag ef ar fyrder yng Nghymru fel bod cynghorau yn ateb yr heriau ariannol a wynebir ganddynt.
- 3.11 Yn yr un modd, dengys gwaith Grant Thornton fod hyfforddi a datblygu cynghorwyr ar faterion ariannol a'u rôl lywodraethu yn dal i fod yn fan gwan mewn llawer o gynghorau yn Lloegr. Mae'r gwendid hwn yn arbennig o aciwt mewn blwyddyn lle cafodd llawer o gynghorwyr newydd eu creu yn dilyn etholiadau llywodraeth leol. Roedd amllder adroddiadau i gynghorwyr yn bryder mewn rhai cynghorau yn Lloegr. Mewn rhai achosion, roedd yn digwydd yn llai aml na phob chwarter. Gall y diffyg adrodd rheolaidd hwn fod yn arbennig o broblematig lle mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol ac, o ganlyniad, fod angen adroddiadau ac adolygiadau mwy rheolaidd na'r hyn a fu'n safonol yn y gorffennol.

- 3.12 Yn Lloegr, mae cywirdeb y gwaith o ragamcanu alldro cyllidebol yn dal i fod yn faes lle mae angen gwneud rhagor o welliannau. Yn rhy aml, ceir amrywiadau mawr rhwng adroddiadau misol neu chwarterol a gwneir diwygiadau rheolaidd i'r alldro a ragamcenir o wendidau yn y systemau ar gyfer rheoli a chysoni perfformiad y gyllideb a chynlluniau arbed. Erys y wybodaeth ariannol a roddir i gynghorwyr, lle nad yw materion sylfaenol o ran perfformiad yn cael eu nodi'n ddigonol, yn rhwystr mawr i ymgysylltu â chynghorwyr yn effeithiol a chraffu ar y broses gyflawni yn gadarn.
- 3.13 Nododd ein hadolygiad nad oes gan lawer o gynghorau yng Nghymru hanes cryf o gyflawni cynlluniau arbed. Mae'r risgiau llywodraethu a nodwyd gennym yn ymwneud yn bennaf â diffyg gwaith monitro ffurfiol ar gyflawni targedau arbed unigol yn erbyn perfformiad arfaethedig cynghorwyr, a'r diffyg her a/neu ddwyn swyddogion cyfrifol i gyfrif sy'n deillio o hynny.
- 3.14 Yn Lloegr, yn 2011-12 a 2012-13, pan oedd llawer o gynghorau yn dechrau cyflawni arbedion ar raddfa fawr, gwelsom gynnydd mewn risgiau llywodraethu a oedd yn ymwneud â chyflawni cynlluniau arbed. Y rheswm dros hyn oedd bod arbedion, mewn blynyddoedd blaenorol, fel arfer yn fach ac roedd modd monitro eu bod yn cael eu cyflawni'n ddigonol drwy'r gyllideb. Felly, nid oedd effaith methiant i gyflawni arbedion yn peri risg strategol i weithrediadau cyngor ac roedd y trefniadau craffu cyffyrddiad ysgafn yn ddigonol i ddiwallu anghenion y cyngor. Fodd bynnag, wrth i lefel yr arbedion gynyddu ynghyd â'r risgiau strategol cysylltiedig, araf fu'r broses o addasu'r trefniadau llywodraethu. Felly, cafodd cynghorwyr wybodaeth anghyflawn neu o ansawdd gwael am hynt y broses o gyflawni cynlluniau arbed cytûn - a oedd bellach yn dod yn hynod bwysig i gydnerthedd ariannol yn y dyfodol.
- 3.15 Nodwyd gennym nad yw nifer o gynghorau yng Nghymru yn dal i adrodd ar hynt cynlluniau arbed ar wahân sy'n tanseilio gallu cynghorwyr i herio a chraffu ar y broses o gyflawni arbedion yn ystod y flwyddyn a ph'un a ydynt ar y trywydd iawn. Mae hefyd yn ei gwneud yn anodd nodi'n glir y gwahaniaeth rhwng arbedion cylchol a gyflawnwyd hyd yn hyn, ac atebion byrdymor - er enghraifft, o incwm annisgwyl - na fydd ar gael mewn blynyddoedd i ddod. Mae'r fath ddealltwriaeth yn hanfodol o ran herio perfformiad swyddogion, yn enwedig lle mae angen gwneud arbedion mawr dros nifer o flynyddoedd.
- 3.16 Un datblygiad pwysig diweddar yn Lloegr fu'r defnydd cynyddol o gerdyn sgorio cytbwys integredig. Mae'r defnydd o gardiau sgorio yn fodd i ystyried pwysau ariannol yng nghyd-destun perfformiad gwasanaethau, y gweithlu ac agweddau gweithredol eraill. Mae cynghorau yn Lloegr yn rhoi'r gorau i'r dull traddodiadol o adolygu perfformiad ariannol ar wahân ac mae hyn yn opsiwn i gynghorau yng Nghymru.

### Enghraifft o Arfer Da – Cyngor Sir Powys

Mae Cyngor Sir Powys wedi cymryd camau rhagweithiol i atgyfnerthu ei broses llywodraethu ariannol drwy gymryd rhan mewn adolygiad cymheiriaid a nodi meysydd allweddol i'w gwella. Mae'r Cyngor wedi cymryd camau cydweithredol, gan weithio gyda'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus, Grant Thornton UK LLP a CIPFA Cymru i wella ei brosesau llywodraethu ariannol.

## Tudalen 110

## Rhan 4

Mae cynghorau o dan straen aruthrol ac ni fydd trefniadau rheoli ariannol a arferai fod yn ddigon da yn parhau i fod yn addas at y diben pan wynebir pwysau ariannol cynyddol



- 4.1 Yn y rhan hon o'r adroddiad, canolbwyntiwn ar ddefnydd cynghorau o fesurau perfformiad a rheoli perfformiad. At ddibenion ein hadolygiad, rydym wedi defnyddio'r canlynol fel nodweddion allweddol gwaith rheoli perfformiad ariannol da ac wedi adolygu arferion a pherfformiad cyfredol yn eu herbyn.

#### **Nodweddion gwaith rheoli perfformiad ariannol da**

##### Dangosyddion allweddol perfformiad ariannol

- Caiff dangosyddion allweddol perfformiad ariannol eu monitro'n rheolaidd
- Mae'r Cyngor yn gweithredu o fewn lefel briodol o gronfeydd wrth gefn a balansau a bennwyd yn lleol
- Caiff balans y gronfa gyffredinol ei gynnal ar y lefel ofynnol y cytunir arni'n lleol neu uwchlaw hynny
- Mae cyfalaf gweithio ar gymhareb a bennwyd gan swyddog adran 151 neu uwchlaw hynny
- Mae lefelau benthyca hirdymor ar lefel y gellir ei rheoli ac o fewn terfynau benthyca darbodus
- Pennwyd targedau ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â dangosyddion allweddol, fel balansau cronfeydd wrth gefn a dangosyddion darbodus
- Mae hanes o wario o fewn y gyllideb a rheoli achosion o orwario a ragwelwyd yn ystod y flwyddyn mewn ffordd ragweithiol
- Cymerir camau sefydliadol cadarn ac iddynt ffocws mewn perthynas â rheoli absenoldebau er mwyn gwella cynhyrchiant, lleihau costau a gwella gwasanaeth cwsmeriaid



- 4.2 Wrth i ni gyflawni rhagor o waith ar gydnerthedd ariannol cynghorau, bwriadwn ddatblygu system adrodd 'goleuadau traffig' sy'n cwmpasu perfformiad ariannol a pherfformiad y gweithlu a nodi meysydd i'w gwella ymhellach. Mae'r system goleuadau traffig yn debyg i'r hyn a wnaed gan Grant Thornton yn Lloegr ac mae'n ein galluogi i wneud cymariaethau defnyddiol. Bwriadwn ddatblygu hyn er mwyn cyflwyno adroddiadau mwy cynhwysfawr ar gydnerthedd ariannol a byddwn yn trafod y fethodoleg rydym yn bwriadu ei defnyddio gyda chynghorau a rhanddeiliaid eraill. Mae ein dadansoddiad o DPAAu ariannol yn dynodi bod trefniadau ariannol llawer o gynghorau dan bwysau difrifol. At hynny, yn sgil y gostyngiadau cyllidebol yn Lloegr a nodwyd gan Grant Thornton, gwelwyd trefniadau a oedd yn arfer bod yn ddigon da yn peidio â bod yn addas at y diben mwyach ac yn gofyn am esblygiad sylweddol a chyflym er mwyn galluogi cynghorau i gyflawni'r arbedion y mae angen iddynt eu gwneud.
- 4.3 Daw'r wybodaeth a ddefnyddiwyd yn ein dadansoddiad o gyfrifon statudol pob cyngor. Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar gronni DPAAu yn ymwneud â chyflawni'r gyllideb, hylifedd, benthyca a lefelau cronfeydd wrth gefn. Dengys ein dadansoddiad o berfformiad cynghorau ar y mesurau hyn fod 15 o 22 o gynghorau mewn sefyllfa well o ran risg. Er nad yw unrhyw gyngor yr ystyrir ei fod yn wynebu risg uchel mewn sefyllfa waeth, ceir pedwar cyngor sy'n wynebu risg gynyddol am fod perfformiad yn erbyn y mesurau hyn yn dirywio. Isod crynhown berfformiad cynghorau yng Nghymru yn erbyn y tri dangosydd perfformiad ariannol allweddol - cyflawni'r gyllideb, hylifedd a benthyca.

**Mae cynghorau yn wynebu lefel uchel o risg wrth gyflawni cyllideb gytbwys ond mae'r cyfeiriad teithio yn dynodi bod perfformiad o ran y gyllideb yn gwella wrth i welliannau i waith cynllunio ariannol a rheolaeth ariannol ddal gafael**

- 4.4 Mae'r dangosydd perfformiad hwn yn edrych ar hanes y Cyngor o danwariant neu orwariant yn erbyn cyllidebau refeniw, perfformiad ar alldro gwariant refeniw net, sy'n helpu i ddilysu cryfder trefniadau cynllunio ac effeithiolrwydd rheolaeth ariannol. Mae hanes da o gyflawni'r gyllideb yn ddangosydd cryf o b'un a all cynlluniau ariannol y dyfodol, gan gynnwys arbedion mawr, gael eu cyflawni.
- 4.5 Caiff ein dadansoddiad ei bennu gan berfformiad cyllidebol cynghorau a ph'un a fu gorwariant cyllideb refeniw sylweddol a diffygion cyllidebol cyson a/neu sylweddol. Mae'r rhain yn aml yn ymwneud â gwasanaethau a arweinir gan alw fel gofal cymdeithasol plant ac oedolion. Bydd y gwasanaethau hyn yn dal i beri risg allweddol dros y blynyddoedd i ddod wrth i arian grant barhau i leihau ond wrth i'r galw aros yn gyson, a hyd yn oed gynyddu mewn rhai meysydd. Mae cynghorau sy'n parhau i orwario eu cyllidebau refeniw mewn gwasanaethau a arweinir gan alw fel y rhain yn debygol o wynebu anawsterau ariannol yn y dyfodol. Yn ein barn ni, mae cynghorau wedi perfformio'n dda pan fyddent wedi tanwario'n gyson yn erbyn eu cyllideb refeniw neu pan fyddent wedi lleihau eu diffyg cyllideb net (neu wedi cyflawni gwarged) ac wedi cyflawni sefyllfa alldro net ffafriol.

- 4.6 Nododd Grant Thornton fod profiad Lloegr yn dangos bod hanes da o gyflawni'r gyllideb yn ddangosydd cryf o b'un a all cynlluniau ariannol y dyfodol, gan gynnwys arbedion mawr, gael eu cyflawni. Gwnaeth lleiafrif sylweddol o gynghorau yn Lloegr (14 y cant) ei chael yn anodd cyflawni eu cyllideb yn 2013-14. Y risg fwyaf cyffredin oedd gorwariant cyllideb refeniw sylweddol. Roedd y fath orwariant yn ymwneud yn aml â gwasanaethau a arweinir gan alw, fel gofal cymdeithasol plant neu oedolion. Mae tangyllidebu parhaus yn y gwasanaethau hyn yn beryglus i gydnerthedd ariannol yn y dyfodol. Mae awdurdod â gwendidau yn y maes hwn nad yw wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth drawsnewid ei wasanaethau yn debygol o wynebu anawsterau ariannol sylweddol yn y dyfodol agos. Nododd ein dadansoddiad o gynghorau yng Nghymru fod dros draean (36 y cant) o gynghorau wedi profi rhai anawsterau hanesyddol yn mantoli'r gyllideb ond dengys y cyfeiriad teithio fod perfformiad cyllidebol yn gwella ymhob cyngor.

### Mae'n amlwg bod lefel uchel o amrywiad yng nghymarebau hylifedd cynghorau yng Nghymru ar adeg pan fo rheoli llif arian parod yn dod yn fwyfwy pwysig i gynghorau

- 4.7 Mae'r 'gymhareb gyfredol' o asedau (asedau y gellir eu trosi'n arian parod yn hawdd) i rwymedigaethau (rhwymedigaethau byrdymor y mae angen eu talu'n brydlon) yn rhoi syniad o hylifedd cynghorau. Mae'r risg o redeg allan o arian parod wedi bod yn llai aciwt i gynghorau'n draddodiadol, o gymharu â'r GIG neu'r sector preifat, oherwydd sicrwydd derbynebaw incwm grant a natur gwerth isel, swm uchel trethiant lleol. Fodd bynnag, mae proffil cyllid cynghorau yn newid o'r model traddodiadol gyda llai o ddibyniaeth ar arian grant a mwy o ddibyniaeth ar gynhyrchu incwm, mwy o risg ariannol o fenthyca a buddsoddiadau arian parod. O ganlyniad i'r newidiadau hyn, mae'r risg o redeg allan o arian parod yn cynyddu a daw'r gwaith o reoli llif arian parod cadarn yn fwyfwy pwysig er mwyn sicrhau bod modd talu costau a thalu cyflogau cyflogaion ar amser.
- 4.8 O'n dadansoddiad, mae'n amlwg bod cryn amrywiad yng nghymarebau hylifedd cynghorau yng Nghymru. Nododd ein hadolygiad fod 55 y cant o gynghorau yn wynebu risg isel neu isel i ganolig ac roedd 45 y cant o gynghorau yn wynebu lefel uwch o risg. Ar y cyfan, dengys y cyfeiriad teithio, yn 2013-14, fod 14 o'r 22 o gynghorau yng Nghymru wedi gostwng lefelau hylifedd o gymharu â 2012-13, a dim ond wyth cyngor sydd wedi profi gwell hylifedd. Ymhlith y rhesymau dros y lefel is hon o hylifedd mae defnydd cynyddol o fenthyciadau byrdymor er mwyn bodloni gofynion cyfalaf gweithio'r cyngor a lefelau llai o adneuon banc byrdymor, gyda lefelau llog isel yn debygol o fod yn sail i hyn.


## Nid yw lefelau benthyca yn bryder mawr ar hyn o bryd i'r rhan fwyaf o gynghorau yng Nghymru ac mae'r lefel gyffredinol o risg ariannol yn isel

- 4.9 Dengys cymhareb gerio isel fod cyngor yn ariannol sefydlog ac y gall, yn gyffredinol, fenthyca'n haws gan y bydd mewn gwell sefyllfa i dalu'r llog na'r rheini â chymarebau uwch. Felly, mae gerio yn fesur defnyddiol o iechyd ariannol corfforaethol gan ei fod yn fodd i gymharu cronfeydd cyngor â'r 'ddyled' a fenthyciwyd.
- 4.10 Rydym wedi cyfrifo sefyllfa gerio pob cyngor ac wedi nodi ei bod naill ai'n gwella, lle mae lefelau benthyca a dyledion wedi aros yn sefydlog neu wedi gostwng, neu ei bod yn gwaethgu, lle mae lefelau benthyca a dyledion yn cynyddu. Ar sail y dadansoddiad hwn, mae 10 o gynghorau mewn sefyllfa gerio well ac mae 12 o gynghorau mewn sefyllfa gerio waeth. Roedd ystod ganrannol gerio cynghorau yng Nghymru yn amrywio o 14 y cant, ar ei hisaf, i 32 y cant, ar ei uchaf.
- 4.11 Nododd gwaith Grant Thornton yn Lloegr mai dim ond mewn llond llaw o gynghorau y cafwyd risg i gydnerthedd ariannol yn deillio o fenthyca, yn enwedig o ran gallu cyngor i drin dyled. Lliniarwyd y lefel gyffredinol o risg ymhellach gan y ffaith mai gan fenthycwyr risg isel fel Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus y cafwyd y rhan fwyaf o fenthyciadau. Prin oedd y cynghorau nad oeddent yn unol â'u priod grwpiau cymheiriaid, sef y brif ffordd o asesu lefel y risg i Gynghorau yn Lloegr. Fel gyda hylifedd, mae'r cynnydd yn natur soffistigedig polisïau rheoli'r Trysorlys a'r defnydd o gynghorwyr proffesiynol yn aml yn lleihau'r risg i awdurdodau lleol.

## Dengys graddau cyfatebol Dangosyddion Perfformiad Allweddol Lloegr, wedi'u holrhain dros amser, yr effaith gadarnhaol y gall gwella trefniadau cynllunio, llywodraethu a rheoli ariannol ei chael ar ganlyniadau ariannol, er gwaethaf heriau ariannol sylweddol

- 4.12 Mae **Arddangosyn 2** yn crynhoi canfyddiadau adolygiad Grant Thornton o gydnerthedd ariannol cynghorau yn Lloegr ers 2010-11 ac mae'n dangos tueddiad i wella sy'n adlewyrchu esblygiad cadarnhaol trefniadau rheoli ariannol dros y pedair blynedd diwethaf. Mae'r datblygiad hwn yn gyson â'r tafwybr gwell a welwyd gennym o ran trefniadau cynllunio, llywodraethu a rheoli ariannol cryf. Rydym yn bwriadu defnyddio dadansoddiad graddau risg tebyg i'r hyn a ddefnyddiwyd gan Grant Thornton mewn adroddiadau pellach ar gydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru.

**Ffigur 2 – Crynodeb o ddadansoddiad Grant Thornton o berfformiad rheoli ariannol cyngorau yn Lloegr rhwng 2010-11 a 2013-14**  
 Mae Cyngorau yn Lloeger yn parhau i reoli'r risgiau ariannol y maent yn eu hwynebu



*Ffynhonnell: Rising to the challenge – The evolution of local government, Grant Thornton, Tachwedd 2014*

## Rhan 5


Dengys profiad cyngorau yn Lloegr ei bod yn bosibl ymdrin â gostyngiadau sylweddol mewn cyllid ond er mwyn llwyddo rhaid cyflwyno newidiadau sylweddol i waith cynllunio ariannol strategol a gweithredol



- 5.1 Canfu gwaith Grant Thornton yn Lloegr fod tueddiad i wella mewn cynghorau sy'n adlewyrchu esblygiad cadarnhaol trefniadau rheoli ariannol dros y pedair blynedd diwethaf. Mae'r datblygiad hwn yn gyson â'r taflywbr gwell a welwyd gennym o ran trefniadau cynllunio, llywodraethu a rheoli ariannol.
- 5.2 Er bod rhai cynghorau yn Lloegr yn wynebu trobwynt ariannol, y wers gadarnhaol i gynghorau yng Nghymru yw bod y mwyafrif yn parhau i gyflawni sefyllfa ariannol gynaliadwy ac yn debygol o wneud hynny cyn belled ag y gallant ddatblygu a chyflwyno ymatebion effeithiol i amodau newidiol. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion yn Lloegr, mae hyn wedi gofyn am ailystyried pa wasanaethau a all gael eu darparu, i bwy a pha lefel o wasanaeth sy'n fforddiadwy yn y bôn. Yn ei dro, mae hyn wedi gofyn am ddatblygu trefniadau rheoli ariannol hynod soffistigedig nad oeddent wedi'u dychmygu bedair mlynedd yn ôl.
- 5.3 Dengys Ffigur 3 fod y rhan fwyaf o gynghorau yn Lloegr yn rheoli'r heriau ariannol a wynebir ganddynt a bod y lefel gyfredol o risg ariannol yn gymharol isel.

**Ffigur 3 – Crynodeb o Ddangosyddion Risg Ariannol Grant Thornton ar gyfer Cynghorau yn Lloegr 2013-14**

Mae'r rhan fwyaf o gynghorau yn Lloegr yn rheoli'r heriau ariannol a wynebir ganddynt ac mae'r lefel bresennol o risg ariannol yn gymharol isel



*Ffynhonnell: Rising to the challenge – The evolution of local government, Grant Thornton, Tachwedd 2014*

5.4 Nododd Grant Thornton y canlynol:

- a Mae safonau cynllunio ariannol strategol yn Lloegr yn gwella hefyd. Mae hyn yn arwydd cryf o esblygiad sylweddol prosesau cynllunio, sy'n rhannol angenrheidiol. Mae angen i lawer o gynghorau barhau i ehangu eu gwaith blaengynllunio, sicrhau bod canlyniadau arfaethedig yn gyflawnadwy a newid ffocws o arbedion effeithlonrwydd i drawsnewid gwasanaethau a chynhyrchu incwm.
- b Mae safonau llywodraethu ariannol yn Lloegr yn dal i wella, yn enwedig o ran ansawdd a hygyrchedd y wybodaeth a roddir i gynghorwyr. Er bod gwendidau mawr mewn prosesau llywodraethu yn gymharol brin, maent yn dueddol o arwain at ganlyniadau ariannol difrifol ac eang. Mae'r gwaith o lywodraethu partneriaethau allweddol a strwythurau grwpiau yn peri risg i rai cynghorau.
- c Rheolaeth ariannol yw un o'r themâu sy'n dal i esgor ar y nifer fwyaf o broblemau yn Lloegr, sy'n aml yn ymwneud â chyflawni cynlluniau arbed. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o gynghorau yn dal i berfformio'n ddigonol ac unwaith eto bu tuedd i wella systemau rheolaeth ariannol yn raddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

5.5 Daeth adolygiad Grant Thornton yn Lloegr i'r casgliad, er gwaethaf yr heriau y mae cynghorau yn eu hwynebu ymhob un o'r meysydd hyn, fod y lefel gyfredol o risg ariannol yn gymharol isel yn y rhan fwyaf o gynghorau.

## Mae prif negeseuon adolygiad 2013-14 o gynghorau yn Lloegr yn dangos cyffelybiaeth ddefnyddiol rhwng profiadau cynghorau yng Nghymru

- 5.6 Mae'r rhan fwyaf o gynghorau yn Lloegr yn dal i ateb yr her a berir gan ostyngiadau mewn cyllid gan y Llywodraeth, a gefnogir gan esblygiad trefniadau rheoli ariannol dros y pedair blynedd diwethaf. Y rheini sydd wedi ei chael yn anodd sefydlu trefniadau ariannol effeithiol hyd yn hyn yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o wynebu trobwynt. Disgwylir i'r heriau gynyddu wrth i wariant leihau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf ac mae'n rhaid i gynghorau barhau i addasu. Mae'r rhai nad ydynt yn trawsnewid eu gwasanaethau yn wynebu trobwynt ariannol yn 2016-17.
- 5.7 Nododd ymchwil Grant Thornton hefyd fod mwy o hyder bod y rhan fwyaf o gynghorau yn Lloegr yn dod o hyd i ffyrdd o oresgyn yr heriau ariannol a wynebir ganddynt, yn enwedig trawsnewid y ffordd y darperir gwasanaethau lleol. Daw adolygiad Grant Thornton o gynghorau yn Lloegr i'r casgliad bod hyn, yn anochel, yn dal i olygu bod gan gynghorwyr rai penderfyniadau anodd eu gwneud ac, yn y pen draw, mae wedi arwain at ddarparu llai o wasanaethau mewn rhai ardaloedd.

- 5.8 Yn gymesur, mae cynghorau sir ac un haen yn wynebu mwy o her na chynghorau dosbarth, yn rhannol am fod y cyntaf yn gyfrifol am wasanaethau a arweinir gan alw fel gofal cymdeithasol, sy'n parhau i beri risg ariannol hynod aciwt. Fodd bynnag, mae llawer o gynghorau dosbarth wedi cyflawni cryn arbedion ac yn aml maent yn arwain y gwaith o ddatblygu modelau darparu newydd gan gynnwys gwasanaethau a rennir a threfniadau cydreoli.
- 5.9 Erys nifer y cynghorau yn Lloegr â phroblemau ariannol critigol yn isel, o gymharu â'r GIG yn Lloegr, er enghraifft. Yr hyn sy'n amlwg yw'r ffordd y mae cynghorau wedi gwella eu trefniadau rheoli ariannol yn raddol, gan gynnal neu hyd yn oed wella eu perfformiad ariannol, yn wyneb heriau cynyddol. Ni ellir dweud hyn am gyrrff y GIG yn Lloegr.
- 5.10 Mae gan y rhan fwyaf o gynghorau yn Lloegr ryw fath o wendid neu risg yn eu trefniadau a allai effeithio ar eu gallu i gyflawni cynlluniau ariannol yn y tymor canolig. Fodd bynnag, mae ein canfyddiadau'n awgrymu, dros y pedair blynedd diwethaf, y gall risgiau gael eu lliniaru ac y gall perfformiad gwasanaethau gael ei gynnal. Yn wir, mae llawer o gynghorau yn rhagfynegi'n hyderus y bydd cydnerthedd ariannol yn parhau i fod yn elfen o'u strategaeth ariannol tymor canolig. Mae hyn yn gyflawniad mawr ac yn adlewyrchu esblygiad trefniadau rheoli ariannol y byddai wedi bod yn anodd ei ddychmygu yn 2010.
- 5.11 Fodd bynnag, mae cynghorau yn dal i bryderu am strwythur ariannu llywodraeth leol a ph'un a yw'n dyrannu cyllid yn deg o ran amodau daearyddol, demograffig ac economaidd lleol. Mae lleihau arian grant yn cael effaith anghymesur ar y cynghorau hynny lle mae'r dreth gyngor yn darparu cyfran is o gyfanswm incwm. Y cynghorau hynny sy'n casglu llai o incwm o'r dreth gyngor yw'r rhai sydd â lefelau uchel o amddifadedd yn aml.
- 5.12 Yn achos cynghorau sir ac un haen, mae senarios 'graff y farn' sy'n ymwneud â gwasanaethau a arweinir gan alw (fel gofal cymdeithasol oedolion) yn dal i fod yn her allweddol. Fodd bynnag, mae ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau yn dod i'r amlwg erbyn hyn er mwyn lliniaru rhai o'r risgiau hyn. Rydym wedi gweld cryn newid yn niwylliant cynghorau - mae cyfrifoldeb ariannol wedi dechrau treiddio drwy'r strwythur rheoli cyfan. Bydd diwylliant cryf o welliant parhaus, effeithlonrwydd a rheolaeth ariannol, yn unol â strategaeth tymor canolig y cyngor, yn dod yn ofynnol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae llawer o waith i'w wneud yma, yn enwedig o ran cynnwys arbenigwyr rheng flaen yn llawn o fewn y gwasanaethau. Dylai hyn fod yn ffocws pwysig i gynghorau.



## Atodiadau

Atodiad 1 - Methodoleg

Atodiad 2 - Astudiaethau achos dethol o  
Loegr

Atodiad 3 - Y gwahaniaethau yn y ffordd  
y caiff llywodraeth leol ei  
hariannu yng  
Nghymru a Lloegr



# Atodiad 1 – Methodoleg

## Adolygiad o lenyddiaeth, data ac ystadegau

Rydym wedi adolygu ystod eang o ddogfennau a chyfryngau, gan gynnwys:

- Dogfennau polisi a chanllaw Llywodraeth Cymru a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol;
- Adroddiadau a briffiadau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Lloegr; ac
- ymchwil a chanllawiau perthnasol gan CIPFA.

## Gwaith maes awdurdodau lleol

Gwnaethom ymweld â 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, rhwng mis Mehefin a mis Tachwedd 2014. Yn ystod yr ymweliadau, cyfwelwyd ag amrywiaeth o staff awdurdodau lleol ac aelodau etholedig, a lluniwyd adroddiadau lleol ar gyfer pob cyngor yn crynhoi ein prif ganfyddiadau ar gydnherthedd ariannol pob awdurdod.

# Atodiad 2 – Astudiaethau achos dethol o Loegr

Daw'r astudiaethau achos hyn o arfer da o waith asesu ariannol Grant Thornton yn Lloegr ac maent wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn fel enghreifftiau o arfer da i gynghorau yng Nghymru eu hystyried.

## Cyngor Dinas Sheffield: proses cynllunio ariannol yn seiliedig ar ganlyniadau

Cyflwynodd Sheffield broses cynllunio ariannol yn seiliedig ar ganlyniadau wrth ddatblygu ei gyllidebau ar gyfer 2013-14. Ategodd y cynllun ganlyniadau strategol newydd ar gyfer y ddinas, sydd â gorwel 12 mlynedd (2013-2025). Mae'r cynllun yn:

- pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer cyflawni'r canlyniadau dros y cyfnod hwn
- darparu'r fframwaith ar gyfer penderfynu ble i ddyrannu adnoddau
- diffinio'r mesurau perfformiad er mwyn helpu i olrhain cynnydd tuag at gyflawni.

Cyflwynodd y Cyngor fwrdd canlyniadau strategol i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r cynllun a threfniadau llywodraethu cysylltiedig, gyda chyfarwyddwyr yn atebol i'r bwrdd am wireddu buddiannau'r cynllun. Mae'r model busnes ar gyfer cyflawni yn erbyn y cynllun canlyniadau strategol yn seiliedig ar:

- fuddsoddiad a arweinir gan ganlyniadau, er mwyn cyflawni canlyniadau i'r ddinas a gwneud gwahaniaeth i Sheffield a'i phobl
- comisiynu prosiectau a arweinir gan ganlyniadau a fydd yn cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni newid sylweddol yng nghanlyniadau pobl a busnesau lleol. Mae'r fath gamau wedi gwella penderfyniadau hirdymor, blaenoriaethu'r defnydd o adnoddau a nodi lle mae angen mynd ar drywydd ffynonellau newydd o incwm neu gyllid.

Mae'r Cyngor yn defnyddio proses gwersi a ddysgwyd gadarn a thryloyw wrth adolygu'r flwyddyn gyntaf o waith cynllunio ariannol seiliedig ar ganlyniadau, er mwyn sicrhau bod y dull newydd hwn o weithredu yn cael ei ymgorffori'n llawn o fewn y sefydliad.

## Bwrdeistref Barnet, Llundain: model cyflawni sy'n canolbwyntio ar gomisiynu

Mae'r Cyngor yn arwain y gwaith a wneir gan gyrff llywodraeth leol i ddefnyddio model llywodraethu a darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio'n fwy ar gomisiynu. O fis Ebrill 2013, dechreuodd y Cyngor ddefnyddio strwythur cyngor comisiynu newydd. Mae'n cynnwys grŵp sicrwydd sy'n gyfrifol am oruchwylio'r bwrdd comisiynu strategol a'i aelodau'n annibynnol, fel bod penderfyniadau'r Cyngor yn effeithiol a bod trefniadau rheoli risg priodol ar waith a'u bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol gan brif gomisiynwyr y Cyngor a'i unedau cyflawni. Er y bydd angen i effeithiolrwydd y trefniadau newydd gael ei brofi dros amser, dengys yr arwyddion cychwynnol gan swyddogion eu bod yn gweithio'n dda ac yn helpu uwch dîm y Cyngor i ganolbwyntio ar y ffordd orau o ddefnyddio adnoddau mewn modd cydgyssylltiedig ar draws pob gwasanaeth yn hytrach na mewn ffordd seilo.

### **Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Solihull: cysoni ein hadnoddau â'n blaenoriaethau**

Mae penderfyniadau yn seiliedig ar achosion busnes clir dros fuddsoddi a rhydd adolygiadau o ddarbodusrwydd ddadansoddiad manwl o fentrau lleihau costau. Y prif gyfrwng adrodd yw Cysoni ein Hadnoddau â'n Blaenoriaethau (ARTOP). Mae ARTOP yn cwrdd bob mis a chaiff ei gadeirio gan y cyfarwyddwr adnoddau. Ei rôl yw monitro hysur y broses o gyflawni'r holl arbedion o fewn y strategaeth ariannol tymor canolig gyfredol 2013-14 i 2015-16. Mae ARTOP yn un o is-grwpiau'r tîm arwain corfforaethol ac mae'n cyflwyno canlyniadau pob cyfarfod i'r tîm arwain fel rhan o adroddiad ariannol misol. Nodir arbedion dair blynedd ymlaen llaw ac ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol cyflawnwyd 85 y cant o'r holl arbedion, gyda chynnydd yn cael ei wneud mewn perthynas â'r ddwy flynedd ddilynol.

### **Cyngor Sir Swydd Gaerloyw: system fonitro sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cymorth**

Mae'r Cyngor yn defnyddio Verto, pecyn rheoli prosiect, i gofnodi a monitro'r gwaith o gyflawni cynlluniau arbed unigol sydd, gyda'i gilydd, yn creu rhaglen arbed 'Ateb yr Her' y Cyngor. Mae'r system hon yn hwyluso atebolrwydd, perchenogaeth ac yn cefnogi gwaith cyflawni drwy fewnbwn gan drawsdoriaid eang o'r Cyngor. Yn benodol, mae pob rhaglen arbed yn destun sawl porth er mwyn sicrhau bod cynlluniau'n gadarn ac yn gyflawnadwy. Er mwyn hwyluso'r broses gyflawni, mae pob cynllun arbed yn defnyddio Verto i nodi a sicrhau'r gwasanaethau cymorth sydd eu hangen arno i lwyddo. Mae'r gwasanaethau cymorth yn cynnwys cydweithwyr cyllid, dadansoddi anghenion, adnoddau dynol, rheoli risg ac asedau sy'n sicrhau perchenogaeth gorfforaethol.

### **Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Wigan: defnyddio cronfeydd wrth gefn i gefnogi trawsnewid**

Yng Nghyngor Wigan, mae cyflawni cynlluniau arbed 2013-14 yn gynnar yn golygu y bu'n bosibl rhyddhau cronfeydd a chreu nifer o gronfeydd wrth gefn newydd a fydd yn gwrthbwyso rhai o'r risgiau sydd ynghlwm wrth gyflawni rhaglen drawsnewid y Cyngor. Hefyd, achubwyd ar y cyfle i ailflaenoriaethu ac ailbecynnu nifer o gronfeydd wrth gefn presennol er mwyn helpu i gyflawni'r agenda drawsnewid. Cred Wigan mai'r hyn sy'n allweddol i gyflawni arbedion yw gwaith monitro agos ac adroddiadau rheolaidd ar gynnydd, a chynnwys yr arbedion effeithlonrwydd gofynnol mewn cyllidebau sylfaen, ac adolygu cyllidebau ardal wasanaeth penodol, er mwyn darparu gwasanaeth ymateb a chost-effeithiol o ansawdd uchel.

## Cyngor Sir Surrey: cyllidebau pum mlynedd

Nid yw'r Cyngor wedi cwblhau cyllidebau blynyddol annibynnol ers sawl blwyddyn, ond mae'n llunio cyllidebau pum mlynedd sy'n sail i gyllidebau blynyddol. Mae hyn yn golygu bod cyllidebau blynyddoedd i ddod yn fwy manwl, dibynadwy ac yn ei gwneud yn haws nodi newidiadau rhwng blynyddoedd (h.y. prosiectau cyfalaf sy'n rychwantu nifer o flynyddoedd). Mae hyn yn arwain at fwy o dryloywder, effeithlonrwydd a chyllidebau mwy cyflawnadwy yn ystod y flwyddyn. Mae'n galluogi uwch reolwyr i gynllunio ar gyfer y tymor hwy â mwy o sicrwydd. Fel rhan o'r broses o bennu cyllideb, mae'r Cyngor yn ystyried nifer o senarios ac yn defnyddio'r un fwyaf addas. Mae'n cwblhau nifer o gyllidebau drafft drwy gydol y cylch cynllunio ariannol, ac yn ymgysylltu â'r sector busnes a'r sector gwirfoddol, cymunedau, undebau llafur, pob aelod, a thrigolion ar bob cam.

Cynorthwyr aelodau etholedig ac uwch reolwyr i gyflawni eu gwaith rheoli ariannol strategol drwy adroddiadau monitro cyllidebau refeniw a chyfalaf misol, 'proses gau galed' chwarterol o'r cyfrifon (gan gynnwys yr holl ddatganiadau sylfaenol) a chau cynnar a chyhoeddi'r datganiad cyfrifon. Rhydd hyn y wybodaeth sylfaen a hyder yn systemau ariannol a threfniadau rheoli ariannol y Cyngor i allu gwneud penderfyniadau hirdymor.

Mae Cyngor Sir Surrey hefyd wedi cyflwyno seminarau pob aelod rheolaidd fel rhan o'r broses cynllunio ariannol tymor canolig, er mwyn hysbysu aelodau am waith monitro ariannol a'u cynnwys yn barhaol yn y broses. Caiff y seminarau eu cyd-arwain gan y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Prif Weithredwr ac maent yn gyfle i drafod y prif risgiau ariannol a wynebir gan y Cyngor yn y tymor canolig yn fanwl. O ganlyniad, mae gan y partiön â diddordeb o fewn y Cyngor ddealltwriaeth gadarn o'r risgiau hyn - sydd, ar hyn o bryd, yn ymwneud yn bennaf ag erydu prif ffynonellau cyllid, cyflawni'r rhaglenni newid mawr ac arbedion effeithlonrwydd cysylltiedig, cyflwyno'r seilwaith gwastraff a newid gwaith comisiynu iechyd.

Mae Surrey hefyd yn profi newid diwylliannol fel bod gan bob rheolwr cyfrif berchenogaeth glir o'i gyfrifoldebau ariannol a'i fod yn deall sut mae'r amgylchedd ariannol ehangach yn effeithio ar ei wasanaeth. Caiff pob rheolwr perthnasol hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r system gyllid er mwyn datblygu adroddiadau hunanwasanaeth. Prif nod y prosiect yw cyflawni gwaith rheoli ariannol rhagweithiol a gwneud penderfyniadau ariannol gwych. Fel unrhyw fenter sy'n gofyn am newid ymddygiad, mae'r Cyngor yn ymwybodol y bydd y prosiect yn cymryd amser i'w ymgorffori ac y gall gael ei herio gan rai aelodau o staff. Mae'r Cyngor yn lliniaru hyn drwy gynnal adolygiad rheolaidd o'r cynnydd a wneir a nodi camau gwella. Cyflawnwyd hyn yn rhannol hyd yma drwy gyflwyno'r dangosfwrdd i'r cyfarwyddiaethau fesul cam. Wrth fynd ymlaen, mae'r Cyngor yn ystyried ehangu'r defnydd o'r dangosfwrdd ariannol i gynnwys monitro cyfalaf a phennu cyllidebau.

Mae Surrey yn anelu at wneud rhagor o welliannau i ddealltwriaeth ariannol drwy ei grwpiau arwain rhwydwaith newydd. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys uwch reolwyr ac arbenigwyr ar gyfer pob rhan o weithgarwch y Cyngor, sy'n cyfarfod bob mis o leiaf i drafod materion corfforaethol fel monitro cyllidebau a pherfformiad, cynhyrchiant a gwella gwasanaethau. Adolygir data a chaiff rhai meysydd eu hastudio'n fanwl, gan wneud argymhellion lle bo'n briodol.

## Cyngor Bwrdeistref Metropolitan St Helens: cynlluniau ariannol a gwasanaeth cwbl integredig

Yng Nghyngor Bwrdeistref Metropolitan St Helens, mae cynlluniau ariannol a gwasanaeth cwbl integredig ynghyd ag adroddiadau ariannol a pherfformiad ar y cyd yn helpu i sicrhau y gall ganolbwyntio adnoddau ar gyflawni canlyniadau â blaenoriaeth. Mae cyfarwyddwyr adrannol a'r prif weithredwr cynorthwyol dros gyllid yn cynnal cyfarfodydd misol er mwyn trafod cyllidebau, hynt mesurau perfformiad allweddol, materion yn ymwneud â darparu gwasanaethau a chymau sydd angen eu cymryd i ymdrin ag unrhyw bryderon a nodwyd. O ganlyniad, caiff adroddiadau cyfunol clir, yn cwmpasu gwaith monitro perfformiad cyllideb a gwasanaeth, eu cyflwyno i'r cabinet bob mis.

Mae Cyngor Bwrdeistref Metropolitan St Helens hefyd o'r farn y dylai casglu barn pobl leol a rhanddeiliaid allweddol hefyd fod yn rhan annatod o'r broses o bennu cyllideb. Drwy ei ymgynghoriad ar y gyllideb a mentrau ysgogi'r gyllideb, mae'r Cyngor yn galluogi partiön â diddordeb i roi cyngor ar y meysydd mwyaf gwerthfawr o'i wariant. Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y gyllideb bob blwyddyn ac yn cyhoeddi adroddiad cryno ar ei wefan. Ar yr un pryd, mae gwaith yn mynd rhagddo ar ffurf adolygiadau sero o gyllidebau portffolio, ac adolygiadau o gyllidebau gwasanaeth penodol, er mwyn darparu gwasanaeth ymatebol a chost-effeithiol o ansawdd uchel.

## Bexley, Stockport a Tewkesbury: lleihau costau cefn swyddfa

Mae cynghorau ledled Lloegr wedi datblygu mentrau i wneud arbedion mewn gwariant cefn swyddfa, heb ddisbyddu adnoddau. Mae Bwrdeistref Bexley, Llundain wedi lleihau nifer y swyddfeydd a ddefnyddir gan staff y Cyngor ac wedi cofnodi iddo arbed £1 filiwn mewn costau rhedeg blynyddol ar ddechrau 2014/15, gan godi i £1.5 miliwn mewn blynyddoedd i ddod, o ganlyniad uniongyrchol i'r broses hon. Hefyd, bydd y derbynebau cyfalaf dros ben a gynhyrchir drwy waredu hen safleoedd swyddfa yn lleihau'r angen i fenthycu er mwyn ariannu rhaglen gyfalaf y Cyngor.

Yng Nghyngor Bwrdeistref Metropolitan Stockport, mae rolau staff wedi newid i greu mwy o effeithlonrwydd, gyda rolau'n dod yn fwy generig fel bod mwy o hyblygrwydd cefn swyddfa.

Mae Cyngor Bwrdeistref Tewkesbury wedi ailddatblygu ei eiddo ac wedi rhesymoli'r gofod a ddefnyddir gan ei gyflogeion, gan ei alluogi i gynnig gofod ar brydles i endidau eraill, fel gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ac oedolion y cyngor sir, yr heddlu, yr Adran Gwaith a Phensiynau, y gwasanaeth tân a'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth, gan greu 'canolfan sector cyhoeddus' sy'n rhoi lleoliad canolog i bobl leol gael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r budd blynyddol mewn rhent i'r Cyngor yn £160k ar hyn o bryd a disgwylir iddo fod yn £235k yn 2015/16.

### **Bwrdeistref Sutton, Llundain: adrodd integredig**

Mae Bwrdeistref Sutton, Llundain wedi dangos sut y gall adrodd integredig wella dealltwriaeth aelodau o'r darlun cyflenwi cyfan. Mae ei Phwyllgor Strategaeth ac Adnoddau yn adolygu'r adroddiad perfformiad ariannol sy'n cynnwys DPAAu integredig gan gynnwys gwybodaeth am wasanaeth cwsmeriaid a'r gweithlu bob chwarter. Felly, mae aelodau'n adolygu perfformiad gwasanaethau yng nghyd-destun yr amlen ariannol a hynt rhaglenni newid mawr, gan gynnwys cyflawni arbedion yn erbyn targedau. Mae'r cerdyn sgorio cytbwys yn cynnwys adborth cwsmeriaid a DPAAu y gweithlu mewn fformat hygyrch cryno.

Drwy ddatblygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig manwl â gorwel cynllunio tan fis Mawrth 2019, yn unol â'i Chynllun Corfforaethol newydd, mae Bwrdeistref Sutton, Llundain hefyd wedi llwyddo i nodi gofynion arbed ar sail hirdymor a rhoi trefniadau cynllunio lliniarol ar waith er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu bodloni. Pan gafodd y cynllun hwn ei ddiwygio ym mis Gorffennaf 2014, penderfynwyd y byddai'r bwch cyllid rhagamcanol dros oes y cynllun yn £38 miliwn, oherwydd pwysau cost a gostyngiadau rhagamcanol sylweddol i'r Grant Cynnal Refeniw. Drwy lunio'r rhagamcan hwn ymlaen llaw, mae Sutton bellach mewn sefyllfa i ddatblygu a chyflawni cynlluniau effeithlonrwydd dros gyfnod sylweddol o amser, gan leddfu'r baich ar staff a'r effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth.

### **Cyngor Caerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf: cyllidebu seiliedig ar sero**

Mae Cyngor Caerfaddon a Gogledd-ddwyrain Gwlad yr Haf wedi symud tuag at gyllidebu seiliedig ar sero er mwyn herio dyraniad adnoddau a chanolbwyntio ar sicrhau adnoddau ar gyfer gwasanaethau â blaenoriaeth. Mae'n adrodd ar hynt y gyllideb i uwch reolwyr a'r cabinet bob mis. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i weithredu'n gyflym mewn ymateb i bwysau gwario sy'n datblygu. Mae hefyd yn craffu ar berfformiad cynlluniau arbed allweddol yn ofalus. Caiff cynlluniau arbed manwl, sydd wedi'u dadansoddi yn ôl gweithgareddau a blynyddoedd penodol, eu cynnwys mewn cynlluniau adnoddau gwasanaeth tymor canolig. Mae'r rhain yn bwydo i mewn i'r adroddiad cyffredinol ar y gyllideb a'r cynllun ariannol tymor canolig. Yna bydd paneli craffu, y cabinet a'r cyngor llawn yn craffu ar gynlluniau. Llunnir monitor cynnydd manwl yn erbyn yr arbedion a gyflawnwyd yn ôl cyfarwyddiaeth.

### **Bwrdeistref Haringey, Llundain: dull y 100 uchaf**

Mae Bwrdeistref Haringey, Llundain wedi ad-drefnu ei strwythur uwch reoli. Mae hyn wedi gwneud rolau a chyfrifoldebau'n fwy eglur sy'n cynnwys bod yn gwbl atebol am bennu'r gyllideb, ei monitro a'i chyflawni. Cyflwynwyd haen strategol newydd o gyfarwyddwyr cynorthwyol y mae eu hatebolrwydd yn cynnwys rheoli a monitro cyllidebau yn eu meysydd a dwyn deiliaid cyllidebau i gyfrif am berfformiad. Hefyd, lluniwyd grŵp rheoli corfforaethol newydd (100 uchaf o reolwyr) a grŵp arwain corfforaethol (cyfarwyddwyr cynorthwyol) sy'n cydweithio i ganfod atebion i broblemau strategol ac sydd wedi bod yn gyfrifol am ddatblygu cynlluniau arbed a buddsoddi tair blynedd y Cyngor. Pan fo cyllidebau'n dynn mae'n bwysig sicrhau bod y cyngor cyfan yn cydweithio i gyflawni'r canlyniadau gofynnol - mae'r strwythurau newydd a'r broses lywodraethu yn helpu i chwalu seilos.

# Atodiad 3 – Y gwahaniaethau yn y ffordd y caiff llywodraeth leol ei hariannu yng Nghymru a Lloegr

Caiff y rhan fwyaf o bolisiau a chyfrifoldebau llywodraeth leol, o addysg i gynllunio, neu wasanaethau cymdeithasol i dai, eu datganoli i Lywodraeth Cymru. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bennu blaenoriaethau cenedlaethol, cyd-destun strategol a'r lefel gyffredinol o gyllid i wasanaethau. Yna, y 22 o gynghorau yng Nghymru sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaethau hyn yn lleol mewn cyd-destun cenedlaethol. Caiff tua thraean o gyllideb Llywodraeth Cymru ei gwario drwy awdurdodau lleol gan adlewyrchu pwysigrwydd gwasanaethau lleol.

Yn Lloegr, caiff cyllid cynghorau ei weinyddu'n bennaf gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Yng Nghymru aiff cyllid ysgolion drwy'r Grant Cynnal Refeniw tra yn Lloegr darperir cyllid addysg gan yr Adran Addysg a chaiff ei weinyddu gan yr Asiantaeth Ariannu Addysgol.

Yng Nghymru a Lloegr, daw incwm cynghorau o amrywiaeth o ffynonellau a'r rhai pwysicaf yw'r grant cynnal refeniw gan Lywodraeth Cymru; Treth Gyngor; ardrethi (busnes) annomestig; ac incwm/grantiau eraill.

Mae'r modd y caiff cyllidebau Llywodraeth Leol eu diogelu yng Nghymru yn wahanol iawn i'r sefyllfa yn Lloegr, lle gwelwyd toriadau sylweddol fwy i gyllidebau llywodraeth leol - gostyngiad o tua 9.8 y cant mewn cymorth refeniw gan lywodraeth ganolog rhwng 2010-11 a 2013-14. Ffactor pwysig sy'n sail i'r gwahaniaeth yw faint o ddiogelwch a roddir i'r GIG. Yn Lloegr, mae llywodraeth y DU wedi ceisio diogelu gwariant ar iechyd yn nhermau real. Yng Nghymru, i'r gwrthwyneb, lleihawyd gwariant refeniw ar iechyd tua 5.5 y cant yn nhermau real.

Yn wreiddiol, lluniodd Llywodraeth Cymru setliad dangosol ar gyfer 2014-15, a oedd yn dangos gostyngiad bach o un y cant mewn termau real o gymharu â 2013-14. Fodd bynnag, mae ei chyllideb ddilydol yn cynnwys mwy o arian i'r GIG a blaenoriaethau eraill o fewn ei Rhaglen Lywodraethu na'r rheini a nodwyd mewn cynlluniau cyllideb dangosol a gostyngiad mwy na'r disgwyl i awdurdodau lleol. Wynebodd llywodraeth leol yng Nghymru ostyngiad nominal o 3.2 y cant mewn refeniw ar gyfer 2014-15 (pump y cant mewn termau real); dengys cynigion cyllideb dangosol ar gyfer 2015-16 ostyngiad pellach mewn refeniw o fwy na thri y cant mewn termau real. Wynebodd cynghorau'r dasg heriol o gynnwys y gostyngiadau hyn nas rhagwelwyd yn eu cynlluniau ariannol tymor canolig; mae ansicrwydd parhaus ynghylch lefel yr arian sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau yn golygu na all cynghorau fod yn siŵr faint o arbedion y bydd angen iddynt eu gwneud.

Hefyd, yng Nghymru, nid yw'r grant cynnal refeniw wedi'i glustnodi na'i neilltuo a chyfrifoldeb cynghorau yw penderfynu sut maent yn gwario eu dyraniad ar y gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae cynghorau yng Nghymru hefyd yn dal i gael grantiau penodol, tra bo'r fath neilltuo wedi diflannu yn Lloegr ar y cyfan. Ym marn cynghorau yng Nghymru a CLILC, ni ddylai grantiau gael eu neilltuo a dylai'r arian hwn gael ei gynnwys fel rhan o'r setliad refeniw. Ar adeg y setliad, gall fod angen i fanylion y dyraniadau ar gyfer nifer o grantiau penodol gael eu pennu'n derfynol o hyd, gan greu mwy o ansicrwydd i gynghorau wrth lunio cynlluniau ariannol a phennu cyllidebau.



Mae strwythur llywodraeth leol yng Nghymru yn gymharol gyson gan fod pob cyngor wedi'i sefydlu ar sail strwythur un haen (unedol) - gydag un corff yn gyfrifol am bob cyngor lleol. Yn Lloegr, ceir gwahaniaethau strwythurol sylweddol â'r system ddwy haen neu Gynghorau Sir a Dosbarth, ochr yn ochr â chynghorau un haen (unedol) o fathau gwahanol. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd iawn mesur cost-ffeithiolrwydd cymharol y cyfluniadau gwahanol hyn.

Maes allweddol sy'n destun dadl ar hyn o bryd yn Lloegr yw'r ffaith bod toriadau i grantiau'r Llywodraeth yn cael effaith anghymesur mewn ardaloedd llai cefnog, lle mae incwm treth gyngor ac ardrethi busnes yn cyfrif am lai o gyfran o'r holl incwm. Caiff hyn effaith debyg yng Nghymru.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

Website: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

Gwefan: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>27 Gorffennaf 2015</b>
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b>	<b>Y Cyngorydd Julian Thompson-Hill</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Richard Weigh, Prif Swyddog Ariannol</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Astudiaeth Genedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru - Rheoli Ymadawiadau Cynnar yng ngwahanol Gyrrff Cyhoeddus Cymru</b>

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Astudiaeth genedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru i ganfod a yw cyrrff cyhoeddus yng Nghymru yn gallu dangos eu bod yn sicrhau gwerth am arian drwy weithredu trefniadau ymadawiadau cynnar i reoli neu leihau costau gweithlu.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

I gyflwyno adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar astudiaeth genedlaethol.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

I ystyried yr adroddiad a'r argymhellion.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Mae adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, dan y teitl 'Rheoli Ymadawiadau Cynnar yng Ngwahanol Gyrrff Cyhoeddus Cymru' ynghlwm. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflwyno'r adroddiad ac yn ateb cwestiynau.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghori a wnaed â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Ddim yn berthnasol i'r adroddiad hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae canfyddiadau'r astudiaeth a'r argymhellion yn cael eu hystyried gan y Cyngor.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'r astudiaeth yn amlinellu risgiau ac argymhellion ar lefel genedlaethol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Adroddiad a gynhyrchwyd dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales

# Rheoli ymadawiadau cynnar yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU





Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

Aelodau tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru oedd Nigel Blewitt, Sophie Knott a Jeremy Morgan, dan gyfarwyddyd Matthew Mortlock.

**Huw Vaughan Thomas**  
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**  
**Swyddfa Archwilio Cymru**  
**24 Heol y Gadeirlan**  
**Caerdydd**  
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilydd penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk), neu gweler y wefan [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk).

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2015

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion canlynol: Ffôn 029 2032 0500, e-bost [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

# Cynnwys

	<b>Crynodeb</b>	<b>7</b>
	Argymhellion	12
<b>1</b>	<b>Mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi gwneud defnydd helaeth o ymadawiadau cynnar i helpu i leihau cost y gweithlu</b>	<b>14</b>
	Rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013, fe adawodd 10,658 o staff eu cyflogaeth drwy ymadawiad cynnar, sy'n cyfateb i tua un o bob 25 o'r gweithlu	15
	Roedd y costau a dalwyd ymlaen llaw ar gyfer pecynnau ymadael cynnar yn dod i gyfanswm o £254 miliwn rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013	20
	Ar yr amod nad oedd staff yn cael eu penodi yn lle'r rhai a ymadawodd, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, byddai cyrff cyhoeddus yn dechrau arbed costau yn sgil ymadawiadau cynnar ar ôl 10 mis ar gyfartaledd	24
	Er nad yw'n glir faint yn union yw cyfraniad ymadawiadau cynnar, fe ostyngodd costau cyflogau staff yng ngwahanol gyrrff cyhoeddus Cymru o ryw £447 miliwn mewn termau real rhwng 2009-10 a 2013-14	28
	Mae cyrff cyhoeddus wedi defnyddio sawl dull arall yn ogystal ag ymadawiadau cynnar er mwyn rheoli neu leihau costau'r gweithlu a'r un a ddefnyddiwyd fwyaf yw rheoli swyddi gwag	31
	Roedd y rhan fwyaf o gyrrff cyhoeddus yn rhagweld y byddent yn rhedeg cynlluniau ar gyfer ymadael yn gynnar yn 2014-15 a hefyd yn defnyddio dulliau eraill i reoli neu leihau costau'r gweithlu	34



2	At ei gilydd, mae'n ymddangos bod ymadawiadau cynnar wedi cael eu llywodraethu'n dda, er nad oedd pob cynllun yn cydymffurfio'n llawn ag egwyddorion arferion da	35
	Mae'r rhan fwyaf o ymadawiadau cynnar yn digwydd yn unol â chanllawiau neu ddeddfwriaeth sy'n benodol i'r sector dan sylw ac yn unol hefyd â pholisïau a gweithdrefnau lleol	36
	Er bod cyrff cyhoeddus at ei gilydd wedi cadw mewn cof yr angen i gynllunio eu gweithlu wrth iddynt ystyried effaith ymadawiadau cynnar, mae rhai wedi defnyddio meini prawf mwy trwyadl wrth wneud achosion busnes na'i gilydd	39
	Roedd y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn defnyddio cynghorwyr neu aelodau bwrdd mewn rhyw fodd i graffu ar drefniadau ymadael cynnar	42
	Dim ond 55 y cant o'r cyrff cyhoeddus a ddywedodd eu bod wedi cynnal rhyw fath o asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y cynllun ymadael cynnar a ddefnyddient amlaf	43
	Cafwyd cytundeb setlo mewn rhyw un o bob pump o ymadawiadau cynnar ond dim ond mewn saith y cant o'r achosion hynny y gwnaed taliad ychwanegol; roedd y gost yn rhyw £20,000 ar gyfartaledd	45
	Mae amryw o wahanol gyfyngiadau ar ailgyflogi pobl sy'n ymadael yn gynnar o gyrff cyhoeddus yng Nghymru	47
	Roedd ansawdd y data ar gyfer ymadawiadau cynnar yn y gwahanol gyrff cyhoeddus yn anghyson	48
	<b>Atodiadau</b>	
	Atodiad 1 – Dulliau archwilio	50
	Atodiad 2 – Dadansoddiad o'r data ar ymadawiadau cynnar	55

# Adroddiad cryno



# Crynodeb

- 1 Mae sefydliadau'r sector cyhoeddus wedi parhau i wynebu pwysau ariannol ac wedi gorfod gwneud arbedion cost sylweddol yn dilyn adolygiadau gwariant Llywodraeth y DU yn 2010 a 2013. Rhwng 2010-11 a 2015-16, gwelwyd gostyngiad o £1.7 biliwn mewn termau real<sup>1</sup> yn y gyllideb a ddyrannwyd i Lywodraeth Cymru gan Lywodraeth y DU.
- 2 I'r rhan fwyaf o wasanaethau cyhoeddus, y brif gost y gallant ei rheoli yw eu bil cyflogau. Yn anochel, felly, bu'n rhaid i'r gwasanaethau cyhoeddus ystyried ffyrdd o dorri costau staff fel rhan o'r ymdrech i gyrraedd targedau mwy cyffredinol o ran arbed arian, drwy dalu llai a/neu gyflogi llai o bobl neu eu cyflogi am lai o oriau. Un ffordd o leihau nifer y staff yw trwy hyrwyddo 'ymadawiadau cynnar' drwy gyfrwng cymhellidal neu 'becyn ymadael'. Yna bydd cyflogeion yn ymadael a disgwylir y bydd y sefydliad sy'n eu cyflogi yn gallu arbed arian yn y tymor hwy.
- 3 Yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, *Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2011*<sup>2</sup> fe nodwyd y byddai rhewi cyflogau a recriwtio yn y sector cyhoeddus, ynghyd ag ymadawiadau cynnar, yn helpu i bontio'r agendor ariannol a wynebai'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ond bod angen cynllunio'r gweithlu a chyfathrebu'n effeithiol er mwyn rheoli'r risgiau cysylltiedig. Ymhlith y risgiau hyn y mae'r posibilrwydd y bydd y cynlluniau'n arwain at fylchau sgiliau – ac y bydd yn rhaid llenwi'r bylchau a hynny'n arwain at gost ychwanegol, efallai – a'r effaith gyffredinol ar y modd y darperir gwasanaethau. Nododd yr adroddiad hefyd fod costau sylweddol i'w talu ymlaen llaw pan gymerir y camau hyn a'i bod yn gallu cymryd peth amser i'r arbedion wrthbwysu'r costau cychwynnol.
- 4 Yn ymarferol, mae sawl enw'n cael ei roi ar ymadawiadau cynnar. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r termau ymadael gwirfoddol, diswyddo gwirfoddol, diswyddo gorfodol ac ymddeol yn gynnar wrth gyfeirio at y pedwar prif fath o ymadawiad cynnar (**Blwch 1**). Fodd bynnag, gall sefydliadau ddefnyddio eu termau eu hunain i ddisgrifio'r pedwar math hyn o ymadawiad. Yn gyffredinol, mae ymadael gwirfoddol yn golygu telerau mwy ffafriol na diswyddo gwirfoddol, sydd yn ei dro yn golygu termau mwy ffafriol na diswyddo gorfodol.

<sup>1</sup> Datganiad Ysgrifenedig - Cylch Gwariant Llywodraeth y DU 26 Mehefin 2013, Llywodraeth Cymru, Mehefin 2013. I'w weld yn <http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2013/spendingground2013/?skip=1&lang=cy>.

<sup>2</sup> *Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2011*, Swyddfa Archwilio Cymru, Hydref 2011.

## Blwch 1 – Mathau o ymadawiad cynnar

**Ymadael gwirfoddol:** Gellir cynnig cyfle i bobl ymadael yn wirfoddol er mwyn gwneud y gweithlu'n fwy effeithlon a lle bo cyflogwyr yn dymuno lleihau nifer y staff, neu er mwyn helpu i gyflawni newidiadau mewn sefydliad. Nid yw unigolion yn gorfod derbyn y cynnig. Mae gan gyrff cyhoeddus hyblygrwydd mawr o ran y trefniadau a'r taliadau a gynigir. Gelwir hyn weithiau yn adael swydd yn gynnar o wirfoddol.

**Diswyddo gwirfoddol:** Cynnigir diswyddo gwirfoddol i staff lle mae perygl y bydd eu swydd yn cael ei dileu, gan ymgynghori'n ffurfiol drwy'r undebau llafur. Er nad yw unigolion yn gorfod gofyn am ddiswyddiad gwirfoddol, gellir eu diswyddo'n orfodol yn nes ymlaen. Gelwir hyn weithiau'n ddiswyddo hyblyg.

**Diswyddo gorfodol:** Gellir dewis unigolion i'w diswyddo'n orfodol ar ôl iddynt gael cynnig diswyddiad gwirfoddol. Fel rheol, dyna pryd y cânt y telerau lleiaf ffafriol o ran tâl.

**Ymddeol yn gynnar:** Gall unigolion ymddeol cyn yr oed safonol a derbyn cyfandaliad a/neu ychwanegiadau at eu pensiwn.

*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru a Chynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil*

- 5 Yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth y DU, cyflwynwyd gofynion newydd ar gyfer datgelu cyfrifon ariannol o 2010-11 ymlaen, mewn perthynas â phob 'pecyn ymadael' pan fydd pobl yn ymadael yn gynnar. Mae'r rhain yn berthnasol i Lywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir gan y Llywodraeth. O dan y gofynion hyn mae'n rhaid datgelu nifer y pecynnau ymadael cynnar fesul band cost a chyfanswm y gost ym mhob blwyddyn ariannol. Mae'r gofyniad hwn hefyd yn rhan o God Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol, 2010-11<sup>3</sup> ac mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys yr un gofyniad yn ei chyfarwyddyd i gyrff y GIG yng Nghymru ar gyfer cadw cyfrifon, o 2010-11 ymlaen.
- 6 Ym mis Mai 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Gweithio gyda'n Gilydd dros Gymru – Fframwaith Strategol ar gyfer Gweithlu'r Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru*. Mae'r strategaeth yn amlinellu lle canolog y gweithlu er mwyn gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol. Nodir hefyd yr egwyddorion y bydd Llywodraeth Cymru yn eu dilyn mewn perthynas â materion y gweithlu. Y ddwy brif flaenoriaeth sydd i'w gweld yn y fframwaith strategol yw 'creu gweithlu llawn brwdfrydedd a chymhelliant sy'n perfformio'n dda' a 'denu a chadw talent'. Os cânt eu rheoli'n dda, gall ymadawiadau cynnar helpu i gyflawni'r amcanion hyn.

<sup>3</sup> Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), a Phwyllgor Ymgynghorol Cyfrifon Awdurdodau Lleol (Yr Alban) (LASAAC).

- 7 Cafwyd adroddiad yn ddiweddar gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol<sup>4</sup> ynghylch y trefniadau ymadael yn gynnar yn adrannau llywodraeth ganolog y DU, ac adroddiad gan Audit Scotland<sup>5</sup> am y trefniadau yn sector cyhoeddus yr Alban. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol hefyd wedi rhoi adroddiad ar drefniadau o'r fath ar gyfer uwch swyddogion y BBC<sup>6</sup>. Mae adroddiadau Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin a Phwyllgor Archwilio Cyhoeddus Senedd yr Alban wedi cadarnhau canfyddiadau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ac Audit Scotland. Tynnwyd sylw yn yr adroddiadau hyn at amryw o wendidau ac anghysonderau yn y modd y rheolir ymadawiadau cynnar.
- 8 Yng Nghymru, cafwyd cyhoeddusrwydd negyddol ynglŷn ag ymadawiadau cynnar mewn nifer o gyrff cyhoeddus. Yn 2011, beirniadwyd trefniadau ymadael yn gynnar Llywodraeth Cymru mewn adroddiad gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol<sup>7</sup> a oedd yn sôn am niferoedd a chostau staff. Daeth yr adroddiad i'r casgliad nad oedd fawr ddim tystiolaeth fod adrannau Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth ddigonol i ymadawiadau cynnar er mwyn sicrhau nad effeithid yn ormodol ar unrhyw adran yn sgil lleihad yn nifer y staff.
- 9 Cafwyd cyhoeddusrwydd negyddol hefyd yn ddiweddar ynglŷn â'r defnydd o gytundebau setlo<sup>8</sup> a 'chymalau cau ceg' oddi mewn i drefniadau ymadael yn gynnar. Mewn adroddiad yn 2013, canfu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol nad oedd digon o dryloywder, cysondeb nac atebolrwydd pan ddefnyddid cytundebau setlo yn y sector cyhoeddus ac nid oes llawer o ddim byd yn digwydd i newid hyn<sup>9</sup>.
- 10 Ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, aeth tîm o Swyddfa Archwilio Cymru ati i geisio darganfod a all gyrff cyhoeddus Cymru brofi eu bod yn cael gwerth am arian drwy ddefnyddio ymadawiadau cynnar i reoli neu leihau costau'r gweithlu. Rhwng Chwefror a Mehefin 2014, fe wnaethom gynnal arolwg o 58 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, y GIG, awdurdodau'r parciau cenedlaethol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub a 'chyrff cyhoeddus eraill'. Yn ein harolwg, ceisiwyd gwybodaeth am y defnydd o ymadawiadau cynnar a threfniadau mwy cyffredinol y gyrff dan sylw i leihau neu reoli costau gweithlu yn y blynyddoedd diwethaf. Gofynasom hefyd am ddata ynghylch yr holl becynnau ymadael cynnar unigol y cytunwyd arnynt rhwng 1 Ebrill 2010 a 31 Rhagfyr 2013. Mae manylion llawn am ein dulliau i'w gweld yn [Atodiad 1](#).
- 11 Yn yr adroddiad hwn ceir adolygiad lefel uchel, yn seiliedig i raddau helaeth ar ganfyddiadau'r arolwg hwnnw ond gan ddefnyddio hefyd, lle bo hynny'n berthnasol, dystiolaeth ychwanegol a gafwyd drwy ein gwaith archwilio arferol. Nid ydym wedi archwilio rheoleidd-dra na phriodoldeb pecynnau ymadael cynnar unigol fel rhan o'r gwaith i gynhyrchu'r adroddiad hwn. Er hynny, mae ambell enghraifft yma ac acw, y bu sôn mawr amdanynt, lle mae archwilwyr wedi adolygu trefniadau pecynnau ymadael unigol ar gyfer uwch swyddogion.

4 *Managing early departures in central government*, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Mawrth 2012.

5 *Managing early departures from the Scottish public sector*, Audit Scotland, Mai 2013; *Scotland's public sector workforce*, Audit Scotland, Tachwedd 2013.

6 *Severance payments and wider benefits for senior BBC managers*, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Mehefin 2013.


7 *Ymchwiliad i niferoedd a chostau staff Llywodraeth Cynulliad Cymru*, Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Mawrth 2011.

8 *Roedd cytundebau setlo yn arfer cael eu galw'n gytundebau cyfaddawdu nes i Adran 23 y Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio ddod i rym ar 29 Gorffennaf 2013.*

9 *Confidentiality clauses and special severance payments*, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Mehefin 2013.

- 12 Cawsom fod cyrff cyhoeddus Cymru wedi gwneud defnydd helaeth o ymadawiadau cynnar, ymhlith llawer o fesurau eraill, i helpu i leihau cost y gweithlu. Rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013, fe ymadawodd 10,658 o staff o'u cyflogaeth yn gynnar ac roedd cost hynny yn dod i ryw £254 miliwn (Ffigur 1). Mae'r ffigurau a welir yng nghyfrifon diwedd blwyddyn cyrff cyhoeddus ar gyfer 2013-14 yn awgrymu, os cymherir y data hyn â'r rhai a adroddwyd i ni ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd Rhagfyr 2013, fod rhyw 2,300 yn ychwaneg o ymadawiadau cynnar yn chwarter olaf 2013-14.
- 13 Gan gymryd nad oedd staff eraill wedi'u cyflogi yn eu lle, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, gall cyrff cyhoeddus ddechrau arbed costau yn sgil ymadawiadau cynnar ar ôl 10 mis. Unwaith y bydd y cyfnod ad-dalu wedi dod i ben, gall cyrff cyhoeddus ddechrau gwneud arbediad net ar gyflog, cyfraniadau yswiriant gwladol a chyfraniadau pensiwn y buasent wedi gorfod eu talu i'r staff a ymadawodd. Ar sail y data yn ein harolwg, mae'r arbedion potensial hyn yn dod i ryw £305 miliwn y flwyddyn, er na fydd cyrff cyhoeddus efallai yn sicrhau'r arbedion hyn yn llawn am amryw o resymau. Er nad yw'n glir faint yn union yw cyfraniad ymadawiadau cynnar, fe wnaeth costau cyflogau staff yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru leihau o ryw £447 miliwn mewn termau real rhwng 2009-10 a 2013-14.
- 14 At ei gilydd mae'n ymddangos bod llywodraethu boddhaol wedi digwydd o ran ymadawiadau cynnar, er na wnaeth pob cynllun gydymffurfio'n llawn ag egwyddorion arferion da. Er enghraifft, mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gyffredinol wedi ystyried effaith ymadawiadau cynnar wrth gynllunio eu gweithlu ond mae rhai wedi bod yn fwy trwyadl na'i gilydd wrth ddefnyddio meini prawf achos busnes.

Ffigur 1 – Ymadawiadau cynnar fesul sector, Ebrill 2010 hyd Ragfyr 2013



Cyfanswm

Nifer yr ymadawiadau	Cyfran o'r gweithlu	Cost	Cost gyfartalog
<b>10,658</b>	<b>3.7%</b>	<b>£253.7m</b>	<b>£23,805</b>

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru

# Argymhellion

## Argymhellion

Cawsom nad oedd pob corff cyhoeddus yn defnyddio achosion busnes ar gyfer pob ymadawiad cynnar unigol ac, ymhlith y rhai sy'n defnyddio achosion busnes, fod rhai yn defnyddio meini prawf mwy trwyadl na'i gilydd ([paragraffau 2.18-2.20](#)).

**A1 Dylai cyrff cyhoeddus ddefnyddio achosion busnes wrth ymdrin â phob ymadawiad cynnar unigol. Dylai'r achosion busnes ganfod beth yw cost ymadawiad yr unigolyn a beth yw'r goblygiadau o ran darparu gwasanaethau, gan ystyried hefyd sut y bwriedir cynllunio'r gweithlu yn fwy cyffredinol.**

Ar gyfer ymadawiadau gwirfoddol a diswyddo gwirfoddol, mae gan awdurdodau lleol hawl i wneud eu trefniadau eu hunain. Yn ymarferol, maent wedi defnyddio ystod o wahanol delerau ac amodau ([paragraff 1.13](#)). Gan fod Llywodraeth Cymru yn awyddus i leihau nifer yr awdurdodau lleol yng Nghymru, mae'n debygol y bydd ymadawiadau cynnar yn rhan o unrhyw gytundebau a welir yn y dyfodol wrth uno awdurdodau.

**A2 Mewn cydweithrediad â llywodraeth leol, dylai Llywodraeth Cymru geisio cytuno ar rai egwyddorion cyffredin i fod yn sail i unrhyw drefniadau ymadael yn gynnar a ddaw yn sgil uno awdurdodau lleol.**

Mae'n bwysig craffu ar ymadawiadau cynnar er mwyn sicrhau bod y cynigion ar gyfer cynlluniau a hefyd ymadawiadau cynnar unigol yn rhoi gwerth am arian. Mewn dros dri chwarter y cyrff cyhoeddus, cawsom fod cynghorwyr neu aelodau byrddau yn chwarae rhyw ran yn y dasg o sicrhau gwerth am arian gydag ymadawiadau cynnar ([paragraffau 2.25-2.26](#)).

**A3 Rydym yn argymhell y dylai corff cyhoeddus:**

- Sicrhau bod cynghorwyr neu aelodau bwrdd yn cael cyfle i ystyried a yw cynlluniau ar gyfer ymadael yn gynnar yn rhoi gwerth am arian, trwy gyfrwng eu trefniadau craffu/llywodraethu presennol.
- Sicrhau bod cynghorwyr a/neu aelodau bwrdd yn cymeradwyo pecynnau mwy costus, fel y rhai ar gyfer uwch reolwyr.
- Ystyried defnyddio archwilwyr mewnol i roi sicrwydd bod yr holl gynlluniau ar gyfer ymadael yn gynnar yn cael eu rheoli'n ddigonol.

Cawsom fod tuag un o bob pump o'r ymadawiadau cynnar yn cynnwys rhyw fath o gytundeb setlo a bod saith y cant o'r achosion hyn yn cynnwys taliad ychwanegol. Fodd bynnag, nid oedd pob corff cyhoeddus yn gallu dweud wrthym a oedd cytundeb setlo neu daliad ychwanegol yn rhan o'r trefniant gyda'u hymadawiadau cynnar ([paragraffau 2.29-2.32](#)).

**A4 Dylai cyrff cyhoeddus sicrhau, pan ddefnyddir cytundebau setlo, fod eu cofnodion yn dangos yn glir a yw'r pecyn yn cynnwys taliad ychwanegol ai peidio ac os felly faint yw ei werth a pham y cafodd ei roi.**



## Argymhellion

Cawsom nad oedd pob corff cyhoeddus oedd â chynllun ymadael yn gynnar yn gwneud rhyw fath o asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Dylai asesiadau o'r fath sicrhau nad yw pobl sydd â'r nodweddion gwarchoddedig yn dioddef anfantais nac allgau annheg ([paragraffau 2.27-2.28](#)).

**A5 Dylai cyrff cyhoeddus ystyried yn briodol beth yw effaith pob trefniant ar gyfer ymadael yn gynnar o safbwynt cydraddoldeb, yn enwedig os yw corff cyhoeddus yn gweithredu cynllun penodol lle gallai llawer o bobl ymadael.**

Cawsom, ar yr amod nad oedd staff yn cael eu penodi yn lle'r rhai a ymadawodd, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, y byddai cyrff cyhoeddus yn dechrau arbed costau yn sgil ymadawiadau cynnar ar ôl 10 mis ar gyfartaledd. Wedi i'r cyfnod ad-dalu hwn ddod i ben, gallai cyrff cyhoeddus arbed tua £305 miliwn y flwyddyn. Fodd bynnag, roedd posibilrwydd na fyddai cyrff cyhoeddus yn sicrhau unrhyw arbedion o'r fath yn llawn, am amryw o resymau ([paragraffau 1.18-1.23](#)).

**A6 Dylai cyrff cyhoeddus fonitro'r arbedion a ddisgwylir ac a sicheir yn sgil ymadawiadau cynnar a dylent roi adroddiad arnynt fel rhan o'u trefniadau llywodraethu mewnol. Bydd hyn o gymorth pan wneir cynlluniau i leihau costau yn y dyfodol.**

Cawsom fod ansawdd y data a gedwir gan gyrff cyhoeddus ar ymadawiadau cynnar yn anghyson. Ni allai nifer o gyrff cyhoeddus roi inni wybodaeth hollbwysig y gofynasom amdani ([paragraff 2.37](#)).

**A7 Dylai cyrff cyhoeddus adolygu eu trefniadau ar gyfer cadw cofnodion pan wneir trefniadau i staff ymadael yn gynnar, fel y bydd gwybodaeth hollbwysig wrth law ganddynt gan gynnwys nifer yr ymadawiadau cynnar mewn cyfnod penodol a chostau'r rhain, ynghyd â gwybodaeth am y cyfnod ad-dalu yn seiliedig ar gyflogau a chostau Yswiriant Gwladol a phensiwn y cyflogwyr a gwybodaeth am gytundebau setlo.**

## Rhan 1

Mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi gwneud defnydd helaeth o ymadawiadau cynnar i helpu i leihau cost y gweithlu



- 1.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn dadansoddi niferoedd a chost ymadawiadau cynnar mewn 58 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013 gan gynnwys y ddau fis hynny. Mae hefyd yn ystyried y cyfraniad a wnaeth ymadawiadau cynnar, a mesurau eraill, i ymdrechion cyrff cyhoeddus i reoli costau eu gweithlu. Rydym wedi seilio'r dadansoddiad hwn ar wybodaeth a roddwyd i ni gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru rhwng Chwefror a Mehefin 2014, ynghyd â data o ddatgeliadau cyfrifon blynyddol.
- 1.2 Yn **Atodiad 1** ceir manylion pellach am ein dulliau archwilio ac eglurir pam y ceir rhywfaint o anghysondeb efallai rhwng y ffigurau a roddodd cyrff cyhoeddus i ni ar gyfer cyfnodau penodol a'r ffigurau a ddatgelwyd yng nghyfrifon y flwyddyn flaenorol. Yn **Atodiad 2** ceir data ychwanegol ar gyfer cyrff cyhoeddus unigol. Yn ein dadansoddiad rydym wedi defnyddio'r amcangyfrifon gorau posibl ar sail y data sydd ar gael i ni.

## **Rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013, fe adawodd 10,658 o staff eu cyflogaeth drwy ymadawiad cynnar, sy'n cyfateb i tua un o bob 25 o'r gweithlu**

- 1.3 Rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013, cafwyd 10,658 o ymadawiadau cynnar o 58 o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, sy'n cyfateb i tua phedwar y cant o'r gweithlu yn Ebrill 2010 (**Ffigur 2**). Roedd y rhan fwyaf o'r ymadawiadau cynnar (72 y cant) o'r awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol. Roedd cyrff y GIG yn cyfrif am 11 y cant a Llywodraeth Cymru yn cyfrif am naw y cant o'r ymadawiadau cynnar.
- 1.4 Fodd bynnag, mae'r 977 aelod o staff a ymadawodd yn gynnar o Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod hwn yn cyfateb i ryw 15 y cant o'r nifer oedd yn gweithio yno yn Ebrill 2010. Mae hynny'n wahanol iawn i weithlu'r GIG, lle nad oedd y rhai a ymadawodd yn gynnar ond yn cyfrif am ryw un y cant o'r gweithlu. Mae peth amrywiaeth hefyd o fewn sectorau, gan fod y canrannau ar gyfer 'cyrff cyhoeddus eraill' yn amrywio o 0 i 27 y cant a'r canrannau yn yr awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol yn amrywio o un i wyth y cant.

Ffigur 2 – Ymadawiadau cynnar fesul sector, Ebrill 2010 hyd Ragfyr 2013<sup>1</sup>

	Awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol	Cyrff y GIG	Llywodraeth Cymru	Heddlu a thân ac achub	'Cyrff cyhoeddus eraill' <sup>3</sup>	Pob sector
Nifer yr ymadawiadau	7,683	1,223	977	514	261	10,658
Gweithlu ar y cychwyn – Ebrill 2010 (amcangyfrif nifer y staff) <sup>2</sup>	165,900	88,100	6,400	22,000	3,300	285,800
Nifer yr ymadawiadau fel canran o'r gweithlu yn Ebrill 2010	4.6%	1.4%	15.3%	2.3%	7.9%	3.7%

**Nodiadau:**


- 1 Fe wnaethom gyfrifo'r ffigur hwn gan ddefnyddio'r ffurflenni data a gyflwynwyd inni gan y 58 corff cyhoeddus yn ein harolwg, ac eithrio yn achos Cyngor Sir Caerfyrddin lle defnyddiasom ddatganiadau cyfrifon blynyddol 2010-11 i 2012-13. Gan hynny nid ydym wedi cynnwys unrhyw ymadawiadau ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin yn y cyfnod rhwng Ebrill a Rhagfyr 2013.
- 2 Rydym wedi amcangyfrif nifer y staff yn Ebrill 2010 gan ddefnyddio niferoedd staff cyfwerth ag amser llawn o'r cyfrifon blynyddol ar ôl eu harchwilio a Chyfrifon y Llywodraeth Gyfan, gan ddefnyddio ffactor trosi yn seiliedig ar ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn y DU. Fe wnaethom ddechrau gyda ffigurau cyfwerth ag amser llawn ar gyfer Ebrill 2010 ar gyfer yr awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru a'r heddlu a gwasanaethau tân ac achub. Nid oedd y data hyn ar gael ar gyfer y GIG a 'chyrff cyhoeddus eraill' ac felly cymerasom fel amcangyfrif gorau gyfartaledd niferoedd y staff yn 2009-10.
- 3 O ran nifer a chost ymadawiadau cynnar o 'gyrff cyhoeddus eraill', cynhwysir yma ymadawiadau o Gyfoeth Naturiol Cymru, a gafodd ei greu ar 1 Ebrill 2013 pan ddiddymwyd Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. Mae'r gweithlu ar y cychwyn yn cynnwys niferoedd staff ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, ond ni chynhwysir Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru gan nad oedd data ar gael heblaw fel rhan o ddata Asiantaeth yr Amgylchedd yn ei chyfanrwydd (Atodiad 1).

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*

- 1.5 Nifer yr ymadawiadau cynnar yn 2012-13 oedd 2,202, sydd yn sylweddol is na niferoedd 2010-11 a 2011-12 (Ffigur 3). Pan ofynasom i'r cyrff cyhoeddus am ddata ar gyfer 2013-14, nid oedd y data hyn ond yn cynnwys ymadawiadau cynnar y cytunwyd arnynt hyd at 31 Rhagfyr 2013. Fodd bynnag, fe wnaethom gasglu data ar nifer yr holl ymadawiadau cynnar ar gyfer 2013-14 oddi wrth y datgeliadau yng nghyfrifon blynyddol cyrff cyhoeddus. Mae'r datgeliadau yn y cyfrifon yn awgrymu cynnydd sylweddol yn nifer yr ymadawiadau cynnar yn chwarter olaf 2013-14, yn enwedig yn yr awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol. Mae datgeliadau'r cyfrifon yn cofnodi cyfanswm o 4,033 o ymadawiadau yn 2013-14 o'u cymharu â'r 1,643 ymadawiad y rhoddwyd gwybod i ni amdanynt ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd Rhagfyr 2013<sup>10</sup>.
- 1.6 Pan gymerir â'r blynyddoedd blaenorol, mae nifer uwch yr ymadawiadau cynnar yn y 'cyrff cyhoeddus eraill' rhwng Ebrill a Rhagfyr 2013 yn adlewyrchu creu Cyfoeth Naturiol Cymru ar 1 Ebrill 2013 a'r ad-drefnu a ddigwyddodd wedi hynny o fewn y corff hwnnw.

<sup>10</sup> Mae'r gwahaniaeth i'w briodoli ryw ychydig i Gyngor Sir Caerfyrddin, nad oedd gennym ddata ar gyfer eu ymadawiadau cynnar am y naw mis yn arwain at Ragfyr 2013. Mae eu cyfrifon blynyddol yn dangos 197 o ymadawiadau cynnar yn 2013-14.

Ffigur 3 – Nifer yr ymadawiadau cynnar fesul blwyddyn ariannol, Ebrill 2010 hyd Ragfyr 2013<sup>1</sup>



**Nodiadau:**

- 1 Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar 10,653 o'r 10,658 ymadawiad cynnar y rhoddodd cyrff cyhoeddus wybod amdanynt a lle darparwyd data ar sail blwyddyn ariannol.
- 2 Nid oedd y data a gasglwyd gennym gan gyrrff cyhoeddus ond yn cynnwys ymadawiadau yn nhri chwarter cyntaf 2013-14 (Ebrill hyd Ragfyr). Mae'r ffigurau a roddwyd yn y datgeliadau cyfrifon blyneddol ar gyfer y cyfan o 2013-14 yn dangos bod 4,033 o ymadawiadau cynnar rhwng y cwbl.

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*

1.7 Fe wnaethom ofyn i'r cyrff cyhoeddus gategoreiddio'u hymadawiadau cynnar yn ymadawiadau gwirfoddol, diswyddiadau gwirfoddol, diswyddiadau gorfodol, ymddeoliadau cynnar neu ryw fath arall (**Blwch 1** ar **dudalen 7**). Dywedodd cyrff y GIG a'r 'cyrff cyhoeddus eraill' fod y rhan fwyaf o'u hymadawiadau – 96 y cant yn achos y GIG a 75 y cant yn achos y 'cyrff cyhoeddus eraill' – yn ymadawiadau gwirfoddol a dywedodd Llywodraeth Cymru mai dyna oedd y cyfan o'u hymadawiadau hwy (**Ffigur 4**). Dywedodd yr awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol, a'r heddluoedd a'r awdurdodau tân ac achub fod y rhan fwyaf o'u hymadawiadau yn ddiswyddiadau gwirfoddol (48 y cant ganddynt i gyd) neu ddiswyddiadau gorfodol (27 y cant ac 16 y cant yn ôl eu trefn).

Ffigur 4 – Nifer yr ymadawiadau cynnar fesul math a sector, Ebrill 2010 hyd Ragfyr 2013<sup>1</sup>

	Awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol	Cyrff y GIG	Llywodraeth Cymru	Heddlu a thân ac achub	'Cyrff cyhoeddus eraill'	Pob sector
Diswyddo gwirfoddol	3,697	-	-	247	46	3,990
Ymadael gwirfoddol	446	1,170	977	23	196	2,812
Diswyddo gorfodol	2,172	51	-	83	15	2,321
Ymdeol yn gynnar	633	-	-	136	1	770
Arall <sup>2</sup>	301	2	-	25	3	331
Heb ei nodi	434	-	-	-	-	434
Cyfanswm	7,683	1,223	977	514	261	10,658


**Nodiadau:**

- 1 Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar y cyfan o'r 10,658 ymadawiad cynnar y rhoddodd cyrff cyhoeddus wybod amdanynt, sef yr hyn a welir yn Ffigur 2.
- 2 Mae'r categori 'arall' yn cynnwys ymadawiadau oherwydd pethau fel contract tymor penodol yn dod i ben neu oherwydd salwch, lle roedd y cyflogal yn parhau i fod â hawl i daliad ymadael o dan bolisiau'r sefydliad dan sylw.

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*

1.8 Cawsom fod 59 y cant o'r staff a ymadawodd yn gynnar, yn ôl yr wybodaeth a roddwyd gan y cyrff cyhoeddus, yn 55 oed neu hŷn (Ffigur 5). Mae cynnydd amlwg yn nifer yr ymadawiadau ymhlith pobl 55 oed, sydd yn adlewyrchu'r ffaith fod llawer o drefniadau ymadael cynnar yn caniatáu i weithwyr dderbyn eu pensiwn yn gynnar pan gyrhaeddant yr oedran hwn. Roedd 11 y cant arall o'r staff rhwng 50 a 54 oed a 30 y cant o dan 50 oed. Cafodd pobl o oedrannau mwy amrywiol eu heffeithio yn sgil diswyddo gorfodol nag yn achos y mathau eraill o ymadawiad cynnar. Ymhlith y staff a ymadawodd oherwydd diswyddo gorfodol, 37 y cant yn unig oedd yn 55 oed neu hŷn, ond roedd pobl o'r oedran hwn yn cyfrif am 63 y cant o gyfanswm y diswyddiadau gwirfoddol a'r ymadawiadau gwirfoddol o gyfuno'r ddau fath yma o ymadawiad. Er bod staff hŷn yn fwy tebygol, efallai, o wirfoddoli i ymadael yn gynnar, mae'n bosibl hefyd y bydd cyrff cyhoeddus yn ei chael yn anodd canfod staff yn eu lle a all gynnig yr un math o wybodaeth, sgiliau a phrofiad.

Ffigur 5 – Proffil oedran ymadawiadau cynnar, Ebrill 2010 hyd Ragfyr 2013<sup>1</sup>



Nodyn:

1 Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar 9,915 ymadawiad (93 y cant) o'r 10,658 ymadawiad cynnar y rhoddodd cyrff cyhoeddus wybod amdanynt a lle darparwyd data oedran.


Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru

## Roedd y costau a dalwyd ar gyfer pecynnau ymadael cynnar yn dod i gyfanswm o £254 miliwn rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013

Mae pecynnau ymadael yn gynnar wedi costio cyfanswm o £254 miliwn. Mae'r cyfartaledd ychydig o dan £24,000 ond mae'r costau yn achos rhai unigolion cyfuwch â £492,000

1.9 Roedd costau cyrff cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer pecynnau ymadael cynnar rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013 yn £254 miliwn<sup>11</sup>. Roedd cyfanswm y costau y rhoddodd cyrff cyhoeddus wybod amdanynt wedi lleihau yn sylweddol rhwng 2010-11 a 2012-13 (Ffigur 6). Fodd bynnag, mae'r cyfrifon blynyddol yn datgelu bod ymadawiadau cynnar wedi costio tua £89 miliwn i gyrff cyhoeddus yn 2013-14. Mae hynny'n adlewyrchu'r cynnydd sylweddol a fu mae'n debyg yn nifer yr ymadawiadau cynnar yn y flwyddyn gyfan os cymerir â 2012-13 (paragraff 1.5).

Ffigur 6 – Cost ymadawiadau cynnar fesul blwyddyn ariannol, Ebrill 2010 hyd Ragfyr 2013<sup>1</sup>



### Nodiadau:

- 1 Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar 10,653 o'r 10,658 ymadawiad cynnar y rhoddodd cyrff cyhoeddus wybod amdanynt a lle darparwyd data fesul blwyddyn ariannol.
- 2 Nid oedd y data y gwnaethom eu casglu gan gyrff cyhoeddus ond yn cynnwys ymadawiadau yn nhri chwarter cyntaf 2013-14 (Ebrill hyd Ragfyr). Mae'r ffigurau a ddatgelwyd yn y cyfrifon blynyddol ar gyfer y cyfan o 2013-14 yn dangos bod pecynnau ymadael cynnar wedi costio tua £89 miliwn i gyrff cyhoeddus.

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru


<sup>11</sup> Mae'r costau hyn yn cynnwys y pecyn a dderbyniwyd gan yr unigolyn ac unrhyw gyfraniadau ychwanegol a dalodd y cyflogwr i'r gronfa bensiwn. Gelwir y costau hyn yn gostau straen pensiwn ac maent yn digwydd os yw'r cyflogai yn cael derbyn ei bensiwn yn gynnar neu os bydd y cyflogwr yn cytuno i barhau i gyfrannu i'r gronfa bensiwn fel petai'r cyflogai yn dal yn ei swydd. Nid yw'r costau uchod yn cynnwys costau pellach a all wynebu cyrff cyhoeddus er mwyn gweinyddu ymadawiadau cynnar, ac mewn rhai achosion mae cyfraniadau at gostau cyflogaion pan fyddant yn cael cynnwys cyfreithiol yn rhan o'r costau pellach hynny.



1.10 Cost gyfartalog pecynnau ymadael cynnar ar draws yr holl sectorau rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013 oedd £23,805. Fodd bynnag, roedd cost y pecynnau ymadael cynnar hyn yn amrywio, rhai yn llai na £100<sup>12</sup> a rhai cyfuwch â £492,000. Mae Ffigur 7 yn dangos nifer y pecynnau fesul band cost:

- a Roedd 66 y cant o'r pecynnau ymadael cynnar yn £25,000 neu lai, ac ychydig dros hanner y rheini o dan £10,000.
- b Roedd 22 y cant arall rhwng £25,001 a £50,000.
- c Dau y cant yn unig o'r pecynnau (222) a gostiodd dros £100,000, y rhan fwyaf ohonynt yn Llywodraeth Cymru neu lywodraeth leol, a phum pecyn yn unig a gostiodd dros £250,000.
- ch Cafwyd y pecyn mwyaf ar gyfer diswyddo gorfodol yn 2012-13. Roedd y pecyn hwn, oedd werth £492,000, yn cynnwys tâl diswyddo a thaliad yn lle rhybudd, ar sail cyflog blynyddol terfynol o tua £200,000. Digwyddodd yr ymadawiad oherwydd i'r aelod hwn o'r staff gael ei ddadleoli pan fu ad-drefnu yn y sefydliad, pan ad-drefnwyd y GIG yng Nghymru yn 2009.

Ffigur 7 – Pecynnau ymadael cynnar fesul band cost, Ebrill 2010 hyd Ragfyr 2013<sup>1</sup>



Nodyn:

1 Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar 10,224 (96 y cant) o'r 10,658 ymadawiad cynnar y rhoddodd cyrff cyhoeddus wybod amdanynt a lle darparwyd data costau unigol.


Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru

12 Roedd 104 o becynnau o dan £100, a'r rheini fel rheol mewn achosion lle cafodd staff oedd ar gyflogau isel iawn eu diswyddo yn orfodol. Efallai mai staff a weithiai ychydig yn unig o oriau, neu oriau amrywiol, oedd y rhain. Nid oedd rhai o'r pecynnau hyn yn costio dim byd, ond rydym wedi eu cynnwys yn ein dadansoddiad oherwydd fe fyddai'r cyrff cyhoeddus wedi eu cynnwys yn eu cyfrifon blynyddol.

Er bod peth tystiolaeth fod cost gyfartalog ymadawiadau cynnar yng Nghymru yn is nag yng nghyfrff cyhoeddus yr Alban yn ôl yr hyn a adroddwyd, mae'n anodd cymharu'r costau ac mae cost gyfartalog ymadawiadau Llywodraeth Cymru wedi bod yn uwch na'r hyn a adroddwyd ar gyfer adrannau Llywodraeth y DU

- 1.11 Mae cost gyfartalog ymadawiadau cynnar yng Nghymru yn £23,805 ac mae hynny'n is nag yng nghyfrff cyhoeddus yr Alban yn ôl yr hyn a adroddwyd. Dywedodd Audit Scotland fod 14,481 o ymadawiadau cynnar yng ngwahanol gyfrff cyhoeddus yr Alban rhwng 2010-11 a 2011-12 a bod y gost gyfartalog yn £38,740<sup>13</sup>.
- 1.12 Mae cost gyfartalog ymadawiadau cynnar yn amrywio'n fawr o'r naill ran i'r llall o'r sector cyhoeddus yng Nghymru ac oddi mewn i sectorau penodol (Ffigur 8). Llywodraeth Cymru oedd â'r gost gyfartalog uchaf fel sector, sef £49,983. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r gost gyfartalog, sef £33,700, y rhoddwyd gwybod amdani gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol sef y cyfartaledd ar gyfer 17,800 o ymadawiadau cynnar o wahanol adrannau Llywodraeth y DU rhwng Rhagfyr 2010 a Rhagfyr 2011<sup>14</sup>. Fodd bynnag, roedd dadansoddiad Audit Scotland yn dangos cost gyfartalog o £46,233 ar gyfer ymadawiadau o Lywodraeth yr Alban. Cost gyfartalog ymadawiadau cynnar o'r awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol yng Nghymru oedd £18,786. Mae hyn lower yn is na'r cyfartaledd o £37,459 a nodwyd gan Audit Scotland ar gyfer awdurdodau lleol yr Alban.

Ffigur 8 – Cost gyfartalog ymadawiadau cynnar fesul sector, Ebrill 2010 hyd Ragfyr 2013<sup>1</sup>



Nodyn:

1 Mae ein dadansoddiad yn seiliedig ar bob un o'r 10,658 ymadawiad cynnar y rhoddodd cyfrff cyhoeddus wybod amdanynt - gweler Ffigur 2.

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru

<sup>13</sup> Managing early departures from the Scottish public sector, Audit Scotland, Mai 2103.

<sup>14</sup> Managing early departures in central government, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Mawrth 2012.

- 1.13 Fodd bynnag, mae'n anodd gwneud cymariaethau uniongyrchol ac mae llawer o resymau pam y mae costau pecynnau ymadael cynnar yn amrywio o sector i sector a rhwng y naill gorff cyhoeddus unigol a'r llall. Yn benodol:
- a Fel rheol, mae'r taliadau a gynigir pan fydd pobl yn cael eu diswyddo yn is na phan fyddant yn ymadael yn wirfoddol. Roedd gan yr awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol, a hefyd yr heddluoedd a'r awdurdodau tân ac achub, gyfran uwch o lawer o ddiswyddiadau ac efallai fod hynny'n egluro pam y mae cyfartaledd cost eu pecynnau yn is. Yng Nghyngor Sir Ceredigion, oedd â'r gost gyfartalog isaf o'r holl gyrff cyhoeddus, sef £9,341 y pecyn, roedd 82 y cant o'r ymadawiadau yn ddiswyddiadau.
  - b Gan amlaf bydd cyrff cyhoeddus yn cyfrifo pecynnau ymadael cynnar ar sail oedran, hyd gwasanaeth a chyflog blynyddol. Gan hynny, mae'n bosibl fod gwahaniaethau ym mhroffil y rhai a ymadawodd ag unrhyw gorff cyhoeddus, o safbwynt unrhyw un neu ragor o'r ffactorau hyn, yn medru egluro gwahaniaethau yng nghost gyfartalog y pecynnau. Er enghraifft, roedd cyflog gyfartalog staff a ymadawodd yn gynnar â Llywodraeth Cymru yn £35,700, o'i gymharu â chyflog gyfartalog o £24,000 ar draws yr holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru.
  - c Mae rhai cyrff cyhoeddus yn cynnig pecynnau ymadael mwy hael na'i gilydd. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus dalu o leiaf tâl diswyddo statudol sef hyd at 30 wythnos o gyflog yn ôl £464 yr wythnos<sup>15</sup>. Fodd bynnag, caiff pob corff cyhoeddus unigol ddewis a yw am gynnig mwy na hyn. Mae'n bosibl fod angen i rai cyrff cyhoeddus gynnig pecynnau uwch er mwyn denu ymgeiswyr, yn unol â'r amodau a'r galw yn lleol, ond fe welsom lawer o amrywiaeth yn yr amodau a'r telerau. Er enghraifft, ar gyfer diswyddo gwirfoddol, mae Heddlu De Cymru'n defnyddio ffactor o 1.73 wrth gyfrif nifer yr wythnosau ychwanegol o dâl, o'i gymharu â'r gofynion statudol, ac mae uchafswm y taliad posibl yn 52 wythnos. Mae hyn yn wahanol iawn i Heddlu Gogledd Cymru, sy'n defnyddio ffactor o 3.33 wrth gyfrif yr wythnosau ychwanegol o dâl ac yn gosod uchafswm o 66 wythnos. Wedyn, dyna Amgueddfa Genedlaethol Cymru, nad ydynt yn gosod unrhyw uchafswm ar gyfer y tâl wythnosol ac sy'n lluosu'r taliad statudol â phedwar. Cost gyfartalog pecyn yr Amgueddfa, sef £100,042, yw'r uchaf o holl becynnau'r cyrff cyhoeddus.
  - ch Mae rhai cyrff cyhoeddus yn cynnig mynediad cynnar i gynlluniau pensiwn ac yn talu costau straen pensiwn. Rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013, roedd 20 o'r 29 ymadawiad cynnar o Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn cynnwys costau straen pensiwn a hynny'n cyfrif am 42 y cant o'r holl gostau (£1.2 miliwn allan o £2.9 miliwn). Mae'r Amgueddfa Genedlaethol wrthi'n negydu cynllun yn lle'r un sydd ganddynt er mwyn ceisio lleihau yn sylweddol gost y pecynnau ymadael a chael gwared â chostau straen pensiwn.

15 Cyfrifir isafswm taliadau diswyddo ar hyn o bryd yn ôl y gyfraith fel 0.5 wythnos o dâl am bob blwyddyn lawn o wasanaeth os yw'r unigolyn dan 22 oed, 1 wythnos o dâl am bob blwyddyn lawn o wasanaeth os yw rhwng 22 a 41 ac 1.5 wythnos o gyflog am bob blwyddyn lawn o wasanaeth i'r rhai sy'n 41 oed neu hŷn. Gosodir uchafswm o £464 ar gyfer y tâl wythnosol ac 20 mlynedd ar gyfer hyd gwasanaeth. Mae hyn yn rhoi uchafswm o £13,920 ar gyfer y taliad statudol.

## Dywedwyd bod dau y cant o'r ymadawiadau cynnar o blith uwch reolwyr ac roedd cyfartaledd cost y pecynnau hynny ychydig o dan £71,000

- 1.14 Fe wnaethom ofyn i'r cyrff cyhoeddus nodi pa ymadawiadau cynnar oedd o blith 'uwch reolwyr'. Roeddem yn diffinio uwch reolwr fel 'unrhyw un sydd ag awdurdod a chyfrifoldeb dros gyfarwyddo neu reoli gweithgareddau pwysig yn yr endid (ac a fyddai o ganlyniad yn cael ei ddatgelu yn yr Adroddiad ar Gyflogau yn y cyfrifon blynyddol)'<sup>16</sup> Mae hyn yn golygu, felly, yr haen uchaf o reolwyr ym mhob sefydliad.
- 1.15 Nododd y cyrff cyhoeddus fod 199 o ymadawiadau cynnar wedi bod o blith uwch reolwyr rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013, sydd yn cyfrif am ddau y cant o'r holl ymadawiadau cynnar. Gwelwyd y gyfran uchaf o ymadawiadau cynnar o blith uwch reolwyr yng nghyrrff y GIG a 'chyrrff cyhoeddus eraill', y naill yn bedwar y cant a'r llall yn bump y cant. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod cyfran yr ymadawiadau sydd o blith uwch reolwyr yng nghyrrff y GIG yn debygol o adlewyrchu i ryw raddau ganlyniadau ad-drefnu'r GIG yng Nghymru yn 2009, yn uniongyrchol felly ac yn dilyn peth oedi.
- 1.16 Cyfanswm y gost wrth i uwch reolwyr ymadael oedd £14.1 miliwn (chwech y cant o gyfanswm yr holl gostau), ac roedd y gost gyfartalog yn £70,930. Fel y nodwyd ym mharagraff 1.13, bydd ffactorau fel oedran, hyd gwasanaeth a chyflog terfynol wedi dylanwadu ar gost gyfartalog ymadawiadau uwch reolwyr. Roedd cyflog gyfartalog y rhai y dywedwyd iddynt ymadael o swyddi fel uwch reolwyr yn £66,720 pan ymadawsant.
- 1.17 Fe wnaethom holi'r cyrff cyhoeddus a fu ganddynt unrhyw gynllun ymadael cynnar penodol ar gyfer uwch reolwyr. Un corff cyhoeddus yn unig, sef Cyngor Sir Ceredigion, a ddywedodd fod ganddynt gynllun o'r fath. Ni wnaeth y Cyngor nodi unrhyw wahaniaethau o bwys rhwng telerau'r cynllun hwn a'u trefniadau safonol.


## Ar yr amod nad oedd staff yn cael eu penodi yn lle'r rhai a ymadawodd, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, byddai cyrff cyhoeddus yn dechrau arbed costau yn sgil ymadawiadau cynnar ar ôl 10 mis ar gyfartaledd

- 1.18 Fe wnaethom gyfrifo'r cyfnod ad-dalu ar gyfer ymadawiadau cynnar unigol fel y cyfnod o amser nes y byddai costau'r pecyn yr un swm â'r arbedion y gallesid eu sicrhau drwy beidio â thalu cyflog ac unrhyw gyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn a ddeuai i ran y cyflogwr. Yn ymarferol, mae'n bosibl y bydd cyrff cyhoeddus yn gwneud arbedion eraill, megis arbed ar gostau offer TGCh, swyddfa a theithio a chynhaliaeth. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd cyrff cyhoeddus yn sicrhau'r cyfan o unrhyw arbedion o'r fath. Er enghraifft:
- a mae'n bosibl y bydd cyrff cyhoeddus wedi defnyddio ymadawiadau cynnar er mwyn ad-drefnu i gael gwared a swyddi nad oes mo'u hangen mwyach a chyflogi staff newydd lle bo arnynt angen gweithwyr; neu er mwyn cyflogi staff ar radd is; ac

<sup>16</sup> Government Financial Reporting Manual 2013-14, Trysorlys Ff, Mawrthdi, Ionawr 2014

- b efallai y bydd cyrff cyhoeddus wedi canfod yn y cyfamser fod angen iddynt gyflogi staff yn lle'r rhai sydd wedi mynd, neu gyflogi staff dros dro neu ymgynghorwyr, i lenwi'r bwlch o ran sgiliau neu gapasiti a gollwyd yn sgil staff ymadael yn gynnar.
- 1.19 At hynny, po hwyaf y cyfnod ad-dalu, mwyaf yn y byd o bosibilrwydd sydd yna y buasai trosiant naturiol efallai wedi galluogi'r corff i leihau costau'r gweithlu beth bynnag, heb orfod talu costau ymadawiad cynnar. Er enghraifft, mae proffil oedran y staff a ymadawodd yn gynnar yn dangos y buasai llawer ohonynt yn agosáu at oedran lle caent bensiwn llawn ar ôl ymddeol, neu eu bod wedi cyrraedd yr oedran hwnnw, hyd yn oed. Fodd bynnag, mae llawer o gyrff cyhoeddus wedi bod dan bwysau i sicrhau arbedion o ran y gweithlu mewn byr o dro, fel na allent o angenrheidrwydd ddibynnu ar ddefnyddio trosiant naturiol i wneud yr arbedion. At hynny, yn sgil newidiadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn 2011, nid yw cyflogwyr yn cael rhagosod oedran ymddeol penodol oni ellir cyfiawnhau hynny mewn modd gwrthrychol.
- 1.20 Wedi i'r cyfnod ad-dalu ddod i ben, gall cyrff cyhoeddus ddechrau gwneud arbediad net ar y cyflog a'r cyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn y buasant wedi bod yn eu talu i'r staff a ymadawodd. Ar sail y data yn ein harolwg, mae'r arbedion potensial hyn yn dod i ryw £305 miliwn y flwyddyn (£248 miliwn ar gyfer costau cyflogau a £57 miliwn mewn cyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn).
- 1.21 Cyfartaledd hyd y cyfnod ad-dalu ar gyfer ymadawiadau cynnar yn holl gyrff cyhoeddus Cymru rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013 oedd 10 mis (Ffigur 9). Roedd gan saith deg chwech y cant o'r pecynnau gyfnod ad-dalu o 12 mis neu lai a 21 y cant arall gyfnod o rhwng 13 a 24 mis. Mae Ffigur 10 yn dangos pa niferoedd o ymadawiadau cynnar oedd yn dod o fewn ystod o wahanol gyfnodau ad-dalu.
- 1.22 Y 'cyrff cyhoeddus eraill' oedd â'r cyfnod ad-dalu cyfartalog uchaf sef 14 mis; yr awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol oedd â'r isaf sef naw mis. O ran y gwahanol gyrff cyhoeddus unigol, roedd y cyfnod ad-dalu cyfartalog uchaf yn 28 mis a'r isaf yn dri mis.
- 1.23 Y cyfnod ad-dalu cyfartalog ar gyfer diswyddiadau gorfodol oedd chwe mis ond roedd cyfnod ad-dalu cyfartalog ymadawiadau gwirfoddol, diswyddiadau gwirfoddol ac ymddeoliadau cynnar yn 11 mis. Mae'r gwahaniaeth hwn yn adlewyrchu'r ffaith fod telerau pecynnau diswyddo gorfodol yn llai ffatriol fel rheol. Mae hefyd yn rhan o'r rheswm pam y mae cyfnodau ad-dalu'r awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol yn llai gan eu bod hwy wedi cofnodi mwy o ddiswyddiadau gorfodol na'r sectorau eraill (Ffigur 4).

Ffigur 9 – Cyfnod ad-dalu cyfartalog ar gyfer ymadawiadau cynnar fesul sector, Ebrill 2010 hyd Ragfyr 2013<sup>1,2</sup>




Nodiadau:

- 1 Er mwyn cyfrifo'r cyfnod ad-dalu fe wnaethom ddefnyddio costau'r pecyn ymadael ynghyd â'r arbedion a sicrheid efallai am nad oedd angen talu cyflog na chwaith gyfraniadau cyflogwr ar gyfer yswiriant gwladol a phensiwn os oedd cyfraniadau o'r fath, ar gyfer yr aelod hwnnw o'r staff.
- 2 Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar 9,928 (93 y cant) o'r 10,658 ymadawiad cynnar y rhoddodd cyrff cyhoeddus wybod amdanynt a lle darparwyd hefyd y data perthnasol fel y gellid cyfrifo'r cyfnod ad-dalu.

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*

Ffigur 10 – Nifer yr ymadawiadau cynnar fesul hyd cyfnod ad-dalu, Ebrill 2010 hyd Ragfyr 2013<sup>1</sup>



**Nodiadau:**

- 1 Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar 9,928 (93 y cant) o'r 10,658 ymadawiad cynnar y rhoddodd cyrff cyhoeddus wybod amdanynt a lle darparwyd hefyd y data perthnasol fel y gellid cyfrifo'r cyfnod ad-dalu
- 2 Mae'r rhan fwyaf o'r pecynnau sydd â chyfnod ad-dalu o fwy na 48 mis yn becynnau â gwerth isel (o dan £25,000), ond gyda chyflogau blynyddol isel iawn.

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*

## Er nad yw'n glir faint yn union yw cyfraniad ymadawiadau cynnar, fe ostyngodd costau cyflogau staff yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru o ryw £447 miliwn mewn termau real rhwng 2009-10 a 2013-14

Gostyngodd costau cyflogau staff o ryw £447 miliwn mewn termau real a bu gostyngiad o ryw chwech y cant yn niferoedd y staff


- 1.24 Fe wnaethom goladu costau cyflogau staff ar gyfer y cyfnod o 2009-10 i 2013-14 o gyfrifon blynyddol cyrff cyhoeddus Cymru a archwiliwyd ac o Gyfrifon y Llywodraeth Gyfan<sup>17</sup>. Cynyddodd costau cyflogau staff yng nghyrrff cyhoeddus Cymru o un y cant mewn termau arian parod rhwng 2009-10 a 2013-14, o £6.35 biliwn i £6.40 biliwn, ond fe ostyngodd o £447 miliwn (saith y cant) mewn termau real ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf mewn termau real rhwng 2010-11 a 2011-12 (Ffigur 11).
- 1.25 O 2011-12 ymlaen cafodd cyflogau gweithwyr yn y sector cyhoeddus a enillai dros £21,000 eu rhewi am ddwy flynedd gan Lywodraeth y DU. Roedd hyn yn berthnasol i'r rhan fwyaf o'r 58 corff cyhoeddus yn ein harolwg ni. Fodd bynnag, buasai llawer o weithwyr a enillai dros £21,000 yn dal yn gymwys i dderbyn cynnydd yn eu tâl o fewn eu band cyflog. Mae ffactorau eraill hefyd wedi arwain at gynnydd yng nghostau staffio cyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan fod cynnydd wedi bod yng nghyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr a newidiadau mewn cyfraniadau pensiwn.
- 1.26 Yn gyffredinol, mae'r cyrff cyhoeddus hynny sydd wedi gweld cyfran fwy o'u gweithlu'n ymadael yn gynnar wedi nodi mwy o ostyngiad yn eu costau staffio. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn ôl yr herwydd mewn costau staffio, mewn termau real – 24 y cant rhwng 2009-10 a 2013-14 – yn Llywodraeth Cymru. Ar y llaw arall, dim ond un y cant o ostyngiad, mewn termau real, a welodd cyrff y GIG yn ystod yr un cyfnod. Mae ein data yn dangos bod y 'cyrff cyhoeddus eraill' wedi cynyddu eu costau staffio o 33 y cant mewn termau real rhwng 2009-10 a 2013-14. Fodd bynnag, y prif reswm am hyn yw fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i greu yn Ebrill 2013, ac fe drosglwyddodd rhai costau staffio o Lywodraeth Cymru, yn ogystal ag o Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru bryd hynny<sup>18</sup>. Fodd bynnag, nid oedd costau staffio 'cyrff cyhoeddus eraill' ond yn cyfrif am ddau y cant o gyfanswm y costau ar gyfer 2013-14.

<sup>17</sup> Fe wnaethom ddefnyddio data o gyfrifon blynyddol wedi'u harchwilio ar gyfer Cyrff y GIG, Llywodraeth Cymru, a 'chyrff cyhoeddus eraill'. Defnyddiwyd Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan ar gyfer yr awdurdodau lleol ac awdurdodu'r parciau cenedlaethol ac ar gyfer yr heddluoedd a'r awdurdodau tân ac achub. Y rheswm am hynny oedd nad oedd y cyfrifon blynyddol yn cynnwys dadansoddiad o gostau staff yn y cyrff cyhoeddus hyn. Set o daenlenni yw Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan, a ddarperir gan Drysorlys Ei Mawrhydi i gyfuno cyfrifon y sector cyhoeddus yn y DU wedi eu harchwilio.

<sup>18</sup> Ni lwyddasom i wahanu costau staff a weithiai i Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru oddi wrth gostau Asiantaeth yr Amgylchedd i gyd, i'w cynnwys yn ein dadansoddiad ar gyfer y cyfnod rhwng 2009-10 a 2012-13.



Ffigur 11 – Costau cyflogau staff, 2009-10 i 2013-14<sup>1,2</sup>




Nodiadau:

- 1 Cawsom y mynegai dadchwyddiant Cynnyrch Domestig Gros o gyhoeddiad Trysorlys Ei Mawrhydi *GDP deflators at market prices, and money GDP: June 2014 (y Cyfrifon Cenedlaethol Chwarterol)* ar gyfer pob un o'r pum mlynedd. Fe wnaethom ddefnyddio'r rhain i gynyddu costau staffio 2009-10 yn unol â chwyddiant er mwyn cymharu yn erbyn gwir gostau.
- 2 At ddibenion y dadansoddiad hwn, mae costau cyflogau yn golygu cyflogau gweithwyr parhaol a chyfanswm costau 'staff dros dro/staff eraill'.

*Ffynhonnell: Cyfrifon blyneddol y GIG, Llywodraeth Cymru a 'chyrff cyhoeddus eraill'; Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan ar gyfer awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol, yr heddluoedd a'r awdurdodau tân ac achub.*

1.27 Rydym yn amcangyfrif, pan gymherir y sefyllfa yn Ebrill 2010 â'r cyfartaledd ar gyfer 2013-14, fod cyfanswm nifer y staff yn y gwahanol gyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi lleihau o chwech y cant (Ffigur 12), o tua 285,800 i 268,500 o staff. Yr un fath ag yn ein dadansoddiad o gostau staffio, effeithiodd sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd ar y ffigurau ar gyfer niferoedd y staff yn y 'cyrff cyhoeddus eraill' (paragraff 1.26). Roedd pob sector arall wedi cofnodi lleihad cyffredinol yn nifer y staff rhwng Ebrill 2010 a 2013-14, er i bethau amrywio rhywfaint o flwyddyn i flwyddyn, fel sydd i'w weld os edrychir ar y duedd gyffredinol rhwng 2011-12 a 2012-13. Yr hyn sydd i gyfrif yn bennaf am y lleihad cyffredinol yn niferoedd y staff rhwng 2012-13 a 2013-14, er bod cynnydd cyffredinol yng nghostau cyflogau yn y cyfnod hwnnw (Ffigur 11), yw bod yr awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol wedi cofnodi lleihad yn nifer eu staff.

Ffigur 12 – Amcangyfrif o'r newid yn niferoedd cyfartalog y staff, Ebrill 2010 tan 2013-14<sup>1,2</sup>



**Nodiadau:**

- 1 Fe wnaethom goladu niferoedd cyfartalog y cyflogeion a staff eraill cyfwerth ag amser llawn ar gyfer 2010-11 i 2013-14 o gyfrifon blynyddol a archwiliwyd ar gyfer cyrff cyhoeddus a Chyfrifon y Llywodraeth Gyfan. Ar gyfer Ebrill 2010, fe wnaethom ddefnyddio data o Gyfrifon y Llywodraeth Gyfan ar gyfer yr awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol, Llywodraeth Cymru, yr heddluoedd a'r awdurdodau tân ac achub. Nid oedd data o'r fath ar gael ar gyfer y GIG a 'chyrff cyhoeddus eraill' ac felly fe wnaethom ddefnyddio niferoedd staff cyfartalog 2009-10 fel yr amcangyfrif gorau, fel sydd i'w weld yn Ffigur 2.
- 2 Fe wnaethom ddefnyddio data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer niferoedd mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn y DU, a niferoedd cyfwerth ag amser llawn er mwyn trosi'r data i gael amcangyfrif o'r niferoedd. Mae hyn yn ein galluogi i gymharu'r newid a welir yn niferoedd y staff a nifer yr ymadawiadau cynnar. Roedd un eithriad sef Llywodraeth Cymru, lle defnyddiasom y ffigurau misol a gyhoeddwyd ganddynt ar gyfer niferoedd eu staff; hefyd, ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn 2010-11, roedd y data a gafwyd yn cyfeirio at niferoedd staff ac nid ffigurau cyfwerth ag amser llawn.

*Ffynhonnell: Cyfrifon blynyddol y GIG, Llywodraeth Cymru a 'chyrff cyhoeddus eraill'; Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan ar gyfer awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol, yr heddluoedd a'r awdurdodau tân ac achub.*


1.28 Mae cyfanswm niferoedd staff yn cynnwys cyflogeion (staff parhaol) a staff eraill (gan gynnwys staff dros dro a staff asiantaeth). Mae'r data'n dangos mwy o leihad yn niferoedd y cyflogeion, gyda chynnydd a oedd yn gwneud i fyny am hynny yn rhannol ymhlith staff eraill ar gyfer y GIG, Llywodraeth Cymru a 'chyrff cyhoeddus eraill'. Efallai fod hyn yn arwydd bod cyrff cyhoeddus yn cyflogi mwy o staff dros dro i lenwi bylchau a adawyd wedi i staff parhaol ymadael (paragraff 1.18).

- 1.29 Fe wnaethom gymharu'r newid yn niferoedd y staff ers niferoedd Ebrill 2010 â nifer y staff a ymadawodd yn gynnar ym mhob sector. Er nad yw'r data efallai yn cynnwys yr un cyfnodau'n union bob tro, mae'r data'n dangos mwy o leihad yn y niferoedd na'r hyn sydd i'w briodoli i ymadawiadau cynnar yn yr awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol, cyrff y GIG a'r heddluoedd a'r awdurdodau tân ac achub. Fodd bynnag, yn Llywodraeth Cymru ac yn y 'cyrff cyhoeddus eraill', mae'r gostyngiad yn y niferoedd yn llai na nifer yr ymadawiadau cynnar.

### **Mae cyrff cyhoeddus wedi defnyddio sawl dull arall yn ogystal ag ymadawiadau cynnar er mwyn rheoli neu leihau costau'r gweithlu a'r un a ddefnyddiwyd fwyaf yw rheoli swyddi gwag**

- 1.30 Gofynasom i'r cyrff corff cyhoeddus a oeddent wedi gwneud defnydd helaeth, defnydd cymedrol, defnydd cyfyngedig neu ddim defnydd o gwbl o ddulliau eraill er mwyn rheoli neu leihau costau'r gweithlu (Ffigur 13). Y dulliau a enwyd amlaf oedd canolbwyntio mwy ar reoli swyddi gwag ac adleoli staff – defnyddiwyd y ddau ddull hyn gan 50 corff cyhoeddus (86 y cant) – ac yna cyfyngu ar y defnydd o staff asiantaeth/dros dro, lleihau goramser neu newid patrymau gwaith.
- 1.31 Dywedodd dros hanner y cyrff cyhoeddus a ddewisodd reoli swyddi gwag fod y dull hwn wedi cael ei ddefnyddio'n helaeth. Dylai rheoli swyddi gwag gymell cyrff cyhoeddus i ystyried a yw pob swydd yn angenrheidiol wrth iddynt gynllunio'r gweithlu yn fwy cyffredinol. Fodd bynnag, efallai na fydd rheoli swyddi gwag yn cynnig arbedion ariannol flwyddyn ar ôl blwyddyn. At hynny, os gadewir swyddi hanfodol heb eu llenwi, dim ond er mwyn arbed arian, mae'n bosibl y bydd y staff sydd gan y corff yn ysgwyddo baich ychwanegol o waith a hynny efallai yn golygu bod pobl i ffwrdd yn sâl yn amlach a bod ysbryd y staff yn isel.

Ffigur 13 – Defnydd cyrff cyhoeddus o ddulliau eraill heblaw ymadawiadau cynnar, Ebrill 2010 hyd Ragfyr 2013<sup>1</sup>



**Nodiadau:**

- Ni wnaethom ddiffinio defnydd helaeth, cymedrol a chyfyngedig er mwyn caniatáu i gyrrff cyhoeddus farnu pa mor bwysig yw pob dull, yn seiliedig ar faint y corff unigol.
- Ein diffiniad oedd 'rhewi cyflogau/cyfyngu enillion ar gyfer rhai cyflogeion neu'r holl gyflogeion, ar ben y rhewi cyflogau cyffredinol yn y sector cyhoeddus'.

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*

- 1.32 Pan ofynnwyd iddynt nodi pa ddull oedd wedi gwneud y cyfraniad mwyaf i helpu i reoli neu leihau costau'r gweithlu, dewisodd 29 corff cyhoeddus (50 y cant) ymadawiadau cynnar. Fodd bynnag, dywedodd 25 corff cyhoeddus (43 y cant) mai rhyw ddull arall yn hytrach nag ymadawiadau cynnar oedd wedi gwneud y cyfraniad mwyaf. Y dull a ddewiswyd amlaf oedd rheoli swyddi gwag<sup>19</sup>. Mae **Astudiaeth Achos 1** yn disgrifio rhai enghreifftiau o ddulliau a fabwysiadwyd gan gyrff cyhoeddus er mwyn rheoli neu leihau costau'r gweithlu.

**Astudiaeth Achos 1 – Enghreifftiau o gyrff cyhoeddus yn defnyddio dulliau ar wahân i ymadawiadau cynnar er mwyn rheoli neu leihau costau perthynol i'r gweithlu**

Dull	Sefydliad	Manylion
Adleoli staff	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	Mae'r Cyngor yn rhoi gweithwyr sydd mewn perygl o gael eu diswyddo mewn cronfa adleoli am rhwng 12 a 24 wythnos. Tra byddant yn y gronfa hon, bydd y Cyngor yn cynnig cyfleon adleoli iddynt bob wythnos. Bydd gweithwyr sydd yn y gronfa adleoli yn cael blaenoriaeth ar gyfer pob swydd wag. Os byddant yn mynegi diddordeb mewn unrhyw swyddi gwag addas, ac yn cael eu penodi i swydd, cânt gynnig cyfnod prawf sef pedair wythnos fel rheol. Os yw'r cyfnod prawf yn llwyddiannus, bydd y Cyngor yn cadarnhau'r gweithiwr yn y swydd. Os yw'r cyfnod prawf yn aflwyddiannus, bydd y gweithiwr yn dychwelyd i'r gronfa adleoli. Os nad yw'r gweithiwr wedi llwyddo i gael swydd erbyn diwedd y cyfnod, bydd yn cael ei ddiswyddo a thelir tâl diswyddo os yw hynny'n briodol.
Rheoli swyddi gwag ac adleoli staff	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	Mae panel o Gyfarwyddwyr Cynorthwyol (clinigwyr ac eraill) yn edrych yn ofalus ar bob swydd wag bob pythefnos. Er mwyn i swydd wag gael ei chymeradwyo, mae angen cwblhau ffurflen fanwl a lofnodir gan y rheolwr cyfarwyddiaeth neu gyfarwyddwr priodol. Bydd y panel swyddi gwag yn edrych yn ofalus ar y ffurflenni, gan roi sylw priodol i'r defnydd a wnaeth adrannau o ymadawiadau gwirfoddol, cynllun y gweithlu a sefyllfa ariannol yr adran. Bydd y panel hefyd yn ystyried y swyddi gwag yn erbyn rhestr adleoli a gedwir gan Adnoddau Dynol, ar gyfer gweithwyr yr effeithir arnynt gan newidiadau yn y sefydliad. Os bydd y panel yn cymeradwyo'r swydd wag a bod rhywun ar gael sy'n addas i'w adleoli, ni fydd y swydd yn cael ei hysbysebu ac fe gynigir cyfnod prawf i'r unigolyn hwnnw.
Rheoli swyddi gwag a rhewi recriwtio	Heddlu Gogledd Cymru	Yn gyffredinol, mae recriwtio allanol wedi'i rewi'n gyfan gwbl. Fodd bynnag, os oes raid recriwtio'n allanol, er enghraifft pan fydd swyddi gwag ymhlith staff yr heddlu, mae Panel Rheoli Pobl misol yn asesu'r rhain a'u cymeradwyo cyn iddynt gael eu hysbysebu. Mae Heddlu Gogledd Cymru hefyd yn cynnal arbrawf mewn un maes busnes drwy ddefnyddio dull grymusach gan anfon y ceisiadau hyn at y Rheolwr Busnes i ddechrau er mwyn asesu sut y gellir cyflawni gwaith y swydd wag yn fewnol.
Newid patrymau gwaith y gweithwyr	Estyn	Yn lle gweithio mewn swyddfeydd (yng Nghaerdydd neu'r Wyddgrug) mae staff arolygu Estyn yn gweithio o'u cartrefi. Costau adeiladau oedd y prif arbediad (cau swyddfa ranbarthol a lleihau maint y brif swyddfa), ond bu'n gyfle i arbed costau staffio hefyd drwy leihau amserau teithio a threuliau staff. Roedd cael y staff i weithio o'u cartrefi yn golygu patrymau gwaith mwy hyblyg fel y gall Estyn recriwtio o gronfa fwy o ymgeiswyr a thalu llai o gostau mudo efallai.

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*

<sup>19</sup> Ni chafwyd ateb i'r cwestiwn hwn gan bedwar o'r gyrff cyhoeddus.

## Roedd y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn rhagweld y byddent yn rhedeg cynlluniau ar gyfer ymadael yn gynnar yn 2014-15 a hefyd yn defnyddio dulliau eraill i reoli neu leihau costau'r gweithlu

- 1.33 Dywedodd y cyrff cyhoeddus y bydd ymadawiadau cynnar yn parhau i fod yn ddull poblogaidd o reoli neu leihau costau'r gweithlu. O'r 58 corff cyhoeddus yn ein harolwg, roedd 45 (76 y cant) yn rhagweld y byddent yn rhedeg cynllun ar gyfer ymadael yn gynnar yn 2014-15.
- 1.34 Dywedodd saith ar hugain o gyrff cyhoeddus (47 y cant) fod ganddynt gynlluniau i ddefnyddio dulliau heblaw ymadawiadau cynnar fel rhan bwysig o'u hymdrechion i reoli neu leihau costau'r gweithlu yn 2014-15. Y tri dull arall a enwyd amlaf oedd lleihau'r defnydd o oramser (21 corff cyhoeddus), canolbwyntio mwy ar reoli swyddi gwag (20 corff cyhoeddus) ac adleoli staff fel y byddent yn gweithio mewn maes newydd (18 corff cyhoeddus).
- 1.35 Gofynasom i'r cyrff cyhoeddus faint o staff roeddent yn disgwyl fyddai'n gweithio iddynt ym mis Mawrth 2014 a mis Mawrth 2015, a beth oedd costau disgwylidig eu cyflogau yn 2013-14 a 2014-15. Gan ddibynnu pryd yr ymatebasant i'n harolwg, buasai rhai cyrff cyhoeddus wedi bod mewn sefyllfa i roi union nifer y staff ym mis Mawrth 2014 a chostau gwirioneddol cyflogau ar gyfer 2013-14. O'r cyrff cyhoeddus hynny a ddarparodd y data angenrheidiol i allu cymharu, cawsom fod y mwyafrif (28 o 39) yn disgwyl gweld lleihad yn nifer y staff rhwng 2013-14 a 2014-15, ond bod nifer tebyg (23 o 44) yn rhagweld cynnydd yng nghostau cyflogau. Gallai sawl peth fod yn gyfrifol am gynnydd yng nghostau cyflogau:
- a pwysau chwyddiant ar gyflogau, wedi i'r cyfnod o rewi cyflogau yn y sector cyhoeddus ddod i ben;
  - b pob dull arall posibl o reoli costau wedi'i gynnig eisoes;
  - c nifer y staff wedi'i leihau'n ormodol am fod gormod o bobl wedi ymadael yn gynnar; a
  - ch chynnydd yn y staff er mwyn newid cymysgedd sgiliau neu gost y gweithlu presennol.

## Rhan 2

At ei gilydd, mae'n ymddangos bod ymadawiadau cynnar wedi cael eu llywodraethu'n dda, er nad oedd pob cynllun yn cydymffurfio'n llawn ag egwyddorion arferion da

- 2.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried sut y mae cyrff cyhoeddus wedi rheoli eu trefniadau ar gyfer ymadawiadau cynnar, ar sail yr atebion a roesant i'n harolwg, y cwestiynau pellach a ofynasom a lle bo hynny'n berthnasol unrhyw dystiolaeth eilaidd oedd ar gael.
- 2.2 O'r 58 corff cyhoeddus yn ein harolwg, dywedodd 47 fod ganddynt o leiaf un cynllun ymadael cynnar penodol am amser cyfyngedig yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013. Lle bu cyrff cyhoeddus yn gweithredu mwy nag un cynllun yn ystod y cyfnod hwn, ni roesant ar ddeall fod unrhyw wahaniaethau o bwys yn y ffordd y gweithredai'r cynlluniau hynny, ar wahân i rai gwahaniaethau anorfod o safbwynt amodau a thelerau gan fod rhai cynlluniau'n wirfoddol ac eraill yn orfodol. At hynny, roedd rhai cyrff cyhoeddus wedi cynnig telerau llai ffafriol ar gyfer mathau tebyg o becyn ymadael mewn cynlluniau mwy diweddar.
- 2.3 Roedd rhai cyrff cyhoeddus, ar y llaw arall, wedi bod â threfniadau mwy agored ar gyfer ceisiadau unigol am ymadawiad cynnar drwy gydol y cyfnod. Mae'r dadansoddiad a gynigiwn yn y rhan hon o'r adroddiad yn cyfeirio'n bennaf at y trefniadau a ddisgrifiwyd gan y 47 corff cyhoeddus a nododd eu bod wedi gweithredu cynllun penodol am amser cyfyngedig ac, os oeddent wedi gweithredu mwy nag un cynllun, cymerwyd y cynllun y bu i'r nifer mwyaf o staff ymadael dano.

## Mae'r rhan fwyaf o ymadawiadau cynnar yn digwydd yn unol â chanllawiau neu ddeddfwriaeth sy'n benodol i'r sector dan sylw ac yn unol hefyd â pholisïau a gweithdrefnau lleol

- 2.4 Mae'n rhaid i ymadawiadau cynnar yn Llywodraeth Cymru a'r rhan fwyaf o gyrff eraill yn y llywodraeth ganolog ddilyn rheolau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil<sup>20</sup>. Mae'r cynllun hwnnw'n gosod y telerau y mae Llywodraeth Cymru'n eu defnyddio pan ddigolledir staff sy'n gymwys yng Ngwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru a chyflogeion perthnasol eraill a ddiswyddir yn orfodol neu'n wirfoddol. Mae'n rhaid i unrhyw gynllun a weithredir o dan Gynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil gael ei gymeradwyo gan Swyddfa'r Cabinet cyn ei lansio.
- 2.5 Pan fyddant yn ystyried unrhyw becyn ymadael cynnar arfaethedig, mae'n rhaid i gyrff y GIG sicrhau eu bod yn cadw at egwyddorion penodol a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru<sup>21</sup>. Mae'r gofynion yn ymdrin â thri maes:
- rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian;
  - pwerau gwariant; ac
  - atebolwydd a gwrthdrawiad buddiannau..

<sup>20</sup> Daeth Cynllun Digolledu newydd i rym ar gyfer y Gwasanaeth Sifil ar 22 Rhagfyr 2010. Mae'r cynllun newydd, er enghraifft, yn gosod uchafswm ar gyfer pecynnau ymadael i rai o dan oed pensiwn sef 21 mis o dâl i'r rhai sy'n ymadael yn wirfoddol a diswyddiadau gwirfoddol a 12 mis o dâl ar gyfer diswyddiadau gorfodol. Gosodir y tariff ar gyfer diswyddo gwirfoddol a gorfodol ar un mis o dâl am bob blwyddyn o wasanaeth.

<sup>21</sup> Nodwyd y gofynion hyn mewn llythyr oddi wrth Gyfarwyddwr GIG Cymru ar y pryd at Brif Weithredwyr yr Awdurdodau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn Ebrill 2002.



- 2.6 Ar wahân i'r egwyddorion hyn, mae gan gyrff unigol y GIG hawl i wneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer ymadawiadau cynnar, er bod yn rhaid i aelodau'r byrddau eu harchwilio a'u cymeradwyo fel rhan o'u trefniadau llywodraethu. Fodd bynnag, mae cyrff y GIG yn defnyddio'r Model o Gynllun Ymadael Cynnar Gwirfoddol a gyflwynwyd yn 2009 ac a adolygwyd yn 2012. Mae'r cynllun yn seiliedig ar egwyddorion cynllun Llywodraeth Cymru. Un o egwyddorion allweddol y trefniadau hyn sydd wedi hen ennill eu plwyf bellach yw fod yn rhaid i gyrff y GIG gael gwared â phob swydd a dderbyniwyd ar gyfer ymadawiad cynnar, neu swm cyfatebol o arian, er mwyn sicrhau arbediad aiddigwyddiadol. Mae holl gyrff y GIG yng Nghymru yn defnyddio'r cynllun hwn ar gyfer ymadawiadau gwirfoddol ac roedd bron y cyfan (96 y cant) o'u ymadawiadau cynnar yn y categori hwn (Ffigur 4).
- 2.7 Mae Llywodraeth Cymru, y llywodraeth ganolog a chyrrff y GIG hefyd yn dilyn canllawiau lefel uchel ar gyfer ymdrin ag arian cyhoeddus sef Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, sy'n deillio o ganllawiau Rheoli Arian Cyhoeddus a ddarparwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru fe nodir y prif egwyddorion ar gyfer delio ag adnoddau a ddefnyddir gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru a dywedir ei bod yn bwysig, pan fydd gweithwyr yn ymadael yn gynnar, fod taliadau 'yn cael eu gwneud er budd y cyhoedd, yn wrthrychol a heb ragfarn'. Rhoddir hefyd ffactorau y dylid eu hystyried pan gynigir ychwanegiad neu 'daliad diswyddo arbennig' mewn achosion unigol.
- 2.8 Mae gan yr awdurdodau lleol ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol hawl i wneud eu trefniadau eu hunain ar gyfer staff sy'n ymadael yn gynnar. Fel rheol byddant yn defnyddio adrannau 111 a 112, Deddf Llywodraeth Leol 1972, er mwyn cael y pwerau angenrheidiol i wneud trefniadau gwirfoddol. Bydd taliadau a wneir o dan drefniant gwirfoddol yn unol â:
- faint y mae'r unigolyn yn fodlon ei dderbyn; a
  - beth y mae'r cyflogwr yn gallu ei gyfiawnhau ar sail gwerth am arian i'r trigolion a'r rhai sy'n talu treth y cyngor.
- 2.9 Mae rheoliadau Llywodraeth Leol<sup>22</sup> yn rheoli pa iawndal y caiff awdurdodau ei roi i weithiwr y daw ei gontract i ben oherwydd ei fod yn ddi-alw-amdano. Gellir talu hyd at 104 wythnos o gyflog yn ôl y rheoliadau.
- 2.10 Mae rheoliadau Llywodraeth Leol hefyd yn berthnasol i staff cefn swyddfa yn yr heddlu a chyrrff tân ac achub – mae'r swyddogion hyn yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. O ran heddwision, mae rheoliadau ar gyfer heddluoedd sydd yn caniatáu cynlluniau ymadael gwirfoddol, yn seiliedig i raddau helaeth ar delerau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil<sup>23</sup>. Mae'r rheoliadau hyn hefyd yn caniatáu i'r heddlu fynnu bod pob heddw is na Phrif Swyddog yn ymddeol yn gynnar os oes ganddynt o leiaf 30 mlynedd o wasanaeth. Mae gan awdurdodau tân ac achub hawl i wneud eu trefniadau eu hunain i ddiffoddwyr tân ymadael yn gynnar.
- 2.11 Mae naw o 10 Corff y GIG yng Nghymru, ynghyd â Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chwaraeon Cymru, wedi derbyn arian ad-daladwy gan gynllun Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru i'w galluogi i gynnig pecynnau ymadael cynnar. Gan eu bod wedi derbyn arian o'r fath mae'n rhaid gwneud gwaith monitro ychwanegol a rhoi adroddiadau i Lywodraeth Cymru (Astudiaeth Achos 2).

<sup>22</sup> Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal yn ôl Disgresiwn) (Cymru a Lloegr) 2006

<sup>23</sup> Rheoliadau Pensiwnau'r Heddlu 1987 a Rheoliadau Pensiwnau'r Heddlu (Difffygad Rhif 2) 2012

## Astudiaeth Achos 2 – Talu am ymadawiadau cynnar drwy gyfrwng cynllun Buddsoddi i Arbed

Rhwng 2010-11 a 2012-13, cyfrannodd Buddsoddi i Arbed £17 miliwn i'r cyfanswm o £30 miliwn a dalwyd ymlaen llaw er mwyn cynnig cynlluniau ymadael yn gynnar yng nghyrrff y GIG. Amcangyfrifir bod y cynlluniau hyn wedi arwain at arbedion ailddigwyddiadol o tua £33 miliwn (57 y cant i'w priodoli i Buddsoddi i Arbed). Caniatwyd £13 miliwn yn ychwanegol ar gyfer 2013-14 a 2014-15, tuag at gynlluniau oedd yn parhau yn y GIG.

Derbyniodd Cyfoeth Naturiol Cymru £3.75 miliwn yn 2013-14 a £3 miliwn arall ar gyfer 2014-15. Mae £1.5 miliwn wedi'i gymeradwyo ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn 2014-15 a 2015-16 ac fe ddyfarnwyd £156,000 i Chwaraeon Cymru yn 2014-15 a 2015-16. Er enghraifft, bydd arian Chwaraeon Cymru, sydd i'w ad-dalu dros gyfnod o dair blynedd, yn talu am ymadawiadau cynnar a ddylai arwain at arbedion o £500,000 cyn pen tair blynedd.

Un o amodau arian Buddsoddi i Arbed yw bod y corff cyhoeddus unigol yn rhoi adroddiad monitro misol neu chwarterol i Lywodraeth Cymru. I ddechrau, mae'n rhaid i'r cyrrff roi sylwadau ynglŷn â chynlluniau ymadael cynnar unigol gan gynnwys rhagdybiaethau ar gyfer eu hariannu, yr ad-daliadau angenrheidiol a'r arbedion sydd wedi'u cynllunio. Dylid darparu manylion am y modd y rhoddir y cynllun ymadael cynnar ar waith a sut y cyflawnir amcanion y cynlluniau unigol a gymeradwyir, gan gynnwys arbedion a sicrhawyd ac a ddisgwyllir, o'u cymharu â'r rhagolygon gwreiddiol ar gyfer gwneud arbedion pan wnaed y cais am Fuddsoddi i Arbed. At hynny, dylid cynnwys sylwadau yn amlinellu unrhyw gamau a gymerwyd i wneud iawn am ddiffyg, os nodwyd diffyg, er mwyn sicrhau bod y proffiliau ad-dalu y cytunwyd arnynt yn cael eu gwireddu.

### *Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

- 2.12 Yn ogystal ag unrhyw ddarpariaethau ar gyfer y sector cyfan, roedd y rhan fwyaf o gyrrff cyhoeddus wedi datblygu eu polisiau mewnol eu hunain. Fel rheol roedd y rhain yn ymwneud â sut i weinyddu ymadawiadau, y drefn i'w dilyn pan fyddai gweithwyr yn gwneud cais am ymadael yn gynnar – er enghraifft, defnyddio achosion busnes – a'r modd y bydd y corff cyhoeddus yn prosesu ceisiadau.
- 2.13 Gofynasom i archwilyr lleol a oeddent wedi ystyried y trefniadau ymadael yn gynnar yn y cyrrff cyhoeddus unigol, fel rhan o'r gwaith o archwilio'r cyfrifon yn flynyddol neu, os oedd hynny'n berthnasol, drwy raglenni archwilio perfformiad yn lleol. Roedd y rhan fwyaf o'r gwaith ar gyfrifon a wnaed gan archwilyr lleol ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio a gwerthuso effeithiolrwydd y dulliau o reoli gweinyddiaeth a systemau o fewn y broses ddiswyddo, a sicrhau bod cyrrff cyhoeddus yn dilyn y prosesau statudol a mewnol pan oedd staff yn ymadael yn gynnar. Mewn rhai cyrrff cyhoeddus, roedd hyn yn cynnwys cynnal prawf i archwilio taliadau a wnaed bob blwyddyn a sicrhau eu bod yn unol â threfniadau'r cyrrff cyhoeddus.
- 2.14 Nid yw ein timau archwilio ni wedi canfod unrhyw bryderon penodol wrth edrych ar y modd y mae trefniadau ymadael cynnar cyrrff cyhoeddus yn cael eu llywodraethu yn gyffredinol. Er hynny, rhoddwyd sylw mawr yn y cyfryngau i ambell enghraifft lle mae archwilyr wedi adolygu trefniadau pecynnau ymadael rhai uwch swyddogion unigol.

## Tudalen 170

## Er bod cyrff cyhoeddus at ei gilydd wedi cadw mewn cof yr angen i gynllunio eu gweithlu wrth iddynt ystyried effaith ymadawiadau cynnar, mae rhai wedi defnyddio meini prawf mwy trwyadl wrth wneud achosion busnes na'i gilydd

- 2.15 Gofynasom i'r cyrff cyhoeddus a oeddent wedi gosod targedau ar gyfer lleihau'r gweithlu unrhyw bryd rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013. O'r 31 corff cyhoeddus a oedd wedi gosod targed i'r sefydliad cyfan, 15 yn unig a nododd fod y targed wedi'i gyrraedd yn llawn. Rhai ffactorau penodol a oedd wedi rhwystro cyrff rhag cyrraedd y targedau oedd cynnydd yn y gwaith yr oedd angen i'r sefydliad ei wneud, yr angen i ddal eu gafael ar bobl oedd â sgiliau addas a'r anhawster o dalu pensiynau a chynyddrannau cyflog.
- 2.16 Gofynasom hefyd a oedd cyrff cyhoeddus wedi gosod cyllideb benodol ar gyfer costau, targedau ar gyfer arbedion cost neu dargedau ar gyfer nifer y gweithwyr y bwriadent iddynt ymadael o dan y cynllun ymadael cynnar a ddefnyddient amlaf. Yn hytrach na gosod targedau a chyllidebau ffurfiol, roedd y rhan fwyaf o'r cyrff cyhoeddus wedi dilyn trefn fwy hyblyg, gan ddefnyddio achosion busnes unigol gan amlaf i gefnogi'r achos pan ystyrid ymadael cynnar.
- 2.17 O'r 32 corff cyhoeddus a allai ddarparu'r data angenrheidiol, cafodd dros 80 y cant o'r holl geisiadau ffurfiol am y cynllun a ddefnyddient amlaf eu derbyn mewn naw corff. Mewn chwech o'r cyrff cyhoeddus hyn, derbyniwyd pob un o'r ceisiadau a wnaed. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, byddai rheolwyr llinell yn derbyn mynegiad dechreuol o ddiddordeb. Nid oedd neb yn cael gwneud cais ffurfiol oni bai fod y rheolwr llinell yn cefnogi hynny, ac na fuasai'r cais wedi cael ei dderbyn petai'r rheolwr llinell wedi dweud bod angen cadw'r swydd. Dywedwyd wrthym gan ddeuddeg corff cyhoeddus eu bod wedi gosod cyfyngiadau ar bwy oedd yn cael gwneud cais o dan y cynllun a ddefnyddid amlaf – er enghraifft, rhai adrannau yn unig, staff o ryw oedran neu bobl oedd wedi gwasanaethu am nifer penodol o flynyddoedd. Serch hynny, roedd cyfran y ceisiadau a gafodd sêl bendith yn dal i amrywio.
- 2.18 Dylid cael achos busnes clir i gefnogi unrhyw gynnydd i unigolyn ymadael yn gynnar. Pan gymeradwyir yr achos busnes, dylid yn ddelfrydol ystyried y pethau a ganlyn:
- a holl gostau ychwanegol yr ymadael cynnar a pha swm o arian y disgwylir ei arbed;
  - b unrhyw 'straen ar y gronfa'<sup>24</sup> a chostau 'blynyddoedd ychwanegol'<sup>25</sup> a wynebir gan gronfeydd pensiwn ac a godir ar y cyflogwyr, nid dim ond y costau hynny sy'n syrthio'n uniongyrchol ar gyllideb y corff cyhoeddus dan sylw;
  - c costau unrhyw staff sydd eu hangen yn lle'r rhai sy'n ymadael er mwyn i'r gwaith gael ei wneud;
  - ch hyd cyfnodau ad-dalu, y dylid eu cyfrifo; ac
  - d effaith colli sgiliau a phrofiad yr unigolyn.

<sup>24</sup> Mae costau straen ar bensiwn (a elwir hefyd yn gostau cyfalaf, yn aml) yn digwydd pan fydd diffyg amlwg o ran lefel yr arian y tybir sydd ei angen er mwyn darparu buddion pensiwn penodol. Bydd costau straen yn digwydd yn aml pan gaiff buddion eu tynnu i lawr yn gynt na'r disgwyl.

<sup>25</sup> Mae pensiwn a chyfandaliad unigol yn seiliedig ar nifer y blynyddoedd y maent wedi gweithio i'r sefydliad a chyfrannu i'w cronfa pensiwn. Gan hynny, mae'n bosibl y bydd pobl yn anfodlon derbyn ymddeoliad cynnar a llai o bensiwn. Caiff cyflogwyr ddewis cynnig 'blynyddoedd ychwanegol' i annog unigolion i fynd, gan ychwanegu hyd at 10 mlynedd wrth gyfrifo'r taliadau pensiwn blynyddol a'r cyfandaliad.

- 2.19 O'r 47 corff cyhoeddus a oedd wedi gweithredu cynllun ymadael cynnar penodol, roedd 38 wedi mynnu cael achos busnes ar gyfer pob cais unigol, pedwar wedi cwblhau achos busnes ar gyfer rhai ymgeiswyr ond nid y cyfan, a phump – cyrff llai, lle nad oedd ond ychydig o ymadawiadau cynnar, fel rheol – heb gwblhau achosion busnes. Er enghraifft, ni wnaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gwblhau achosion busnes; roeddent o'r farn, os oedd modd fforddio'r arian oedd i'w dalu ymlaen llaw ar gyfer ymadael cynnar, yna y dylid ei gymeradwyo er mwyn helpu i liniaru anawsterau eraill gyda chostau. Yn wahanol iawn i hynny, dywedodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro nad oeddent ond yn cydsynio i geisiadau a fodlonai eu proses cost a budd, ar sail arbedion cyflog a hefyd o ran galluogi'r sefydliad/gwasanaeth i wneud newidiadau.
- 2.20 Lle defnyddid achosion busnes, roedd natur yr wybodaeth yr oedd cyrff cyhoeddus wedi'i hystyried yn amrywio, yn enwedig o ran ystyried costau ar wahân i gost uniongyrchol y pecyn ymadael. Fodd bynnag, dywedodd pob corff cyhoeddus a nododd iddynt ddefnyddio achosion busnes y dylasai'r rhain ystyried yr effaith gyffredinol o ran darparu gwasanaethau, a dywedodd pob corff heblaw un y dylasid ystyried effaith colli sgiliau penodol y gweithiwr.
- 2.21 Adolygodd gwasanaeth archwilio mewnol Comisiwn y Cynulliad gynlluniau ymadael cynnar y sefydliad yn 2010 a 2012; roedd 25 o staff wedi ymadael yn sgil y cynlluniau hyn yn 2010-11 a 17 yn 2011-12. Nododd yr archwilywyr mewnol fod y Comisiwn dan bwysau difrifol o safbwynt amser wrth weithredu cynllun 2010-11 gan eu bod yn gorfod torri'r gyllideb. Fodd bynnag, canfu'r adolygiad nad oedd y cofnodion yn y ffeiliau'n dangos tystiolaeth eu bod wedi paratoi cynllun busnes manwl ar gyfer y cynllun yn ei gyfanrwydd, ac nad oedd cynlluniau busnes unigol yn ystyried popeth perthnasol i gostau ac arbedion yn achos pob gweithiwr unigol. Nid oedd y cynlluniau wedi cael eu cysylltu'n glir â strategaethau Adnoddau Dynol ehangach na chynlluniau gweithlu, chwaith. Gyda chynllun 2011-12, roedd adolygiad yr archwilywyr mewnol yn cydnabod bod achos busnes manwl ar gyfer y cynllun hwn, ond yn argymhell y dylid ystyried modelau cost cryfach ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol. Dywedodd Comisiwn y Cynulliad wrthym eu bod yn gadael i bawb o'u staff fynd petaent yn mynegi diddordeb mewn ymadael ac os oedd y Comisiwn yn gallu fforddio gadael iddynt fynd, gan edrych ar bob achos yn unigol. Dywedasant wrthym eu bod wedi rhoi sicrwydd i staff na fyddai neb yn cael ei ddiswyddo'n orfodol ac roedd rhyddhau pobl o dan y cynlluniau gwirfoddol yn gymorth i sicrhau na fyddai diswyddiadau gorfodol yn digwydd.
- 2.22 Ym mis Hydref 2012, comisiynodd Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru adolygiad mewnol o Adnoddau, Sgiliau a Hyblygrwydd. Yn ôl yr adroddiad terfynol, roedd gwybodaeth ynghylch cynllunio'r gweithlu wedi cael ei defnyddio wrth wneud trefniadau i bobl ymadael yn wirfoddol, ac roedd ceisiadau gan rai oedd

am ymadael yn gynnar o'u gwirfodd yn cael eu hystyried yn erbyn meini prawf a oedd yn cynnwys parhad busnes, pa mor hawdd y gellid cael rhywun yn eu lle a'u sgiliau unigol. Fodd bynnag, wrth sôn am broffilio adnoddau a chynllunio gweithlu, dywedodd yr adroddiad ar yr adolygiad 'fod tîm yr adolygiad wedi canfod nad oes fawr o dystiolaeth i'w gweld o waith rheoli strategol na chynllunio trefnus ar gyfer y dyfodol ar lefel gorfforaethol er mwyn canfod manau trafferthus, bylchau mewn sgiliau a mesurau adferol' ac 'nad yw'r rhan fwyaf o adrannau wedi cynllunio'r gweithlu mewn gwirionedd'. Canfu'r adolygiad, dros gyfnod o amser, fod llai o sylw wedi'i roi i sgiliau a phrofiad y staff a ymadawai â Llywodraeth Cymru. Er bod trefniadau ymadael cynnar wedi golygu bod modd lleihau'r gweithlu'n gyflym, daeth yr adolygiad i'r casgliad fod hyn wedi arwain at 'ddosbarthu staff yn anghyson ac anghymesur o ran niferoedd, sgiliau a phrofiad yn y rhan fwyaf o feysydd'.


2.23 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi adroddiad o'r blaen ar rai enghreifftiau penodol o effaith trefniadau ymadael cynnar Llywodraeth Cymru:

- a Glastir – mewn adroddiad dyddiedig Medi 2014 ar gynllun amaeth-amgylchedd Glastir fe nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi lleihau nifer y contractau Glastir Uwch yr amcanai i'w dyfarnu ym mlwyddyn gyntaf y cynllun (o 1 Ionawr 2013 ymlaen), o 500 i 300, oherwydd bod chwe swyddog prosiect wedi ymadael o'u gwirfodd.
- b Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) – canfuwyd drwy waith archwilio yn 2011-12 fod AGGCC wedi defnyddio staff ychwanegol i atgyfnerthu'r trefniadau rheoli yn rhanbarth y Canolbarth a De Cymru ac er mwyn gwneud iawn am brinder staff yno. Fodd bynnag, roedd pryder o hyd ynghylch capasiti a llwythi gwaith ym mhob rhanbarth ac roedd strategaeth leoli Llywodraeth Cymru a'r mentrau diswyddo gwirfoddol wedi gwneud pethau'n waeth. Roedd swyddogion AGGCC wedi nodi bod effeithiau trefniadau diswyddo gwirfoddol y tu hwnt i'w rheolaeth uniongyrchol hwy i raddau helaeth ac y buasai wedi bod yn well ganddynt beidio â cholli rhai o'r staff a ymadawodd fel rhan o drefniadau cyffredinol Llywodraeth Cymru<sup>26</sup>.

2.24 Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y staff yn Llywodraeth Cymru yn 2010-11 a dechrau 2011-12 (Ffigur 14), a hynny i raddau helaeth yn adlewyrchu nifer yr ymadawiadau cynnar (Ffigur 3). Fodd bynnag, mae niferoedd y staff wedi bod yn cynyddu'n gyson ers hynny, gan gynyddu o naw y cant rhwng Ionawr 2012 a Mehefin 2014, o 5,376 i 5,853. Ym mis Medi 2014, cafodd Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru ei holi gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch y cynnydd yn niferoedd y staff. Atebodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod hyn i'w briodoli, ymhlith pethau eraill, i'r ffaith fod prentisiaethau Llywodraeth Cymru wedi cael eu creu a bod rhagor o ddeddfwriaeth wedi golygu cynyddu'r adnoddau er mwyn delio â hynny.

26 Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 30 Mawrth 2012

Ffigur 14 – Nifer y staff oedd yn cael eu cyflogi gan Lywodraeth Cymru, Ebrill 2010 i Fehefin 2014



Ffynhonnell: Gwefan Llywodraeth Cymru

## Roedd y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn defnyddio cynghorwyr neu aelodau bwrdd mewn rhyw fodd i graffu ar drefniadau ymadael cynnar

- 2.25 Fe wnaethom holi cyrff cyhoeddus ynghylch eu trefniadau i gymeradwyo a chraffu ar y cynllun ymadael yn gynnar a ddefnyddient amlaf, gan ofyn ymhlith pethau eraill pa ran a roddent i gynghorwyr neu aelodau bwrdd er mwyn sicrhau bod cynlluniau'n rhoi gwerth am arian.
- 2.26 O'r 47 corff cyhoeddus oedd â chynllun ymadael cynnar, dywedodd 39 fod cyfarwyddwyr anweithredol neu gynghorwyr yn chwarae rhyw ran mewn sicrhau gwerth am arian. Roedd y trefniadau'n amrywio, gan gynnwys cael cynghorwyr neu aelodau bwrdd i gymryd rhan yn y broses ar gyfer cymeradwyo ymadawiadau unigol – er enghraifft, trwy eistedd ar y Pwyllgor Tâl, a/neu fod cynghorwyr neu aelodau bwrdd yn cymeradwyo'r cynllun ar y dechrau ([Astudiaeth Achos 3](#)).

## Astudiaeth Achos 3 – Dulliau o gymeradwyo ymadawiadau cynnar unigol

### Cyngor Celfyddydau Cymru

Defnyddid yr un broses ar gyfer pob aelod o'r staff. Cyflwynid cynigion ffurfiol i Banel a drefnid yn arbennig, sef Cadeirydd y Cyngor, un aelod arall o'r Cyngor a'r Prif Weithredwr. Roedd swyddog proffesiynol undeb llafur yn bresennol yn y cyfarfodydd.

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

Tan 2012, roedd achosion ymadael gwirfoddol yn cael eu cymeradwyo ar lefel Cyfarwyddwr Gweithredol, o leiaf, os oedd gwerth y pecyn yn isel, neu gan y Prif Weithredwr os oedd yn uwch, neu'r Pwyllgor Tâl os oedd y pecyn yn werth mwy na £25,000. Roedd yn rhaid i Lywodraeth Cymru gymeradwyo pecynnau dros £50,000, yn unol â rheolau Cynllun Ymadael Cynnar Gwirfoddol y GIG. Ers 2012, mae pob cais am ymadael yn wirfoddol yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Tâl a phecynnau dros £50,000 yn dal i orfod cael eu cymeradwyo'n unigol gan Lywodraeth Cymru.

### Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Mae rheolwr llinell yr unigolyn yn sefydlu achos busnes y mae'n rhaid ei gyflwyno i uwch reolwyr i'w ystyried a'i anfon ymlaen os yw hynny'n briodol ac fe ymgynghorir hefyd â'r undebau llafur. Mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn derbyn adroddiad yn rhoi manylion am y cefndir, yr achos busnes, asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, costau a buddion a'r effaith ariannol (gan gynnwys costau straen pensiwn os yw hynny'n berthnasol) a'r Awdurdod sy'n awdurdodi'r ymadawiad cynnar fel y bo'n briodol.

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*

## Dim ond 55 y cant o'r cyrff cyhoeddus a ddywedodd eu bod wedi cynnal rhyw fath o asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y cynllun ymadael cynnar a ddefnyddient amlaf

- 2.27 Rhan bwysig o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw Dyletswydd Cydraddoldeb y sector cyhoeddus, a ddaeth i rym yn Ebrill 2011. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried anghenion pob unigolyn yn eu gwaith arferol pan fyddant yn llunio polisiau, yn cyflwyno gwasanaethau ac yn delio â'u gweithwyr eu hunain. Nid yw'r Ddyletswydd Cydraddoldeb yn ei gwneud yn ofynnol o dan y gyfraith i gyrff gynnal asesiadau ffurfiol o'r effaith ar gydraddoldeb; fodd bynnag, mae gan gyrff cyhoeddus Cymru ddyletswydd benodol i wneud trefniadau i asesu effaith debygol eu gweithgareddau ar eu gallu i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb<sup>27</sup>.
- 2.28 Yn ein barn ni, dylai cyrff cyhoeddus ystyried effaith eu cynlluniau ymadael cynnar ar gydraddoldeb er mwyn sicrhau nad yw pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig yn dioddef anfantais annheg neu'n cael eu cau allan. Gofynasom i'r cyrff cyhoeddus a oeddent yn cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y cynllun ymadael cynnar a ddefnyddient amlaf. O'r 47 corff cyhoeddus a atebodd, roedd 26 (55 y cant) wedi cynnal rhyw fath o asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb (Astudiaeth Achos 4).

<sup>27</sup> Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

## Astudiaeth Achos 4 – Dulliau o ymdrin ag asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb

### **Cyngor Celfyddydau Cymru**

Cyflwynodd Cyngor Celfyddydau Cymru ei asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb i'r Cyngor ynghyd â'r cynigion ar gyfer adolygu'r sefydliad, a oedd yn cynnwys cynllun ymadael cynnar. Felly roedd modd i'r Cyngor weld y dadansoddiad o'r effaith cyn penderfynu'n derfynol ar ffurf yr adolygiad. Roedd yr asesiad o'r effaith yn dilyn fformat y cytunwyd arno ac yn dechrau gyda'r rhagdybiaeth y gallai'r cynigion gael effaith wahaniaethol (o ran cydraddoldeb) ar staff Cyngor y Celfyddydau ac ar y gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu. Ceisiodd yr asesiad edrych ar y materion hyn yng nghyd-destun Strategaeth Cydraddoldeb Cyngor y Celfyddydau. Canfu'r asesiad nad oedd unrhyw resymau sylweddol i feddwl y byddai cynigion yr Adolygiad Sefydliadol yn cael effaith wahaniaethol ar bobl oherwydd eu hil, anabledd, rhyw, oed, crefydd/cred neu ddiffyg cred, cyfeiriadedd rhywiol nac iaith.

### **Llywodraeth Cymru**

Cynigiodd Llywodraeth Cymru ei chynllun ymadael cynnar ar sail wirfoddol. Fe fonitrodd Llywodraeth Cymru'r cyfraddau amrywiaeth er mwyn ystyried ac, os yn briodol roi sylw i unrhyw effaith anghymesur, a chynhwyswyd y canfyddiadau mewn ymarfer sgrinio cydraddoldeb. Roedd y canlyniadau'n dangos bod amrywiaeth y cynllun yn gymesur â'r amrywiaeth yn y gweithlu cyffredinol.

### **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

Cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ymarfer sgrinio cychwynnol er mwyn gweld a oedd angen asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb. Mae canllawiau mewnol y Cyngor yn nodi, os bydd y broses sgrinio'n dangos effaith negyddol uchel neu ganolog, na ellir mo'i chyfiawnhau, fod yn rhaid wedyn i'r Cyngor gynnal asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb. Gwelwyd yn sgil y broses sgrinio nad oedd angen cynnal asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y cynllun ymadael cynnar gan fod yr effaith yn isel.

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*



## Cafwyd cytundeb setlo mewn rhyw un o bob pump o ymadawiadau cynnar ond dim ond mewn saith y cant o'r achosion hynny y gwnaed taliad ychwanegol; roedd y gost yn rhyw £20,000 ar gyfartaledd

2.29 Yn eu hadroddiad yn 2013 ar ymadawiadau cynnar yn sector cyhoeddus yr Alban, fe eglurodd Audit Scotland y gall cytundebau setlo (**Blwch 2**) fod yn ddefnyddiol er mwyn amddiffyn cyrff cyhoeddus rhag her gyfreithiol mewn perthynas ag ymadawiadau cynnar. Fodd bynnag, ni chaniateir i gyrff cyhoeddus eu defnyddio i gelu cost lawn ymadawiadau cynnar rhag y cyhoedd a dylai cyrff cyhoeddus fod yn glir pa hawliau cyflogaeth y maent yn disgwyl i unigolion eu hepgor yn gyfnewid am daliadau ex gratia. At hynny, pwysleisiodd adroddiad Audit Scotland na ddylai cyrff cyhoeddus ddefnyddio cytundebau setlo i helpu i gadw chwythwyr chwiban yn dawel a chyfyngu ar atebolrwydd i'r cyhoedd. Yn adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gymalau cyfrinachedd a thaliadau diswyddo arbennig yn 2013, cafwyd bod defnydd helaeth, cyfreithlon yn aml, yn cael ei wneud o gytundebau setlo ym mhob rhan o sector cyhoeddus y DU. Fodd bynnag, fe nododd yr adroddiad ddiffyg tryloywder, cysondeb ac atebolrwydd yn y defnydd a wneid ohonynt.

### Blwch 2 – Cytundebau setlo

Mae cytundeb setlo yn gytundeb sydd yn rhwymo yn gyfreithiol, wrth i'ch cyflogaeth ddod i ben neu wedi hynny, ac sydd yn dod â'ch cyflogaeth i ben. Fe'i cydnabyddir drwy statud a dyma'r unig ffordd ddilys y gallwch 'gcontractio allan' o'ch hawliau dan gyfraith cyflogaeth. Fel rheol mae'n darparu ar gyfer taliad ddiswyddo ac yn gyfnewid am hynny rydych yn cytuno i beidio â mynd ag unrhyw hawliad neu gŵyn a fydd gennych, efallai, ymhellach mewn tribiwnlys cyflogaeth.

*Ffynhonnell: Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu*

- 2.30 O'r 47 corff cyhoeddus a oedd wedi defnyddio cynllun penodol ar gyfer ymadael yn gynnar, dim ond 13 (28 y cant) a ddywedodd eu bod wedi defnyddio cytundebau setlo ym mhob achos. Roedd hyn yn cynnwys holl gyrff y GIG, sef 10 ohonynt. Y cyrff cyhoeddus eraill a ddywedodd eu bod wedi defnyddio cytundebau setlo ym mhob achos oedd Cyngor Caerdydd, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chwaraeon Cymru. Dywedodd Cyngor Caerdydd wrthym nad yw mwyach yn defnyddio cytundebau setlo fel trefn arferol, o fis Ionawr 2015 ymlaen. Dywedodd 14 corff cyhoeddus arall (30 y cant) eu bod wedi defnyddio cytundebau setlo mewn rhai achosion, a phum corff cyhoeddus arall wedyn (11 y cant) eu bod yn caniatáu cytundebau setlo ond nad oeddent, yn ymarferol, wedi'u defnyddio.
- 2.31 O'r 32 corff cyhoeddus a wnaeth beth defnydd o gytundebau setlo, dywedodd 22 (69 y cant) eu bod wedi sefydlu polisi clir ar gyfer eu defnyddio. Ar sail y data a gyflwynwyd i ni am ymadawiadau cynnar unigol, cawsom fod cytundeb setlo wedi'i wneud mewn 21 y cant o'r ymadawiadau cynnar unigol (**Ffigur 15**).

Ffigur 15 – Defnydd cyrff cyhoeddus o gyfundebau setlo ar gyfer ymadawiadau cynnar

	Cyrff y GIG	'Cyrff cyhoeddus eraill'	Heddlu a thân ac achub	Awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol	Llywodraeth Cymru <sup>1</sup>	Pob sector
Do	951	55	19	1,205	-	2,230 (21%)
Naddo	26	206	495	5,672	-	6,400 (60%)
Gwybodaeth heb fod ar gael yn rhwydd	-	-	-	-	977	977 (9%)
Dim ateb	246	-	-	806	-	1,052 (10%)
Cyfanswm	1,223	261	514	7,683	977	10,658

**Nodyn:**

1 Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym nad oedd gwybodaeth ar gael yn rhwydd ynghylch cytundebau setlo gyda'u 977 ymadawiad cynnar hwy, er iddynt nodi yn ein harolwg nad oeddent yn caniatáu cytundebau setlo o dan eu cynllun ymadael cynnar diweddaraf, sef y cynllun a ddefnyddiwyd ar gyfer 539 o'u hymadawiadau.

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*

2.32 Gofynasom i'r cyrff cyhoeddus a oedd unigolion yn derbyn taliad ychwanegol fel rhan o'u cytundeb setlo. O'r 2,230 o becynnau ymadael cynnar y dywedwyd eu bod yn cynnwys cytundeb setlo, dywedodd y cyrff cyhoeddus fod 166 (saith y cant) yn cynnwys rhyw fath o daliad ychwanegol. Roedd gwerth y taliadau hynny'n amrywio o £300 i £84,000, gyda'r cyfartaledd yn £19,970. Mewn llywodraeth leol yr oedd bron pob enghraifft o daliad ychwanegol y rhoddodd cyrff cyhoeddus wybod amdanynt. Mae llawer o wahanol resymau pam y mae cyrff cyhoeddus yn gwneud y taliadau hyn, sydd yn digwydd weithiau yn sgil amgylchiadau cymhleth. Gwnaed y taliad mwyaf, sef £84,000, yn dilyn proses ddisgyblu gymhleth ac roedd y cyngor dan sylw o'r farn bod gwneud taliad ychwanegol yn rhoi gwell gwerth am arian na wynebu tribiwnlys cyflogaeth costus a gymerai lawer o amser swyddogion.

## Mae amryw o wahanol gyfyngiadau ar ailgyflogi pobl sy'n ymadael yn gynnar o gyrff cyhoeddus yng Nghymru

2.33 Dylai polisiâu a gweithdrefnau ar gyfer ymadael yn gynnar nodi'n glir a oes unrhyw gyfyngiadau ar ddychwelyd i gyflogaeth yn y corff cyhoeddus dan sylw neu'r sector cyhoeddus. Gofynasom i'r gyrff cyhoeddus a oedd unrhyw gyfyngiadau ar ailgyflogi ac os felly pa rai, yn y cynllun a ddefnyddid amlaf ganddynt ar gyfer ymadael yn gynnar. Cawsom fod amryw o gyfyngiadau penodol yn y gwahanol sectorau (Ffigur 16).

Ffigur 16 – Cyfyngiadau ar ailgyflogi a osodir fel rhan o drefniadau ymadael yn gynnar

Sector/cynllun	Cyfyngiad
Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil	Os caiff unigolyn ei ailgyflogi mewn corff cyhoeddus a ddaw o dan drefniadau pensiwn a digolledu'r Gwasanaeth Sifil cyn pen 28 diwrnod wedi iddo adael ei gyflogwr presennol, bydd ei daliad digolledu'n cael ei ddileu a bydd y gwasanaeth yn cael ei drin fel gwasanaeth di-dor a bydd yn rhaid i'r unigolyn ad-dalu'r swm digolledu yn llawn. Os caiff ei ailgyflogi mewn corff cyhoeddus a ddaw o dan drefniadau pensiwn a digolledu'r Gwasanaeth Sifil ar ôl y cyfnod o 28 diwrnod, ond cyn pen a) chwe mis, neu b) cyfnod tybiannol y taliad digolledu, pa un bynnag sydd leiaf, bydd yn rhaid iddo ad-dalu'r taliad digolledu pro rata.
GIG	Mae GIG Cymru wedi gosod cyfyngiadau ar hawl pobl i ddychwelyd i weithio i un o gyrff y GIG yng Nghymru. Fel rhan o amodau unrhyw ymadawiad gwirfoddol, mae'n rhaid i'r unigolyn dan sylw gytuno i beidio â cheisio dychwelyd i gyflogaeth yn y GIG (yng Nghymru) cyn pen cyfnod sy'n cyfateb i nifer y misoedd o dâl y mae ei daliad digolledu yn cyfateb iddo (mae taliadau digolledu yn seiliedig ar un mis o dâl am bob blwyddyn o wasanaeth cymwys a gwblhawyd gyda'r GIG, hyd at uchafswm o 12 mis o dâl) a thri mis ar ben hynny, a chydag isafswm cyfnod o bedwar mis.
Awdurdodau lleol, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol	Mae Gorchymyn (Addasu) Taliadau Diswyddo (Parhad Cyflogaeth mewn Llywodraeth Leol, etc.) (Diwygiad) 2010 yn ddilys ar gyfer y sectorau hyn. Mae'r Gorchymyn yn cyfyngu ar y taliadau diswyddo a delir i bobl sy'n dechrau gweithio i gorff cyhoeddus arall a ddaw o dan y Gorchymyn Addasu Taliadau Diswyddo. Dywed y ddeddfwriaeth, os bydd cyflogai a gafodd rybudd diswyddo yn derbyn cynnig o swydd gan gyflogwr arall a ddaw o dan y Gorchymyn (e.e. awdurdod lleol arall) cyn i'w gyflogaeth ddod i ben, a'i fod yn dechrau ar y swydd honno cyn pen pedair wythnos wedi i'w hen swydd ddod i ben, na fydd wedyn yn cael taliad diswyddo ac y bydd parhad ei gyflogaeth yn cael ei drosglwyddo i'w swydd newydd. Os bydd y cyflogai yn derbyn taliad diswyddo ac yn dechrau gweithio i'r cyflogwr newydd fwy na phedair wythnos ar ôl darfod yn ei hen swydd, yna ni fydd ei wasanaeth yn ddi-dor.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

- 2.34 Dywedodd rhai awdurdodau lleol wrthym eu bod wedi gosod cyfyngiadau pellach. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi datblygu rheolau sydd yn dweud na chaiff neb sy'n ymddeol yn gynnar o'i wirfodd ac sy'n derbyn pensiwn ddychwelyd i gyflogaeth y Cyngor. Os bydd yr unigolyn yn ymadael drwy ymddeoliad cynnar gwirfoddol ond heb bensiwn, ni chaiff ddychwelyd i weithio gyda'r Cyngor am ddwy flynedd. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen wedi penderfynu peidio â chaniatáu i neb sy'n ymadael yn gynnar gael ei ail-gyflogi. Er hynny, mae gan y Cyngor drefn hyblyg ar gyfer ymddeoliadau ac mewn ambell achos yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi penderfynu'n benodol eu bod am ailgyflogi 'arbenigwr' am gyfnod byr ar gyfer tasg benodol.
- 2.35 Ym mis Hydref 2014, ar ôl ymgynghori, fe gadarnhaodd Trysorlys Ei Mawrhydi gynigion i hawlio'n ôl daliadau ymadael cynnar pan fydd unigolyn yn dychwelyd i gyflogaeth yn y sector cyhoeddus<sup>28</sup>. Roedd hyn yn rhannol oherwydd y pryder a fynegwyd gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin mai un o'r prif risgiau i werth am arian, yn gysylltiedig ag ymadawiadau cynnar, oedd bod unigolion a dderbyniodd daliad er mwyn gadael y gwasanaeth sifil yn cael eu hail-gyflogi wedyn yn rhywle arall yn adrannau'r llywodraeth ganolog. O dan y cynlluniau i liniaru'r risg, byddai'n rhaid i gyflogeion yn y sector cyhoeddus ar gyflog o fwy na £100,000 ad-dalu taliadau ymadael ar sail pro rata petaent yn dychwelyd i'r un rhan o'r sector cyhoeddus cyn pen 12 mis. Dywedir mai bwriad y cynigion hyn yw sicrhau cysondeb a thegwch a gofalu bod y trethdalwr yn cael gwerth am arian. Cynhwysodd Llywodraeth y DU y cynigion yn ei Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth.
- 2.36 Cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol gynnig cysyniad deddfwriaethol<sup>29</sup> yn Ionawr 2015 i roi'r trefniadau hyn ar waith ar gyfer cyrff cyhoeddus Cymru os caiff y ddeddf ei phasio gan Senedd y DU. Yn y data a gawsom gan gyrff cyhoeddus ynghylch cyflogau terfynol, gwelir mai 28 yn unig o ymadawiadau cynnar a fu (0.3 y cant) rhwng Ebrill 2010 a Rhagfyr 2013 ymhlith unigolion a enillai gyflog blynyddol o fwy na £100,000. Roedd cost yr ymadawiadau hyn yn £3.6 miliwn<sup>30</sup>.

## Roedd ansawdd y data ar gyfer ymadawiadau cynnar yn y gwahanol gyrff cyhoeddus yn anghyson

- 2.37 Er bod rhai cyrff cyhoeddus yn gallu rhoi gwybodaeth inni mewn byr o dro am ymadawiadau cynnar unigol, gan gynnwys rhai cyrff lle bu llawer o ymadawiadau cynnar, fe eglurodd sawl corff cyhoeddus fod yn rhaid iddynt edrych ar gofnodion unigol neu gasglu'r wybodaeth o lawer o wahanol systemau, neu ei bod yn amhosibl iddynt roi rhai manylion inni (**Atodiad 1**). Dywedodd swyddogion wrthym mewn un cyngor sir eu bod am geisio cadw gwell gwybodaeth am ymadawiadau cynnar ar ôl cael y cais hwn gennym ni. Un anhawster arbennig a gâi rhai o'r cyrff cyhoeddus oedd sut i gysoni'r data a gedwid gan adrannau adnoddau dynol a chyllid ac adrannau unigol eraill.

<sup>28</sup> *Recovery of public sector exit payments: government response to the consultation*, Trysorlys Ei Mawrhydi, Hydref 2014. I'w weld yn <https://www.gov.uk/government/consultations/recovery-of-public-sector-exit-payments>.

<sup>29</sup> Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno cynnig cysyniad deddfwriaethol er mwyn cydsynio i Senedd y DU ddeddfu ar fater sydd fel rheol wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad.

<sup>30</sup> Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar 9,928 (93 y cant) o'r 10,658 ymadawiad cynnar y rhoddodd cyrff cyhoeddus wybod amdanynt lle darparwyd data cyflogau.

# Atodiadau

Atodiad 1 - Dulliau archwilio

Atodiad 2 - Dadansoddiad o'r data ar ymadawiadau cynnar

# Atodiad 1 - Dulliau archwilio

## Cwmpas cyffredinol ein gwaith

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau a chasgliadau yn seiliedig ar ein hadolygiad lefel uchel o'r defnydd a wnaed gan gyrff cyhoeddus o ymadawiadau cynnar er mwyn rheoli neu leihau costau'r gweithlu. Y prif faterion a ystyriwyd oedd:

- pa ran y mae ymadawiadau cynnar wedi'i chwarae, ac y byddant efallai yn parhau i'w chwarae, yn ymdrechion cyrff cyhoeddus i reoli neu leihau costau'r gweithlu;
- i ba raddau y mae cynlluniau ymadael cynnar wedi cyflawni'r hyn a ddisgwyliid; ac
- a gafodd cynlluniau ymadael cynnar eu rheoli yn unol ag egwyddorion arferion da.

Gofynasom i'n cydweithwyr sy'n gwneud gwaith archwilio ariannol a pherfformiad am unrhyw wybodaeth berthnasol a gasglwyd drwy eu gwaith archwilio arferol hwy yn y cyrff cyhoeddus unigol. Nid yw'r adroddiad hwn wedi edrych ar reoleidd-dra na phriodoldeb trefniadau ymadael cynnar ar gyfer unigolion penodol. Fodd bynnag, byddai ein timau archwilio ariannol yn craffu ar drefniadau ymadael cynnar petai:

- nifer mawr o staff yn ymadael a symiau sylweddol i'w gweld yn y cyfrifon;
- uwch swyddog yn ymadael a thrafodiad i'w weld a allai fod yn sylweddol yn y cyddestun;
- cryn berygl y bydd yr ymadawiad cynnar yn arwain at gwestiwn neu her i'r archwilydd; a/neu
- unrhyw bryderon y gallai'r corff fod yn gweithredu'n anghyfreithlon.

## Arolwg o gyrff cyhoeddus Cymru

Fe wnaethom arolwg o 58 o'r gyrff cyhoeddus mwyaf yng Nghymru a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, y GIG, awdurdodau'r parciau cenedlaethol, yr heddlu, yr awdurdodau tân ac achub a 'chyrff cyhoeddus eraill'. Yn ein harolwg ceisiwyd gwybodaeth am y modd y defnyddir cynlluniau ymadael cynnar a beth y mae'r gyrff hyn wedi'i wneud yn fwy cyffredinol yn y blynyddoedd diwethaf er mwyn lleihau neu reoli costau'r gweithlu. Buom yn trafod â Phenaethiaid Adnoddau Dynol yn Llywodraeth Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chyngor Bro Morgannwg ac â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel rhan o'n gwaith cwmpasu cychwynnol ac er mwyn ein helpu i gynllunio ein harolwg.

Fe wnaethom gynnal peilot ar gyfer yr arolwg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chyngor Bro Morgannwg yn Rhagfyr 2013. Wedyn cynhaliwyd arolwg o'r gyrff cyhoeddus a ganlyn rhwng Chwefror a Mehefin 2014 a chafwyd cyfradd ymateb o 100 y cant.

Sector	Cyrff cyhoeddus
Awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol	Pob un o'r 22 awdurdod lleol Pob un o'r tri awdurdod parc cenedlaethol
GIG	Pob un o'r 10 corff GIG
Heddlu a tân ac achub	Pob un o'r pedwar heddlu Pob un o'r tri awdurdod tân ac achub
Llywodraeth Cymru	Llywodraeth Cymru
'Cyrff cyhoeddus eraill'	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyngor Celfyddydau Cymru</li> <li>• Comisiwn y Cynulliad</li> <li>• Cyngor Gofal Cymru</li> <li>• Comisiynydd Plant Cymru</li> <li>• Estyn</li> <li>• Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru</li> <li>• Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru</li> <li>• Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru</li> <li>• Amgueddfa Genedlaethol Cymru</li> <li>• Llyfrgell Genedlaethol Cymru</li> <li>• Cyfoeth Naturiol Cymru</li> <li>• Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru</li> <li>• Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru</li> <li>• Chwaraeon Cymru</li> <li>• Comisiynydd y Gymraeg</li> </ul>

Gofynasom wahanol gwestiynau ynglŷn â'r cynllun ymadael cynnar yr oedd y sefydliad yn ei ddefnyddio amlaf, gan holi am:

- amcanion a chostau'r cynllun;
- sut y lluniwyd y cynllun gan gynnwys y canllawiau a ddefnyddiwyd a sut yr ymgynghorwyd arno;
- y prosesau ar gyfer gwneud cais gan gynnwys y defnydd o achosion busnes;
- prosesau llywodraethu a chymeradwyo;
- polisiau ar becynnau ymadael ac ad-daliadau; a'r
- defnydd o gytundebau setlo (**Blwch 2**).

Fe wnaethom holi hefyd am:

- sut yr ymdrinnid â thargedau gweithlu;
- dulliau eraill a ddefnyddid i reoli costau'r gweithlu; a
- beth y bwriedid ei wneud yn y dyfodol i reoli neu leihau costau'r gweithlu.

Os oedd arnom angen eglurhad ar unrhyw atebion, neu wybodaeth bellach yn dilyn yr atebion a gafwyd i'r arolwg, fe wnaethom ofyn am hynny drwy e-bost neu dros y ffôn.

### Dadansoddi pecynnau ymadael cynnar unigol

Gofynasom i'r un un cyrff cyhoeddus ddarparu dadansoddiad dienw o'r holl staff a ymadawodd yn gynnar ym mhob flwyddyn ariannol o 2010-11 tan 31 Rhagfyr 2013. Gofynasom am sawl math o ddata mewn perthynas â phob ymadawiad gan gynnwys:

- y flwyddyn ariannol pan gydsyniwyd i'r ymadawiad;
- y mis a'r flwyddyn yr ymadawodd y swyddog;
- ei oed pan ymadawodd;
- y math o ymadawiad sef ymadael yn wirfoddol, diswyddo gwirfoddol, diswyddo gorfodol, ymddeoliad cynnar neu ryw fath arall (**Blwch 1**);
- y cyflog blynyddol terfynol, cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr a chyfraniadau pensiwn y cyflogwr;
- cost y pecyn ymadael ac asesiad y corff cyhoeddus ei hun o hyd y cyfnod ad-dalu;
- a oedd yr unigolyn yn uwch reolwr ai peidio;
- ar gyfer awdurdodau lleol, a oedd y gweithiwr yn gweithio mewn ysgol;
- a wnaeth y cyflogai lofnodi cytundeb setlo ac os gwnaeth a dderbyniodd ychwanegiad at ei becyn yn sgil hynny.

Roedd y gyfradd ymateb yn 100 y cant. Fodd bynnag, nid oedd pob sefydliad yn gallu darparu'r holl ddata y gofynnwyd amdanynt. Rydym wedi nodi ym mhob rhan o'r adroddiad os nad oedd y dadansoddiad yn seiliedig ar gyfanswm nifer y pecynnau ymadael.

Lle bo modd, fe wnaethom ymdrech i gysoni'r data o'n hymarfer casglu data â datgeliadau pecynnau ymadael yn y cyfrifon oedd wedi'u harchwilio ar gyfer y cyrff cyhoeddus yn ein harolwg. Roedd y data ar gyfer tua hanner yr holl sefydliadau yn cyfateb i ddatgeliadau'r cyfrifon neu roedd y gwahaniaeth yn ddibwys. Lle roedd y data'n wahanol, roedd maint y gwahaniaeth yn amrywio. Gofynasom i'r cyrff cyhoeddus am eglurhad ac roedd y rhan fwyaf yn gallu rhoi eglurhad pellach neu gysoniad ffurfiol. Dyma rai o'r rhesymau amrywiol a roddwyd am y gwahaniaethau:

- amseru'r ddwy set o wybodaeth yn wahanol, lle roedd ymadawiadau wedi'u cynnwys mewn un flwyddyn yn y daenlen ac yn y flwyddyn flaenorol neu nesaf yn y cyfrifon;
- pobl a gymeradwywyd ar gyfer pecynnau ymadael ar ddiwedd y flwyddyn ac a oedd wedi tyngu'n ôl, wedi marw neu wedi ymadael am resymau eraill ar ôl hynny;

## Tudalen 184



- gwallau yn y cyfrifon, na fuasant yn ddigon sylweddol i'r archwilyr ariannol ofyn am eu newid; a
- thaliad yn lle rhybudd wedi'i gynnwys ar y daenlen ond nid yn y cyfrifon. Pan ofynasom am y data, gofynasom i bob taliad gael ei gynnwys yn y pecyn ymadael, sef gwir gost yr ymadael cynnar.

### Adolygiad o'r wybodaeth ynghylch staffio a chostau/niferoedd ymadaeliadau cynnar o'r cyfrifon a archwiliwyd

Fe wnaethom gasglu data am niferoedd staff a chostau staff ym mhob sefydliad yn ein harolwg, gan ddefnyddio eu cyfrifon a archwiliwyd a Chyfrifon y Llywodraeth Gyfan ar gyfer 2009-10 i 2013-14. Yr eithriad oedd Cyfoeth Naturiol Cymru, a grëwyd ar 1 Ebrill 2013 ac nad oedd felly ond yn meddu ar ddata ar gyfer 2013-14. Cafodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru eu diddymu bryd hynny. Fe wnaethom goladu niferoedd staff a chostau staff ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru yn y cyfnod 2009-10 i 2012-13, ond nid oedd modd inni gael data ar gyfer Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru gan nad oeddent ar gael ar wahân i ddata Asiantaeth yr Amgylchedd yn ei chyfanrwydd.

Fe wnaethom drosi data am niferoedd staff o gyfwerth ag amser llawn i union niferoedd staff gan ddefnyddio cyfradd drosi. Seiliwyd y gyfradd drosi ar ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer union niferoedd staff a staff cyfwerth ag amser llawn mewn cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn y DU (ystadegau Cyflogaeth y Sector Cyhoeddus, Mehefin 2014) ar gyfer sectorau y llywodraeth ganolog, llywodraeth leol a'r GIG. Yr eithriad oedd Llywodraeth Cymru: ar eu cyfer hwy, defnyddiasom eu ffigurau y maent yn eu cyhoeddi'n fisol ar gyfer niferoedd staff; ac ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer Ebrill 2010 a chyfartaledd 2010-11 gan fod y data hynny ar gyfer ffigurau union niferoedd yn hytrach na chyfwerth ag amser llawn.

### Arolwg llenyddiaeth

I'n helpu gyda'n gwaith, rydym wedi adolygu nifer o adroddiadau archwilio a chraffu eraill sy'n ymwneud â threfniadau ymadael yn gynnar a lleihau costau gweithlu, gan gynnwys:

- Audit Scotland, Managing early departures from the Scottish public sector, Mai 2013.
- Audit Scotland, Scotland's public sector workforce, Tachwedd 2013.
- Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, Managing early departures in central government, Gorffennaf 2012.
- Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, BBC severance packages, Rhagfyr 2013.
- Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, Confidentiality clauses and special severance payments, Rhagfyr 2013.

- Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, A framework for managing staff costs in a period of spending reduction, Awst 2010.
- Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Managing early departures in central government, Mawrth 2012.
- Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Severance and wider benefits for senior BBC managers, Gorffennaf 2013.
- Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Confidentiality clauses and special severance payments, Hydref 2013.
- Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Ymchwiliad ar niferoedd a chostau staff Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mawrth 2011.

Buom yn siarad â chydweithwyr yn Audit Scotland a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol er mwyn gweld a allem ddysgu unrhyw wersi oddi wrth waith tebyg a wnaed ganddynt hwy.

Rydym hefyd wedi adolygu canllawiau perthnasol i'r sector ar ymadawiadau cynnar, ar gyfer GIG Cymru, Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil a deddfwriaeth berthnasol yn ymwneud â thaliadau diswyddo statudol.

# Atodiad 2 - Dadansoddiad o'r data ar ymadawiadau cynnar

Nifer yr ymadawiadau cynnar fesul blwyddyn ariannol a sector, Ebrill 2010 hyd Ragfyr 2013<sup>1</sup>

	Awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol	Cyrff y GIG	Llywodraeth Cymru	Heddlu a thân ac achub	'Cyrff cyhoeddus eraill'	Cyfanswm
2010-11	2,196	356	628	236	49	3,465
2011-12	2,394	390	322	160	77	3,343
2012-13	1,772	308	16	85	21	2,202
2013-14 (hyd Ragfyr 2013)	1,318	168	11	33	113	1,643
Heb ei nodi	3	1	-	-	1	5
Cyfanswm	7,683	1,223	977	514	261	10,658

Cost ymadawiadau cynnar fesul blwyddyn ariannol a sector, Ebrill 2010 hyd Ragfyr 2013<sup>1</sup>

	Awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol	Cyrff y GIG	Llywodraeth Cymru	Heddlu a thân ac achub	'Cyrff cyhoeddus eraill'	Cyfanswm
	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn	£ miliwn
2010-11	47.7	10.9	29.6	5.2	2.1	95.6
2011-12	42.4	11.4	17.5	3.8	3.0	78.1
2012-13	31.4	9.6	1.1	1.8	0.9	44.9
2013-14 (hyd Ragfyr 2013)	22.7	4.6	0.7	1.7	5.3	35.0
Heb ei nodi	0.1	0.1	-	-	-	0.2
Cyfanswm	144.3	36.6	48.8	12.5	11.5	253.7

Nodiadau:

<sup>1</sup> Fe wnaethom gyfrifo'r ffigurau hyn gan ddefnyddio'r data a gyflwynwyd i ni gan y 58 corff cyhoeddus yn ein harolwg, ac eithrio yn achos Cyngor Sir Caerfyrddin lle defnyddiwyd y cyfrifon blynyddol o 2010-11 i 2012-13. Gan hynny nid ydym wedi cynnwys unrhyw ymadawiadau o Gyngor Sir Caerfyrddin am y cyfnod o Ebrill hyd Ragfyr 2013.

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*

Nifer, cost, cost gyfartalog a chyfnod ad-dalu cyfartalog ar gyfer ymadawiadau cynnar fesul corff cyhoeddus, Ebrill 2010 hyd Ragfyr 2013

Corff cyhoeddus	Nifer yr ymadawiadau cynnar	Cost ymadawiadau cynnar (£)	Cost pob ymadawiad ar gyfartaledd <sup>1</sup> (£)	Cyfnod ad-dalu cyfartalog <sup>2</sup> (mis)
<b>Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol</b>				
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	385	8,191,444	21,276	9
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	6	193,550	32,258	15
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	203	3,292,923	16,221	8
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	103	1,369,078	13,292	4
Cyngor Sir Caerdydd	1,071	26,964,937	25,177	14
Cyngor Sir Caerfyrddin <sup>3</sup>	434	8,407,066	19,371	Nodyn 4
Cyngor Sir Ceredigion	292	2,727,456	9,341	3
Dinas a Sir Abertawe	579	10,259,320	17,719	7
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	223	2,631,286	11,799	4
Cyngor Sir Ddinbych	266	4,293,621	16,141	6
Cyngor Sir y Fflint	216	3,445,147	15,950	Nodyn 4
Cyngor Gwynedd	184	2,733,217	14,854	9
Cyngor Sir Ynys Môn	99	2,535,593	25,612	13
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful	225	4,532,421	20,144	11
Cyngor Sir Fynwy	273	4,956,176	18,154	8
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot	428	7,296,682	17,048	10
Cyngor Dinas Casnewydd	446	10,403,136	23,325	10
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	11	267,707	24,337	9
Cyngor Sir Penfro	153	2,269,005	14,830	6
Cyngor Sir Powys	303	4,129,291	13,628	9
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf	892	17,354,227	19,455	8
Parc Cenedlaethol Eryri	7	272,885	38,984	13
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	474	7,607,003	16,049	8
Cyngor Bro Morgannwg	67	1,564,165	23,346	7
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	343	6,632,395	19,336	7
	<b>7,683</b>	<b>144,329,732</b>	<b>18,786</b>	<b>9</b>

Tudalen 188

Corff cyhoeddus	Nifer yr ymadawiadau cynnar	Cost ymadawiadau cynnar (£)	Cost pob ymadawiad ar gyfartaledd <sup>1</sup> (£)	Cyfnod ad-dalu cyfartalog <sup>2</sup> (mis)
<b>GIG</b>				
Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	135	5,245,639	38,857	11
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan	114	2,660,479	23,338	9
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	325	10,096,223	31,065	10
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	242	7,925,445	32,750	10
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	163	3,739,563	22,942	10
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	40	1,385,518	34,638	10
Bwrdd Addysgu Iechyd Powys	44	1,460,018	33,182	10
Iechyd Cyhoeddus Cymru	39	1,165,394	29,882	8
Ymddiriedolaeth GIG Felindre	95	2,107,893	22,188	9
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	26	785,493	30,211	10
	<b>1,223</b>	<b>36,571,664</b>	<b>29,903</b>	<b>10</b>
<b>Llywodraeth Cymru</b>	<b>977</b>	<b>48,833,797</b>	<b>49,983</b>	<b>13</b>
<b>Heddlu a Tân ac Achub</b>				
Heddlu Dyfed Powys	94	2,691,459	28,633	11
Heddlu Gwent	63	701,442	11,134	5
Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru	6	115,358	19,226	7
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	11	153,870	13,988	8
Heddlu Gogledd Cymru	141	5,287,494	37,500	14
Awdurdod Tân ac Achub De Cymru	21	726,638	34,602	14
Heddlu De Cymru	178	2,835,487	15,930	8
	<b>514</b>	<b>12,511,747</b>	<b>24,342</b>	<b>10</b>

Corff cyhoeddus	Nifer yr ymadawiadau cynnar	Cost ymadawiadau cynnar (£)	Cost pob ymadawiad ar gyfartaledd <sup>1</sup> (£)	Cyfnod ad-dalu cyfartalog <sup>2</sup> (mis)
<b>'Cyrff Cyhoeddus Eraill'</b>				
Cyngor Celfyddydau Cymru	19	482,875	25,414	9
Comisiwn y Cynulliad	48	1,894,567	39,470	14
Cyngor Gofal Cymru	-	-	-	-
Comisiynydd Plant Cymru	3	68,669	22,890	7
Estyn	3	123,388	41,129	9
Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru	4	113,957	28,489	8
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru	10	532,729	53,273	11
Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru	1	20,000	20,000	3
Llyfrgell Genedlaethol Cymru	-	-	-	-
Amgueddfa Genedlaethol Cymru	28	2,801,186	100,042	28
Cyfoeth Naturiol Cymru <sup>5</sup>	96	3,557,826	37,061	13
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru	6	148,649	24,775	5
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	-	-	-	-
Chwaraeon Cymru	33	1,211,933	36,725	10
Bwrdd yr Iaith Gymraeg <sup>6</sup>	10	514,350	51,435	12
Comisiynydd y Gymraeg <sup>7</sup>	-	-	-	-
	<b>261</b>	<b>11,470,129</b>	<b>43,947</b>	<b>14</b>
<b>Pob sector</b>	<b>10,658</b>	<b>253,717,069</b>	<b>23,805</b>	<b>10</b>

#### Nodiadau:

- 1 Fel y nodwyd ym mhriif ran yr adroddiad hwn – paragraffau 1.12-1.13 – mae cost gyfartalog ymadawiadau cynnar yn amrywio'n sylweddol yng ngwahanol rannau sector cyhoeddus Cymru ac oddi mewn i sectorau penodol. Fodd bynnag, mae'n anodd gwneud cymariaethau uniongyrchol ac mae llawer o resymau pam y mae costau pecynnau ymadael cynnar yn amrywio o sector i sector ac o'r naill gorff cyhoeddus unigol i'r llall. Rhai o'r ffactorau a fydd yn dylanwadu ar y gost gyfartalog yw'r math o ymadawiad cynnar, y telerau a gynigir a phroffil oedran, hyd gwasanaeth a chyflog y staff sy'n ymadael.
- 2 Fe wnaethom gyfrifo'r cyfnod ad-dalu ar sail costau'r pecyn ymadael a'r arbedion cost a sicrheid efallai drwy beidio â thalu cyflog ac unrhyw gyfraniadau y byddai'r cyflogwyr yn eu talu ar gyfer Yswiriant Gwladol a phensiwn i'r aelod hwnnw o'r staff. Yn ymarferol, gall cyrff cyhoeddus sicrhau arbedion eraill, er enghraifft costau offer TGCh, swyddfa a theithio a chynhaliadau. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fyddai cyrff cyhoeddus yn sicrhau unrhyw rai o'r arbedion hyn yn llawn, am sawl rheswm (paragraff 1.18).
- 3 Mae'r ffigurau ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin yn cyfeirio at y cyfnod rhwng Ebrill 2010 a Mawrth 2013 yn seiliedig ar ddatgeliadau'r cyfrifon blyneddol rhwng 2010-11 a 2012-13. Gan hynny nid ydym wedi cynnwys unrhyw ymadawiadau ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin am y cyfnod o Ebrill i Ragfyr 2013.
- 4 Mae'r dadansoddiad hwn o'r ad-daliadau yn seiliedig ar 9,928 (93 y cant) o'r 10,658 ymadawiad cynnar y rhoddodd cyrff cyhoeddus wybod amdanynt a lle darparwyd y data perthnasol fel y gellid cyfrifo'r cyfnod ad-dalu. Ni ddarparwyd data perthnasol ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin na Chyngor Sir y Fflint.
- 5 Mae'r ffigurau ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfeirio at ymadawiadau cynnar o 1 Ebrill 2013 ymlaen pan grëwyd y corff hwn wedi i Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru gael eu diddymu.
- 6 Fe ddiddymwyd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 31 Mawrth 2012. Fe ddarparodd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg y wybodaeth am ymadawiadau o Fwrdd yr Iaith Gymraeg i ni.
- 7 Mae Comisiynydd y Gymraeg yn weithredol ers 1 Ebrill 2012.

*Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o 58 corff cyhoeddus yng Nghymru*

## Tudalen 190

## Trefniadau rheoli ymadawiadau cynnar Swyddfa Archwilio Cymru

Mae'r dadansoddiad a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn cwmpasu 58 o gyrff cyhoeddus Cymru a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol ac nid yw'n cwmpasu ymadawiadau cynnar o Swyddfa Archwilio Cymru. Er mwyn sicrhau tryloywder, rydym wedi crynhoi isod y manylion ar gyfer trefniadau rheoli ymadawiadau cynnar Swyddfa Archwilio Cymru dros yr un cyfnod sy'n cael ei gwmpasu yn yr adroddiad hwn (mis Ebrill 2010 i fis Rhagfyr 2013).

Fe wnaed holl ymadawiadau cynnar staff Swyddfa Archwilio Cymru drwy gynlluniau ymadael gwirfoddol. Fe gafodd yr holl ymadawiadau eu rheoli o dan reolau ffurfiol Cynllun lawndal y Gwasanaeth Sifil oedd mewn lle ar amser yr ymadawiad, mewn cytundeb â Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU.

Roedd pob ymadawiad cynnar yn sgil cynllunio'r gweithlu ac wedi'u cymeradwyo gan Bwyllgor Rheoli Swyddfa Archwilio Cymru ar sail argymhellion uwch reolwyr perthnasol. Byddai angen i unrhyw uwch reolwr oedd yn gwneud cais am ymadawiad cynnar gael cymeradwyaeth gan Bwyllgor Tâl Swyddfa Archwilio Cymru. Fe wnaed pob cais am ymadawiad cynnar drwy achos busnes, gan gymryd i ystyriaeth os fyddai'r golled o ran sgiliau allweddol yn cael effaith ar gyflawni gwasanaeth.

	Nifer yr ymadawiadau cynnar	Cost yr ymadawiadau cynnar (£)	Cost fesul ymadawiad ar gyfartaledd (£)	Cyfnod ad-dalu cyfartalog (misoedd)
Swyddfa Archwilio Cymru	22	1,489,702	67,714	14

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

Website: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [info@wao.gov.uk](mailto:info@wao.gov.uk)

Gwefan: [www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)



<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>27 Gorffennaf 2015</b>
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b>	<b>Gary Williams, Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol AD a Democrataidd</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Lisa Jones/Gary Williams</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Cyfansoddiad y Cyngor</b>

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

- 1.1 I roi newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor am fabwysiadu cyfansoddiad model newydd ar gyfer Cymru yn y dyfodol.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

- 2.1 Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn gofyn bod unrhyw newidiadau a fwriedir i Gyfansoddiad y Cyngor yn cael eu hystyried yn gyntaf cyn ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor Llawn.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

- 3.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi cynnwys yr adroddiad ac ystyried camau i ymgynghori ag aelodaeth ehangach y Cyngor ar y newidiadau arfaethedig.

## **4. Manylion yr Adroddiad.**

### **4.1 Erthyglau'r Cyfansoddiad**

Atodiad 1 (i ddilyn) y mae'r Erthyglau arfaethedig yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Gweithgor Cyfansoddiad. Mae'r Erthyglau hyn yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i Fodel Cyfansoddiad Cymru.

### **4.2 Dirprwyo gwneud penderfyniadau**

Atodiad 2 (i ddilyn) y mae'r prif newidiadau arfaethedig ar ffurf drafft mewn perthynas â'r penderfyniadau hynny a ddirprwywyd i swyddogion neu aelodau.

#### **4.2.1 Penderfyniadau Dirprwyedig y Cabinet**

Mae'r Cynllun presennol ar gyfer Aelodau'r Cabinet yn gyfarwyddol, ond yn gyfyngedig. Mae'r mwyafrif o benderfyniadau sy'n cael eu dirprwyo i ddeiliaid portffolio yn ymwneud yn bennaf â dyfarnu contractau a phenodiadau i gyrff allanol neu drafodion tir sydd â gwerth isel. Hanfod y dull newydd yw sicrhau mai'r sefyllfa ddiodyn yw y bydd pob penderfyniad 'nad ydynt yn allweddol' yn cael eu gwneud gan ddeiliaid portffolio unigol, nid y Cabinet llawn (gyda disgresiwn i gyfeirio at y Cabinet os oeddent yn teimlo ei bod yn angenrheidiol), ond gyda llawer o

gyhoedduswydd yn fewnol cyn y penderfyniad. Ar hyn o bryd mae Aelod sy'n anghytuno â phenderfyniad gweithredol yn gorfod ei ddilyn yn unol â rheolau archwilio, unwaith y bydd y penderfyniad wedi'i wneud. Y dull arfaethedig yw y bydd yr adroddiad a'r wybodaeth yn hygyrch i'r holl Aelodau yn 'Ardal Llyfrgell yr Aelodau' neu fan tebyg, er mwyn i faterion sy'n aros am benderfyniad o fewn 5 niwrnod gwaith fod ar gael i'w harchwilio.

Mae hyn wedyn yn golygu y bydd y Cabinet llawn yn penderfynu ar benderfyniadau 'allweddol' a chanolbwyntio ar y rhain yn unig yn hytrach na materion nad ydynt yn allweddol. Nid yw hyn yn awgrymu bod materion nad ydynt yn allweddol yn llai pwysig, ond dylai Aelod Arweiniol, sydd â pherthynas broffesiynol a phriodol â'i uwch swyddogion perthnasol, allu gwneud mwy o benderfyniadau o ddydd i ddydd, yn fwy effeithlon na chyflwyno'r mater gerbron y Cabinet ac yn rhyddhau amser y Cabinet.

Mae Gweithgor Cyfansoddiad sy'n cynnwys cynrychiolwyr trawsbleidiol wedi cyfrannu at y diffiniad o beth sy'n 'benderfyniad allweddol'.

#### 4.2.2 Penderfyniadau Dirprwyedig y Swyddog

Ar hyn o bryd mae'r Cynllun Dirprwyo Swyddog yn cael ei gynnwys yn Rhan 9 o Gyfansoddiad Cyngor ac mae'n gynhwysfawr iawn. O ystyried faint o ddeddfwriaeth a phwerau newydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ychwanegol at Gyfarwydddebau Llywodraeth Ganolog ac Ewropeaidd, mae sicrhau bod y cynllun presennol yn cael ei ddiweddu yn faich cynyddol. Ffordd arall o edrych ar y cynllun hwn yw ei fod yn nodi'n benodol pwy sy'n gyfrifol am ba faes.

Y ddadl felly yw o safbwynt llywodraethu, a ydi Aelodau'n teimlo y dylid cadw'r cynllun presennol ar ei ffurf bresennol, neu a ydi'r Cyngor yn mabwysiadu cynllun generig sy'n fwy hyblyg sy'n datgan yn y bôn y gall penderfyniadau a ddirprwyir i swyddog gael eu cymryd ar yr amod eu bod o fewn maes cyfrifoldebau'r Pennaeth Gwasanaeth penodol.

Mae arferion yn amrywio o un awdurdod i'r llall, mae gan rai gynlluniau arbennig o fanwl, tra bod rhai eraill yn ddim mwy na disgrifiad.

- Penderfyniadau allweddol

Yr ail elfen yw a ddylid cyhoeddi penderfyniadau 'allweddol' a wneir gan Benaethiaid Gwasanaeth.

☺ Mae angen trafodaeth bellach mewn perthynas â chyhoeddi penderfyniadau o'r fath unwaith y maent yn cael eu gwneud a phan fo'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi nodi eu bod yn fodlon llunio proses a all adnabod y penderfyniadau hyn y gellir eu cyhoeddi ar ôl gwneud y penderfyniad ei hun.

#### 4.3 **Rheoliadau Rheol Sefydlog Newydd**

Yn ei gyfarfod ar 4 Tachwedd, 2014 dirprwyodd y Cyngor awdurdod i'r Swyddog Monitro i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad o ganlyniad i

ddarpariaethau'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygiedig) 2014. Mae'r newidiadau perthnasol i'w gweld yn Atodiad 3.

#### **4.4 Rhestr o Dâl Aelodau**

Yn ei gyfarfod ar 7 Gorffennaf 2015, cymeradwyodd y Cyngor gynnig na fyddai costau teithio yn cael eu talu i Aelodau sy'n mynychu cyfarfodydd yn rhinwedd eu swydd fel arsyllwr. Mae Atodlen ddiwygiedig o Dâl atodi wedi'i atodiad fel Atodiad 4 i adlewyrchu'r newid hwn.

### **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Bydd cyfansoddiad modern sy'n addas at ei bwrpas yn cyfrannu at y flaenoriaeth i fod yn Gyngor sy'n perfformio'n dda gan ddarparu sicrwydd ar faterion llywodraethu a gwneud penderfyniadau, ymddygiad moesegol, rheolau contractio a phartneriaeth cadarn a chaniatáu i'r cyhoedd a thrydydd parti weld pwy sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad ar faterion sy'n effeithio arnynt.

### **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Bydd y cynigion ar gyfer newid o ran Penderfyniadau a Ddirprwyir i Swyddog ac Aelodau yn gwneud penderfyniadau penodol yn fwy tryloyw i bob aelod cyngor, ac felly mae ganddo'r posibilrwydd o effeithio'n uniongyrchol ar wasanaethau. Nid yw'n bosibl rhagweld os bydd hyn yn arwain at oedi yng nghyflwyno gwasanaethau ac amser swyddogion neu adnoddau wrth ddelio ag Aelodau sydd â phryderon ynghylch penderfyniadau penodol. Ar y llaw arall mae llywodraeth agored yn llywodraeth dda a byddai modd i Aelodau gael mynediad at benderfyniadau dirprwyedig arfaethedig penodol cyn i'r penderfyniad ei hun gael ei wneud.

### **7. Pa ymgynghori a wnaed?**

7.1 Hyd yma dim ond Gweithgor Cyfansoddiad y Cyngor ac Uwch Dîm Arweinyddiaeth sydd wedi bod yn rhan o'r ddatl ar y cynigion allweddol yn y cyfansoddiad newydd.

### **8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

8.1 Dim angen.

### **9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

9.1 Heblaw am y sylwadau yn adran 6 uchod, nid oes unrhyw risgiau a nodwyd ar hyn o bryd. Mae cynllun dirprwyo presennol y Cyfansoddiad angen cael ei adolygu yn dilyn ailstrwythuro uwch swyddogion, ond mae'n parhau'n ddogfen addas i'w phwrpas.

### **10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

10.1 Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn mynnu bod gan bob cyngor gyfansoddiad.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## 4.8 OFFICER EMPLOYMENT PROCEDURE RULES

### 1. Recruitment and appointment

#### (a) Declarations

- (i) The Council will draw up a statement requiring any candidate for appointment as an officer, to state in writing whether they are the parent, grandparent, partner, child, stepchild, adopted child, grandchild, brother, sister, uncle, aunt, nephew or niece or close personal friend of an existing councillor, officer, or of the partner of such persons.
- (ii) No candidate so related to a councillor or an officer will be appointed without the authority of the Head of Strategic HR or an officer nominated by him/her.

#### (b) Seeking support for appointment.

- (i) The Council will disqualify any applicant who directly or indirectly seeks the support of any councillor for any appointment with the Council. The content of this paragraph will be included in any recruitment information.
- (ii) No councillor will seek support for any person for any appointment with the Council or give a reference for any person for any appointment with the Council.

### 2. Recruitment of Chief Officers

- (1) Where the Council proposes to appoint a Head of Paid Service, a Corporate Director, Monitoring Officer, Chief Finance Officer or other statutory or non statutory Chief Officer as defined in Section 2(6) and (7) of the Local Government Act 1989 (Chief Officers) and it is not proposed that the appointment be made exclusively from among their existing officers, the Council will:

#### (a) draw up a statement specifying:

- (i) the duties of the officer concerned; and
- (ii) any qualifications or qualities to be sought in the person to be appointed;

- (b) make arrangements for the post to be advertised in such a way as is likely to bring it to the attention of persons who are qualified to apply for it; and

- (c) make arrangements for a copy of the statement mentioned in paragraph (a) to be sent to any person on request.
  - (ch) where the post has been advertised as provided in paragraph (b):-
    - (i) interview all qualified applicants for the post or
    - (ii) select a short list of such qualified applicants and interview those included on the short list
  - (d) where no qualified person has applied, or if the Council decides to re-advertise the appointment, the Council will make further arrangements for advertisement in accordance with paragraph (b)
- (2) (a) The Council must take the steps set out in 2(i)(a) – (d) above wherever it proposes to appoint a Chief Officer and the remuneration which it proposes to pay to that Chief Officer is £100k or more per annum.
- (b) Paragraph 2(2)(a) does not apply if the period of the relevant appointment is for no longer than 12 months.

**3. Appointment of Head of Paid Service, Corporate Directors, Monitoring Officer and Chief Finance Officer**

The full Council will make appointments to these posts although the Council may appoint a joint committee with one or more other councils where it is intended to make an appointment that will serve Denbighshire County Council and one or more other councils.

**4. Other Appointments**

- (a) Subject to paragraph 3 and sub-paragraph (c), appointment of statutory and non-statutory chief officers as defined in Section 2(6) and (7) of the Local Government and Housing Act 1989 shall be made by an appointments panel consisting of not more than 5 councillors (at least one of, but not more than two of whom shall be Cabinet members), the Head of Paid Service (or his/her nominee) and the relevant Corporate Director.
- (b) The appointment of all other officers is the responsibility of the Head of Paid Service or his/her nominee.
- (c) Where an appointment described in sub-paragraph (a) is to be made by Denbighshire County Council but the person appointed will serve the council and one or more other councils, the appointment shall be made by a joint committee on which the number of councillors from Denbighshire

shall be equal to the number of councillors from each other council. The councillors from Denbighshire shall include a member or members of the Cabinet but shall not consist solely of members of the Cabinet. There shall also be equal representation on the committee by or on behalf of the Head of Paid Service of each council.

**5. Changes to Remuneration of Chief Executive, Corporate Directors and Chief Officers**

Decisions to determine or vary the remuneration of the Chief Executive, Corporate Directors and Chief Officers are to be made by Council and cannot be delegated to a committee.

**6. Disciplinary Action**

The Head of Paid Service or an officer nominated by him will, subject to paragraphs 7 and 8 below, discharge the Council's functions in respect of dismissal of, and taking disciplinary action (as defined in the Local Authorities (Standing Orders) (Wales) Regulations 2006) against a member of staff other than a Chief Officer, an assistant for a political group or person to whom regulations made under Section 35(4) and (5) of the Education Act 2002 apply. Subject to this, the Council's disciplinary, capability, redundancy and grievance procedures, as adopted from time to time, set out councillors' and officers' involvement in such procedures, and may allow a right of appeal or representation in respect of action which has been taken.

**7. Disciplinary Action - Head of Paid Service, Monitoring Officer, Chief Finance Officer and Head of Democratic Services**

- (1) No disciplinary action (other than action to which para (2) below applies) in respect of the Council's Head of Paid Service, its Monitoring Officer, its Chief Finance Officer or Head of Democratic Services, may be taken by the Council, or by a Committee, a Sub-Committee, a Joint Committee on which the Council is represented or any other person acting on behalf of the Council, other than in accordance with a recommendation in a report made by a designated independent person under Regulation 9 of the Local Authorities (Standing Orders) (Wales) Regulations 2006 (investigation of alleged misconduct), as amended by The Local Authorities (Standing Orders)(Wales)(Amendment) Regulations 2014. The detailed rules appear in Section 8 below.
- (2) The action to which this paragraph applies is suspension of the Officer for the purpose of investigating the alleged misconduct occasioning the action; provided such suspension is on full pay and terminates no later than the expiry of two months beginning on the day on which the suspension takes effect.

**8. Investigation of alleged misconduct – Head of Paid Service, Chief Finance Officer, Monitoring Officer and Head of Democratic Services.**

- (1) Where it appears to the Council that an allegation of misconduct which may lead to disciplinary action has been made against –
- (a) the Head of the Council's Paid Service;
  - (b) its Monitoring Officer;
  - (c) its Chief Finance Officer
- or
- (d) The Head of Democratic Services.

hereinafter referred to as 'the relevant officer', the Council must appoint a committee ("an investigation committee") to consider the alleged misconduct).

- (2) The investigation committee must:
- (a) consist of a minimum of 3 members of the Council;
  - (b) be politically balanced in accordance with Section 15 of the 1989 Act; and must, within 1 month of its appointment, consider the allegation of misconduct and decide whether it should be further investigated.
- (3) For the purpose of considering the allegation of misconduct, the investigation committee:
- (a) may make such enquiries of the relevant officer or any other person it considers appropriate;
  - (b) may request the relevant officer or any other person it considers appropriate to provide it with such information, explanation or documents as it considers necessary within a specified time limit; and
  - (c) may receive written or oral representations from the relevant officer or any other person it considers appropriate.
- (4) Where it appears to the investigation committee that an allegation of misconduct by the relevant officer should be further investigated, it must appoint a person ("the designated independent person").
- (5) The designated independent person who is appointed –
- (a) must be such person as may be agreed between the Council and the relevant officer within 1 month of the date on which the requirement to appoint the designated independent person arose; or



- (b) where there is no such agreement; must be such person as is nominated for the purpose by the National Assembly for Wales.
- (6) The designated independent person –
- (a) may direct –
    - (i) that the relevant authority terminate any suspension of the relevant officer;
    - (ii) that any such suspension is to continue after the expiry of the period referred to in Section 7 (2) above;
    - (iii) that the terms on which any such suspension has taken place are to be varied in accordance with the direction; or
    - (iv) that no steps (whether by the Council or any committee, sub-committee or officer acting on behalf of the Council) by way of disciplinary action or further disciplinary action against the relevant officer, other than steps taken in the presence, or with the agreement, of the designated independent person, are to be taken before a report is made under sub-paragraph (d);
  - (b) may inspect any documents relating to the conduct of the relevant officer which are in the possession of the Council or which the Council has power to authorise the designated independent person to inspect;
  - (c) may require any member or member of staff of the Council to answer questions concerning the conduct of the relevant officer;
  - (d) must make a report to the Council –
    - (i) stating an opinion as to whether (and, if so, the extent to which) the evidence obtained supports any allegation of misconduct against the relevant officer; and
    - (ii) recommending any disciplinary action which appears appropriate for the relevant authority to take against the relevant officer; and
  - (e) must no later than the time at which the report is made under sub-paragraph (d) send a copy of the report to the relevant officer.
- (7) Subject to paragraph (8), the relevant officer and the Council must, after consulting the designated independent person, attempt to agree a timetable within which the designated independent person is to undertake the investigation.
- (8) Where there is no agreement under paragraph (7), the designated independent person must set a timetable as that person considers appropriate within which the investigation is to be undertaken.

- (9) The Council must consider the report prepared by the independent person under paragraph (6) (d) above within 1 month of receipt of that report.
- (10) The Council must pay reasonable remuneration to a designated independent person appointed by the investigation committee and any costs incurred by, or in connection with, the discharge of functions under these rules.

# Cyngor Sir Ddinbych

## RHESTR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL AELODAU

Mae'r Cynllun hwn yn cael ei wneud o dan Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol Cymru (IRPW) sy'n gymwys ar gyfer daliadau a wneir i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol.

### 1. Cyflog Sylfaenol

- 1.1 Bydd Cyflog Sylfaenol yn cael ei dalu i bob Aelod etholedig o'r Awdurdod
- 1.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd gyfradd y Cyflog Sylfaenol yn cael ei hadolygu bob blwyddyn fel y penderfynir gan y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.
- 1.3 Lle mae'r cyfnod swydd Aelod yn dechrau neu'n gorffen heblaw am ar ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd ei hawl ef/hi i gael y Cyflog Sylfaenol ar statws pro-rata.
- 1.4 Nid oes mwy nag un Cyflog Sylfaenol yn daladwy i Aelod o'r Awdurdod.

### 2. Cyflogau Uwch a Chyflogau Dinesig

- 2.1 Bydd Aelodau mewn swyddi penodol yn cael ei dalu Uwch Gyflog fel y nodir yn **Atodlen 1**.
- 2.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd y cyfraddau Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig yn cael ei adolygu'n flynyddol fel y pennir gan Adroddiad Blynyddol neu Atodol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.
- 2.3 Dim ond un Uwch Gyflog neu Gyflog Dinesig sy'n daladwy i Aelod o'r Awdurdod
- 2.4 Ni all Aelod o'r Awdurdod gael ei dalu Uwch Gyflog a Chyflog Dinesig.
- 2.5 Mae pob Cyflog Uwch a Dinesig yn cynnwys y Cyflog Sylfaenol.
- 2.6 Ni chaiff Cyflog Uwch ei dalu i fwy na nifer yr aelodau a bennir gan y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei Adroddiad Blynyddol ac ni all fod yn fwy na hanner cant y cant o gyfanswm aelodaeth yr awdurdod, ac eithrio i gynnwys swydd Uwch Gyflog dros dro i gyflenwi ar gyfer absenoldeb teuluol y deiliad swydd a benodwyd.
- 2.7 Ni all Aelod o'r Awdurdod yn derbyn Uwch Gyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) neu Awdurdod Tân ac Achub (ATA) y mae ef / hi wedi cael ei enwebu iddynt.
- 2.8 Lle mae'r tymor Aelod sy'n derbyn Uwch Gyflog neu Gyflog dinesig yn dechrau neu'n gorffen tu allan i ddechrau neu ddiwedd y flwyddyn arferol, bydd ei hawl ef/hi i Gyflog fod yn pro-rata.

### 3. Penderfyniad i Beidio â Derbyng y Lwfans

- 3.1 Gall Aelod, drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i Swyddog Priodol yr awdurdod, yn bersonol ddewis peidio â derbyn unrhyw ran o'i hawl i unrhyw gyflog, lwfans neu ffi sy'n daladwy o dan y Cynllun hwn o'r dyddiad a nodir yn yr hysbysiad.

#### **4. Atal Aelod**

- 4.1 Pan fydd Aelod o'r Awdurdod yn cael ei atal, yn llwyr neu'n rhannol, o'i gyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, mae rhan y Cyflog Sylfaenol sy'n daladwy iddo / iddi mewn perthynas â'r cyfnod y mae ef neu hi yn cael ei atal yn cael ei ddal yn ôl gan yr Awdurdod (Adran 155 (1) o'r Mesur).
- 4.2 Pan fydd Aelod sy'n derbyn Uwch Gyflog yn cael ei atal, yn llwyr neu'n rhannol, rhag bod yn Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, rhaid i'r Awdurdod peidio â gwneud taliadau Uwch Gyflog i'r Aelod drwy gydol cyfnod yr ataliad (Adran 155 (1) o'r Mesur). Os yw'r atal rhannol yn ymwneud yn unig ag elfen chyfrifoldeb penodol y taliad, gall yr aelod gadw'r Cyflog Sylfaenol.

#### **5. Ad-dalu cyflogau, lwfansau neu ffioedd**

- 5.1 Pan fydd taliad unrhyw gyflog, lwfans neu ffi wedi cael ei wneud i Aelod o'r Awdurdod neu Aelod Cyfetholedig mewn perthynas ag unrhyw gyfnod pan fydd yr Aelod dan sylw:
- (a) wedi'i h/atal neu ei h/atal dros dro o ddyletswyddau neu gyfrifoldebau Aelod / Aelod Cyfetholedig yn unol â Rhan 3 o'r Ddeddf 2000 neu â rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno;
  - (b) wedi rhoi'r gorau ar fod yn Aelod o'r Awdurdod neu'r Aelod Cyfetholedig
  - (c) neu mewn unrhyw ffordd arall heb yr hawl i dderbyn cyflog, lwfans neu ffi mewn cysylltiad â'r cyfnod hwnnw,

bydd yr Awdurdod yn ei wneud yn ofynnol bod y cyfryw ran o'r lwfans sy'n ymwneud ag unrhyw gyfnod o'r fath yn cael ei ad-dalu.

#### **6. Taliadau**

- 6.1 Bydd taliadau'r holl lwfansau yn cael eu gwneud mewn rhandaliadau o un rhan o ddeuddeg o hawl blynyddol yr Aelod.
- 6.2 Pan fydd y taliad wedi arwain at Aelod yn derbyn mwy nag ganddo / ganddi hawl i gyflogau, lwfansau neu ffioedd y bydd yr Awdurdod yn gofyn bod y rhan honno sy'n ordaliad yn cael ei ad-dalu.
- 6.3 Mae'r holl daliadau yn ddarostyngedig i'r dreth briodol a didyniadau Yswiriant Gwladol.

#### **7. Lwfans Gofal**

- 7.1 Bydd y Lwfans Gofal yn cael ei dalu i Aelod neu Aelod Cyfetholedig, sydd â chyfrifoldeb gofalu am blant neu oedolion dibynnol, ar yr amod mae'r Aelod yn mynd i gostau wrth ddarparu gofal o'r fath wrth wneud dyletswyddau 'cymeradwy' y cyngor.
- 7.2 Mae Lwfans Gofal yn gymwys mewn perthynas â phlant sy'n 15 oed neu o dan a phobl eraill y mae'r Aelod neu'r Aelod Cyfetholedig yn gallu dangos bod angen gofal arnynt. Os oes gan Aelod neu Aelod Cyfetholedig mwy nag un dibynnydd caiff yr Aelod hawlio mwy nag un lwfans, ar yr amod y gall yr Aelod dangos angen i wneud trefniadau ar wahân ar gyfer gofal.

- 7.3 Gall aelodau cymwys wneud cais am Lwfans Gofal ar gyfer costau gwirioneddol gyda derbynneb hyd at uchafswm o ddim mwy na'r gost a bennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol fel y nodir yn **Atodlen 1**. Dylai'r holl hawliadau am Lwfans Gofal cael eu gwneud yn ysgrifenedig i'r Gwasanaethau Democrataidd yn rhoi manylion amserau, dyddiadau a rhesymau dros hawlio. Mae'n ofynnol i roi derbynebau ar gyfer y ddau drefniad gofal anffurfiol a ffurfiol.

## 8. Absenoldeb Teuluol

- 8.1 Mae hawl gan Aelodau o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 i gyfnod o absenoldeb teuluol, lle os ydynt yn bodloni'r amodau a ragnodir mai ganddynt hawl i fod yn absennol o gyfarfodydd yr awdurdod.
- 8.2 Wrth gymryd absenoldeb teuluol mae gan Aelodau'r hawl i gadw cyflog sylfaenol beth bynnag yw eu cofnod presenoldeb yn union cyn cychwyn yr absenoldeb teuluol.
- 8.3 Petai ddeiliad uwch gyflog yn gymwys i gael absenoldeb teuluol byddant yn gallu parhau i dderbyn eu cyflog uwch drwy gydol yr absenoldeb.
- 8.4 Os bydd yr awdurdod yn cytuno ei bod yn angenrheidiol i wneud apwyntiad eilydd i ddirprwyo dros absenoldeb teuluol y deiliad uwch gyflog bydd yr Aelod sy'n dirprwyo yn gymwys i dderbyn uwch gyflog hefyd os yw'r awdurdod yn penderfynu felly.
- 8.5 Os bydd y taliad i'r apwyntiad eilydd yn achosi'r awdurdod i dorri'r 'cap' ar ei nifer uchaf o uwch gyflogau, bydd ychwanegiad at yr uchafswm yn cael ei ganiatáu am gyfnod apwyntiad yr eilydd.

## 9. Taliadau i Aelodau Cyfetholedig

- 9.1 Rhaid i ffi ddyddiol Aelodau Cyfetholedig (gyda darpariaeth ar gyfer taliadau hanner diwrnod) gael ei dalu i aelodau cyfetholedig, ar yr amod eu bod yn Aelodau Cyfetholedig statudol gyda hawliau pleidleisio.
- 9.2 Bydd taliadau yn cymryd i ystyriaeth amser yn teithio yn ôl ac ymlaen i leoliad y cyfarfod, amser rhesymol ar gyfer paratoi a hyd y cyfarfod (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).
- 9.3 Mae'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yn cael ei ddynodi fel y "swyddog priodol" a bydd yn pennu amser paratoi, amser teithio a hyd y cyfarfod, bydd y ffi yn cael ei dalu ar sail y penderfyniad hwn.
- 9.4 Gall y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd penderfynu o flaen llaw a yw cyfarfod yn cael ei raglennu ar gyfer diwrnod llawn a bydd y ffi yn cael ei dalu ar sail y penderfyniad hwn hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn dod i ben cyn mae pedair awr wedi mynd heibio.
- 9.5 Mae cyfarfod hanner diwrnod yn cael ei ddiffinio fel hyd at 4 awr.
- 9.6 Mae cyfarfod diwrnod llawn yn cael ei ddiffinio fel dros 4 awr.
- 9.7 Mae'r ffi diwrnod a hanner diwrnod ar gyfer Cadeiryddion y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Archwilio, fel y pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, yn cael ei nodi yn **Atodlen 1**.
- 9.8 Mae'r ffi diwrnod a hanner diwrnod ar gyfer Aelodau Cyfetholedig statudol gyda hawliau pleidleisio, fel y pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, yn cael ei nodi yn **Atodlen 1**.

## **10. Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth**

### **10.1 Egwyddorion Cyffredinol**

- 10.2 Gall Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig hawlio costau teithio wrth deithio ar fusnes yr Awdurdod ar gyfer 'dyletswyddau cymeradwy' fel y nodir yn **Atodlen 2**. Lle bo aelodau'n teithio ar fusnes yr Awdurdod y disgwylir iddynt ei deithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf cost-ffeithiol. Wrth asesu cost-ffeithiolrwydd bydd ystyriaeth yn cael ei roi i amser teithio. Gall cais costau gan Aelod nad yw'n teithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf cost-ffeithiol yn cael ei leihau gan y swm priodol.
- 10.3 Lle'n bosibl dylai Aelodau rannu cludiant.
- 10.4 Dylai'r pellter a hawllir am filltiroedd fod am y daith fyrraf resymol ar y ffordd o'r man ymadael at y pwynt lle mae'r ddyletswydd yn cael ei berfformio, ac yn yr un modd o'r man ddyletswydd i'r lle ddychwelyd.
- 10.5 Mae cyfraddau Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth Aelodau wedi'u nodi yn **Atodlen 3** ac maent yn destun adolygiad blynyddol gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.
- 10.6 Pan fydd Aelod yn cael ei h/atal yn llwyr neu'n rhannol o'i ch/gyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, rhaid i unrhyw lwfansau teithio a chynhaliaeth sy'n daladwy iddo / iddi mewn perthynas â'r cyfnod y mae ef neu hi yn cael ei h/atal cael ei ddal yn ôl gan yr Awdurdod.

## **11. Teithio mewn Cerbyd Personol**

- 11.1 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu y dylai'r cyfraddau teithio uchaf sy'n daladwy fydd y cyfraddau a nodir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer y defnydd o geir preifat, beiciau modur a beiciau pedal yn ogystal ag unrhyw atodiad teithwyr.
- 11.2 Mae'r cyfraddau milltiroedd ar gyfer cerbydau preifat fel y pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol wedi'u nodi yn **Atodlen 3**.
- 11.3 Pan fydd Aelod yn defnyddio ei g/cherbyd preifat ar gyfer dibenion dyletswydd gymeradwy, rhaid i'r cerbyd gael ei yswirio at ddefnydd busnes. Rhaid darparu prawf o yswiriant priodol i'r Awdurdod ar gais.

## **12. Teithio ar Gludiant Cyhoeddus**

### **12.1 Taith Trên / Bws**

Oni bai bod caniatâd arbennig wedi'i rhoi, bydd pob tocyn a brynir yn docyn ail-ddosbarth.

### **12.2 Costau Tacsî**

Bydd costau tacsî ond yn cael eu had-dalu lle mae eu defnydd wedi eu caniatáu ar gyfer achosion brys, lle nad oes cludiant cyhoeddus ar gael yn rhesymol, neu mae gan Aelod angen personol penodol. Bydd ad-daliad ar sail derbynneb yn unig.

### 12.3 Costau Teithio Eraill

Bydd hawl gan Aelodau i gael ad-daliad ffioedd tollau, ffioedd parcio, garejis dros nos a chostau eraill sy'n gysylltiedig â theithio angenrheidiol. Bydd ad-daliad fod ar sail derbynneb yn unig.

### 13. Llety Dros Nos

13.1 Bydd aros dros nos yn cael ei ganiatáu lle mae busnes yr Awdurdod yn ymestyn i ddau ddiwrnod neu fwy yn unig, neu os yw'r lleoliad ar bellter o'r fath y byddai teithio'n gynnar yn y bore neu'n hwyr y nos yn afresymol. Rhaid i bob arhosiad dros nos yn derbyn caniatâd ymlaen llaw gan y Democratic Services Manager.

13.2 Bydd archebu uniongyrchol o lety dros nos gan Aelod yn cael ei ganiatáu mewn achos o argyfwng yn unig. Bydd ad-dalu dim ond ar gynhyrchu derbynneb a bydd ar lefel a ystyrir yn rhesymol ac nid yn fwy na'r cyfraddau a nodir yn **Atodlen 3**.

### 14 Lwfans Cynhaliath

14.1 Mae'r gyfradd cynhaliath ddiwrnod i gwrdd â chostau prydau bwyd a lluniaeth mewn cysylltiad â dyletswyddau cymeradwy (gan gynnwys brecwast pan na ddarperir fel rhan o lety dros nos) yn cael ei nodi yn **Atodlen 3**. Mae'r gyfradd ddyddiol uchaf yn cwmpasu cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd sy'n berthnasol, gan ddarparu fod cais o'r fath yn cael ei gefnogi gan dderbynebau)

14.2 Nid oes darpariaeth ar gyfer hawliadau cynhaliath o fewn y Sir.

### 15. Pensiynau

15.1 Bydd yr Awdurdod yn galluogi ei aelodau sy'n gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

### 16. Cydymffurfiaeth

16.1 Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â gofynion y Panel mewn perthynas â'r monitro a chyhoeddi taliadau a wnaed i aelodau ac aelodau cyfetholedig fel y nodir yn **Atodlen 4**.

Atgoffir yr Aelodau bod ceisiadau treuliau yn destun archwilio mewnol ac allanol.

**ATODLEN 1**

**RHESTR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2015-16**

<b>AELODAU SYDD Â'R HAWL I GYFLOG SYLFAENOL</b>			<b>SWM BLYNYDDOL Y CYFLOG SYLFAENOL</b>
Yr aelodau etholedig canlynol o'r awdurdod a enwir:			£13,300
Y Cynghorydd Ian Armstrong	Y Cynghorydd Alice Jones	Y Cynghorydd Pete Prendergast	
Y Cynghorydd Brian Blakeley	Y Cynghorydd Pat Jones	Y Cynghorydd Arwel Roberts	
Y Cynghorydd Bill Cowie	Y Cynghorydd Meirick Lloyd-Davies	Y Cynghorydd Anton Sampson	
Y Cynghorydd Richard Davies	Y Cynghorydd Geraint Lloyd - Williams	Y Cynghorydd Gareth Sandilands	
Y Cynghorydd Stuart Davies	Y Cynghorydd Barry Mellor	Y Cynghorydd Bill Tasker	
Y Cynghorydd Peter Duffy	Y Cynghorydd Win Mullen-James	Y Cynghorydd Joe Welch	
Y Cynghorydd Peter Evans	Y Cynghorydd Bob Murray	Y Cynghorydd Cheryl Williams	
Y Cynghorydd Carys Guy	Y Cynghorydd Peter Owen	Y Cynghorydd Huw Williams	
Y Cynghorydd Martyn Holland	Y Cynghorydd Dewi Owens		
Y Cynghorydd Colin Hughes	Y Cynghorydd Merfyn Parry		
Y Cynghorydd Rhys Hughes	Y Cynghorydd Paul Penlington		

	<b>UWCH GYFLOGAU (yn cynnwys cyflog sylfaenol)</b>		<b>SWM BLYNYDDOL YR UWCH GYFLOG</b>
	<b>RÔL</b>	<b>AELOD</b>	
1	Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros yr Economi	Y Cynghorydd Hugh Evans	£43,000
2	Dirpwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Addysg	Y Cynghorydd Eryl Williams	£30,000
3	Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad a'r Cynllun Corfforaethol	Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill	£26,000
4	Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant	Y Cynghorydd Bobby Feeley	£26,000
5	Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Llyfrgelloedd	Y Cynghorydd Hugh Irving	£26,000



	<b>UWCH GYFLOGAU (yn cynnwys cyflog sylfaenol)</b>		<b>SWM BLYNYDDOL YR UWCH GYFLOG</b>
	<b>RÔL</b>	<b>AELOD</b>	
6	Aelod Arweiniol dros Ddatblygiad Cymunedol	Y Cynghorydd Huw Jones	£26,000
7	Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Thai	Y Cynghorydd Barbara Smith	£26,000
8	Aelod Arweiniol dros Barth y Cyhoedd	Y Cynghorydd David Smith	£26,000
9	Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau	Y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones	£22,000
10	Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio Cymunedau	Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts	£22,000
11	Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio Perfformiad	Y Cynghorydd David Simmons	£22,000
12	Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio	Y Cynghorydd Raymond Bartley	£22,000
13	Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu	Y Cynghorydd Cefyn Williams	£22,000
14	Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol	Y Cynghorydd Jason McLellan	£22,000
15	Arweinydd y Grŵp Mwyaf o'r Gwrthbleidiau	Y Cynghorydd Joan Butterfield	£22,000

Gall uchafswm o 17 o uwch gyflogau yn cael ei dalu yng Nghyngor Sir Ddinbych ac nid yw hyn wedi cael ei dorri.

<b>CYFLOGAU DINESIG (yn cynnwys cyflog sylfaenol)</b>		<b>SWM BLYNYDDOL Y CYFLOG DINESIG</b>
<b>RÔL</b>	<b>AELOD</b>	
Arweinydd Dinesig (Cadeirydd)	Y Cynghorydd Gwyneth Kensler	£21,500
Dirprwy Arweinydd Dinesig (Is-gadeirydd)	Y Cynghorydd Ann Davies	£14,000

<b>HAWL FEL AELODAU CYFETHLEDIG STATUDOL</b>		<b>SWM LWFANS AELOD CYFETHLEDIG</b>
<b>RÔL</b>	<b>AELOD</b>	
Cadeirydd Pwyllgor Safonau	Ian Trigger	£256 Ffi Ddyddiol £128 Ffi ½ Diwrnod
Aelodau Cyfetholedig Statudol – Pwyllgorau Safonau, Craffu Addysg, Archwilio, Craffu Trosedd ac Anrhefn	<u>Safonau:</u> Paula White David E. Jones Julia Hughes Anne Mellor  <u>Craffu</u> Gareth Williams Gill Greenland Debra Houghton Dawn Marjoram John Piper	£198 Ffi Ddyddiol £99 Ffi ½ Diwrnod

HAWL FEL AELODAU CYFETHOLEDIG STATUDOL		SWM LWFANS AELOD CYFETHOLEDIG
RÔL	AELOD	
	<u>Archwilio</u> Paul Whitham	

AELODAU GYMWYS I DDERBYN LWFANS GOFAL	
Pob Aelod	Hyd at uchafswm o £403 y mis

## ATODLEN 2

### **Dyletswyddau cymeradwy:**

- presenoldeb mewn cyfarfod o'r Awdurdod neu unrhyw bwyllgor o'r Awdurdod neu unrhyw gorff y mae'r Awdurdod yn gwneud penodiadau neu enwebiadau iddo neu unrhyw bwyllgor o'r fath corff;
- presenoldeb mewn cyfarfod o unrhyw gymdeithas o awdurdodau y mae'r Awdurdod yn aelod
- presenoldeb mewn unrhyw gyfarfod arall y cynhaliad sydd wedi'i awdurdodi gan yr Awdurdod neu gan bwyllgor o'r Awdurdod neu gan gydbwyllgor o'r Awdurdod ac un neu fwy o Awdurdodau eraill
- dyletswydd a ymgymerir at ddiben neu mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau'r Cabinet;
- dyletswydd a ymgymerir yn unol â rheol sefydlog sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod neu Aelodau fod yn bresennol pan agorir dogfennau tendro;
- dyletswydd a ymgymerir mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaeth o'r Awdurdod sy'n rhoi'r grym neu'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod archwilio neu awdurdodi archwilio adeiladau;
- presenoldeb mewn unrhyw ddigwyddiad hyfforddi neu ddatblygu a gymeradwywyd gan yr Awdurdod neu ei Gabinet
- ni fydd taliad ar gael ar gyfer treuliau a dynnir wrth fynychu cyfarfodydd fel sylwedyddion.

### **ATODLEN 3**

#### **Costau Milltiroedd**

Cerbydau modur o bob maint Hyd at 10,000 milltir Dros 10,000 milltir	45 ceiniog y filltir 25 ceiniog y filltir
Beiciau modur preifat Beiciau	24 ceiniog y filltir 20 ceiniog y filltir
Tâl ychwanegol am deithwyr eraill	05 ceiniog y filltir

#### **Lwfans Cynhaliaeth**

Mae'r gyfradd gynhaliaeth diwrnod yw hyd at uchafswm o £28 ac yn cwmpasu cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd, os berthnasol, ac os gefnogir gan dderbynebau.

Ni chaniateir ad-dalu ar gyfer ddiodydd alcoholig.

#### **Llety dros nos**

Uchafswm y lwfansau ar gyfer aros dros nos yw £150 ar gyfer Llundain a £95 ar gyfer mannau eraill. Mae uchafswm o £ 5 ar gael ar gyfer aros dros nos gyda ffrindiau neu berthnasau tra ar ddyletswydd gymeradwy.

## ATODLEN 4

### **Cydymffurfiaeth**

- Bydd yr awdurdod yn trefnu i gyhoeddi ar wefan y cyngor y cyfanswm a dalwyd ganddo i bob aelod ac aelod cyfetholedig o ran cyflogau, lwfansau, ffioedd ac ad-daliadau ddim hwyrach na 30 Medi yn dilyn diwedd y flwyddyn y mae'n ymwneud ag ef. Er budd tryloywder bydd hyn yn cynnwys cydnabyddiaeth o bob penodiad gwasanaethau cyhoeddus a gynhelir gan aelodau etholedig.
- Bydd yr awdurdod yn cyhoeddi ar wefan y cyngor datganiad o gyfrifoldeb sylfaenol cynghorydd a disgrifiadau rôl ar gyfer deiliaid swyddi uwch gyflog, sy'n nodi'n glir y dyletswyddau disgwylidig.
- Bydd yr awdurdod yn cyhoeddi ar wefan y cyngor yn flynyddol y Rhestr o Gydabyddiaeth Ariannol Aelodau ddim hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'r Rhestr yn cyfeirio ati.
- Bydd yr awdurdod yn anfon copi o'r Rhestr i'r Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol ddim hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'r Rhestr yn cyfeirio ati.
- Bydd yr awdurdod yn cadw cofnodion o bresenoldeb aelodau / aelodau cyfetholedig mewn cyfarfodydd o'r cyngor, cabinet a phwyllgorau a dyletswyddau cymeradwy eraill y mae aelod / aelodau cyfetholedig yn cyflwyno cais am ad-daliad amdanynt.
- Bydd yr awdurdod yn trefnu i gyhoeddi ar wefan y cyngor yr adroddiadau blynyddol a baratoir gan yr aelodau.
- Pan fydd yr awdurdod yn cytuno i dalu dirprwy am gyfnod absenoldeb teuluol, bydd yn rhoi gwybod i'r Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol o fewn 14 diwrnod o'r penderfyniad gyda'r manylion gan gynnwys y swydd benodol a hyd y dirprwyad.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>27 Gorffennaf 2015</b>
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b>	<b>Gary Williams, Swyddog Monitro/ Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd a'r Uwch Swyddog Cyfrifol RIPA.</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Lisa Jones Dirprwy Swyddog Monitro/Cyfreithiwr</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Pwerau a Gweithdrefnau Rheoleiddio Ymchwilio.</b>

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Rhoi copi i'r Pwyllgor o adroddiad yr arolygiad diweddar yn dilyn yr ymweliad â'r Cyngor gan Swyddfa'r Comisiynwyr Arwylio ar 21 Mai 2015. Mae'r adroddiad ynghlwm yn Atodiad 1.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Dan God Ymarfer y Swyddfa Gartref, mae'n ofynnol i'r Cyngor wneud adroddiadau rheolaidd (o leiaf unwaith y flwyddyn) i aelodau ar y defnydd o bwerau o'r fath o dan RIPA ac mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn pob adroddiad arolygu allanol.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

- (1) yn nodi cynnwys yr adroddiad ac yn rhoi sylwadau y maent yn ystyried sydd angen eu gwneud i'r Uwch Swyddog Cyfrifol Ripa ar lywodraethu neu welliant parhaus er mwyn sicrhau fframwaith sy'n cydymffurfio.
- (2) Cymeradwyo gwaith 'Gweithgor Ripa' y Cyngor mewn perthynas â darparu hyfforddiant a diweddarau dogfen Bolisi a Gweithdrefnau Ripa'r Cyngor a sicrhau ei bod ar gael i bob swyddog sy'n gysylltiedig ag arfer y pwerau hyn.

#### **4. Manylion yr Adroddiad**

Ychydig iawn o weithgarwch sydd wedi bod o ran defnyddio'r pwerau penodol hyn, dim ond un cais a dderbyniwyd yn y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD Democrataidd ers yr arolygiad diwethaf ar 14 Mehefin 2012.

Gall hyn fod yn rhannol oherwydd dulliau datblygedig eraill o gael tystiolaeth sy'n cael eu datblygu fel 'paru data' a rhannu gwybodaeth.

Mae'r Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd yn cadw Cofnod Canolog RIPA ac yn gyfrifol am gyflawni goruchwyliaeth reolaethol o'r ceisiadau ac yn cynnal gwiriadau sicrhau ansawdd ar safonau'r ceisiadau.

Ar hyn o bryd, mae pob aelod o'r Tîm Gweithredol Corfforaethol yn cael eu galw'n Swyddogion Awdurdodi ar geisiadau gan Swyddogion Ymchwilio; a dylai unrhyw wyliaeth ar weithwyr, lle mae honiadau o droseddau, gael eu hystyried a'u hawdurdodi gan y Swyddog Monitro, sydd hefyd yn Uwch Swyddog Cyfrifol dan y ddeddfwriaeth.

Mae pob aelod o'r Tîm Gweithredol Corfforaethol (ac eithrio'r Swyddog Adran 151 a benodwyd yn ddiweddar) wedi derbyn hyfforddiant RIPA pwrpasol i'w paratoi yn eu swyddogaeth fel 'Swyddogion Awdurdodi'.

Mae'r rhan fwyaf o 'Swyddogion Ymchwilio' wedi derbyn hyfforddiant mewnol hefyd ac mae'r Swyddog Monitro a'i ddirprwy'n cynnal sesiwn atgoffa ar 17 Gorffennaf 2015. Mae'r deunyddiau hyfforddi wedi cael eu diweddarau i adlewyrchu'r Codau Ymarfer diweddar a gyhoeddwyd yn 2014 gan y Swyddfa Gartref a hefyd yn cynnwys 'prawf prynu pobl ifanc dan oed' a'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol/facebook wrth gynnal gwyliaeth dan gyfarwyddyd, fel rhan o'r ymarferion ymarferol ar gyfer cynrychiolwyr ar 17 Gorffennaf 2015. Pan ysgrifennwyd yr adroddiad hwn nid oedd y sesiwn hon wedi cael ei chyflwyno eto, ond bydd yr SRO yn bwydo yn ôl ar lafar i'r Pwyllgor ar ganlyniadau a lefelau presenoldeb ac unrhyw faterion perthnasol eraill a allai godi o ganlyniad.

Diweddarwyd dogfen Bolisi a Gweithdrefnau RIPA i adlewyrchu'r argymhellion hynny a wnaed ym mharagraff 11 yr adroddiad.

#### **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd arferion gwell yn cyfrannu at y flaenoriaeth o fod yn Gyngor sy'n perfformio'n dda.

#### **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**



Nid oes unrhyw oblygiadau ar gyfer gwasanaethau eraill o ganlyniad i'r adroddiad hwn. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn fewnol gan y Gwasanaethau Cyfreithiol, felly, bydd y gost yn ymwneud ag amser Swyddogion, wrth fynd ar y cyrsiau hyn.

### **7. Pa ymgynghori a wnaed?**

Mae'r Gweithgor Ripa y Cyngor wedi cymryd rhan lawn yn y broses arolygu ac wrth oruchwylio'r gwaith o ddiweddarau'r ddogfen bolisi.

### **8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Dim angen.

### **9. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae mwy o berygl o beidio gwella safonau ceisiadau a sicrhau bod ein Swyddogion wedi'u paratoi i wneud penderfyniadau cyfreithlon sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Diogelu Data.

### **10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 ac adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



Office of Surveillance  
Commissioners



Chief  
Surveillance  
Commissioner

OFFICIAL-SENSITIVE

11<sup>th</sup> June 2015

'rec'd 15/6  
aw

Dear Mr Mehmet,

**Covert Surveillance**

On 21<sup>st</sup> May 2015, an Assistant Surveillance Commissioner, Sir David Clarke, again visited your Council on my behalf to review your management of covert activities. I am grateful to you for the facilities afforded for the inspection.

I enclose a copy of Sir David's report which I endorse. I am pleased to see that the close working relationship between Mr Gary Williams, your RIPA SRO, and Miss Lisa Jones, your RIPA Co-ordinator, is maintaining a compliant RIPA structure, with a sound policy document and good refresher training. Following the recommendations will lead to further practical improvement

The recommendations are that your Policy document be further amended as indicated in paragraph 11 of the report and that, as in 2012, the matters identified in paragraph 21 to 24 be borne in mind and addressed through ongoing internal quality assurance and updated training as necessary.

I shall be glad to learn that your Council accepts the recommendations and will see that they are implemented.

One of the main functions of review is to enable public authorities to improve their understanding and conduct of covert activities. I hope your Council finds this process constructive. Please let this Office know if it can help at any time.

Gary to author please  
M.

Yours sincerely,  
Christopher Rose

Mr Mohammed Mehmet  
Chief Executive  
Denbighshire County Council  
County Hall  
Wynnstay Road  
Ruthin  
Denbighshire LL15 1YN

The solution is  $y = \frac{1}{2}x^2 + \frac{1}{2}x + \frac{1}{2}$

For the second part, we have  $y'' + y' + y = 0$ . The characteristic equation is  $r^2 + r + 1 = 0$ , which has roots  $r = \frac{-1 \pm \sqrt{1 - 4}}{2} = \frac{-1 \pm \sqrt{-3}}{2} = \frac{-1 \pm i\sqrt{3}}{2}$ . Therefore, the general solution is  $y = e^{-\frac{1}{2}x} \left( C_1 \cos\left(\frac{\sqrt{3}}{2}x\right) + C_2 \sin\left(\frac{\sqrt{3}}{2}x\right) \right)$ .

**OFFICIAL - SENSITIVE**



**OFFICE OF SURVEILLANCE COMMISSIONERS**

**INSPECTION REPORT**

**Denbighshire County Council**

**21<sup>st</sup> May 2015**

**Assistant Surveillance Commissioner:  
Sir David Clarke.**

**OFFICIAL - SENSITIVE**

Updated 22/11



## **OFFICIAL- SENSITIVE**

### **DISCLAIMER**

This report contains the observations and recommendations identified by an individual surveillance inspector, or team of surveillance inspectors, during an inspection of the specified public authority conducted on behalf of the Chief Surveillance Commissioner.

The inspection was limited by time and could only sample a small proportion of covert activity in order to make a subjective assessment of compliance. Failure to raise issues in this report should not automatically be construed as endorsement of the unreported practices.

The advice and guidance provided by the inspector(s) during the inspection could only reflect the inspectors' subjective opinion and does not constitute an endorsed judicial interpretation of the legislation. Fundamental changes to practices or procedures should not be implemented unless and until the recommendations in this report are endorsed by the Chief Surveillance Commissioner.

The report is sent only to the recipient of the Chief Surveillance Commissioner's letter (normally the Chief Officer of the authority inspected). Copies of the report, or extracts of it, may be distributed at the recipient's discretion but the version received under the covering letter should remain intact as the master version.

The Office of Surveillance Commissioners is not a public body listed under the Freedom of Information Act 2000, however, requests for the disclosure of the report, or any part of it, or any distribution of the report beyond the recipients own authority is permissible at the discretion of the Chief Officer of the relevant public authority without the permission of the Chief Surveillance Commissioner. Any references to the report, or extracts from it, must be placed in the correct context.

**OFFICIAL – SENSITIVE**







Office of Surveillance  
Commissioners

Office of Surveillance Commissioners,  
PO Box 29105,  
London,  
SW1V 1ZU

24<sup>th</sup> May 2015

**DENBIGHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**INSPECTION REPORT**

Inspection date      21<sup>st</sup> May 2015

Inspector              Sir David Clarke  
                                 Assistant Surveillance Commissioner

Accompanied by      Martin Andrew  
                                 Surveillance Inspector (observing)

**Introduction**

1. The Council (DCC) is a unitary authority serving a population of some 95,000 across a wide area of North Wales from the coast at Rhyl to the Dee valley at Llangollen. The principal towns are Rhyl, Prestatyn, Rhuddlan, St Asaph, Denbigh, Ruthin, Corwen and Llangollen.
2. The senior corporate management structure is headed by the Chief Executive, supported by three Corporate Directors.<sup>1</sup> They, together with the Head of Legal, Human Resources and Democratic Services (Monitoring Officer) and the Head of Finance (s.151 Officer), form the Corporate Executive Team (CET).
3. The Chief Executive is Mohammed Mehmet, whose address is County Hall, Wynnstay Road, Ruthin, Denbighshire LL15 1YN.
4. The most recent OSC inspection of DCC was conducted by me on 14<sup>th</sup> June 2012.
5. DCC is a very sparing user of its RIPA powers, having granted one directed surveillance authorisation since the last inspection.

**Inspection**

---

<sup>1</sup> One corporate director has recently died. It is contemplated that he will not be replaced and that the number of corporate directors will be reduced to two

6. Accompanied by Mr Andrew, I carried out the inspection on 21<sup>st</sup> May 2015 at County Hall. We met the following council officers:
- Gary Williams, Head of Legal, Human Resources and Democratic Services, Monitoring Officer and RIPA Senior Responsible Officer (SRO);
  - Lisa Jones, Solicitor, Deputy Monitoring Officer and RIPA Coordinator;
  - Rebecca Maxwell, Corporate Director, Economic and Community Ambition, a RIPA Authorising Officer (AO);
  - Ian Millington, Public Protection Manager;
  - Graham Smith, CCTV Team Leader.
7. The inspection started with a discussion, with Mr Williams and Miss Jones, of DCC's RIPA management, policy and procedures, the designated authorising officers (AOs), training, and the actions taken on the recommendations in the last OSC report. We then inspected the Central Record and the single RIPA authorisation. We then held a round table discussion with all five officers about RIPA usage and practice.
8. I am grateful to all concerned, particularly Miss Jones who made the arrangements and provided the relevant documents in advance, for their helpful cooperation which greatly eased my task.

#### **Response to recommendations**

9. In my 2012 report I made three formal recommendations.
- I. *That DCC's Policy document be amended in accordance with paragraphs 12 and 13 of this report*
- This recommendation was heeded and is discharged.
- II. *That a single sequential Central Record of RIPA authorisations, with sequential URNs, be established and maintained.*
- This change has not been made, but all the necessary information is properly kept by Miss Jones and – with such minimal use of RIPA powers – the need for a single central record is no longer pressing. I am content to regard the recommendation as discharged.
- III. *That the issues raised in paragraphs 21-24 of this report be borne in mind for future cases and addressed through internal quality assurance and updated training as necessary.*
- With only a single authorisation to be examined, DCC's response to this recommendation cannot be fully assessed; however, it was not entirely satisfactory and the recommendation must remain extant.

#### **RIPA Structure**

10. DCC has an excellent *Corporate Policy and Procedures* document in place. It is clear, practical and sound. It was prepared by Miss Jones shortly before the 2009 OSC inspection. It annexes a useful quality assurance checklist which

Miss Jones completes for each authorisation, to provide feedback to applicants and AOs. The *Policy* has been kept updated, the latest revision having been made in early 2015.

11. The revised *Policy* includes most of the 2012 legislative changes, raising the threshold requirements for directed surveillance and introducing the magistrates' approval requirement for authorisations and renewals of directed surveillance and CHIS. However, all references to urgent oral authorisation should be removed, since this procedure is no longer available to local authorities.<sup>2</sup>
12. As to the magistrate's approval requirement, the *Policy* cites the Home Office's Guidance that the investigating officer should attend the hearing before the magistrate; I drew attention to paragraphs 291-292 of OSC Procedures & Guidance, expressing the Commissioners' view that the best officer to make the application is the AO, since it is his decision which the magistrate is called upon to approve.
13. At Miss Jones's instigation, a RIPA Working Group had been established before my 2012 visit, comprising nominated managers from each relevant department of DCC. This continues to meet periodically, and is clearly good practice, as is the practice of reporting regularly to the Corporate Governance Committee of the elected members.
14. The Central Record comprises pre-printed tabulated forms, completed in handwriting by Miss Jones. There is one sheet for each relevant department for each year, kept separately in each departmental section of the bulky file of RIPA authorisation papers. Though this is not a single accessible sequential central record of authorisations, it suffices for present purposes. With more usage, such a single sequential record would be advisable.
15. It continues to be DCC's RIPA policy that only members of the CET are designated as AOs. They are significantly higher in the hierarchy than the officers specified in SI 2010/521, and this gives some reassurance as to the quality of future authorisations.

#### **RIPA usage**

16. The single authorisation was made in 2013 in support of a juvenile test purchase operation. DCC, unlike some unitary and county councils, continues to comply with the guidance contained in OSC Procedures & Guidance, paragraph 243 (2014 edition), which is endorsed in the Code of Practice for Age Restricted Sales issued by the Better Regulation Delivery Office (BRDO). In discussion, attention was drawn to the language of the OSC guidance, stating that RIPA authorisation is *desirable* (rather than *mandatory*). I pointed out that the Commissioners are not law-makers and that the OSC does not provide formal legal advice; the decision of a public authority, as to whether OSC guidance is followed, is one for the public authority to make, taking its own legal advice as necessary and appropriate. As the BRDO Code

---

<sup>2</sup> OSC Procedures & Guidance, paragraph 294. This amendment to section 43 of RIPA was effected by SI 2012/1500

makes clear, a council which does not follow OSC guidance must justify itself to the OSC.

17. There has been no further RIPA usage in other areas of DCC's activity. Some of the authorisations made during the previous inspection period would not now pass the enhanced threshold. I was told that the RIPA Working Group has been considering the possibility of carrying out directed surveillance in such cases without RIPA authorisation, when it is necessary and proportionate to do so as a last resort. DCC has recognised that, contrary to some public misconception, the lack of RIPA authorisation does not automatically render such covert activity unlawful. The intention is to follow a quasi-RIPA process, formal application and authorisation being given and the records maintained so as to be able to demonstrate that human rights considerations have been fully taken into account. A possible example is the prevention and detection of dog-fouling, particularly in such places as children's playgrounds.
18. DCC are aware that they would do this at their own risk, but I expressed my view that to follow this process would strengthen their hand in resisting any challenge or criticism for acting contrary to the spirit of the legislation.

### **Training**

19. Having previously used external trainers, the decision was made shortly before my 2012 visit that practical RIPA training would be undertaken by Mr Williams and Miss Jones in house. A training day for RIPA applicants took place very soon after that inspection, as well as a separate one for AOs, including the Chief Executive.
20. No formal RIPA training has taken place since then, but further similar training has now been arranged for dates in July 2015. We were shown the training materials, which include dummy RIPA applications for various scenarios. It was interesting to see, in the completed dummy applications to be used in the training session for AOs, a number of deliberate errors inserted there to test them. This imaginative approach should provide excellent practical guidance for all. All the training materials are based on those previously used by Mr Williams when he worked at Wrexham Council.

### **Examination of Records**

21. The juvenile test purchase authorisation was made in respect of 13 retail premises, most of them in Rhyl. As I said in 2012, this is permissible, so long as necessity and proportionality are properly addressed in respect of each, but once again I found that this was not done at all. Accordingly, on the face of the application, this bore the hallmarks of a fishing expedition; see paragraph 244 of the revised OSC Procedures & Guidance.
22. The AO, however, recorded that "*previous failures have been identified at premises on the list (including one prosecution), or intelligence has been received about age restricted sales*". She evidently recognised that such information should have been included by the applicant. In future, the applicant should indicate which premises have previously failed, and which

are the subjects of relevant intelligence, in order to inform the AO's individual judgments on necessity and proportionality.

23. The AO authorised the operation to take place on 18<sup>th</sup> December 2013. She did not, however, specify an early review; she purported to set a review date coincident with the expiry date, almost three months later, but mis-stated that date as 15/3/13 (*sic*); the expiry date itself was left blank. This was noticed by Miss Jones in completing her check list, but the error should not have occurred.
24. A review was sought on 20<sup>th</sup> January because six of the premises had not been tested on 18<sup>th</sup> December because of time constraints. If the authorisation had not been so restrictive in its terms, no such review would have been necessary. However, there was no apparent reason for the delay between 18<sup>th</sup> December and 20<sup>th</sup> January. The AO authorised the further testing visits, but the subsequent cancellation merely stated that the operation had been completed, without indicating whether all 13 premises had been tested. A compliant cancellation should record the information listed in paragraph 109 of OSC Procedures & Guidance, including the AOs directions as to the handling of the product of surveillance.
25. The lessons to be learned from this authorisation should be emphasised at the forthcoming training sessions.

## CCTV

26. The CCTV system, owned and staffed by DCC, is located at Rhyl Police Station. It covers public spaces in Rhyl, Prestatyn and Rhuddlan.<sup>3</sup>
27. Mr Smith, who has managed the system for over three years, is a member of DCC's RIPA Working Group. He explained to us that North Wales Police do occasionally seek to use the system for live monitoring of the movements of specific targets. All the operators are trained to demand sight of the RIPA notifications, copies of which are kept on the file. These notifications are usually redacted versions of the authorisations themselves, but include the URNs and brief details of the scope of authorised surveillance. If a police officer asks to conduct live monitoring without producing the RIPA authorisation, he is firmly refused access.
28. Half of the CCTV operators attended the 2012 RIPA training, and the other half are to attend the next session in July 2015. I am satisfied that compliant procedures are in place, and did not need to visit the control room.

## Conclusions

29. In 2012 I was left with the clear impression that until the arrival of Mr Williams in October 2011, Miss Jones had not been sufficiently supported in her RIPA role by those above her in the hierarchy, but I expressed confidence that the picture had brightened. This structural improvement has been

---

<sup>3</sup> DCC also has the facility to link into CCTV coverage of Denbigh and Llangollen, which are owned and managed by the respective town councils. These are not RIPA-scheduled public authorities.

maintained. It is clear that Mr Williams and Miss Jones now work closely together to maintain a compliant RIPA structure, with a sound *Policy* document and with good refresher training provided.

30. That said, the deficiencies in the one RIPA authorisation show that there remains room for further practical improvement.

31. I make the following

### **Recommendations**

*I. That DCC's Policy document be further amended in accordance with paragraph 11 of this report;*

*II. That the issues raised in paragraphs 21-24 of this report be borne in mind for future cases, and addressed through ongoing internal quality assurance and updated training as necessary (repeat recommendation).*

**David Clarke**  
**Assistant Surveillance Commissioner**

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>27 Gorffennaf 2015</b>
<b>Aelod / Swyddog Arweiniol:</b>	<b>Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad Ivan Butler - Pennaeth Adain Archwilio Mewnol</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Ivan Butler - Pennaeth Adain Archwilio Mewnol</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Y SIARTER ARCHWILIO MEWNOL</b>

---

## **1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno Siarter Archwilio Mewnol diwygiedig i dderbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor.

## **2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Mae'r Siarter Archwilio Mewnol wedi cael ei ddiweddarau yn dilyn ailstrwythuro diweddar o fewn y gwasanaeth Archwilio Mewnol.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

I'r Pwyllgor gymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol ddiwygiedig.

## **4. Manylion yr Adroddiad**

4.1 Mae'r Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol llunio a chynnal Siarter Archwilio Mewnol yn gyfredol.

4.2 Mae'r Siarter yn diffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb gweithgarwch yr adain archwilio mewnol ac mae'n cynnwys manylion:

- y diffiniad o archwilio mewnol;
- llinellau atebolrwydd Pennaeth Archwilio Mewnol;
- hawliau mynediad Archwilio Mewnol;
- cwmpas gwaith Archwilio Mewnol;
- strwythur ac adnoddau Archwilio Mewnol; a
- chyfrifoldebau archwilydd mewnol.

4.3 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn gyfrifol am gymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol. Gan fod y Siarter bresennol yn hen erbyn hyn yn dilyn

newidiadau i'r strwythur y gwasanaeth Archwilio Mewnol, mae Siarter ddiwygiedig wedi ei gynnwys yn Atodiad 1.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes cyfraniad uniongyrchol â'r Blaenoriaethau yn gysylltiedig â'r penderfyniad hwn. Mae'n un o ofynion y PSIAS bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cymeradwyo'r Siarter.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Amh - nid oes unrhyw gostau ynghlwm â'r adroddiad hwn, gan ei fod er gwybodaeth yn unig.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Nid oes angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid mewn perthynas â'r adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion sydd wedi eu gwarchod.

**8. Pa ymgynghori a wnaed â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Amh - nid oes unrhyw ofyniad i ymgynghori ar yr adroddiad hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Os nad yw'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r Siarter, efallai y caiff y gwasanaeth Archwilio Mewnol ei feirniadu am beidio â chydymffurfio â'r PSIAS.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Nid oes unrhyw bŵer penodol sy'n gysylltiedig â penderfyniad hwn, ond mae'r PSIAS yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol gymeradwyo'r Siarter.





# Internal Audit Charter

**Ivan Butler MBA, CMIIA**  
**Head of Internal Audit Services**

**July 2015**

## Why do we need a Charter?

---

1. The Public Sector Internal Audit Standards (PSIAS) define the nature of, and set out basic principles for, internal auditing in the UK public sector. The Standards require the purpose, authority and responsibility of the internal audit activity to be formally defined in an internal audit charter.
2. The PSIAS use generic terms that, in Denbighshire County Council's case, are translated as:

PSIAS	DCC
Chief Audit Executive	Head of Internal Audit
Senior Management	Chief Executive Officer (CEO)
The Board	Corporate Governance Committee

3. Final approval of the Internal Audit Charter rests with the Corporate Governance Committee.
4. The PSIAS require the Head of Internal Audit to develop and maintain an up to date Internal Audit Charter to establish:

➤ Internal Audit's purpose and position within the Council

➤ The Head of Internal Audit's functional reporting relationship with the CEO and Corporate Governance Committee

➤ Authorisation for Internal Audit to access records, personnel and physical properties relevant to the performance of its work

➤ The scope of Internal Audit's work, including the nature of its assurance role, consultancy services and its involvement in anti-fraud and corruption work

➤ Arrangements for resourcing the Internal Audit service

➤ Arrangements for avoiding conflicts of interest within the Internal Audit service

## What is internal audit?

---

5. The PSIAS include mandatory elements:

- ✓ Definition of Internal Auditing
- ✓ Code of Ethics
- ✓ International Standards for the Professional Practice of Internal Auditing

### **PSIAS Definition of internal auditing**

Internal auditing is an independent, objective assurance and consulting activity designed to add value and improve an organisation's operations. It helps an organisation accomplish its objectives by bringing a systematic, disciplined approach to evaluate and improve the effectiveness of risk management, control and governance processes.

6. Within the Council, Internal Audit is one of the cornerstones of effective governance. Through our annual internal audit opinion and other reports, we give assurance to elected members and management, highlighting areas for improvement.
7. Our role is a unique one, providing effective challenge and acting as a catalyst for positive change and continual improvement in governance in all its aspects. Our role is particularly important when the Council is facing uncertain and challenging times.

### **Our main objectives are to...**

- Provide independent assurance and advice to management and elected members on risk management, governance and internal control
- Develop and promote our role to make a significant contribution to the Council's priority to modernise and deliver efficiencies and improve services for our customers
- Add value in all areas of our work, providing excellent service to our customers

## Who does the Head of Internal Audit report to?

---

8. Although functionally reporting to the Head of Business Improvement & Modernisation, the Head of Internal Audit also has direct access on internal audit issues to the Council's S151 Officer, the CEO, Cabinet, Corporate Governance Committee and Scrutiny Committees.
9. These extended reporting lines provide Internal Audit with sufficient independence of the activities that it reviews to enable our auditors to perform their duties objectively, allowing us to make impartial and effective professional judgements and raise issues for improvement.
10. The Head of Business Improvement & Modernisation annually appraises the Head of Internal Audit's performance with input and feedback from the CEO and Chair of the Corporate Governance Committee. This ensures that the Head of Internal Audit's opinion and scope of work cannot be limited or affected by his functional line management position within the Council.

## What are Internal Audit's rights of access?

---

11. The Council's Financial Regulations stipulate Internal Audit's rights of access, providing the service with authority to:

- Access all Council premises at reasonable times
- Access all assets, records, documents, correspondence and systems
- Receive any information and explanation considered necessary concerning any matter made under consideration
- Require any employee of the Council to account for cash or any other Council asset under his or her control
- Access records belonging to third parties, such as contractors, when required

## What is the scope of Internal Audit's work?

---


12. The Internal Audit service is very proactive and innovative, constantly aiming to improve. We have a customer-focused approach to audit planning, project scoping and service delivery, involving elected members, senior management and operational staff.
13. Our Internal Audit Assurance Plan links closely to the Council's Governance Assurance Framework, taking account of other assurances that the Council may receive, internal or external, to prevent duplication and co-ordinate regulatory work. It also takes account of discussions with senior management.
14. Our work provides a risk-based approach that allows the Head of Internal Audit to form and evidence his opinion on the control environment to support the Council's Annual Governance Statement.
15. Internal Audit is not responsible for managing the risk of fraud – this lies with the Council's senior management. The Council's Financial Regulations and investigation procedures require managers to inform the Head of Internal Audit of any suspected financial irregularities.
16. Although Internal Audit carries out proactive projects to identify potential fraud and/or corruption and can carry out special investigations into alleged financial irregularities, the Head of Internal Audit retains the right to decide on an appropriate course of action, which may mean a joint investigation or investigation by the service. However, all investigation reports should be sent to the Head of Internal Audit for inclusion in a report on fraud investigations within the Internal Audit Annual Report.
17. Internal Audit has no responsibility for providing any other services within the Council but we occasionally provide guidance and advice e.g. on new systems or may help to develop new processes using our specific skills. Services may also occasionally ask us to carry out specific projects on a consultancy basis for a fee. On these occasions, we make it clear from the outset that we are working on a consultancy basis rather than internal audit basis and are not giving audit assurance on these occasions.

## What resources does Internal Audit have?

---

18. Internal Audit also provides an audit service to North Wales Police. Our budget is mainly employee based (90%), and is subsidised by income earned through this external contract.

19. The service structure below has all posts currently filled. We have a well-qualified and experienced team, mainly following the Chartered Institute of Internal Auditors (CMIIA) qualification route.



## What are Internal Audit's responsibilities?

20. All members of the Internal Audit service are required to comply with the PSIAS, including its Code of Ethics. In addition we all sign an annual declaration stating that we will respect the confidentiality of information we access during our work, declare any interests we may have in any services that we review, and have read the PSIAS, Code of Ethics and Council's Code of Conduct for Officers.

### **All internal auditors must...**

- Work with others to promote and demonstrate the benefits of good governance throughout the Council
- Promote the highest standards and ethics across the Council based on integrity, objectivity, competence and confidentiality
- Exercise sound judgement in identifying weaknesses in the Council's control environment and provide a balanced view on how significant these are
- Be committed to continuous improvement
- Demonstrate integrity
- Report on what is found, without fear or favour
- Give clear, professional and objective advice
- Hold an appropriate qualification and have an active programme for personal professional development

### **In addition, the Head of Internal Audit must...**



- Be a senior manager with regular and open engagement across the Council, particularly with the leadership team and the Corporate Governance Committee
- Be suitably qualified and experienced
- Give assurance on the control environment, including risk and information management and internal controls across the Council
- Produce an evidence-based annual internal audit opinion on the Council's control environment, reflecting the work done during the year and summarising the main outcomes and conclusions, highlighting any specific concerns
- Liaise closely with the Council's external regulators to share knowledge and use audit resources most effectively
- Determine the resources, expertise, qualifications and systems for the internal audit service that are required to meet its objectives and provide an annual audit opinion
- Adhere to and ensure internal audit service compliance with professional internal audit standards

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

<b>28 Medi 2015</b>		<b>Eitemau Sefydlog</b>	
	1	Materion a Gyfeiriwyd gan y Pwyllgorau Archwilio	Cydlynnydd Archwilio / Rhian Evans
	2	Adroddiadau Rheoleiddio Allanol Diweddar a Dderbyniwyd	Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad, Alan Smith / Keith Amos
	3	Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol	Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol, Ivan Butler / Cynghorydd Julian Thompson-Hill
	4	Adborth o'r Cyfarfod Cydraddoldeb Corfforaethol – ar lafar	Cynghorydd Martyn Holland / Hugh Evans
	5	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol	
		<b>Adroddiadau</b>	
Tudalen 243	6	Proses y Gyllideb 2016/17	Prif Swyddog Cyllid / Richard Weigh
	7	Adroddiad Blynyddol Eich Llais	Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg Jackie Walley / Clare O'Gorman
	8	Cyfrifon Terfynol	Prif Swyddog Cyllid / Richard Weigh
	9	Adroddiad Caffael Gwasanaethau Adeiladu	Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden / Jamie Groves a'r Rheolwr Caffael Strategol Dros Dro / Stuart Andrews
<b>18 Tachwedd 2015</b>		<b>Eitemau Sefydlog</b>	
	1	Materion a Gyfeiriwyd gan y Pwyllgorau Archwilio	Cydlynnydd Archwilio / Rhian Evans
	2	Adroddiadau Rheoleiddio Allanol Diweddar a Dderbyniwyd	Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad, Alan Smith / Keith Amos
	3	Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol	Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol, Ivan Butler / Cynghorydd Julian Thompson-Hill
	4	Adborth o'r Cyfarfod Cydraddoldeb Corfforaethol – ar lafar	Cynghorydd Martyn Holland / Hugh Evans
	5	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol	

## Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

		<b>Adroddiadau</b>	
	6	Proses y Gyllideb 2016/17	Prif Swyddog Cyllid / Richard Weigh
<b>27 Ionawr 2015</b>		<b>Eitemau Sefydlog</b>	
	1	Materion a Gyfeiriwyd gan y Pwyllgorau Archwilio	Cydlynnydd Archwilio / Rhian Evans
	2	Adroddiadau Rheoleiddio Allanol Diweddar a Dderbyniwyd	Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad, Alan Smith / Keith Amos
	3	Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol	Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol, Ivan Butler / Cynghorydd Julian Thompson-Hill
Tudalen 244	4	Adborth o'r Cyfarfod Cydraddoldeb Corfforaethol – ar lafar	Cynghorydd Martyn Holland / Hugh Evans
	5	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol	
		<b>Adroddiadau</b>	
	6	Proses y Gyllideb 2016/17	Prif Swyddog Cyllid / Richard Weigh

DS Nid yw union ddyddiad cyhoeddi adroddiadau achlysurol gan er enghraifft Swyddfa Archwilio Cymru neu Adroddiadau Blynnyddol gan yr Ombwdsmon yn hysbys ar hyn o bryd. Bydd dyddiad cyfarfod yn cael ei neilltuo ar eu cyfer gynted ag y bo'n ymarferol.

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A  
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A  
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A  
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A  
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A  
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 14 Rhan 4, Atodlen 12A  
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag